

# Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon y Swyddfa Gyfathrebiadau

Ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2010 i 31 Mawrth 2011

# ADRODDIAD BLYNYDDOL A CHYFRIFON Y SWYDDFA GYFATHREBIADAU

AR GYFER Y CYFNOD 1 EBRILL 2010 I 31 MAWRTH 2011

**© Ofcom Hawlfraint (2011)**

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon (nid yw hyn yn golygu'r Arfbais Frenhinol na logo unrhyw adran neu asiantaeth os ydynt yn bresennol) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod ei fod yn cael ei atgynhyrchu'n gywir ac nid mewn cyd-destun camarweiniol.

Rhaid cydnabod mai Ofcom sy'n berchen ar hawlfraint y deunyddiau a rhaid rhoi teitl y ddogfen. Os oes deunydd trydydd parti wedi'i nodi, rhaid gofyn am ganiatâd gan y sawl sy'n dal yr hawlfraint.

Dylid anfon unrhyw ymholiadau yn ymwneud â'r cyhoeddiad hwn atom i ofcomcontactcentre@ofcom.org.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael i'w lwytho o www.official-documents.gov.uk

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael ar ein gwefan www.ofcom.org.uk

Argraffwyd ar bapur sy'n cynnwys o leiaf 75% o ffibr wedi'i ailgylchu

# CYNNWYS

## ADRODDIAD BLYNYDDOL A CHYFRIFON AR GYFER Y CYFNOD 1 EBRILL 2010 I 31 MAWRTH 2011


**ADRAN A**
CYFLWYNIAD

6 NEGES Y CADEIRYDD

8 ADRODDIAD Y PRIF WEITHREDWR

11 ADRODDIAD BLYNYDDOL Y BWRDD CYNNWYS

**ADRAN B**
BUSNES, ADOLYGIAD ARIANNOL A GWEITHREDU

12 GOLWG GYFFREDINOL AR Y MARCHNADOEDD RYDYM YN EU RHEOLEIDDIO

14 PERFFORMIAD YN ÔL BLAENORIAETH EIN CYNLLUN GWEITHREDU

23 EIN CYFRIFOLDEBAU PARHAUS A'R ADNODDAU RYDYM YN EU RHEOLI

32 SUT RYDYM YN RHEOLI RISGIAU A SIALENSIAU

34 SUT RYDYM YN GWEITHIO A PHWY RYDYM YN GWEITHIO GYDA NHW

40 EIN GWEITHWYR

42 CYFRIFOLDEB CORFFORAETHOL A CHYNALIADWYEDD

43 ADOLYGIAD GWEITHREDOL AC ARIANNOL

**ADRAN C**
ADRODDIAD CYFARWYDDWYR A LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL

47 RHAGAIR

48 LLYWODRAETHU

55 DATGANIAD O GYFRIFOLDEBAU

56 DATGANIAD O REOLAETH FEWNOL

60 ADRODDIAD TALIADAU

**ADRAN D**
CYFRIFON AR GYFER Y CYFNOD 1 EBRILL 2010 I 31 MAWRTH 2011

65 TYSTYSGRIF AC ADRODDIAD Y RHEOLWR A'R ARCHWILYDD CYFFREDINOL I DDAU DŶ'R SENEDD

67 DATGANIAD INCWM A GWARIANT

68 DATGANIAD NEWIDIADAU ECWITI

69 DATGANIAD SEFYLLFA ARIANNOL

70 DATGANIAD LLIF ARIAN

71 NODIADAU'R CYFRIFON

**ATODIAD**

96 DATGANIADAU RHEOLEIDDIO

101 DATA YSTADEGOL – DARLLEDU

102 DATA YSTADEGOL – TRWYDDEDU DARLLEDU

103 DATA YSTADEGOL – TELEGYFATHREBIADAU

105 PEIRIANNEG A GORFODAETH SBECTRWM – DANGOSYDDION PERFFORMIAD ALLWEDDOL


107 TRWYDDEDU SBECTRWM

**GEIRFA**

111 GEIRFA TERMAU





> “RYDYM YN CEISIO GWNEUD YN SIŴR BOD POBL YN Y DU YN CAEL Y GORAU O’U GWASANAETHAU CYFATHREBIADAU.”

# PWY YDYM NI A BETH YDYM YN EI WNEUD

## Y Swyddfa Gyfathrebiadau (Ofcom) yw'r rheoleiddiwr cyfathrebiadau.

Rydym yn rheoleiddio'r sectorau teledu a radio, telegyfathrebiadau llinellau sefydlog a symudol, a'r tonnau awyr mae dyfeisiau di-wifr yn eu defnyddio.

Rydym yn ceisio gwneud yn siŵr bod pobl yn y DU yn cael y gorau o'u gwasanaethau cyfathrebiadau a'u bod yn cael eu hamddiffyn rhag twyll ac arferion cyfrwys, ar yr un pryd â sicrhau bod cystadleuaeth yn gallu ffynnu.

Mae Ofcom yn gweithredu dan sawl Deddf Seneddol a nifer o reoliadau, gan gynnwys Deddf Cyfathrebiadau 2003. Mae'r Ddeddf Seneddol fanwl hon, ynghyd â deddfwriaeth a rheoliadau perthnasol eraill, yn datgan yr hyn y dylai Ofcom ei wneud. Mae deddfwriaeth sy'n fwy diweddar yn cynnwys Deddf yr Economi Ddigidol 2010.

Mae Deddf Cyfathrebiadau 2003 yn datgan mai hyrwyddo buddiannau dinasyddion a defnyddwyr yw prif ddyletswyddau Ofcom. Mae cyflawni'r ddwy ddyletswydd hyn wrth galon popeth a wnawn.

A ninnau'n atebol i'r Senedd, byddwn yn gosod ac yn cynghori ynghylch rhai o'r agweddau mwy technegol ar reoleiddio, yn ogystal â gweithredu a gorfodi cyfraith cyfathrebiadau a chyfreithiau cystadleuaeth ac amddiffyn defnyddwyr.

Caiff Ofcom ei ariannu drwy'r ffioedd a ddaw o'r diwydiant am reoleiddio rhwydweithiau cyfathrebiadau a darlledu a chymorth grant gan y Llywodraeth.

### BETH RYDYM YN EI WNEUD

Ein prif ddyletswyddau cyfreithiol yw sicrhau:

- bod gan y DU ystod eang o wasanaethau cyfathrebiadau electronig, gan gynnwys gwasanaethau cyflymder uchel megis band eang;
- bod ystod eang o raglenni radio a theledu o ansawdd uchel yn cael eu darparu, gan apelio at ystod o ddiddordebau a chwaethau;
- bod gwasanaethau radio a theledu yn cael eu darparu gan ystod o sefydliadau gwahanol;
- bod pobl sy'n gwylio teledu ac yn gwrando ar y radio yn cael eu hamddiffyn rhag deunyddiau sy'n achosi niwed neu dramgwydd. Rydym yn delio â chwynion am ddarllediadau radio a theledu ac yn asesu pob cwyn yn ôl y Cod Darlledu neu amodau trwyddedau neu godau perthnasol eraill;
- bod pobl yn cael eu hamddiffyn rhag cael eu trin yn annheg mewn rhaglenni teledu a radio, a rhag i'w preifatrwydd gael ei darfu; a
- bod y sbectrwm radio (y tonnau awyr sy'n cael eu defnyddio gan bawb o gwmnïau tacsis a pherchnogion cychod, i gwmnïau ffonau symudol a darlledwyr) yn cael ei ddefnyddio yn y ffordd fwyaf effeithiol.

### BETH NAD YDYM YN EI WNEUD

Nid oes gan Ofcom bŵer i ddatrys cwynion unigol am wasanaethau telegyfathrebiadau, ond rydym yn cynghori'r rheini sy'n cwyno ac yn eu cyfeirio at gynlluniau Dulliau Amgen o Ddatrys Anghydfodau sydd wedi cael eu cymeradwyo gennym.



NEGES Y CADEIRYDD

# COLETTE BOWE

## Bu hon yn flwyddyn pan fu'n rhaid i Ofcom wynebu sialens ddifrifol iawn – ail siapio'r sefydliad yn sgil pwysau ar gyllid cyhoeddus.

Bu'r flwyddyn ddiwethaf yn flwyddyn o newid i Ofcom. Mae'r sefydliad wedi delio â'r sialens o ddod o hyd i ffyrdd o weithio'n fwy effeithlon ar yr un pryd ag ysgwyddo cyfrifoldebau newydd.

Mae'r Bwrdd wedi gweithio'n agos gyda'r uwch dîm gweithredol ar hyn a gallaf eich hysbysu ein bod yn cyflawni'r sialens honno. Cyn cyhoeddi Adolygiad o Wariant y Llywodraeth, roeddem wedi cynnal rhaglen i ddod o hyd i arbedion a ffyrdd newydd o weithio'n fwy effeithlon. Ym mis Hydref, roeddem wedi cyhoeddi cynlluniau i arbed ychydig dros 28 y cant dros y pedair blynedd a oedd yn dechrau ym mis Ebrill 2011. Ac ystyried graddfa'r gostyngiad yn ein cyllideb, rhaid i ni hefyd gwtogi ar ein gweithgareddau mewn nifer o feysydd. O ganlyniad i'r gwaith hwn, byddwn yn gallu lleihau ein cyllideb yn ôl y gofyn. Mae'r Prif Weithredwr yn edrych yn fanylach ar hyn yn ei adroddiad ar dudalen 9. Fel yr wyf yn nodi'n fyr isod, mae gofyn i ni, serch hynny, ysgwyddo cyfrifoldebau newydd ac ychwanegol. Y sialens sy'n ein hwynebu ni nawr yw parhau i weithredu mor egnïol ag erioed ar ran dinasyddion a defnyddwyr, ac rwyf yn benderfynol y bydd Ofcom yn cyflawni'r sialens hon.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi dechrau archwiliad newydd o arferion newid defnyddwyr yn y sector telegyfathrebiadau, er mwyn gweld i ba raddau mae'r trefniadau presennol yn hyrwyddo canlyniadau da i ddefnyddwyr ac i gystadleuaeth. Mae arnom eisiau sicrhau bod profiad defnyddwyr o newid yn hawdd ac yn ddidrafferth, heb ormod o rwystrau, a byddwn yn parhau â'r gwaith hwn yn ystod y flwyddyn nesaf, gan weithio gyda grwpiau o'r diwydiant a grwpiau defnyddwyr.

Roeddem hefyd wedi cyhoeddi cwynion defnyddwyr a gawsom am ddarparwyr telegyfathrebiadau am y tro cyntaf – rhywbeth rydym yn bwriadu ei wneud yn rheolaidd o hyn ymlaen. Mae cyhoeddi'r wybodaeth hon yn bwysig er mwyn helpu defnyddwyr i wneud penderfyniadau gwybodus wrth ddewis darparwr, a bydd yn gymhelliant i ddarparwyr wella eu gwasanaeth i gwsmeriaid.

Dros y flwyddyn ddiwethaf cawsom ddyletswyddau newydd o ganlyniad i Ddeddf yr Economi Ddigidol, ac mae'r hyn rydym yn ei wneud yn debyg o newid drachefn dros y flwyddyn nesaf. Os caiff y Mesur Cyrff Cyhoeddus ei basio bydd yn braenaru'r tir ar gyfer dadreoleiddio gweddol fach ond pwysig yn y ffordd rydym yn gweithio, gan gynnwys ein strwythur llywodraethu. Rydym hefyd wedi adolygu, diwygio a symleiddio rôl, cwmpas a swyddogaethau ein pwyllgorau cynghori, sydd wedi caniatáu i ni leihau costau ar yr un pryd â chadw'r ffocws angenrheidiol ar bobl yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon ac anghenion pobl hŷn a phobl anabl. Bydd penderfyniadau Ofcom yn parhau i gael eu cryfhau gan ymroddiad a chyngor di-flewyn-ar-dafod aelodau'r pwyllgorau hyn i'r Bwrdd.

Bydd y Ddeddf Gwasanaethau Post yn golygu maes arall o newid i ni, gan ei fod yn uno swyddogaethau Postcomm â swyddogaethau Ofcom. I baratoi am hyn, roedd y Llywodraeth wedi penodi Millie Banerjee, Aelod o Fwrdd Ofcom, yn Gadeirydd Postcomm, gydag Aelodau eraill o Fwrdd Ofcom, Stuart McIntosh, Norman Blackwell a Mike McTighe, yn dod yn Gomisiynwyr Postcomm. Mae cydweithwyr Ofcom yn gweithio'n agos gyda chydweithwyr o Postcomm i sicrhau integreiddio trefnus. Cafodd y Mesur Gwasanaethau Post Gydsyniad Brenhinol ar 13 Mehefin 2011.

> **“Y SIALENS SY’N EIN HWYNEBU NI NAWR YW PARHAU I WEITHREDU MOR EGNÏOL AG ERIOED AR RAN DINASYDDION A DEFNYDDWYR.”**

Bydd newidiadau mewn cyfraith telegyfathrebiadau Ewropeaidd hefyd yn newid y ffordd rydym yn gweithio, gan roi cyfrifoldebau newydd i Ofcom mewn meysydd megis niwtraliaeth net; gan ein galluogi i fynnu mwy o dryloywder wrth brisio ystodau rhifau ffôn; cynyddu ein gallu i weithredu ar ran defnyddwyr anabl a gwella ein dulliau o orfodi’r rheolau.

Caiff Ofcom ei ddal i gyfrif gan y Senedd mewn llawer mwy o ffyrdd na dim ond gosod yr adroddiad blynyddol hwn. Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae cydweithwyr Ofcom wedi cyflwyno tystiolaeth gerbron ymchwiliadau pwyllgorau’r Senedd sy’n amrywio o hysbysebion teledu i ddatblygu band eang yng Nghymru.

Mae Ofcom wedi ffarwelio â nifer o gydweithwyr eleni, roedd y gostyngiad yn ein cyllideb yn cyfrif am lawer o hynny. Ni fu hi’n broses hawdd ac mae arnaf eisiau cofnodi fy niolch, a diolch y Bwrdd, am y gwaith mae’r cydweithwyr hyn wedi’i wneud ar ran dinasyddion a defnyddwyr. Ar ben hynny, mae’r Bwrdd hefyd wedi ffarwelio ag aelodau ac wedi croesawu aelodau newydd. Roedd Peter Phillips wedi gadael Ofcom am swydd newydd yng Ngwasg Prifysgol Caergrawnt. Ar yr un pryd, roeddem yn croesawu Jill Ainscough ar y Bwrdd, Prif Swyddog Gweithredol Ofcom. Dros yr ychydig fisoedd nesaf byddwn hefyd yn ffarwelio â dau gydweithiwr sydd wedi cyfrannu’n fawr iawn at gyfeiriad Ofcom dros y blynyddoedd diwethaf. Bydd Millie Banerjee a ymunodd â’r Bwrdd am y tro cyntaf yn 2002 yn gadael ym mis Mehefin. Mae Millie wedi cadeirio Pwyllgor Taliadau Ofcom ers blynyddoedd lawer ac ar ben hynny mae ei chyfraniad wedi bod yn gryf iawn ar draws ein gwaith ers dyddiau cynnar Ofcom. Bydd Philip Graf, Dirprwy Gadeirydd Ofcom, a Chadeirydd y Bwrdd Cynnwys, yn dod i ddiwedd ei ail dymor ym mis Rhagfyr. Carwn gofnodi fy niolch personol, a diolch y Bwrdd, i’r ddau gydweithiwr neilltuol hyn. Rydym yn diolch iddynt o waelod calon ac yn dymuno’n dda iddynt.

**Colette Bowe**
Cadeirydd



ADRODDIAD Y PRIF WEITHREDWR

# ED RICHARDS

## Mae Ofcom wedi sicrhau ystod eang o ganlyniadau cadarnhaol i ddefnyddwyr ac i ddinasyddion yn ystod 2010/11. Ond mae llawer mwy i ni ei wneud.

Ceir datganiad byr ar ddechrau'r Adroddiad Blynyddol hwn. Mae'n rhoi ein cyfrifoldebau ac yn diffinio ein dyletswyddau cyfreithiol, sy'n mynnu ein bod yn hyrwyddo buddiannau dinasyddion a defnyddwyr.

Mae'n ddiffiniad clir o'r hyn sy'n sylfaen i'n holl waith a phopeth a wnawn yn Ofcom. Ond nid yw'n egluro sut mae ein gwaith o fudd i bobl.

Bob blwyddyn ers ein sefydlu rydym wedi sicrhau canlyniadau sylweddol a chadarnhaol i bobl. Mae'r rhain yn bethau a welwn ar ei sgriniau, a glywn dros donnau'r awyr neu fanteision drwy brisiau is neu wasanaethau gwell. Ac ni fu eleni yn eithriad.

### BETH MAE EIN GWAITH WEDI'I GYFLAWNI

Yn ystod y flwyddyn dan sylw, roedd defnyddwyr wedi mwynhau manteision nifer o ddatblygiadau yn y farchnad a oedd yn deillio o waith Ofcom.

- Daeth un o ganlyniadau amlycaf y flwyddyn ym maes teledu drwy dalu. O ddechrau'r tymor pêl-droed, roedd gwylwyr wedi gallu gwylio gemau pêl-droed y lefel uchaf ar ystod ehangach o lwyfannau teledu ac elwa o becynnau teledu newydd, o ganlyniad i'n hymyriad.
- Yn ystod y flwyddyn daeth gwasanaethau manylder uwch ar gael ar deledu daearol digidol. Erbyn diwedd 2010 roedd nifer y blychau a setiau teledu Freeview HD wedi cyrraedd 1.2 miliwn, a oedd yn galluogi defnyddwyr i wylio popeth o *Emmerdale* i *The Human Planet* mewn ansawdd HD clir. Y catalydd ar gyfer y twf hwn oedd y gwaith technegol roeddem wedi'i gynnal ddwy flynedd yn ôl i ad-drefnu sut caiff teledu daearol digidol ei ddarlledu er mwyn rhyddhau capasiti ar gyfer signalau HD sy'n defnyddio llawer o led band. Mae defnyddwyr nawr yn gallu mwynhau sianeli HD ar amrywiaeth o wasanaethau am ddim, gan gynnwys Freeview, Freesat a Sky.
- O ran band eang, mae defnyddwyr heddiw yn derbyn cyflymder sy'n mynd yn gynt ac yn gynt, gyda'r cyflymder go iawn cyfartalog yn 6.2 Mbit yr eiliad ym mis Rhagfyr 2010, sydd i fyny o 5.2 Mbit yr eiliad ym mis Mai 2010, yn ôl ymchwil Ofcom. Mae canlyniadau'r ymchwil hwn yn tanlinellu pwysigrwydd y ffaith bod defnyddwyr yn cael gwybodaeth glir, gywir a chyson am gyflymder band eang, ac yn 2010 roeddem wedi cyflwyno Cod Ymarfer Gwirfoddol wedi'i gryfhau ar Gyflymder Band Eang gyda chydweithrediad a chydsyniad darparwyr gwasanaeth rhyngrwyd.
- Roedd cyflwyno cystadleuaeth ffres mewn gwasanaethau band eang cyflym iawn, gyda phedwar darparwr cyfathrebu yn defnyddio neu'n profi llinellau ffibr BT erbyn diwedd mis Mawrth 2011, wedi helpu i wella cyflymder. Roedd hyn wedi'i ysgogi gan ein penderfyniad yn 2010 i fynnu bod BT yn agor ei rwydwaith a'i seilwaith i'w gystadleuwyr.
- At ei gilydd mae'r prisiau mae defnyddwyr y DU yn eu talu am wasanaethau cyfathrebu yn disgyn ac yn cymharu'n rhesymol dda â phrisiau mewn gwledydd eraill. Roedd ein hymchwil wedi canfod bod prisiau symudol y DU wedi disgyn wyth y cant rhwng mis Gorffennaf 2009 a mis Gorffennaf 2010 ac maent yn is nag y pum gwlad arall roeddem wedi'u dadansoddi (yr Almaen, yr Eidal, Ffrainc, Sbaen ac UDA). Mae prisiau

1 Cafodd yr ymchwil hwn ei gyhoeddi yn ein Hadroddiad Marchnad Gyfathrebu Rhyngwladol, mis Rhagfyr 2010, Adran B1.

llinell sefydlog hefyd yn is na mewn gwledydd eraill, ac roedd pris bwndel llais a band eang sefydlog wedi disgyn 12 y cant – ac mae'n is nag yn yr holl wledydd eraill roeddem wedi cymharu â nhw, ac eithrio'r Almaen[1]. Roedd rhai darparwyr hefyd wedi cyhoeddi y byddent yn cynnig pecynnau siarad a oedd yn cynnwys galwadau i ffonau symudol. Serch hynny, roeddem wedi sylwi bod y prisiau ar gyfer rhentu llinellau ffôn gan rai darparwyr telegyfathrebiadau mawr wedi codi dros y flwyddyn a byddwn yn parhau i fonitro'r patrwm hwn.

- Roeddem wedi agor chwe ymchwiliad a rhaglen gorfodi yn ystod y flwyddyn i amddiffyn defnyddwyr rhag problemau megis galwadau mud, cam-werthu a marchnata cardiau ffôn rhyngwladol mewn ffordd gamarweiniol.
- Roeddem hefyd wedi ymrwymo i gyhoeddi gwybodaeth am y darparwyr telegyfathrebiadau mawr y cawsom y nifer mwyaf o gwynion amdanynt, ar sail yr holl gwynion telegyfathrebiadau a gafodd Ofcom gan ddefnyddwyr. Cafodd y cyntaf o'r adroddiadau rheolaidd hyn ei gyhoeddi ym mis Ebrill 2011.
- Roeddem hefyd wedi goruchwylio'r gwaith o lwyddo i gyflwyno gosod cynnyrch ar deledu a radio yn ystod y flwyddyn. Ar 28 Chwefror, sef y diwrnod cyntaf ar gyfer caniatáu gosod cynnyrch ar deledu yn y DU, roedd cwmni wedi talu am osod cynnyrch ar *This Morning* ar ITV.

Ond mae angen gwneud llawer mwy a gall canlyniadau ffafriol i ddefnyddwyr ddwyn ffrwyth dros gyfnodau gwahanol. Mae Adran B yr adroddiad hwn, sy'n dechrau ar dudalen 12, yn cynnwys mwy o fanylion am ganlyniadau gwaith Ofcom.

## NEWID FFOCWS AC YMATEB I'R SIALENS GWARIANT

Wrth i ddefnyddwyr fwynhau manteision newydd yn y sector cyfathrebiadau, mae'r wlad drwyddi draw yn amlwg yn wynebu nifer o sialensiau sy'n deillio o'r dirwasgiad a'r toriadau mewn gwariant cyhoeddus.

Felly roedd hi'n hollol deg bod Ofcom wedi chwarae ei ran yn 2010/11 drwy leihau ei wariant. Yn gynnar yn ystod 2010 – sawl mis cyn adolygiad o wariant y Llywodraeth – roeddem wedi dechrau rhaglen a fyddai'n dod o hyd i arbedion gwariant sylweddol er mwyn ymateb i'r sialens sy'n wynebu'r sector cyhoeddus yn gyffredinol.

Dros bedair blynedd hyd at 2014/15 bydd Ofcom yn lleihau 28.2 y cant mewn termau real ar gyfanswm ei gyllideb. Bydd y rhan fwyaf o'r toriadau, gostyngiad o 22.5 y cant mewn termau real sef £26.7m, yn cael eu gwneud yn 2011/12 mewn ymdrech i leihau ansicrwydd a newid ffocws y sefydliad yn gyflym. Bu hyn yn bosibl drwy ddechrau ein hadolygiad o wariant mewnol yn gynnar. £115.8m fydd cyfanswm cyllideb Ofcom ar gyfer 2011/12 felly. Ar ben hyn, oherwydd i ni ddechrau ein hadolygiad o wariant ar ddechrau 2010, rydym wedi gallu cyflawni nifer o arbedion effeithlon-rwydd yn ystod y flwyddyn ariannol a ddaw i ben ar 31 Mawrth 2011. Mae hyn wedi cyfrannu at arbed £17.2m yn erbyn cyllideb Ofcom ar gyfer 2010/11.

Mae ein sylfaen costau is ynghyd â'n harbedion yn erbyn ein cyllideb 2010/11, o fudd i randdeiliaid ar ffurf ffioedd is. Yn benodol, bydd darlledwyr teledu yn gweld gostyngiad termau real o 42.3 y cant mewn ffioedd; bydd darlledwyr radio yn gweld gostyngiad o 36.2 y cant; a bydd gweithredwyr rhwydwaith a gwasanaeth yn gweld gostyngiad o 32.5 y cant.

Mae Adolygiad Gweithredol ac Ariannol yr adroddiad hwn, sy'n dechrau ar dudalen 43, yn edrych ar hyn yn fanylach.

Cafodd yr arbedion ar draws y sefydliad eu gwneud drwy effeithlonrwydd, lleihau costau staff, symleiddio rheoli a llywodraethu prosiectau a rhoi'r gorau i rai gweithgareddau'n gyfan gwbl. Mae hyn wedi arwain at rai penderfyniadau anodd: collwyd oddeutu 170 o swyddogaethau, gyda chydweithwyr yn gadael drwy ddileu swyddi ac mae strwythur mewnol newydd wedi cael ei roi ar waith. Mae'r Cadeirydd yn trafod rhai o'r newidiadau yn ei hadroddiad, ar dudalen 6.

Canlyniad y newidiadau hyn yw sefydliad sydd wedi newid ei ffocws ac sydd â phum diben strategol clir. Sef:

1. hybu cystadleuaeth effeithiol a chynaliadwy;
2. hybu defnyddio asedau cyhoeddus yn effeithlon;
3. helpu marchnadoedd cyfathrebiadau i weithio i ddefnyddwyr;
4. darparu sicrwydd priodol i gynull-eidfaoedd ynghylch safonau; a

> “AT EI GILYDD MAE’R PRISIAU MAE DEFNYDDWYR Y DU YN EU TALU AM WASANAETHAU CYFATHREBU YN DISGYN AC YN CYMHARU’N RHESYMOL DDA Â PHRISIAU MEWN GWLEDYDD ERAILL.”

5. cyfrannu at a gweithredu polisi cyhoeddus a ddiffinnir gan y Senedd.

Mae ein Cynllun Blynyddol ar gyfer 2011/12 a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2011, yn rhoi rhagor o fanylion am ein blaenoriaethau.

## CANLYNIADAU EIN GWAITH 2010/11 YN Y DYFODOL

Ar ddechrau’r adroddiad hwn amlinellais ambell i enghraifft o ganlyniadau mesuradwy ein gwaith. Mewn rhai achosion – megis ein penderfyniadau ar reoleiddio’r sector teledu drwy dalu – mae’r farchnad yn ymateb yn ddiymdroi ac yn cyflwyno’r manteision i ddefnyddwyr cyn pen ychydig fisoedd. Serch hynny, ar gyfer llawer o waith Ofcom bydd angen cyfnod mwy cyn i’r defnyddwyr allu gweld y manteision. Dyma rai o’r canlyniadau rydym yn disgwyl eu gweld yn y dyfodol yn sgil y gwaith roeddem wedi’i gyflawni neu ei ddechrau yn 2010/11:

- Costau galwadau rhatach wrth ffonio ffôn symudol o linell sefydlog a dewis gwell o becynnau prisiau ffonau symudol, sy’n deillio o’n penderfyniad i ostwng cyfraddau terfynu ffonau symudol dros bedair blynedd;
- Lansio gwasanaethau symudol 4G gwell yn y dyfodol gyda chyflymder rhyngrwyd cynt, yn dilyn bwriad Ofcom i gynnal arwerthiant o’r sbectrwm 800 MHz a 2.6 GHz;
- Ffioedd symlach ac is ar gyfer ffonio rhifau ffôn 08 a 09, gan gynnwys galwadau am ddim i rifau 0800 o ffonau symudol, sy’n deillio o’n cynigion ynghylch rhifau ffôn heb fod yn rhai daearyddol (gan ystyried gweithredu’r newidiadau i fframwaith cyfathrebiadau’r Undeb Ewropeaidd);
- Refeniw newydd i ddarlledwyr teledu a radio, ar ôl cyflwyno gosod cynnyrch, gyda chyfyngiadau ar y math o gynnyrch a’r math o raglenni;
- Cyflymder band eang sy’n mynd yn gynt ac yn gynt a dewis gwell o ddarparwyr, o ganlyniad i’n gofyniad bod BT yn cynnig mynediad i’w seilwaith a’i rwydwaith ffibr;
- Gostyngiad mewn galwadau mud gan gwmnïau unigol, yn dilyn rheolau newydd i atal galwadau mud parhaus a phwerau newydd i ddirwyo cwmnïau hyd at £2m;
- Gwasanaethau band eang â gwell gwerth mewn ardaloedd gwledig, sy’n deillio o’r cynnig i leihau ffioedd cyfanwerthu BT mewn rhannau o’r wlad lle nad oes darparwyr eraill;
- Mwy o orsafoedd radio cymunedol ar yr awyr, o ganlyniad i rownd newydd o drwyddedu; a
- Safonau’n cael eu cynnal ar deledu a radio, o ganlyniad i orfodi Cod Darlledu diwygiedig Ofcom.

Byddwn yn gwneud llai o bethau mewn rhai meysydd. Drwy’r Mesur Cyrff Cyhoeddus mae’r Llywodraeth wedi cynnig lleihau pa mor aml cynhelir adolygiadau o ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus a pherchnogaeth cyfryngau. Mewn meysydd eraill gofynnwyd i ni ysgwyddo cyfrifoldebau ychwanegol, er enghraifft, gweithredu darpariaethau Deddf yr Economi Ddigidol sydd wedi’u hanelu at fynd i’r afael â thorri hawlfraint a’r cynnig i reoleiddio gwasanaethau post drwy’r Mesur Gwasanaethau Post.

Yn ystod 2010/11 rhoddwyd llawer o sylw i’n swyddogaeth o ran cynghori’r Ysgrifennydd Gwladol ynghylch y pryderon budd y cyhoedd a oedd yn deillio o’r cynnig y byddai News Corporation yn prynu BSkyB. Un canlyniad i’r gwaith hwn oedd cynnig bod y Llywodraeth yn ystyried cynnal adolygiad ehangach o’r fframwaith statudol i sicrhau lluosogrwydd er budd y cyhoedd. Nid yw’r system bresennol yn golygu bod modd ystyried ymyriadau pan fydd pryderon yn codi ynghylch lluosogrwydd os nad oes trafodion corfforaethol ymysg cwmnïau cyfryngau.

**Ed Richards**
Prif Weithredwr



ADRODDIAD BLYNYDDOL Y BWRDD CYNNWYS

# PHILIP GRAF

## Mae'r Bwrdd Cynnwys yn rhan hanfodol o waith Ofcom ar draws teledu, radio a chyfryngau digidol. Mae'n hyrwyddo safonau ac ansawdd mewn byd sy'n newid yn gyflym.

Mae rhan bwysig o waith cyffredinol Ofcom yn ymwneud â sut mae cynulleidfaoedd yn defnyddio cynnwys a'r sicrwydd gall cynulleidfaoedd ei ddisgwyl wrth wneud hynny. Mae swyddogaeth y Bwrdd Cynnwys yn ganolog yn hyn o beth, a dros y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi cymryd camau i adnewyddu rheoliadau cynnwys ar gyfer oes sy'n fwy amrywiol o lawer.

Mae gwaith y Bwrdd yn eang ac yn amrywiol. Yn ystod 2010/11 roeddem wedi goruchwylio rheoleiddio darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus, gan gynnwys mewn perthynas â chwotâu ar gyfer cynyrchiadau teledu annibynnol, cynyrchiadau rhanbarthol a chynyrchiadau gwreiddiol o'r DU/UE. Yn fwy cyffredinol, rydym wedi parhau i ystyried goblygiadau ehangach newidiadau mewn arferion defnyddwyr a newid technolegol mewn perthynas â'r model presennol o reoleiddio cynnwys.

Ar faterion penodol, carreg filltir gyhoeddus iawn yn y flwyddyn ddiwethaf oedd cyflwyno rheolau newydd ar gyfeirio at gynnyrch a gwasanaethau am dâl. Am y tro cyntaf erioed ar deledu'r DU roedd hyn yn caniatáu defnyddio gosod cynnyrch. Mae'r rheolau hael newydd hyn yn golygu bod gosod cynnyrch yn dryloyw, ond maent yn cyfyngu ar gynnyrch a gwasanaethau megis tybaco a gamblo.

Rydym wedi gweithio gydag ystod o gyd-reoleiddwyr a hunan-reoleiddwyr yn y sector ac rydym yn parhau i edrych ar swyddogaeth a manteision ehangach cyd-reoleiddio. Am y tro cyntaf eleni roedd BCAP, y Pwyllgor Ymarfer Hysbysebu, wedi cyhoeddi un Cod wedi'i gyfnerthu, a gafodd ei adolygu a'i gymeradwyo gan y Bwrdd Cynnwys, sy'n cynnig amddiffyniadau pwysig i gynulleidfaoedd o ran hysbysebion radio a theledu. Sefydlwyd ATVOD, yr Awdurdod ar gyfer Teledu Ar Alw, yn hwyr iawn yn ystod y flwyddyn adrodd ddiwethaf gyda chefnogaeth y diwydiant a'r Llywodraeth ac mae'n parhau i ddatblygu.

Ym mis Tachwedd, ac yn dilyn torri'r Cod Darlledu yn ddifrifol droeon, roedd Ofcom wedi dirymu pedair trwydded darlledu teledu a oedd yn cael eu defnyddio ar gyfer sianeli a oedd yn hyrwyddo llinellau sgwrsio cyfradd premiwm i oedolion. Er bod hwn yn gam anarferol i Ofcom, roedd methiant parhaus y rheini a oedd yn dal y trwyddedau i gydymffurfio â'n rheolau i amddiffyn plant rhag deunyddiau amhriodol ac amddiffyn gwylwyr rhag deunyddiau a oedd yn achosi niwed a thramgwydd, yn golygu nad oeddent mwyach yn addas ac yn briodol. Rwyf hefyd yn gobeithio y bydd hyn yn arwydd y bydd Ofcom gan amlaf yn ceisio arwain darlledwyr at gydymffurfio, ond gallwn a byddwn yn rhoi'r sancsiwn mwyaf difrifol sydd ar gael yn ôl yr angen.

Yn olaf, bu hi'n flwyddyn o newid ymysg ein personél uwch. Roedd Stewart Purvis a Chris Banatvala ill dau wedi ffarwelio ag Ofcom a'r Bwrdd Cynnwys gyda'n dymuniadau gorau a'n diolch am eu gwasanaeth. Roed Christopher Woolard wedi ymuno â'r Bwrdd Cynnwys a dod yn Gyfarwyddwr Grŵp ar gyfer Grŵp Cynnwys, Rhyngwladol a Datblygu Rheoleiddio newydd Ofcom.

**Philip Graf**
Cadeirydd, y Bwrdd Cynnwys

# ADRAN B – BUSNES, ADOLYGIAD ARIANNOL A GWEITHREDU

# GOLWG GYFFREDINOL AR Y MARCHNADOEDD RYDYM YN EU RHEOLEIDDIO

## Mae'r sector cyfathrebiadau yn chwarae rhan bwysig ym mywydau defnyddwyr a dinasyddion y DU.

Mae bron i hanner yr amser y mae pobl ar ddihun yn cael ei dreulio yn defnyddio cyfryngau a chyfathrebiadau ac mae defnyddwyr yn rhoi cryn werth ar wasanaethau cyfathrebiadau wrth gymharu â gweithgareddau eraill.

**Roedd boddhad defnyddwyr gyda gwasanaethau cyfathrebiadau yn 90 y cant yn 2010,** ac roedd 87 y cant o ddefnyddwyr yn credu bod o leiaf un darparwr yn cynnig bargeinion gwell yn 2010 o'i gymharu â 2009.

Yn ôl ein Hadroddiad Marchnad Gyfathrebu[2] a gyhoeddwyd ym mis Awst 2010, roedd gwariant misol cyfartalog cartrefi ar wasanaethau cyfathrebiadau wedi disgyn fymryn yn 2009, gan ddisgyn £2.21 i £91.24, gan gyfrif am 4.4 y cant o gyfanswm gwariant cartrefi, a oedd wedi disgyn o 4.6 y cant yn 2008. Mae hanner cartrefi'r DU nawr yn dewis arbed arian drwy brynu dau wasanaeth neu fwy megis band eang, gwasanaethau ffôn sefydlog a symudol a theledu drwy dalu (a elwir yn fwndel) gan un darparwr, o'i gymharu â 29 y cant yn 2005.

**Mae defnyddwyr yn gwario llai ar eu gwasanaethau cyfathrebiadau ond yn gwneud mwy gyda nhw.** Maen nhw nawr yn anfon pedair gwaith yn fwy o negeseuon testun bob dydd nag yn 2004, gan siarad am dros chwe awr bob mis ar eu ffôn symudol ac yn treulio dros bedair awr bob dydd yn gwylio'r teledu. Roedd mynediad i'r rhan fwyaf o wasanaethau cyfathrebiadau allweddol wedi parhau i dyfu yn 2010.


### TELEDU A RADIO

Teledu yw'r ffurf fwyaf cyffredin o ddefnyddio cyfryngau min nos a'r gweithgarwch y byddai'r rhan fwyaf o oedolion yn gweld ei golli fwyaf. Yn ystod 2010 ar gyfartaledd roedd gwylwyr yn gwylio 4 awr a 2 funud o deledu bob dydd, sydd wedi cynyddu o 3 awr a 45 munud yn 2009[3] ac mae modd iddynt gael gafael ar ystod helaeth o gynnwys ar amrywiaeth eang o lwyfannau. Mae dros 93 y cant o gartrefi yn y DU eisoes yn defnyddio teledu digidol[4] ac mae newid i ddarlledu digidol yn unig yn y DU yn parhau yn gyflym, gyda'r newid i'r digidol ar y trywydd iawn i gael ei gwblhau erbyn diwedd 2012.

Yn 2010, roedd bron i 31 y cant o'r oedolion â mynediad i'r rhyngrwyd gartref wedi gwylio gwasanaethau teledu dal i fyny ar-lein megis iPlayer y BBC, a oedd wedi codi o 23 y cant flwyddyn yn gynharach. Mae'r nifer sydd â theledu manylder uwch hefyd yn tyfu'n gyflym. Roedd gan oddeutu 5.1 miliwn o gartrefi yn y DU fynediad i sianeli teledu HD ar draws teledu daearol digidol, cebl a lloeren yn Ail Chwarter 2010, a oedd wedi codi o oddeutu 1.9 miliwn ar ddiwedd Chwarter Cyntaf 2009.

Roedd nifer y gwrandawyr radio wedi cyrraedd lefel uwch nag erioed yn 2010, gyda 90.5 y cant o oedolion yn gwrando o leiaf unwaith yr wythnos, a oedd wedi codi o 89.6 y cant o boblogaeth y DU ddiwedd 2009[5]. Roedd gwrando ar y radio drwy lwyfan digidol o ran cyrhaeddiad wythnos wedi codi 22.1 y cant rhwng diwedd 2009 a 2010, gyda 20.9 miliwn o bobl nawr yn gwrando ar y radio drwy dderbynnydd digidol bob wythnos (wedi codi o 17.1 miliwn o un flwyddyn i'r llall). Mae radio cymunedol yn ffynnu, gydag oddeutu

**ROEDD BODDHAD DEFNYDDWYR GYDA GWASANAETHAU CYFATHREBIADAU YN 90 Y CANT YN 2010**



2 Caiff Adroddiad Marchnad Gyfathrebu Ofcom ei gyhoeddi bob blwyddyn ac mae'n rhoi golwg gyffredinol o'r metreg a'r tueddiadau allweddol yn sector cyfathrebiadau'r DU.

3 Mae data BARB yn 2009 a 2010 yn seiliedig ar baneli gwahanol felly dylid bod yn ofalus wrth lunio cymariaethau.

4 Diweddariad Teledu Digidol, Pedwerydd Chwarter 2010.

5 RAJAR.

6 Cafodd methodoleg newydd ei chyflwyno ar gyfer ymchwil cyflymder band eang Rhagfyr 2010.

180 o orsafoedd nawr yn gwasanaethu cynulleidfaoedd ledled y DU.

## RHYNGRWYD A GWASANAETHAU FFÔN

**Mae gan y DU un o'r marchnadoedd telegyfathrebiadau mwyaf cystadleuol yn Ewrop ar gyfer gwasanaethau llinell sefydlog a symudol.**

Mae defnyddwyr nawr yn fwy tebygol o fod yn berchen ar ffôn symudol na chael llinell sefydlog gartref ac mae 91 y cant o bobl nawr yn berchen ar ffôn symudol, o'i gymharu â 80 y cant yn 2006. Mae nifer y llinellau sefydlog yn lleihau'n raddol, gan ddisgyn 800,000 i 33.3 miliwn rhwng 2009 a 2010, wrth i fwy a mwy o gartrefi a busnesau droi at ddefnyddio ffonau symudol yn unig. Mae pris gwneud galwadau ffôn wedi disgyn yn ddramatig dros y blynyddoedd diwethaf, gyda'r gost gyfartalog y funud yn disgyn o 15.1c yn 2004 i 8.8c yn 2009. Dros yr un cyfnod mae'r gost gyfartalog fesul munud ar gyfer galwad llinell sefydlog wedi codi'n raddol: o 6.6c yn 2004 i 7.3c yn 2009.

**Mae prisiau gwasanaethau cyfathrebiadau'n cymharu'n ffafriol â'r rheini mewn gwledydd eraill.** Roedd ein hymchwil wedi canfod bod prisiau symudol yn y DU wedi disgyn wyth y cant rhwng mis Gorffennaf 2009 a mis Gorffennaf 2010 a'u bod yn is na'r pum gwlad arall roeddem wedi'u dadansoddi (yr Almaen, yr Eidal, Ffrainc, Sbaen ac UDA) yn ein Hadroddiad Marchnad Gyfathrebu Rhyngwladol, a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2010. Roedd ein hymchwil hefyd wedi canfod bod prisiau llais llinell sefydlog y DU hefyd yn is na mewn gwledydd eraill, a bod pris bwndel llais a band eang sefydlog wedi disgyn 12 y cant - a'i fod yn is nag yn yr holl wledydd eraill roeddem wedi cymharu â nhw ac eithrio'r Almaen. Serch hynny, roeddem wedi sylwi bod y prisiau ar gyfer rhentu llinellau ffôn gan rai darparwyr telegyfathrebiadau mawr wedi codi dros y flwyddyn.


Erbyn diwedd mis Mehefin 2010, roedd dros 85 y cant o eiddo'r DU wedi cysylltu â chyfnewidfa heb ei bwndelu a oedd yn cynnig dewis o ddarparwyr band eang, gan roi mynediad i wasanaethau cystadleuol i fusnesau a chartrefi. Mae hyn dros ddwbl y gyfran ar ddiwedd 2005. Roedd nifer y cysylltiadau band eang heb eu bwndelu wedi cyrraedd 7.5 miliwn erbyn diwedd 2010, i fyny o ddim ond 123,000 ym mis Medi 2005 pan roddodd Ofcom reoliadau ar waith am y tro cyntaf a arweiniodd at BT yn agor ei rwydwaith yn ehangach i ddarparwyr gwasanaeth eraill.

Mae cyfran y bobl sydd â chysylltiad band eang yn dal i dyfu: roedd 75 y cant o gartrefi yn defnyddio'r rhyngrwyd dros fand eang erbyn diwedd 2010, o'i gymharu â 61 y cant ddwy flynedd yn gynharach (gweler Ffigur 1).

Roedd ymchwil Ofcom ar gyflymder band eang (a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2011) yn dangos bod cyflymder go iawn cyfartalog band eang llinell sefydlog wedi codi o 4.1 Mbit yr eiliad ym mis Ebrill 2009 i 6.2 Mbit yr eiliad ym mis Rhagfyr 2010[6] wrth i wasanaethau band eang cyflymder uwch ddod ar gael drwy uwchraddio rhwydweithiau DSL a chebl. Mae bron i hanner y boblogaeth nawr mewn ardal sy'n cael ei gwasanaethu gan fand eang cyflym iawn a ddarperir drwy rwydwaith cebl Virgin Media. Ddiwedd 2010 roedd oddeutu 15 y cant o gartrefi'r DU yn cael eu pasio gan wasanaeth ffibr i'r cabinet BT gan gynnig cyflymder 'hyd at' 40 Mbit yr eiliad (gyda 40 y cant o gartrefi'r DU ar fin cael mynediad at wasanaethau ffibr i'r cabinet neu ffibr i'r eiddo BT erbyn diwedd 2012, a 66 y cant erbyn diwedd 2015).

Mae rhwydweithiau symudol hefyd yn chwarae rhan bwysig drwy gynyddu'r nifer sy'n mabwysiadu band eang, gydag un defnyddiwr ffôn symudol o bob tri yn defnyddio eu ffôn i fynd ar y rhyngrwyd ac un cartref o bob chwech yn defnyddio 'dongl' symudol neu gerdyn data i fynd ar y rhyngrwyd ar gyfrifiadur personol.

**FFIGUR 1: MYNEDIAD I DDETHOLIAD O DECHNOLEGAU CYFATHREBIADAU (% CARTREFI)**




Ffynhonnell: Traciwr Technoleg Ofcom
Nodyn: mae'r holl ffigurau ar ddiwedd y flwyddyn; mae defnyddio ffôn symudol yn golygu defnydd personol, doedd dim data teledu HD ar gael yn 2008.

# PERFFORMIAD YN ÔL BLAENORIAETHAU EIN CYNLLUN BLYNYDDOL

Ein nod yw cyflawni'r amcanion ym mlaenoriaethau ein cynllun blynyddol. Mae'r adran hon yn egluro ein perfformiad wrth gymharu â'r blaenoriaethau hyn ac yn rhoi manylion yr hyn roeddem wedi'i ddweud y byddem yn ei wneud, pa gamau roeddem wedi'u cymryd a beth oedd y canlyniadau i ddefnyddwyr.

### BETH OEDDEM WEDI'I DDWEUD Y BYDDEM YN EI WNEUD

## Gweithredu rheoliadau i gefnogi cystadleuaeth effeithiol a buddsoddiad effeithlon mewn band eang cyflym iawn.

**Mae band eang cyflym iawn nawr yn realiti yn y DU, ac mae'r posibilrwydd o newid y ffordd rydym yn byw ac yn gweithio yn dod law yn llaw â hyn.** Mae Virgin Media wedi cynnig cyflymder 'hyd at' 50 Mbit yr eiliad er 2008 i gwsmeriaid dros ei rwydwaith cebl, sy'n cyrraedd oddeutu hanner y DU, ac yn ddiweddar roedd wedi dechrau cyflwyno cyflymder mynediad hyd at 100 Mbit yr eiliad. Roedd BT wedi lansio ei gynnyrch ffibr Infinity llynedd, a oedd yn cynnig cyflymder band eang o hyd at 40 Mbit yr eiliad, ac sy'n ceisio cyrraedd dwy ran o dair o'r wlad erbyn 2015. Roedd ein hymchwil diweddaraf ar gyflymder band eang, a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2011, wedi canfod bod cyflymder y gwasanaethau cebl a ffibr hyn yn nes at y cyflymder a oedd yn cael ei hysbysebu ar eu cyfer na'r rheini ar gyfer band eang DSL[7].

Drwy ddefnyddio gwasanaethau band eang cyflym iawn, gall aelodau gwahanol y cartref ddefnyddio amrywiaeth o raglenni lled band uchel ar yr un pryd. Gallai hyn olygu gwylio teledu manylder uwch, chwarae gemau rhyngweithiol a ffrydio neu lwytho cerddoriaeth a ffilmiau oddi ar y rhyngrwyd.

Gall busnesau a defnyddwyr gael budd o wasanaethau cydamserol megis galwadau fideo dwyffordd a gwell ffyrdd o adfer data, a gallwn ddisgwyl gweld mwy o gyfleoedd ar gyfer gweithio o gartref.

### BETH WNAETHOM NI

Yn 2010 roeddem wedi cynnal adolygiad o'r farchnad mynediad lleol cyfanwerthu ar gyfer band eang. Yn dilyn yr adolygiad, roeddem wedi rhoi rheoliadau newydd ar waith i) yn caniatáu i gystadleuwyr BT ddarparu gwasanaethau band eang dros rwydweithiau mynediad ffibr BT, a ii) mynnu bod BT yn cynnig mynediad i'w rwydwaith o bibelli tanddaearol a'i bolion telegraff. Bydd y cyntaf o'r rheoliadau hyn yn caniatáu i gwmnïau gynnig gwasanaethau band eang cyflym iawn i ddefnyddwyr sy'n cystadlu â BT. Bydd yr ail o'r rheoliadau hyn yn caniatáu i gystadleuwyr BT gyflwyno band eang cyflym iawn i ardaloedd lle nad yw BT yn bwriadu defnyddio ei rwydwaith ffibr ac i dargedu ardaloedd penodol yn gynharach na BT. Roeddem hefyd wedi parhau i gefnogi ein hymchwil i gyflymder band eang, sy'n helpu defnyddwyr i wneud dewisiadau gwybodus wrth ddewis cyflenwr band eang.

7 http://media.ofcom.org.uk/2011/03/02/average-broadband-speed-is-still-less-than-half-advertised-speed

8 http://www.culture.gov.uk/images/publications/10-1320-britains-superfast-broadband-future.pdf


## CANLYNIAD

**Erbyn diwedd mis Mai 2011 roedd naw darparwr cyfathrebiadau yn defnyddio neu'n profi llinellau ffibr BT i ddarparu gwasanaethau band eang cyflym iawn i gwsmeriaid mewn gwahanol rannau o'r DU.**

Roedd BT wedi cyhoeddi telerau ac amodau drafft ar gyfer darparu mynediad i'w rwydwaith o bibelli a pholion ym mis Ionawr 2011 ac mae'n treialu'r cynnyrch hyn â chwsmeriaid ar hyn o bryd. Mae lansio'r cynnyrch hyn yn fasnachol wedi cael ei drefnu ar gyfer haf 2011. Ym mis Ebrill 2011, roedd y gweithgynhyrchwr offer Fujitsu wedi cyhoeddi cynlluniau i adeiladu rhwydwaith band eang cyflym iawn FTTH mewn rhannau pellennig o'r DU, a fyddai'n cyrraedd pum miliwn o gartrefi. Dywedodd Vrigin Media a TalkTalk y byddent yn defnyddio'r rhwydwaith hwn i gynnig band eang cyflym iawn i ddefnyddwyr.

Yn 2010, roedd y Llywodraeth hefyd wedi cyhoeddi cronfa gwerth £830m i helpu'r diwydiant i gyflwyno band eang. Gallai hyn olygu bod oddeutu 90 y cant o'r boblogaeth â mynediad i fand eang cyflym iawn. Nod y Llywodraeth yw bod gan y DU y band eang cyflym iawn gorau yn Ewrop erbyn 2015[8]. Dros yr ychydig flynyddoedd nesaf rydym yn disgwyl i'r nifer sy'n defnyddio band eang cyflym iawn gynyddu'n sylweddol yn y DU ac i ni ddechrau gweld marchnad adwerthu gystadleuol ar gyfer y gwasanaethau hyn. Mae'r cynlluniau i gyflwyno ffibr yn y DU hefyd yn cymharu'n ffafriol â rhai marchnadoedd rhyngwladol (gweler Ffigur 2).

**FFIGUR 2: CYNLLUNIAU CYFLWYNO FFIBR MARCHNADOEDD RHYNGWLADOL ALLWEDDOL (YM MIS RHAGFYR 2010)**




Ffynhonnell: Marchnad Gyfathrebu Rhyngwladol Ofcom, Rhagfyr 2010.
Nodyn: nid yw'r siart yn cynnwys darpariaeth o gronfa band eang gwledig Llywodraeth y DU.

### BETH OEDDEM WEDI'I DDWEUD Y BYDDEM YN EI WNEUD

# Sicrhau cystadleuaeth deg ac effeithiol mewn teledu drwy dalu.

Ym mis Mawrth 2010, roeddem wedi cyflwyno amodau trwydded a oedd yn mynnu bod Sky Sports 1 a 2 yn cael eu cynnig i adwerthwyr a oedd yn gystadleuwyr ar lwyfannau ar wahân i Sky, am brisiau a oedd yn cael eu gosod gan Ofcom, gan roi mwy o ddewis i ddefnyddwyr. Roedd Sky wedi apelio yn erbyn y penderfyniad, gan ofyn i'r Tribiwnlys Apeliadau Cystadleuaeth adolygu ein canfyddiadau ac atal y gofyniad i gyflenwi'r sianeli wrth i'r apêl fynd rhagddi.

Penderfynodd y Tribiwnlys Apeliadau Cystadleuaeth y dylai'r amodau trwydded newydd aros mewn grym ar gyfer rhai adwerthwyr yn ystod yr apêl ond y dylai'r gwahaniaeth rhwng prisiau cerdyn cyfraddau Sky a phrisiau wedi'u rheoleiddio Ofcom gael eu talu i mewn i gyfrif daliannol ar gadw. Bydd y cronfeydd hyn yn cael eu talu i Sky neu i'r adwerthwyr eraill yn ôl canlyniad yr apêl. Yn ogystal â Sky, mae rhai o'r partïon eraill roedd y penderfyniad yn effeithio arnynt wedi apelio a bydd yr achos yn cael ei wrando yn ystod haf 2011.

### BETH WNAETHOM NI

Roedd ein penderfyniad ni, a phenderfyniad interim y Tribiwnlys Apeliadau Cystadleuaeth, yn sicrhau bod mynediad cyfanwerthu ehangach i'r sianeli ar gael ar ddechrau tymor pêl-droed Uwchgynghrair 2010/11 Lloegr ym mis Awst. Roedd yr adwerthwyr teledu drwy dalu Virgin Media, BT Vision a Top Up TV yn gallu adwerthu'r gwasanaeth i wylwyr ar sail y pris cyfanwerthu newydd wedi'i reoleiddio. Roeddem hefyd wedi datrys nifer o gwynion am delerau penodol a oedd yn rhoi mynediad i'r adwerthwyr eraill hyn at y cynnwys.

Roeddem hefyd wedi ymgynghori ynghylch penderfyniad arfaethedig i gyfeirio dwy farchnad ffilmiau a oedd â chysylltiad agos iawn â'i gilydd at y Comisiwn Cystadleuaeth, ynghylch gwerthu a dosbarthu ffilmiau teledu drwy dalu am danysgrifiad premiwm. Mae ffilmiau o Hollywood sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf yn arbennig o bwysig i gystadleuaeth yn y sector teledu drwy dalu. Mae'r cynnwys hwn yn ffactor allweddol ar gyfer nifer o ddefnyddwyr wrth gofrestru ar gyfer gwasanaeth teledu drwy dalu, ac rydym yn poeni bod y ffordd mae'r ffilmiau hyn yn cael eu gwerthu a'u dosbarthu wedi creu sefyllfa sy'n golygu bod gan Sky y cymhelliant a'r gallu i ystumio cystadleuaeth. Y canlyniad yn y pen draw i ddefnyddwyr yw llai o ddewis, llai o arloesi a phrisiau uwch.

Ar ôl ymgynghori, roeddem wedi gofyn i'r Comisiwn Cystadleuaeth ymchwilio i'n pryderon ynghylch gwerthu a dosbarthu ffilmiau teledu drwy dalu drwy danysgrifiad premiwm, gan ei fod mewn sefyllfa well i fynd i'r afael â'r pryderon hyn yn llawn.



### CANLYNIAD

**Roeddem wedi amddiffyn gweithredu ein hateb ar unwaith yn y Tribiwnlys Apeliadau Cystadleuaeth. O ganlyniad i hynny, mae Sky Sports 1 a 2 nawr ar gael gan ystod o adwerthwyr teledu drwy dalu. Yn bwysig, gall gwylwyr gael gafael ar raglenni chwaraeon premiwm ar y sianeli hyn yn uniongyrchol drwy eu herial teledu yn hytrach na dim ond drwy wasanaethau lloeren neu gebl, gan wella'r dewis a gan hyrwyddo arloesedd.**

Mae rhai o'r cwmnïau sydd â chytundebau â Sky ar gyfer darparu sianeli premiwm wedi cyhoeddi ffigurau ar y nifer sy'n eu defnyddio. Dywedodd BT Vision, nad oedd yn cynnig Sky Sports 1 na 2 o'r blaen, fod dros 50,000 o'i 505,00 o gwsmeriaid yn tanysgrifio i Sky Sports ar ddiwedd mis Medi 2010. Roedd y ddwy sianel wedi dechrau darlledu i gwsmeriaid BT Vision ym mis Awst 2010. Dywedodd Virgin Media yn ystod y tri mis a ddaeth i ben ar 30 Medi 2010, ei fod wedi ychwanegu dros 100,000 o danysgrifwyr premiwm Sky a oedd yn golygu cyrraedd cyfanswm o 725,000. Ar ddiwedd 2010, roedd 53 y cant o gartrefi'r DU yn tanysgrifio i deledu drwy dalu, a oedd dri y cant yn uwch o un flwyddyn i'r llall.

**BETH OEDDEM WEDI'I DDWEUD Y BYDDEM YN EI WNEUD**

# Paratoi cynlluniau i ryddhau sbectrwm ar gyfer band eang symudol.

Mae sbectrwm, sef y tonnau awyr sy'n cael eu defnyddio ar gyfer pob gwasanaeth di-wifr, gan gynnwys darlledu teledu a radio a gwasanaethau ffôn symudol, yn adnodd cyfyngedig a gwerthfawr dros ben. Mae gwledydd ar draws Ewrop wrthi'n glanhau rhywfaint o'r sbectrwm hwn i wneud lle i wasanaethau newydd megis band eang symudol. Roedd y Llywodraeth wedi cyfarwyddo Ofcom i gynnal arwerthiant o sbectrwm yn y bandiau 800 MHz a 2.6 GHz i'w defnyddio ar gyfer gwasanaethau symudol newydd, gan gynnwys band eang symudol. Bydd dinasyddion a defnyddwyr yn y DU yn elwa'n sylweddol o hyn, drwy lansio gwasanaethau newydd yn y sbectrwm gwerthfawr iawn hwn.



## BETH WNAETHOM NI

**Roeddem wedi cyhoeddi ymgynghoriad ym mis Mawrth 2011 a oedd yn gosod ein hasesiad o'r gystadleuaeth debygol yn y dyfodol yn y farchnad symudol a'n cynigion ar gyfer arwerthiant sbectrwm,** gan gynnwys manylion sut rydym yn bwriadu sicrhau bod cystadleuaeth yn parhau i weithio'n effeithiol ar gyfer defnyddwyr yn y DU.

Ein nod yw cyhoeddi datganiad ar gystadleuaeth yn y dyfodol a manylion yr arwerthiant, ynghyd â rheoliadau drafft yr arwerthiant, yn ystod hydref 2011, a bod rheoliadau terfynol yr arwerthiant ar waith oddeutu diwedd 2011. Bydd hyn yn ein galluogi i gynnal yr arwerthiant a chynnig trwyddedau newydd i'r cynigwyr buddugol yn ystod hanner cyntaf 2012. Rydym yn cydnabod bod hon yn amserlen uchelgeisiol ond byddwn yn gwneud ein gorau glas i'w diwallu oherwydd arwyddocâd y sbectrwm hwn i economi'r DU a'r manteision posibl i ddefnyddwyr ac i ddinasyddion.

Roedd y cyfarwyddyd gan y Llywodraeth hefyd yn mynnu ein bod yn diweddaru rhai o'r rheolau ynghylch sut caiff sbectrwm ei ddefnyddio ar gyfer gwasanaethau symudol. Roeddem felly wedi diwygio trwyddedau gweithredwyr ffôn 2G, sy'n galluogi defnyddwyr i wneud galwadau ffôn ac anfon negeseuon testun, i ganiatáu i weithredwyr ddarparu gwasanaethau 3G, megis pori'r rhyngrwyd ar ddyfeisiau symudol. Mae defnyddio'r tonnau awyr hyn hefyd o fudd i ddefnyddwyr oherwydd ei fod yn galluogi gweithredwyr i gynyddu cyflymder band eang symudol, gwella darpariaeth mewn adeiladau ac ehangu darpariaeth symudol mewn ardaloedd gwledig.

## CANLYNIAD

Disgwylir y bydd rhyddhau'r sbectrwm yn rhoi mynediad i ddefnyddwyr i'r hyn a elwir yn dechnoleg symudol 4G, a fydd yn darparu gwasanaethau band eang symudol cynt o lawer – a fydd yn debycach i gyflymder band eang ADSL cartrefi heddiw. Rydym wedi cynnig ehangu darpariaeth band eang symudol yn sylweddol hefyd i gyrraedd 95 y cant o boblogaeth y DU.

Ym mis Mawrth 2011, dywedodd y cwmni O2 ei fod yn ailddefnyddio ei sbectrwm 2G (sef 900 MHz) i gynnig gwasanaethau symudol 3G yn Llundain, yn dilyn ein penderfyniad ym mis Ionawr i lacio'r rheolau ar ddefnyddio sbectrwm. Dywedodd O2 ei fod yn disgwyl i hyn arwain at gynnydd o 50 y cant mewn capasiti ar ei rwydwaith 3G yn Llundain.

> **“DISGWYLIR Y BYDD RHYDDHAU'R SBECTRWM YN RHOI MYNEDIAD I DDEFNYDDWYR I DECHNOLEG SYMUDOL 4G.”**



## BETH OEDDEM WEDI'I DDWEUD Y BYDDEM YN EI WNEUD

# Symud ymlaen o ran ardaloedd digyswllt symudol.

Mae gan oddeutu 97 y cant o boblogaeth y DU a 91 y cant o arwyneb tir y DU ddarpariaeth symudol sy'n golygu bod modd ffonio ac anfon negeseuon testun. Serch hynny, mae ardaloedd digyswllt – ardaloedd lle na cheir darpariaeth symudol – yn dal i fodoli, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig. Yn gyffredinol mae darpariaeth yn is yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon nag yn Lloegr.

## BETH WNAETHOM NI

Ym mis Tachwedd 2010, roeddem wedi cyhoeddi ymchwil gychwynnol i ardaloedd digyswllt symudol, gan ganfod y gwahanol fathau o broblemau o ran darpariaeth symudol, a gan edrych ar y rhesymau drostynt, eu heffaith ar ddefnyddwyr a datblygiadau parhaus yn y farchnad i fynd i'r afael â'r problemau hyn. Roeddem hefyd wedi nodi ein camau nesaf i fynd i'r afael â'r problemau hyn a chyhoeddi canllaw i ddefnyddwyr a oedd yn cynnwys camau ymarferol i helpu pobl sy'n defnyddio ffonau i gynyddu eu darpariaeth symudol.

## CANLYNIAD

Roedd ein Cynllun Blynyddol ar gyfer 2011/12 yn egluro y byddem yn parhau i hyrwyddo buddsoddiad ac ystyried ffyrdd eraill o fynd i'r afael ag ardaloedd digyswllt ffonau symudol. **Mae'n debyg y caiff canlyniadau gwaith darpariaeth symudol Ofcom eu gwireddu dros gyfnod hirach gan y byddant yn dibynnu ar y camau a gymerir gan gwmnïau ffonau symudol, yn dilyn buddsoddiad masnachol neu fuddsoddiad â chymhelliant cyhoeddus.** Mae data Ofcom yn dangos yn 2010, bod 97 y cant o ddefnyddwyr ffonau symudol â mynediad at o leiaf un rhwydwaith 2G a bod gan 87 y cant fynediad at o leiaf un rhwydwaith 3G.

Mewn perthynas ag ardaloedd digyswllt band eang sefydlog, rydym yn parhau i ddarparu cyngor technegol i'r Llywodraeth, sydd wedi dweud mai ei nod yw bod band eang cyflym iawn gyrraedd 90 y cant o boblogaeth y DU.

**BETH OEDDEM WEDI'I DDWEUD Y BYDDEM YN EI WNEUD**

# Diweddaru rheoleiddio cynnwys i ddiwallu newidiadau yn anghenion cynulleidfaoedd.

Mae Cod Darlledu Ofcom yn rhoi'r rheolau y mae'n rhaid i ddarlledwyr eu dilyn, drwy osod safonau ar gyfer cynnwys rhaglenni teledu a radio. Mae'r rheolau hyn yn berthnasol i feysydd gan gynnwys amddiffyn plant, niwed a thramgwydd, trosedd, crefydd, bod yn ddiduedd ac yn gywir, nawdd a gosod cynnyrch, tegwch a phreifatrwydd mewn rhaglenni.

Ym mis Chwefror 2011, daeth fersiwn newydd o'r Cod Darlledu i rym, gan gynnwys rheolau newydd i ganiatáu i ddarlledwyr masnachol gynnwys cyfeiriadau at gynnyrch a gwasanaethau am dâl mewn rhai rhaglenni teledu a radio.

## TELEDU

### BETH WNAETHOM NI

Cafodd gosod cynnyrch ei ganiatáu mewn rhaglenni teledu sy'n cael eu cynhyrchu yn y DU am y tro cyntaf ar 28 Chwefror, ar ôl newid deddfwriaeth Ewropeaidd a deddfwriaeth y DU. Mae hyn wedi golygu ei bod yn bosibl i ddarlledwyr masnachol gael gafael ar ffynonellau newydd o refeniw ar yr un pryd â sicrhau eu bod yn amddiffyn cynulleidfaoedd. Roeddem wedi ymgynghori ynghylch rheolau Cod Darlledu newydd ac wedi'u cyflwyno er mwyn:

- cyfyngu ar y math o gynnyrch mae modd eu gosod;
- cyfyngu ar y math o raglenni lle mae modd gosod cynnyrch;
- cyfyngu ar y ffordd mae modd gweld cynnyrch a chyfeirio at gynnyrch mewn rhaglenni; a
- mynnu bod darlledwyr yn rhoi gwybod i gynulleidfaoedd pan fydd rhaglenni teledu sydd wedi cael eu cynhyrchu yn y DU yn cynnwys gosod cynnyrch, drwy ddangos logo gosod cynnyrch cyffredinol (a welir isod) ar raglenni sydd wedi cael eu gwneud ganddynt neu ar eu cyfer ac sy'n cynnwys gosod cynnyrch.

Gweithiodd Ofcom gyda darlledwyr i ddatblygu logo i'w ddangos ar ddechrau ac ar ddiwedd rhaglenni a oedd yn cynnwys gosod cynnyrch. Roeddem hefyd wedi cyhoeddi gofynion penodol ei bod yn rhaid i ddarlledwyr ddarlledu ymgyrchoedd ymwybyddiaeth neu negeseuon i gynulleidfaoedd cyn iddynt ddechrau darlledu rhaglenni dan ein rheolau newydd.

**LOGO GOSOD CYNNYRCH**

### CANLYNIAD

**Digwyddodd yr achos cyntaf o osod cynnyrch mewn rhaglen a gynhyrchwyd yn y DU ar 28 Chwefror.** Roedd nifer o'r prif ddarlledwyr (megis ITV, Channel 4 a Sky) wedi darlledu ymgyrch ymwybyddiaeth cynulleidfaoedd wedi'i rhannu, gan gyflwyno'r logo gosod cynnyrch i wylwyr ac egluro ei ystyr. Mae darlledwyr eraill hefyd wedi darlledu negeseuon ac ymgyrchoedd ymwybyddiaeth cynulleidfaoedd eraill.

## RADIO

### BETH WNAETHOM NI

Gan nad yw rhaglenni radio masnachol yn rhwym wrth ddeddfwriaeth Ewropeaidd yn yr un ffordd â theledu, roeddem wedi rhoi cyfleoedd i ddarlledwyr radio masnachol gael gafael ar ffynonellau refeniw newydd. Roeddem wedi ymgynghori ynghylch rheolau Cod Darlledu newydd ar gyfer radio ac wedi eu cyflwyno, gan gydbwyso'r manteision i ddarlledwyr â thryloywder ac amddiffyniad i gynulleidfaoedd. Roedd hyn yn caniatáu i ddarlledwyr radio masnachol integreiddio brandiau, cynnyrch a gwasanaethau mewn mathau penodol o raglenni radio. Yn yr un modd â theledu, rhaid i orsafoedd radio roi gwybod i wrandawyr bod cytundebau masnachol ar waith.

### CANLYNIAD

**Mae darlledwyr radio masnachol wedi gallu integreiddio brandiau, cynnyrch a gwasanaethau i raglenni radio ers i'n rheolau newydd ddod i rym.** Ymddengys fod nifer o ddarlledwyr radio wedi ymestyn cwmpas cyfranogiad noddwyr mewn rhaglenni, yn enwedig ym maes cystadlaethau wedi'u noddi ar gyfer gwrandawyr. Serch hynny, mae'r rheolau newydd wedi agor cyfleoedd masnachol amrywiol i ddarlledwyr radio ac felly mae Ofcom yn bwriadu asesu, cyn 2013, pa mor briodol ac effeithiol yw'r rhain.

**BETH OEDDEM WEDI'I DDWEUD Y BYDDEM YN EI WNEUD**

# Sicrhau bod defnyddwyr yn gallu newid rhwng darparwyr cyfathrebiadau drwy chwalu rhwystrau diangen.


Yn 2010 roeddem wedi cynnal ymchwil a ganfu fod 45 y cant o ddefnyddwyr â band eang neu ffôn llinell sefydlog o'r farn bod newid rhwng darparwyr cyfathrebiadau yn ormod o drafferth. Mae arnom eisiau ei gwneud hi'n haws newid ar yr un pryd â sicrhau bod darparwyr yn cystadlu'n egnïol i gynnig manteision i ddefnyddwyr o ran prisiau is, mwy o ddewis ac arloesedd. Mae Ffigur 3 isod yn dangos bod cyfran y defnyddwyr a oedd wedi newid eu cyflenwr cyfathrebiadau wedi aros yn weddol sefydlog rhwng 2009 a 2010.

## BETH WNAETHOM NI

Yn dilyn trafodaethau gyda ni, roedd BT, TalkTalk a Virgin Media wedi cytuno i ostwng y ffioedd roeddent yn eu codi ar gwsmeriaid sy'n gadael eu contractau yn gynnar (ffioedd terfynu'n gynnar). Roedd hyn yn sicrhau bod y ffioedd yn adlewyrchu'r costau mae'r darparwyr yn eu harbed drwy beidio â darparu'r gwasanaeth mwyach. Bydd ffioedd terfynu cynnar rhatach hefyd yn berthnasol i gwsmeriaid llinellau sefydlog sy'n cael band eang yn yr un pecyn.

Roeddem hefyd wedi pennu ein safbwynt strategol tymor hir sef pan fydd defnyddiwr yn newid mai'r darparwr sy'n ennill y cwsmer ddylai gymryd yr awenau, gan fod hyn yn debycach o ddarparu'r canlyniad gorau i ddefnyddwyr ac o ran cystadleuaeth. Rydym nawr yn ystyried sut mae hyn yn berthnasol i'r prosesau newid

**FFIGUR 3: CYFRAN Y DEFNYDDWYR SYDD WEDI NEWID DARPARWYR CYFATHREBIADAU YN YSTOD Y 12 MIS DIWETHAF**




Ffynhonnell: Ymchwil Ofcom    Noder: Efallai nad yw'r cyfansymiau'n 100% union oherwydd bod y ffigurau wedi'u talgrynnu

presennol ar gyfer gwasanaethau sefydlog a band eang ar rwydwaith copr BT. Rydym wedi bod yn gweithio gyda'r diwydiant i ystyried y dewisiadau amrywiol a'r costau.

Ym mis Mawrth 2011, roeddem wedi gosod ein cynigion i wahardd contractau sy'n cael eu hadnewyddu'n awtomatig sy'n clymu defnyddwyr sydd â llinellau sefydlog i gyfnodau contract sylfaenol a ailadroddir oni bai eu bod yn dewis tynnu allan.

### CANLYNIAD

**Cafodd y ffioedd mae defnyddwyr yn eu hwynebu am adael eu contractau ffôn llinell sefydlog yn gynnar eu torri cymaint â 85 y cant gan dri darparwr llinell sefydlog mwyaf y DU; BT, TalkTalk a Virgin Media.** Roedd gweithredwyr eraill wedi dilyn gyda thoriadau i'w ffioedd terfynu cynnar yn nes ymlaen yn 2011. Mae Ffigur 4 yn dangos sut cafodd y ffioedd terfynu eu torri.



**FFIGUR 4: FFIOEDD TERFYNU CYNNAR AR GYFER PECYNNAU POBLOGAIDD**

| Darparwr a phecyn | Llais | Band eang | Ffi terfynu cynnar cyn datganiad Ofcom* | Ffi terfynu cynnar ddiweddaraf* |
|---|---|---|---|---|
| BT Weekend | ✔ | – | £11.54 | **£2.50** |
| BT Evening and Weekend | ✔ | – | £14.53 | **£3.00** |
| BT Unlimited Anytime | ✔ | – | £16.53 | **£5.50** |
| TalkTalk Evening and Weekend | ✔ | – | £14.44 | **£3.00** |
| TalkTalk Anytime | ✔ | – | £16.98 | **£3.00** |
| TalkTalk Essential[1] | ✔ | ✔ | £18.48 | **£8.00** |
| TalkTalk Essential[2] | ✔ | ✔ | £33.48 | **£13.50** |
| Virgin Media (cable) Phone[3] | ✔ | – | £11.99 | **£4.00** |
| Virgin Media (cable) Broadband L[3] | – | ✔ | £12.50 | **£9.00** |
| Virgin Media (National) Broadband L & Phone M[1] | ✔ | ✔ | £25.99 | **£8.35 (mis 1af) wedyn £6.35** |
| Virgin Media (National) Broadband L & Phone M[2] | ✔ | ✔ | £29.99 | **£6.63 (mis 1af) wedyn £4.63** |

Ffynhonnell: gwefannau cwmni.

* Mae'r ffioedd yn fisol ar gyfer gweddill y contract. Cyn ei newidiadau ar 1 Mehefin, arfer TalkTalk oedd capio cyfanswm ffioedd terfynu cynnar ar £70. Nid yw Virgin Media yn gorfodi'r ffi cebl a ddangosir a'r hyn mae'n ei wneud ar hyn o bryd yw disgowntio'r ffioedd i £10/mis ar gyfer pob gwasanaeth cebl a ddangosir.

1 Darparwyd drwy ddad-fwndelu dolen leol

2 Heb ei ddarparu drwy ddad-fwndelu dolen leol

3 Bydd cwsmeriaid cebl Virgin Media sy'n prynu gwasanaeth ffôn a band eang y talu'r ddwy ffi

Data yn gywir ym mis Ebrill 2011.

### BETH OEDDEM WEDI'I DDWEUD Y BYDDEM YN EI WNEUD

# Sicrhau darparu gwasanaethau di-wifr ar gyfer Gemau Olympaidd a Pharalympaidd 2012 Llundain.

Cynhelir Gemau Olympaidd a Pharalympaidd 2012 Llundain rhwng 27 Gorffennaf a 9 Medi 2012. Bydd y galw am sbectrwm yn eithriadol o uchel gan ddarlledwyr, trefnwyr, timau ac eraill.

Mae'r Llywodraeth wedi sicrhau'r Pwyllgor Olympaidd Rhyngwladol y bydd digon o sbectrwm ar gael ar gyfer y Gemau: Mae Ofcom yn gyfrifol am wireddu hyn ac ymdrechu i sicrhau bod anghenion sbectrwm defnyddwyr eraill hefyd yn cael eu diwallu dros y cyfnod hwn.

### BETH WNAETHOM NI

Ym mis Hydref 2010, roeddem wedi cyhoeddi cynllun sbectrwm wedi'i ddiweddaru ar gyfer cyfathrebiadau di-wifr yng Ngemau 2012 Llundain, yn amlinellu sut bydd yr anghenion sbectrwm eithriadol hyn yn cael eu diwallu. Bydd fersiwn terfynol o'r cynllun yn cael ei gyhoeddi'n gynnar yn ystod 2012. Ym mis Rhagfyr 2010, roeddem hefyd wedi penderfynu cadw sbectrwm yn y band 2.6 GHz i'w ddefnyddio gan gamerâu di-wifr yn ystod Gemau 2012. Ochr yn ochr â hynny, rydym wedi adeiladu a phrofi system drwyddedu awtomataidd, sy'n caniatáu i ni wella'r ffordd caiff y sbectrwm prin ei neilltuo i ddefnyddwyr.

### CANLYNIAD

Yn 2010/11, roedd ymdrechion Ofcom wedi canolbwyntio ar raglen drwyadl o brofi a chynllunio. Rydym yn disgwyl i Gemau 2012 Llundain ddibynnu mwy byth ar gyfathrebiadau di-wifr na digwyddiadau yn y gorffennol. **Bydd swyddogaeth Ofcom i ddarparu digon o sbectrwm a'i reoli'n effeithiol er mwyn sicrhau na fydd dim ymyrraeth niweidiol, yn cyfrannu at lwyddiant a diogelwch y Gemau.**

## MEYSYDD GWAITH MAWR NAD YDYNT YN EIN CYNLLUN BLYNYDDOL 2010/11

**Er ein bod yn cynllunio ein gwaith yn ôl ein blaenoriaethau strategol a chyflawni ein dyletswyddau, rydym hefyd yn gwneud gwaith hanfodol nad yw wedi cael ei gynllunio gennym. Yn ystod 2010/11, roedd hyn yn cynnwys:**

### Y PRAWF BUDD Y CYHOEDD I GYNNIG NEWS CORPORATION I BRYNU SKY

Yn ystod wythnosau olaf 2010, roeddem wedi cynghori'r Ysgrifennydd Gwladol ynghylch yr ystyriaethau budd y cyhoedd a oedd yn codi yn sgil cynnig News Corporation i brynu'r cyfranddaliadau yn Sky nad oedd yn berchen arnynt. Wedyn roeddem wedi cynghori ynghylch a oedd Ymgymeriadau arfaethedig yn Lle cyfeiriad at y Comisiwn Cystadleuaeth yn mynd i'r afael â'r pryderon hynny.

Roeddem hefyd yn cynnig bod y Llywodraeth yn ystyried ymgymryd ag adolygiad ehangach o'r fframwaith statudol i sicrhau lluosogrwydd er budd y cyhoedd yn y tymor hirach. Sail yr awgrym hwn oedd nad yw'r system bresennol yn golygu bod modd ystyried ymyriadau pan fydd pryderon yn codi ynghylch lluosogrwydd os nad oes trafodion corfforaethol ymysg cwmnïau cyfryngau.

### DELIO AG ANGHYDFODAU YN Y DIWYDIANT

Yn ystod 2010/11 roeddem wedi datrys deg anghydfod, mwy nag erioed o'r blaen, rhwng cwmnïau yn y diwydiannau cyfathrebiadau. Roedd y rhain yn cynnwys ystod eang o faterion o gyfraddau terfynu galwadau i anghydfodau'n ymwneud â ffioedd ar gyfer galwadau i rifau ffôn nad ydynt yn rhai daearyddol. Cafodd pob un ac eithrio dau, oherwydd amgylchiadau eithriadol, eu datrys cyn pen y dyddiad cau statudol.

### ADOLYGIAD EFFEITHLONRWYDD MEWNOL I LEIHAU GWARIANT

Yn gynnar yn ystod 2010, roeddem wedi lansio rhaglen fawr i ddod o hyd i arbedion gwariant sylweddol mewn ymateb i'r sialens sy'n wynebu'r sector cyhoeddus yn gyffredinol. Roedd hyn yn adeiladu ar enw da Ofcom am dorri ei gyllideb o un flwyddyn i'r llall i leihau ei faich ar drethdalwyr a rhanddeiliaid. Dros y pedair blynedd hyd at 2014/15 bydd Ofcom yn lleihau 28.2 y cant mewn termau real ar gyfanswm ei gyllideb. Mewn ymgais i newid siâp a ffocws y sefydliad, bydd y rhan fwyaf o'r toriadau'n cael eu gwneud yn ystod blwyddyn un.

# EIN CYFRIFOLDEBAU PARHAUS A'R ADNODDAU RYDYM YN EU RHEOLI

Yn ogystal â chyflawni blaenoriaethau ein Cynllun Blynyddol, rydym yn gweithio'n gyson i gyflawni'r canlyniadau gorau i ddinasyddion ac i ddefnyddwyr o fewn ein cyfrifoldebau bob dydd.

## AMDDIFFYN DEFNYDDWYR

Yr ydym am sicrhau bod defnyddwyr yn parhau i gael y dewis gorau o wasanaethau cyfathrebiadau, a'r gwerth gorau am eu harian, a bydd angen i ni fod y barod i ymyrryd os na fydd y farchnad yn darparu gwasanaethau da ar gyfer dinasyddion a defnyddwyr.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, roeddem wedi canolbwyntio ar:

- helpu defnyddwyr i ddatrys cwynion;
- mynd i'r afael â galwadau mud parhaus;
- gwella cywirdeb gwybodaeth am gyflymder band eang; a
- symleiddio rhifau ffôn daearyddol.

### HELP NEWYDD I DDEFNYDDWYR DDATRYS CWYNION

Mae tîm cynghori Ofcom yn parhau i gael cwynion am wasanaeth gwael i gwsmeriaid; er enghraifft, cwynion yn cael eu hanwybyddu, gwrthod uwchraddio cwynion at sylw rheolwyr a darparu gwybodaeth anghywir.

Ym mis Ionawr 2011 roeddem wedi cyflwyno un Cod Ymarfer gorfodol a oedd yn rhoi'r safonau sylfaenol ar gyfer darparwyr wrth ddelio â chwynion gan ddefnyddwyr. Mae'r Cod Ymarfer yn rhoi cysondeb yng nghyswllt safonau ac yn galluogi Ofcom i gymryd camau gorfodi yn erbyn darparwyr nad ydynt yn delio â chwynion yn deg. Roeddem hefyd wedi ymrwymo i gyhoeddi rhestr o bryd i'w gilydd o ystadegau am y cwynion gan gwsmeriaid sy'n ymwneud â darparwyr cyfathrebiadau penodol.

Rhaid i bob darparwr cyfathrebiadau yn y DU berthyn i wasanaeth dull amgen o ddatrys anghydfod – CISAS neu Wasanaethau'r Ombwdsmon: Cyfathrebiadau (Otelo gynt). Mae ymchwil Ofcom yn dangos bod gwasanaethau datrys anghydfod yn gwella'r canlyniadau i ddefnyddwyr[9]. Er enghraifft, o blith y cwynion hynny am ddarparwyr symudol na chawsant eu datrys cyn pen 12 wythnos, cafodd 91 y cant eu datrys ar ôl mynd â nhw at wasanaeth datrys anghydfod, o'i gymharu â 51 y cant o gwynion pan nad oedd y defnyddiwr wedi troi at wasanaeth datrys anghydfod.

Roeddem hefyd wedi cyflwyno rheolau newydd i gynyddu ymwybyddiaeth defnyddwyr o'u hawliau wrth ddelio â chwynion heb eu datrys. O fis Gorffennaf 2011 ymlaen, bydd yn rhaid i ddarparwyr cyfathrebiadau gynnwys gwybodaeth am y gwasanaeth datrys anghydfod perthnasol ar bob bil papur. Bydd yn rhaid iddynt hefyd ysgrifennu at ddefnyddwyr nad yw eu cwynion wedi cael eu datrys cyn pen wyth wythnos i roi gwybod iddynt am eu hawl i fynd â'u cwyn at wasanaeth datrys anghydfod sydd am ddim ac yn annibynnol.

### OFCOM YN CYFLWYNO RHEOLAU NEWYDD I FYND I'R AFAEL Â GALWADAU MUD PARHAUS

Mae galwadau mud yn gallu achosi cryn drallod i ddefnyddwyr. Roedd ymchwil defnyddwyr Ofcom a gynhaliwyd ym mis Mawrth 2011 yn dangos bod 28 y cant o bobl wedi dioddef galwadau mud ar eu llinell sefydlog dros y chwe mis diwethaf. Pan fydd defnyddwyr wedi cwyno wrthym am alwadau mud, ac wedi dweud wrthym pa mor aml maent yn derbyn y galwadau hyn, dywed dros 70 y cant eu bod wedi cael dwy alwad neu fwy mewn un diwrnod gan yr un cwmni.

9 http://stakeholders.ofcom.org.uk/consultations/complaints_procedures/statement/

Daeth rheolau newydd i rym ym mis Chwefror 2011 i helpu i atal defnyddwyr rhag cael eu harasio gan alwadau mud parhaus. Mae'r rhain yn atal cwmni rhag defnyddio offer canfod peiriant ateb fwy nag unwaith y diwrnod, oni bai fod asiant canolfan alwadau wrth law i ateb yr alwad. Mae hyn yn golygu na ddylai defnyddwyr gael galwadau mud parhaus mwyach gan yr un cwmni yn ystod un diwrnod. Rydym yn parhau i fonitro cwynion am alwadau mud a galwadau sy'n cael eu gadael ac rydym yn disgwyl gweld gostyngiad cyffredinol mewn niwed wrth i ddarparwyr roi'r gorau i'r arferion hyn. Pan fyddwn yn gweld bod cwmnïau yn torri ein rheolau, byddwn yn cymryd camau priodol, gan gynnwys rhoi dirwynon hyd at £2m, sydd wedi codi o'r uchafswm blaenorol sef £50,000.

## CYFLYMDER BAND EANG

Roedd Ofcom wedi parhau i gynnal ei ymchwil cynhwysfawr i gyflymder band eang llinell sefydlog, cyhoeddwyd y diwethaf ym mis Mawrth 2011. Roeddem wedi canfod mai'r cyflymder band eang cyfartalog yn y DU oedd 6.2 Mbit yr eiliad ym mis Tachwedd/ Rhagfyr 2010[10]; roedd hyn 45 y cant o'r cyflymder band eang 'hyd at' a gafodd ei hysbysebu sef 13.8 Mbit yr eiliad.

Roedd cynnydd yn lefel anfodlonrwydd defnyddwyr â chyflymder band eang sefydlog, i fyny o 14 y cant yn 2009 i 19 y cant yn 2010. Roeddem wedi cyhoeddi cod ymarfer gwirfoddol diwygiedig – a ddaw i rym ym mis Gorffennaf 2011 – sy'n ceisio sicrhau bod defnyddwyr yn cael amcan o ystod y cyflymder gallant ei gyflawni ar eu llinell band eang. Mae'r cod newydd hefyd yn caniatáu i ddefnyddwyr adael eu contractau os byddant yn cael cyflymder sy'n is o lawer na'r hyn cawsant eu cynnig adeg gwerthu, os bydd camau a gymerir gan ddarparwyr i wella cyflymder yn aflwyddiannus.


Roeddem wedi gweithio gyda'r Awdurdod Safonau Hysbysebu ar hysbysebu cyflymder band eang. Yn ein hymateb i ymgynghoriad gan y Pwyllgor Arferion Hysbysebu a'r Pwyllgor Darlledu ar gyfer Arferion Hysbysebu, roeddem wedi argymell newidiadau i'r canllawiau hysbysebu i wneud yn siŵr na chaiff defnyddwyr eu camarwain ynghylch y cyflymder sydd ar gael iddynt. Mae Ffigur 5 yn dangos sut mae cyfran y defnyddwyr sy'n dewis pecynnau band eang cynt wedi cynyddu dros amser.

## SYMLEIDDIO RHIFAU FFÔN NAD YDYNT YN RHAI DAEARYDDOL

Bydd pobl yn deialu rhifau ffôn nad ydynt yn rhai daearyddol (er enghraifft, y rheini sy'n dechrau â 08 a 09) i gysylltu ag ystod o sefydliadau megis busnesau, asiantaethau'r Llywodraeth ac elusennau. Mae modd defnyddio'r rhifau hyn i ddarparu gwybodaeth i ddefnyddwyr, i brynu cynnyrch a gwasanaethau ac i bleidleisio ar raglenni teledu.

Mae'r prisiau am ffonio'r rhifau hyn yn amrywio. Mae'r prisiau'n dibynnu ar nifer o ffactorau megis a ydych chi'n ffonio o linell sefydlog neu ffôn symudol. Mae ymchwil wedi dangos nad yw defnyddwyr yn glir ynghylch

**FFIGUR 5: CYFLYMDER LLWYTHO I LAWR CYFARTALOG AR GYFER CYSYLLTIADAU BAND EANG SEFYDLOG**




Ffynhonnell: Data mesur SamKnows

Nodyn: Ar gyfer casgliad Tach/Rhag roeddem wedi diwygio ein hamserlen brofi i fesur cyflymder ar sail profion edefyn lluosog (hy pan fydd mwy nag un ffeil yn cael eu llwytho i lawr ar yr un pryd), gan fod profion edefyn lluosog yn cynrychioli'r ffordd mae band eang yn cael ei ddefnyddio fwyfwy. Nid oeddem wedi casglu digon o ddata edefyn lluosog ym mis Ebrill 2009 nac ym mis Mai er mwyn gallu cymharu tebyg am debyg.

10 Cafodd methodoleg newydd ei chyflwyno ar gyfer ymchwil cyflymder band eang Rhagfyr 2010.

11 http://stakeholders.ofcom.org.uk/binaries/consultations/simplifying-non-geo-numbers/summary/non-geo.pdf

cost ffonio rhifau nad ydynt yn rhai daearyddol[11]. Mae'r diffyg tryloywder yn rhwystro nifer o bobl rhag defnyddio gwasanaethau ffôn, yn enwedig mewn cartrefi ar incwm is.

Ym mis Rhagfyr 2010, roeddem wedi lansio ymgynghoriad a oedd yn cynnig ffyrdd o wella profiad defnyddwyr o ddefnyddio'r rhifau hyn. Dan y cynigion hyn, byddai ffonio rhifau 0800 am ddim o ffonau symudol, gan eu bod eisoes am ddim o linellau sefydlog BT (ar hyn o bryd mae'n costio hyd at 40c y funud i ffonio rhifau 0800 o ffôn symudol). Dylai hyn hefyd roi mwy o eglurder ar gyfer categorïau eraill o alwadau heb fod yn ddaearyddol, megis prisio gwasanaethau ymholiadau 118, a fydd o bosibl yn arwain at fwy o gystadleuaeth effeithiol a galwadau rhatach.



## CYDYMFFURFIAETH A GORFODI GWASANAETHAU CYFATHREBIADAU

Pan fydd problemau'n digwydd yn y marchnadoedd mae Ofcom yn eu rheoleiddio, mae gennym ystod o bwerau sy'n ein galluogi i gamu i mewn a gweithredu ar ran dinasyddion a defnyddwyr. Mae hyn yn gallu golygu hybu cystadleuaeth neu ddatrys anghydfodau rhwng darparwyr cyfathrebiadau. Rydym hefyd yn gorfodi cyfraith diogelu defnyddwyr, yn amddiffyn ac yn rheoli'r sbectrwm radio, ac yn sicrhau bod gwylwyr a gwrandawyr yn cael eu hamddiffyn rhag deunyddiau sy'n peri niwed neu dramgwydd a'u bod yn cael eu trin yn deg.


### OFCOM YN AGOR RHAGLEN GORFODI CARDIAU FFÔN RHYNGWLADOL AR DRAWS Y DIWYDIANT

Agorodd Ofcom raglen monitro a gorfodi ar draws y diwydiant yng nghyswllt hysbysebu a gwerthu cardiau ffôn rhyngwladol. Roedd hyn yn dilyn ymchwil a oedd yn dangos bod defnyddwyr yn aml yn ddryslyd am ffioedd a thelerau ac amodau cardiau ffôn, sy'n cael eu defnyddio'n aml gan boblogaeth fawr y DU o fewnfudwyr sy'n dymuno ffonio gwledydd eraill. Mae dros bum miliwn o oedolion yn y DU yn defnyddio cardiau ffôn rhyngwladol. Ar gyfartaledd mae pob un ohonynt yn gwario £13 y mis ar alwadau.

Ym mis Medi 2010, roedd Ofcom wedi derbyn ymgymeriadau gan Lycatel, adwerthwr cardiau ffôn, mewn perthynas â'i hysbysebion a'i delerau ac amodau. Canfu ymchwiliad gan Ofcom fod hysbysebion Lycatel o'i gardiau ffôn rhyngwladol o bosibl yn torri'r Amddiffyniad i Ddefnyddwyr dan Reoliadau Masnachu Annheg 2008 a'r Telerau Annheg dan Reoliadau Contractau Defnyddwyr 1999. Newidiodd Lycatel ei ddeunyddiau hysbysebu a'i delerau ac amodau ac roedd yn cydymffurfio erbyn y dyddiad cau sef mis Rhagfyr 2010. Ym mis Mawrth 2011, roeddem wedi agor ymchwiliad i Nowtel i ystyried a oedd ei arferion hysbysebu a'i delerau ac amodau o bosibl yn torri unrhyw gyfraith i amddiffyn defnyddwyr.

### CAM-WERTHU LLINELLAU SEFYDLOG

Mae cam-werthu llinellau sefydlog yn dal yn un o'r materion mae Ofcom yn cael y nifer mwyaf o gwynion amdano. Mae ein gwaith monitro wedi dangos bod nifer mawr o gwynion 'slamio' honedig – pan fydd defnyddwyr yn cael eu newid i gyflenwyr gwahanol heb eu caniatâd – yn cael eu gyrru gan wallau yn hytrach na gan gam-werthu bwriadol. Rydym yn gweithio gyda'r diwydiant i fynd i'r afael â'r problemau hyn. Rydym hefyd yn parhau i fynd i'r afael â cham-werthu drwy gymryd camau gorfodi yn erbyn y cwmnïau sy'n cael y mwyaf o gwynion, drwy ddefnyddio rheolau cryfach a gyflwynwyd gan Amod Cyffredinol eleni. Dros y 12 mis diwethaf, rydym wedi cynnal ymchwiliadau i Continental Telecom, Grŵp TalkTalk, Plus Save Telecom a KCT.




### TALKTALK A TISCALI UK YN TORRI RHEOLAU AMDDIFFYN DEFNYDDWYR

Cawsom dros 1,000 o gwynion yn ystod 2010 gan ddefnyddwyr a ddywedodd wrthym eu bod wedi cael biliau gan TalkTalk a Tiscali UK (y naill a'r llall yn aelodau o Grŵp TalkTalk) am wasanaethau a oedd wedi cael eu canslo. O ganlyniad i'n hymyriad, dychwelodd TalkTalk a TiscaliUK bron i £2.5m mewn ad-daliadau a thaliadau ewyllys da i ddefnyddwyr a oedd wedi cael biliau anghywir am wasanaethau a oedd wedi cael eu canslo. Mae'r ymchwiliad yn parhau.

### CONTINENTAL TELECOM YN CAEL Y DDIRWY UCHAF SEF £50,000

Agorodd Ofcom ymchwiliad i Continental Telecom yn dilyn cynnydd yn nifer y cwynion am gwsmeriaid yn cael eu camarwain i ymrwymo i wasanaethau ffôn llinell sefydlog y cwmni. Ym mis Mehefin 2010, daethom i'r casgliad bod gennym sail resymol dros gredu bod Continental Telecom wedi defnyddio tactegau gwerthu annerbyniol er mwy cael cwsmeriaid i ymrwymo i'w gwasanaethau; wedi methu dweud wrth gwsmeriaid am eu hawl i ganslo yn ystod y broses newid; wedi camddefnyddio ymddiriedaeth cwsmeriaid agored i niwed, gan gynnwys yr henoed a phobl ag anghenion arbennig a'u bod wedi torri cwsmeriaid i ffwrdd am honiadau o beidio â thalu biliau heb roi digon o rybudd iddynt.

Roedd yn rhaid i Continental Telecom gymryd camau i gydymffurfio â rheolau Ofcom a gwneud yn iawn am dorri'r rheolau, er enghraifft drwy ganiatáu i'r cwsmeriaid dan sylw ddod â'u contract i ben heb ffi ac ad-dalu ffioedd i gwsmeriaid a oedd wedi talu i drosglwyddo i ddarparwr arall. Roedd yn rhaid iddo hefyd ailgysylltu cwsmeriaid a oedd wedi cael eu datgysylltu ar unwaith. Roedd y cwmni hefyd wedi methu darparu gwybodaeth y gwnaed cais amdani fel rhan o'n hymchwiliad ac roeddem wedi rhoi dirwy o £50,000 i Continental am beidio â chydymffurfio.

## CYNNWYS A SAFONAU MEWN DARLLEDU

Mae gan Ofcom ystod o ddyletswyddau mewn perthynas â darlledu sy'n cynnwys sicrhau digon o amddiffyniad i'r cyhoedd rhag deunyddiau sy'n peri niwed neu dramgwydd a rhag cael eu trin yn annheg neu darfu ar breifatrwydd yn ddiangen; a sicrhau ystod eang o wasanaethau teledu a radio sydd o ansawdd uchel ac sy'n apelio at ystod eang o bobl.

### TRWYDDEDU TELEDU A RADIO

Mae Ofcom yn cyflawni ei ddyletswyddau drwy roi trwyddedau darlledu, sy'n dod ag amodau. Mae'r amodau hyn yn cynnwys gofynion i dalu ffioedd, darparu gwybodaeth, cynnig rhaglenni a mathau o gynnwys penodol, a chydymffurfio â'r amrywiol godau ymarfer a gyhoeddir gan Ofcom.

Ar 1 Ebrill 2011, roeddem wedi lansio'r drydedd don o drwyddedau Radio Cymunedol. Mae oddeutu 11 miliwn o bobl nawr yn gallu gwrando ar orsafoedd radio cymunedol ledled y DU, sydd 17 y cant yn uwch o un flwyddyn i'r llall, a dros draean (36 y cant) yn uwch na 2008. Erbyn mis Mawrth 2011, roedd 228 o drwyddedau radio cymunedol wedi cael eu cyhoeddi ac roedd 181 gorsaf ar yr awyr.

## CYDYMFFURFIO A GORFODI

**Os bydd y Cod Darlledu wedi cael ei dorri, byddwn fel rheol yn cyhoeddi canfyddiad ac yn egluro pam mae darlledwr wedi torri'r Cod. Pan fydd darlledwr yn torri'r Cod yn fwriadol, yn ddifrifol neu drosodd a throsodd, gall Ofcom roi sancsiynau statudol yn erbyn y darlledwr, megis cosb ariannol neu ddirymu trwydded. Dyma enghreifftiau o benderfyniadau Ofcom dros y flwyddyn ddiwethaf.**

### SANCSIYNAU AR SIANELI I OEDOLION

Ym mis Mawrth 2011 roeddem wedi cyhoeddi penderfyniad i ddirymu trwydded darlledu teledu Live 960 ar ôl iddo dorri amodau ei drwydded yn ddifrifol. Roedd Live 960 yn sianel i oedolion a oedd yn berchen i Hoppr Entertainment. Roedd Ofcom wedi gofyn droeon i Hoppr Entertainment gyflwyno ffurflen Hysbysiad Newid Rheolaeth a datganiad wedi'i lofnodi a oedd yn cofnodi ei strwythur cyfarwyddwyr a pherchnogaeth yn gywir. Er gwaethaf y ceisiadau hyn, roedd Hoppr Entertainment Limited wedi methu cydymffurfio, gan dorri Amodau Trwydded 12 a 13. Roedd Ofcom o'r farn ei bod yn angenrheidiol dirymu ei drwydded er budd y cyhoedd.

Roedd Ofcom hefyd wedi dirymu pedair trwydded darlledu teledu a oedd yn berchen i Bang Channels Limited a Bang Media (London) Limited, ar ôl iddynt dorri'r Cod Darlledu drosodd a throsodd ac yn ddifrifol. Dros gyfnod parhaus cadarnhawyd bod darlledu'r trwyddedai yn torri darpariaethau'r Cod Darlledu droeon mewn perthynas ag amddiffyn pobl ifanc dan 18 oed ac achosi tramgwydd. Penderfynodd Ofcom felly nad oedd y cwmnïau mwyach yn 'addas nac yn briodol' i ddal trwyddedau darlledu ac felly cafodd y sianeli eu tynnu oddi ar yr awyr.

> **"PAN FYDD DARLLEDWR YN TORRI'R COD GALL OFCOM ROI SANCSIYNAU STATUDOL YN ERBYN Y DARLLEDWR."**

### SIANEL UMMAH

Am y tro cyntaf, canfu Ofcom fod sianel deledu yn torri'r Cod am iddi ganiatáu i gyflwynwyr a'r rheini a oedd yn ffonio'r rhaglen gam-drin safbwyntiau crefyddol a chredoau'r rheini a oedd yn perthyn i grefydd benodol. Mae Sianel Ummah yn ddarlledwr sy'n hybu 'gwybodaeth am Islam'. Roedd y sianel wedi darlledu tair rhaglen a oedd yn cynnwys cyfeiriadau camdriniol a sarhaus am Ahmadis – aelodau o fudiad Islamaidd lleiafrifol sydd wedi cael eu herlid yn ddifrifol mewn rhai gwledydd Islamaidd.

### CWYN AM DEGWCH GAN MEREDYDD HUGHES

Cynhaliodd Ofcom gŵyn a wnaed gan Meredydd Hughes, Prif Gwnstabl Heddlu De Swydd Efrog, yn erbyn Newyddion ITV. Roeddem wedi canfod bod y darlledwr wedi golygu cyfweliad gan Mr Hughes yn annheg ynghylch Gorchmynion Ymddygiad Gwrthgymdeithasol. Roedd Newyddion ITV wedi cymryd cyfweliad y Prif Gwnstabl allan o gyd-destun ac wedi awgrymu ei fod yn meddwl nad oedd ymddygiad gwrthgymdeithasol yn bwysig. Cafodd yr annhegwch ei waethygu wedyn pan ddywedodd cyflwynydd Newyddion ITV fod Mr Hughes yn "diystyru" problem ymddygiad gwrthgymdeithasol mewn cyfweliad gyda Gordon Brown, y Prif Weinidog ar y pryd. Roeddem wedi cyfarwyddo ITV i ddarlledu crynodeb o'n penderfyniad ar yr achos hwn.

### STV

Yn 2010, roeddem wedi cyhoeddi canfyddiad mewn perthynas â nawdd un o raglenni STV (Scottish Television) gan Lywodraeth yr Alban a'i hasiantaethau. Roeddem wedi lansio ymchwiliad helaeth i 57 o raglenni a oedd wedi'u noddi gan y Llywodraeth a gafodd eu darlledu ar STV yn 2008 ac yn 2009. Roeddem wedi canfod nad oedd y rhaglenni *Homecoming*, a oedd wedi'u cynnwys yn yr honiadau yn y wasg, yn torri'r Cod. Fodd bynnag, roeddem wedi canfod bod 18 o raglenni eraill yn torri'r rheolau nawdd.

Mae tudalen 101 yn yr adran Data Ystadegol yn cynnwys rhagor o fanylion am gwynion.

## CWYNION AC YMCHWILIADAU DARLLEDU

Mae cwynion gan gynulleidfaoedd am achosion posibl o dorri'r Cod Darlledu yn chwarae rhan bwysig yn y gwaith o sicrhau bod gwylwyr a gwrandawyr yn cael eu hamddiffyn yn briodol. Bydd Ofcom yn asesu pob cwyn yn ôl y Cod Darlledu, neu god neu amod trwydded perthnasol arall. Byddwn wedyn yn penderfynu a yw cwyn yn codi materion posibl mae angen ymchwilio ymhellach iddynt.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, roedd Ofcom wedi penderfynu ar 24,462 o gwynion am safonau darlledu neu amodau trwydded, a 171 o gwynion am annhegwch a/neu darfu ar breifatrwydd yn ddiangen.



## RHYNGWLADOL


Mae datblygiadau rhyngwladol yn dylanwadu'n gryf ar weithgareddau Ofcom ac ar weithgareddau'r cwmnïau a reoleiddir ganddo. Yr ydym yn gweithio'n agos â sefydliadau Ewropeaidd, rheoleiddwyr cyfathrebiadau cenedlaethol a phartneriaid rhyngwladol. Rydym yn gwneud hyn gyda'r nod o ddylanwadu ar benderfyniadau yn y sector cyfathrebiadau sy'n cael eu gwneud mewn fforymau rhyngwladol i sicrhau eu bod yn ymarferol, yn gymesur ac yn adlewyrchu buddiannau dinasyddion a defnyddwyr y DU a'r holl randdeiliaid yn y DU yn y ffordd orau.

Yn 2010, roeddem wedi gweithio gyda'r Llywodraeth ar weithredu Fframwaith Rheoleiddio diwygiedig yr UE ar gyfer Cyfathrebiadau Electronig. Bydd hyn yn dod â hawliau ac amddiffyniadau newydd pwysig i ddefnyddwyr ac i ddinasyddion mewn meysydd megis cywerthedd darpariaeth gwasanaeth a mynediad i ddefnyddwyr anabl, tryloywder a chludo rhifau. Mae hefyd yn rhoi cyfrifoldebau newydd i Ofcom mewn meysydd megis diogelwch rhwydwaith a gwytnwch a rhannu seilwaith, ac mae'n ymestyn ein pwerau mewn casglu gwybodaeth a gorfodi. Roeddem wedi:

- cefnogi gwaith y Corff ar gyfer Rheoleiddwyr Cyfathrebiadau Electronig Ewrop (BEREC), sydd wedi disodli'r Grŵp Rheoleiddwyr Ewropeaidd. Roedd y prif faterion i BEREC yn ystod 2010 yn cynnwys crwydro rhyngwladol, atebion rheoleiddiol, rhwydwaith mynediad cenhedlaeth nesaf a niwtraliaeth net;
- cymryd rhan fel rhan o ddirprwyaeth y DU yng Nghynhadledd Plenipotenswyr yr Undeb Telegyfathrebiadau Rhyngwladol. Roeddem wedi cymryd yr awenau ar ymyrraeth lloeren a diwygio Rheoliadau Telegyfathrebiadau Rhyngwladol;
- cryfhau ein cyfraniad at waith yn ymwneud â rheoleiddio cynnwys darlledu a wneir gan Lwyfan Awdurdodau Rheoleiddio Ewrop (EPRA) drwy ein presenoldeb ar Fwrdd EPRA;
- cymryd rhan yn y Grŵp Polisi Sbectrwm Radio a'i weithgorau, gan ddelio â materion a oedd yn cynnwys y Rhaglen Polisi Sbectrwm Radio, y difidend digidol, materion sy'n ymwneud â chystadleuaeth o ran rheoli sbectrwm a thechnolegau gwybyddol;
- cyfrannu, gan weithio'n agos gyda Llywodraeth Prydain a sefydliadau'r UE, at ddatblygu cynigion Agenda Ddigidol yr UE; yn enwedig, strategaeth band eang y Comisiwn Ewropeaidd, a gwaith cysylltiedig ar sbectrwm a rhwydweithiau mynediad cenhedlaeth nesaf; a
- chadeirio'r Gweithgor ar Bolisi Cyfathrebu, Seilwaith a Gwasanaethau sef gweithgor yn y Gymdeithas dros Gydweithrediad a Datblygiad Economaidd, sy'n gweithio ar reoleiddio polisi yn y sector cyfathrebiadau electronig.

## SBECTRWM

**FFIGUR 6: BANDIAU SBECTRWM Y DU**




### BETH YW SBECTRWM?

Sbectrwm yw'r tonnau awyr y mae'r holl gyfathrebu di-wifr yn dibynnu arnynt ac mae'n sail i nifer o'r gwasanaethau cyfathrebiadau mae defnyddwyr yn eu defnyddio heddiw, megis teledu, radio a thelegyfathrebiadau symudol. Mae'n hanfodol i economïau modern ond dim ond hyn a hyn ohono sydd ar gael, sy'n golygu bod llawer iawn o alw amdano.

Mae rhinweddau gwahanol yn perthyn i amleddau gwahanol: bydd signalau dros amleddau is yn teithio yn bellach o lawer nag amleddau uwch ond nid oes modd iddynt gludo cymaint o wybodaeth. Mae'r amleddau y mae'r mwyaf o alw amdanynt rhwng 300 MHz a 3 GHz. Ystyrir mai hwn yw'r prif sbectrwm, neu'r 'man melys' gan ei fod yn addas ar gyfer nifer o gymwysiadau (gweler Ffigur 6).

### PAM MAE SBECTRWM YN BWYSIG?

Mae defnydd masnachol a chyhoeddus sbectrwm yn eithriadol o bwysig i gymdeithas ac i'r economi. Roedd astudiaeth a gynhaliwyd gan Ofcom yn 2006 yn amcangyfrif bod ei ddefnyddio yn sail i dri y cant o Gynnyrch Mewnwladol Crynswth y DU a'i fod yn cynhyrchu buddion gwerth dros £40bn y flwyddyn, ffigur a oedd wedi tyfu o leiaf 50 y cant mewn termau real er 2002. Rydym nawr yn paratoi i werthu dau fand sbectrwm mawr – 800 MHz a 2.6 GHz sydd yn gyfystyr â thri chwarter y sbectrwm symudol sy'n cael ei ddefnyddio heddiw. Mae'r naill fand a'r llall yn yr hyn a elwir yn 'man melys' ac mae wedi'i glustnodi yn yr UE ar gyfer defnydd band eang symudol y genhedlaeth nesaf.

Mae'r cyfuniad o sbectrwm amledd isel ac uchel yn creu'r potensial i gwmnïau ffonau symudol gyflwyno'r bedwaredd genhedlaeth (4G) o wasanaethau symudol ar draws y DU gyda chapasiti da yn ogystal â darpariaeth dda. Dylai gwasanaethau 4G ei gwneud hi'n gynt o lawer pori'r we ar eich dyfais symudol – bydd y cyflymder yn nes at yr hyn rydych chi'n ei gael gyda band eang yn y cartref ar hyn o bryd.

> **"DIM OND HYN A HYN O SBECTRWM SYDD AR GAEL, SY'N GOLYGU BOD LLAWER IAWN O ALW AMDANO."**



## TRWYDDEDU, MONITRO A GORFODI SBECTRWM

Mae Ofcom yn gyfrifol am reoli mynediad dinasyddion i sbectrwm radio. Mae ein gwaith yn ymwneud â rhyddhau sbectrwm at ddefnydd newydd yn ogystal â datblygu polisïau megis prynu a gwerthu sbectrwm a phrisio sbectrwm i sicrhau bod sbectrwm yn cael ei ddefnyddio'n effeithlon. Rydym hefyd yn monitro'r tonnau awyr 24 awr y dydd i ddod o hyd i achosion o ymyrraeth a chymryd camau yn erbyn darlledwyr anghyfreithlon a defnyddwyr dyfeisiau di-wifr heb awdurdod. Roedd rhai o brif feysydd ffocws Ofcom yn ystod y flwyddyn yn cynnwys y canlynol:

### EI GWNEUD YN HAWS PRYNU A GWERTHU SBECTRWM

Roeddem wedi cyflwyno prynu a gwerthu sbectrwm yn 2004. Mae hyn yn golygu bod modd prynu a gwerthu sbectrwm rhwng defnyddwyr ac mae'n cael ei ddefnyddio gan y rheini sy'n gallu cael y budd gorau ohono. Ym mis Ebrill 2010, roeddem wedi symleiddio'r rheolau hyn ar ôl ymgynghori â'r diwydiant i fanteisio ar ddarpariaeth yn y Gyfarwyddeb Fframwaith Ewropeaidd ddiwygiedig i gyflwyno math newydd o brynu a gwerthu o'r enw lesio sbectrwm a fydd yn torri'r costau trafodion ac yn haws ei weithredu.

### DIWEDDARU FFIOEDD SBECTRWM

Mae ffioedd Prisio Anogaeth Weinyddol (AIP), a gyflwynwyd am y tro cyntaf gan yr Asiantaeth Radiogyfathrebu yn 1998, yn un o'r lifrau gallwn ni eu defnyddio pan fo'n briodol i ddarparu cymhelliant er mwyn defnyddio sbectrwm yn effeithlon. Yn 2010/11 roeddem wedi cwblhau ymgynghoriadau ar gyflwyno ffioedd a oedd wedi'u gosod ar egwyddorion AIP i rai trwyddedau VHF morol ac arwyrennol, ac roeddem wedi cyhoeddi ymgynghoriad arall ar fireinio ffioedd ar gyfer rhai trwyddedau VHF awyrennol (daeth yr ymgynghoriad i ben yn 2011/12). Roeddem hefyd wedi parhau ag ymgynghoriad amrywiol, a ddechreuwyd ar ddiwedd 2009/10, ar ein dull gweithredu cyffredinol o ran gosod ffioedd sy'n seiliedig ar AIP, ac o ganlyniad i fewnbwn gan randdeiliaid roeddem yn gallu egluro nifer o elfennau o'n dull gweithredu.

### TRWYDDEDU A GORFODI SBECTRWM

Roeddem wedi adolygu effeithiolrwydd ein gweithdrefnau a'n hoffer trwyddedu yn ystod 2010/11, yn enwedig ar gyfer y rheini sy'n dal trwyddedau Radio Busnes. O ganlyniad, rydym yn bwriadu gwella'r prosesau sy'n ymwneud ag adnewyddu trwyddedau a'u dirymu yn ogystal â threfnu ymweliadau maes ychwanegol gan Swyddogion Peirianneg Maes Ofcom i wneud yn siŵr nad yw offer yn cael ei ddefnyddio ar ôl dirymu trwyddedau. Rydym hefyd yn adolygu ein hoffer Aseinio Technegol mewn perthynas â'r bandiau a'r ardaloedd daearyddol hynny lle ceir tagfeydd.

### AMDDIFFYN Y TONNAU AWYR

Mae darlledu anghyfreithlon yn broblem fawr yn rhai o brif ardaloedd trefol y DU. Mae'r gorsafoedd anghyfreithlon hyn yn gallu achosi ymyrraeth ar wasanaethau diogelwch bywyd allweddol gan gynnwys y gwasanaeth ambiwlans, tân, yr heddlu a rheoli traffig yr awyr – yn ogystal â gorsafoedd trwyddedig y BBC a gorsafoedd radio cymunedol lleol a masnachol. Roeddem wedi datgysylltu 191 o safleoedd trawsyrru ar gyfer gorsafoedd radio anghyfreithlon yn ystod 2010/11, sydd i fyny o 162 yn 2009/10.

### CYNYDDU'R SBECTRWM AR GYFER CYSYLLTIADAU LLOEREN I FYNY ER MWYN CASGLU NEWYDDION

Roeddem wedi darparu sbectrwm ychwanegol ar gyfer cysylltiadau lloeren i fyny Gorsaf Ddaearol Gludadwy, er mwyn diwallu'r galw gan randdeiliaid. Fel rheol bydd Gorsafoedd Daearol Cludadwy yn cael eu defnyddio gan sefydliadau casglu newyddion lloeren er mwyn darparu straeon newyddion dros loeren ar gyfer eu darlledu ymlaen.

### OFCOM YN MYND Â CHYNLLUNIAU RHAGDDYNT AR GYFER TECHNOLEG DDI-WIFR NEWYDD

Roeddem wedi creu cynigion ar gyfer y ffordd y bydd math newydd o gyfathrebu di-wifr o'r enw 'technoleg gofod gwyn' yn gweithio'n ymarferol.

Gofod gwyn yw'r enw a roddir i fandiau sbectrwm nad ydynt yn cael eu defnyddio gan ddeilydd y drwydded mewn lleoliad penodol. Dan amodau penodol, gellid rhoi mynediad i'r sbectrwm hwn, ar yr amod na achosir dim ymyrraeth niweidiol i wasanaethau sydd eisoes yn bodoli. Mewn ymgynghoriadau blaenorol, roeddem wedi dod o hyd i ddulliau a fyddai'n galluogi dyfeisiau i gael mynediad at sbectrwm gofod gwyn mewn ffordd nad yw'n achosi ymyrraeth. Yn ystod 2010/11, roeddem wedi datblygu cynlluniau manylach ar gyfer un dull gweithredu o'r fath – y gronfa ddata daear-leoliad. Yn y bôn, bydd dyfais gofod gwyn yn hysbysu cronfa daear-leoliad o'i lleoliad ac yn gyfnewid caiff ei chyfarwyddo i ddefnyddio ystod o amleddau a lefelau pŵer y pennir nad ydynt yn achosi ymyrraeth niweidiol i ddefnyddwyr sbectrwm eraill.

## CYSTADLEUAETH

Mae gan Ofcom ystod o ddyletswyddau sy'n seiliedig ar hyrwyddo a sicrhau cystadleuaeth. Mae'r rhain yn cynnwys gweithredu polisi cystadleuaeth dan ein pwerau sectoraidd: er enghraifft, adolygu marchnadoedd; gorfodi cyfraith cystadleuaeth, gorfodi cyfraith defnyddwyr a datrys anghydfodau.

Mae gan Ofcom bwerau cydamserol dan Ddeddf Cystadleuaeth 1998 i ddelio ag ymddygiad gwrth-gystadleuol mewn darlledu, sbectrwm a thelegyfathrebiadau. Mae gan Ofcom hefyd y pŵer i ddefnyddio Erthygl 81 ac Erthygl 82 y Cyfamod ar Swyddogaethau'r UE yn ogystal â gwaharddiadau Pennod I a Phennod II y Ddeddf Cystadleuaeth.

Nid yw'r canllawiau hyn yn berthnasol i gwynion am raglenni teledu a radio, cynnwys EPG nac ymyrraeth sbectrwm. Mae rhai o brif benderfyniadau Ofcom yn ystod y flwyddyn wedi cynnwys:

### GOSTWNG FFIOEDD TERFYNU GWASANAETH SYMUDOL

Ym mis Mawrth 2011, roeddem wedi cyhoeddi toriadau mewn cyfraddau terfynu gwasanaeth symudol – y ffioedd cyfanwerthu mae cwmnïau symudol yn eu codi ar gwmnïau eraill i gysylltu galwadau i'w rhwydweithiau – sydd wedi'u dylunio i fod o fudd i ddefnyddwyr yn y DU. Roedd Ofcom wedi gosod rheolau newydd gan gynnwys cap ar y cyfraddau a godir gan y pedwar cwmni rhwydwaith symudol cenedlaethol – 3UK, O2, Everything Everywhere a Vodafone.

Bydd hyn yn arwain at oddeutu 80 y cant o ostyngiad mewn cyfraddau terfynu dros y pedair blynedd nesaf. Bydd cyfraddau terfynu is o fudd i gwsmeriaid mewn dwy ffordd:

- **Gwasanaethau llinell sefydlog rhatach:** Mae cyfraddau terfynu is yn lleihau'r gost i gwmnïau llinellau sefydlog wrth drosglwyddo galwadau i ffonau symudol. Mae Ofcom yn disgwyl y bydd yr arbedion hyn yn cael eu trosglwyddo i ddefnyddwyr ym marchnad llinell sefydlog gystadleuol y DU; a
- **Mwy o ddewis:** Mae cyfraddau terfynu galwadau is yn hybu cystadleuaeth yn y farchnad symudol, gan roi mwy o ddewis i gwsmeriaid. Bydd gan gwmnïau mwy o hyblygrwydd prisio a byddant yn gallu cynyddu'r ystod o becynnau sydd ar gael i ddefnyddwyr.

Yn dilyn ein cyhoeddiad, dywedodd BT a TalkTalk y byddent yn cynnwys galwadau i ffonau symudol yn rhai o'u pecynnau ffôn llinell sefydlog. Rydym yn disgwyl gweld y manteision hyn yn dwyn ffrwyth mewn cyfnodau adrodd yn y dyfodol.

### CEFNOGI DYFODOL BAND EANG CYFLYM IAWN Y DU

Ym mis Hydref 2010, roeddem wedi amlinellu mesurau i hyrwyddo cystadleuaeth a buddsoddiad mewn gwasanaethau band eang cyflym iawn ledled y DU, a oedd yn golygu dau brif ymyriad:

- **Darparu gwasanaethau cystadleuol dros linellau ffibr BT:** roeddem wedi symud i sicrhau bod cystadleuwyr yn gallu cael gafael ar rith ddolen arbennig dros y llinellau ffibr newydd a oedd wedi'u gosod gan BT (a elwir yn rhith ddad-fwndelu). Bydd hyn yn rhoi rheolaeth i gwmnïau eraill dros y llinellau er mwyn darparu gwasanaethau band eang cyflym iawn i'w cwsmeriaid eu hunain; a
- **Rhoi mynediad i bibellau tanddaearol a pholion telegraff:** daethom i'r casgliad y dylid mynnu bod BT yn cynnig mynediad i'w 'bibellau' tanddaearol a'i bolion telegraff i'w gystadleuwyr.

### PENSIYNAU BT

Dros y blynyddoedd diwethaf, mae cynlluniau pensiwn 'buddion wedi'u diffinio' cwmnïau wedi cyrraedd y penawdau newyddion wrth i ddiffygion cynlluniau dyfu. Ym mis Rhagfyr 2009, gwnaethom gyhoeddi ymgynghoriad ynghylch y ffordd roeddem yn cynnig ystyried costau pensiwn BT pan fyddwn yn pennu'r prisiau rheoledig y caiff BT Openreach eu codi ar ddarparwyr cyfathrebiadau eraill am ddarparu gwasanaethau i ddefnyddwyr.

Roeddem wedi cyhoeddi ymgynghoriad arall ym mis Gorffennaf 2010, a datganiad terfynol ym mis Rhagfyr 2010. Daethom i'r casgliad nad oedd digon o gyfiawnhad dros newid y ffordd roeddem yn trin costau cyllido pensiwn. Canlyniad olaf ein datganiad oedd cyfres o Ganllawiau Pensiynau, yr ydym yn eu defnyddio fesul achos wrth asesu prisiau rheoledig ar gyfer BT.

### PROJECT CANVAS (YOUVIEW)

Mae Project Canvas, sydd nawr yn cael ei frandio fel YouView, yn bartneriaeth rhwng y BBC, ITV, Channel 4, Five, BT, TalkTalk ac Arqiva, a fydd yn cynnig sianeli daearol digidol a'r rhyngrwyd a fydd yn cael eu darparu drwy wasanaethau teledu ar alw drwy flwch a fydd yn cael ei gysylltu â setiau teledu gwylwyr. Ar hyn o bryd, disgwylir iddo gael ei lansio ddechrau 2012.

Yn 2010, roedd Virgin Media ac IP Vision wedi cwyno wrth Ofcom y gallai elfennau o'r prosiect fynd yn groes i gyfraith cystadleuaeth. Roedd un ar ddeg o bartïon eraill hefyd wedi cysylltu â ni gyda phryderon. Roeddem wedi penderfynu na fyddem yn agor ymchwiliad, gan nodi bod IPTV (teledu protocol Rhyngrwyd) yn dal yn sector sy'n datblygu. Daethom hefyd i'r casgliad ei bod yn debyg y byddai YouView yn dod â manteision i wylwyr ac i ddefnyddwyr.

# SUT RYDYM YN RHEOLI RISGIAU A SIALENSIAU

Mae rheoli risg yn rhan annatod o'n gweithgareddau busnes o un diwrnod i'r llall ac mae'n gydran allweddol o'n fframwaith rheolaeth fewnol. Mae polisi rheoli risg Ofcom yn diffinio ein dull o reoli risg yn glir yn ogystal ag yn diffinio'r swyddogaethau a'r cyfrifoldebau rheoli risg penodol sy'n bodoli ar draws y sefydliad.

I wneud yn siŵr bod ein fframwaith rheoli risg yn adlewyrchu'r arfer gorau a'i fod wedi'i alinio â gofynion y busnes, byddwn yn cynnal adolygiad risg blynyddol sy'n cynnwys ymarfer i feincnodi ein prosesau yn ôl Fframwaith Asesu Rheoli Risg Trysorlys EM. Bydd argymhellion o'r adolygiad risg hwn yn cael eu cymeradwyo gan uwch reolwyr a'r Pwyllgor Risg ac Archwilio, ac yn rhan o'n rhaglen barhaus i wella ein fframwaith rheolaeth fewnol. Mae'r tabl isod yn tynnu sylw at rai o'r risgiau allweddol y mae'r sefydliad yn rhoi sylw iddynt ar hyn o bryd.

| RISG | EFFAITH | LLINIARIAD |
|---|---|---|
| Mae mwy a mwy o apeliadau a chyfreitha yn effeithio ar allu Ofcom i reoleiddio mewn ffordd effeithlon ac amserol. | Oedi posibl wrth weithredu newidiadau rheoleiddio, sy'n atal defnyddwyr rhag elwa arnynt ar y cyfle cyntaf ac sy'n gallu ymyrryd ar gystadleuaeth effeithiol yn y marchnadoedd rydym yn eu rheoleiddio.<br><br>Mae hefyd yn gallu gwneud rheoleiddio yn ddrutach i'r rhanddeiliaid sy'n cyllido Ofcom. | Rydym yn gwneud yn siŵr bod ein penderfyniadau'n seiliedig ar dystiolaeth a'u bod yn gadarn ac rydym yn cynnal asesiadau o'r effaith i fesur yr effaith debygol ar randdeiliaid.<br><br>Rydym yn ymgysylltu â rhanddeiliaid drwy ein prosesau ymgynghori i wneud yn siŵr ein bod yn deall eu safbwyntiau a'n bod yn gallu eu hystyried.<br><br>Mae'r Llywodraeth yn ystyried newid safon yr adolygiad y mae ei angen ar gyfer apêl. |
| Mae'r cynlluniau a'r amserlen sydd ar waith i ddarparu sbectrwm ychwanegol ar gyfer gwasanaethau symudol newydd yn heriol. | Gallai oedi effeithio ar argaeledd gwasanaethau telegyfathrebiadau newydd i ddefnyddwyr ac i ddinasyddion, gan gynnwys band eang symudol. | Rydym wedi rhoi adnoddau medrus iawn ar waith, a byddwn yn defnyddio arbenigedd rheoli rhaglenni proffesiynol i helpu i sicrhau bod y cynlluniau'n cael eu cyflawni'n amserol.<br><br>Rydym yn cadw cysylltiad agos â'r Llywodraeth. |
| Mae'r sectorau sy'n cael eu rheoleiddio gan Ofcom yn newid yn gyflym sy'n golygu ei bod yn anodd datblygu cynlluniau i ragweld gweithgareddau neu ddigwyddiadau mawr a allai ofyn am gyfranogiad gan Ofcom. | Gallai gwaith ychwanegol heb ei gynllunio effeithio ar brosiectau parhaus a phrosiectau ar y gweill a allai arwain at oedi wrth gyflwyno manteision i ddefnyddwyr ac i ddinasyddion. | Rydym yn ceisio cynnal ystod o arbenigedd a chwmpas ar gyfer hyblygrwydd mewn timau prosiectau er mwyn i ni allu addasu neu symud adnoddau ar fyr rybudd os oes angen.<br><br>Mae Pwyllgor Gwaith Ofcom yn gyfrifol am flaenoriaethu prosiectau ac addasu cynlluniau gwaith yn ôl y galw. Rydym wedi cryfhau ein prosesau cynllunio prosiect i sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio yn y ffordd orau. |
| Gallai cynlluniau'r Llywodraeth i ddiwygio'r trefniadau rheoleiddio defnyddwyr a chystadleuaeth ac i gyflwyno Deddf Cyfathrebiadau newydd arwain at rywfaint o ansicrwydd tymor byr ynghylch y fframwaith rheoleiddio tebygol y bydd Ofcom yn ei ddilyn. | Gallai ansicrwydd arwain at oedi gyda rhai gweithgareddau neu reoleiddio mewn meysydd y mae'n debyg y bydd y newidiadau yn effeithio arnynt. | Rydym yn cysylltu â'r Llywodraeth er mwyn ein galluogi i gynllunio ein gwaith yn effeithiol. |
| Mae'r Mesur Gwasanaethau Post yn gofyn am drosglwyddo rheoleiddio gwasanaethau post o Postcomm i Ofcom. | Posibilrwydd amharu ar y diwydiant, ar ddefnyddwyr ac ar staff yn Postcomm ac yn Ofcom. | Rydym yn bwriadu gweithio gyda Postcomm cymaint ag sy'n ymarferol er mwyn cynnal sefydlogrwydd rheoleiddio i ddefnyddwyr ac i weithredwyr.<br><br>Mae'r Llywodraeth wedi cyhoeddi penodi aelodau Bwrdd Ofcom ar Fwrdd Postcomm er mwyn helpu yn ystod y cyfnod o newid. |

# SUT RYDYM YN GWEITHIO A PHWY RYDYM YN GWEITHIO GYDA NHW

## Mae Deddf Cyfathrebiadau 2003 yn cynnwys dyletswyddau statudol Ofcom. A ninnau yn rheoleiddiwr annibynnol y diwydiannau cyfathrebiadau, mae gofyn i ni hyrwyddo buddiannau dinasyddion a defnyddwyr.

Cawn ein cyllido gan fwyaf drwy gyfuniad o gyllid gan randdeiliaid (ffioedd trwyddedau darlledwyr teledu a radio a ffioedd gweinyddol i reoleiddio rhwydweithiau cyfathrebiadau) a chyllid cymorth grant. Mae rhagor o fanylion am ein trefniadau cyllido ar gael yn ein Fframwaith Ariannol ar dudalen 43. Ym mis Ionawr 2011, roeddem wedi cyhoeddi ein Cynllun Blynyddol drafft a oedd yn cynnig ein blaenoriaethau a'n rhaglen waith arfaethedig ar gyfer y flwyddyn er mwyn ymgynghori arnynt. Cafodd fersiwn terfynol y Cynllun ei gyhoeddi ar ddechrau'r flwyddyn ariannol. Mae'r Cynllun yn rhoi'r cydbwysedd rhwng cynlluniau newydd a'r gweithgareddau parhaus rydym yn eu gwneud i gefnogi ein dyletswyddau.

Yn 2010, fel rhan o'r Rhaglen Adolygu Gwariant, roeddem wedi adolygu ein strwythur llywodraethu ac wedi egluro swyddogaethau Pwyllgor Gwaith Ofcom a'r Weithrediaeth Polisi.

Mae Pwyllgor Gwaith Ofcom yn cynnwys uwch swyddogion Ofcom ac mae'n gyfrifol am oruchwylio rheoli Ofcom a sicrhau cysondeb lefel uchaf rhwng y grwpiau gwahanol yn y sefydliad. Mae'r Weithrediaeth Polisi yn gyfrifol am fonitro, llywio a chynghori ar ddatblygu agenda polisi gyffredinol Ofcom. Bydd Pwyllgor Gwaith Ofcom yn cwrdd bob mis a bydd y Weithrediaeth Polisi yn cwrdd bob wythnos.

Roeddem wedi lansio cyfres o ymgynghoriadau yn 2010 yn edrych ar ffyrdd o wella ein prosesau. Roedd y rhain yn cynnwys:

- canllawiau datrys anghydfod ar gyfer delio ag anghydfodau rheoleiddio;
- adolygu gweithdrefnau ar gyfer delio â chwynion, ymchwiliadau a sancsiynau darlledu;
- gweithdrefnau ar gyfer delio ag apeliadau ar gwmpas, ac ar gyfer rhoi sancsiynau mewn perthynas â gwasanaethau rhaglenni ar alw; a
- chanllawiau cosb.

### MESUR A RHANNU CANLYNIADAU

Yn ein Cynllun Blynyddol 2010/11, roeddem wedi dod o hyd i 13 'Prif Faes Gwaith' gyda dros 60 o brosiectau a rhaglenni wedi'u dyrannu yn eu herbyn yn ein 'Rhaglen Waith' a gyhoeddwyd. Mae Ofcom wedi dod yn ei flaen yn dda o ran cyflawni canlyniadau yn erbyn ei waith 'Prif Feysydd Gwaith' a'i waith 'Busnes yn ôl yr Arfer' yn 2010/11.

Yn y pen draw, credwn y dylid barnu ein perfformiad drwy gyfeirio at y canlyniadau yr ydym wedi'u sicrhau i ddinasyddion ac i ddefnyddwyr. Rydym yn mesur y canlyniadau hyn mewn sawl ffordd gan ddefnyddio fframwaith cynhwysfawr a chadarn ar gyfer mesur ein perfformiad, adrodd arno a rhoi gwybod amdano, yn fewnol ac yn allanol.

Rydym yn cyhoeddi data yn barhaus mewn ystod o gyhoeddiadau Ofcom megis yr Adroddiad Marchnad Cyfathrebu, Adroddiad Marchnad Cyfathrebu Rhyngwladol, Adroddiad Profiad Defnyddwyr a'r Adroddiad Blynyddol Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus. Rydym hefyd yn cynnal ymchwil defnyddwyr manwl o bryd i'w gilydd, a byddwn yn cyhoeddi hyn ar ffurf hygyrch ar ein gwefan.

### PRYD BYDDWN YN RHEOLEIDDIO

Mae Deddf Cyfathrebiadau 2003 yn mynnu ein bod yn rhoi sylw i egwyddorion rheoleiddio gwell: y dylai rheoleiddio fod yn dryloyw, yn

gymesur, yn gyson, yn atebol ac wedi'i dargedu dim ond at achosion y mae angen gweithredu yn eu cylch. Pan sefydlwyd Ofcom, buom yn ehangu'r egwyddorion hyn drwy ddatblygu set fwy penodol o egwyddorion rheoleiddio a fyddai'n sail i'n gwaith beunyddiol. Am fod y sector cyfathrebiadau'n newid mor gyflym mae'n bwysig iawn fod gennym egwyddorion clir i'n tywys: maent wedi'u nodi yn y blwch isod.


## LLEIHAU RHEOLEIDDIO

Un o elfennau allweddol rheoleiddio gwell yw sicrhau bod rheoleiddio'n cael ei dargedu'n briodol ac nad yw'n gosod beichiau gormodol ar randdeiliaid. Ym mis Ebrill 2011, roeddem wedi cyhoeddi manylion ein cynlluniau symleiddio yn ein Cynllun Blynyddol 2011/12. Mae'r Cynllun Symleiddio hwn yn nodi'r holl gamau rydym yn eu cymryd i ddileu neu i leihau rheoleiddio. Mae'n dangos sut rydym yn cyflawni'n dyletswydd o dan Adran 6 o'r Ddeddf Cyfathrebiadau i leihau'r baich rheoleiddio ar ein rhanddeiliaid.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi gwneud nifer o benderfyniadau rheoleiddio pwysig. Roedd rhai penderfyniadau'n gadael inni barhau â'n tueddiad i leihau rheoleiddio. Roedd penderfyniadau eraill yn gofyn am ragor o reoleiddio er mwyn cael y canlyniadau gorau posibl i ddinasyddion ac i ddefnyddwyr. Mae Ffigur 7 yn rhoi golwg gyffredinol ar sut mae'r baich rheoleiddio ar randdeiliaid wedi newid o ganlyniad i ddatganiadau a phenderfyniadau rheoleiddio Ofcom yn 2010/11. Mae'n dangos bod 29 y cant o ddatganiadau a phenderfyniadau a gyhoeddwyd yn ystod y flwyddyn wedi arwain at lai o faich rheoleiddio ar ein rhanddeiliaid. Nid oedd pum deg a phedwar y cant o ddatganiadau wedi arwain at newid mewn baich rheoleiddio neu mae'r gwaith yn parhau; arweiniodd 14 y cant at gyflwyno rheoleiddio newydd neu fwy o reoleiddio ac roedd tri y cant wedi arwain at ganlyniadau symlach neu gyd-reoleiddio.

**FFIGUR 7: EFFAITH EIN DATGANIADAU AR Y BAICH RHEOLEIDDIO AR RANDDEILIAID YN 2010/11**

O'R 59 PRIF DDATGANIADAU A WNAED YN YSTOD Y FLWYDDYN:




Llai o reoleiddio | Symleiddio/rheoleiddio ar y cyd
Cymysg/dim newid/parhaus | Mwy o reoleiddio/rheoliadau newydd

### EGWYDDORION RHEOLEIDDIO OFCOM

#### PRYD BYDDWN YN RHEOLEIDDIO

Bydd Ofcom yn gweithredu gyda gogwydd yn erbyn ymyrryd, ond â pharodrwydd i ymyrryd yn ddiymdroi ac yn effeithiol pan fydd angen.

Bydd Ofcom yn ymyrryd pan fydd dyletswydd statudol benodol i weithio at nod na all y marchnadoedd ei gyflawni ar eu pen eu hunain.

#### SUT RYDYM YN RHEOLEIDDIO

Bydd Ofcom bob amser yn ceisio defnyddio'r dulliau rheoleiddio lleiaf ymwthiol er mwyn cyflawni ein hamcanion.

Bydd Ofcom yn ceisio sicrhau bod ymyriadau ar sail tystiolaeth, yn gymesur, yn gyson, yn atebol ac yn dryloyw o ran ystyriaeth ac o ran canlyniadau. Bydd Ofcom yn rheoleiddio gyda chynllun blynyddol a fydd wedi'i fynegi'n glir ac wedi'i adolygu'n gyhoeddus, ynghyd ag amcanion sydd wedi'u datgan.

#### SUT BYDDWN YN CEFNOGI RHEOLEIDDIO

Bydd Ofcom yn ymchwilio i farchnadoedd yn gyson ac yn ceisio aros ar flaen y gad o ran dealltwriaeth dechnolegol.

Bydd Ofcom yn ymgynghori'n eang â'r holl randdeiliaid perthnasol ac yn asesu effaith camau rheoleiddio cyn rheoleiddio marchnad.

Yn benodol, rydym yn cymryd camau pendant ac effeithiol i ddiogelu dinasyddion a defnyddwyr lle bo angen, er enghraifft:

- ein gwaith i ostwng ffioedd terfynu galwadau symudol;
- mynd i'r afael â galwadau mud a galwadau sy'n cael eu gadael; a
- lleihau ffioedd terfynu cynnar.

Rydym wedi ymrwymo i leihau rheoleiddio, er enghraifft drwy:

- adolygu'r Cod Darlledu i ganiatáu cyfeiriadau masnachol ar deledu a radio; a
- ei gwneud yn haws prynu a gwerthu sbectrwm.

Roeddem hefyd wedi dileu nifer o reolau sy'n llywodraethu'r ffordd mae amser ar yr awyr yn cael ei werthu i hysbysebwyr a phrynwyr cyfryngau. Roedd y Rheolau Gwerthu Amser ar yr Awyr, a gafodd eu codi ym mis Medi 2010, yn mynnu bod ITV1, Channel 4 a Five yn gwerthu eu hamser hysbysebu ar yr awyr i gyd, ac roedd yn cyfyngu ar y ffordd caiff pob darlledwr werthu bwndeli o amser hysbysebu ar yr awyr ar draws eu portffolios o sianeli.

Ers cyflwyno'r rheolau, bu datblygiadau sylweddol yn y sector teledu a chynnydd sylweddol yn nifer y sianeli. Mae hyn wedi arwain at gynulleidfaoedd teledu sy'n fwy tameidiog ac mae wedi galluogi prynwyr cyfryngau i brynu amser ar yr awyr ar draws llawer mwy o sianeli.

Roeddem wedi cymryd camau i ddadreoleiddio'r sector radio lleol masnachol drwy ganiatáu i orsafoedd FM lleol gyd-leoli a rhannu eu holl raglenni o fewn ardaloedd cymeradwy, gan eu galluogi i uno i greu gorsafoedd mwy ac sy'n fwy hyfyw yn ariannol. Rhaid i'r grwpiau hyn o orsafoedd barhau i ddiwallu rhwymedigaethau eu trwydded er mwyn darparu deunydd lleol sy'n berthnasol i'w gwrandawyr yn eu hardaloedd trwyddedig, gan gynnwys bwletinau newyddion lleol.

Mae'r atodiad yn cynnwys golwg gyffredinol o'r prif ddatganiadau a phenderfyniadau allweddol rydym wedi'u gwneud yn ystod y flwyddyn: Rhestr o'r datganiadau a gyhoeddwyd yn 2010/11 gan gynnwys yr effaith rheoleiddio, ar dudalen 96.

## PERTHYNAS Â RHANDDEILIAID

Mae swyddogaeth Ofcom fel rheoleiddiwr yn mynnu ein bod yn ymgysylltu ag ystod eang o randdeiliaid, gan gynnwys cwmnïau a chyrff diwydiannau yn y sectorau rydym yn eu rheoleiddio, grwpiau defnyddwyr a defnyddwyr, Llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig, cyd-reoleiddwyr a rheoleiddwyr eraill. Rydym hefyd yn ymgysylltu â sefydliadau a chyrff rheoleiddio rhyngwladol amrywiol.

## YMGYNGHORI

Mae ymgynghori yn rhoi cyfle i graffu'n iawn ar ein cynigion polisi cyn i ni wneud penderfyniad. Os bydd cyfnod ymgynghori yn rhy fyr, efallai na fydd gan y rheini sydd â barn bwysig i'w chyfleu ddigon o amser i baratoi eu hymatebion. Os bydd yn rhy hir, efallai y bydd y farchnad dan sylw wedi newid yn ddramatig. Gallai hyn effeithio ar ein gallu i ddelio â mater cyn gynted ag y byddai'r rhanddeiliaid dan sylw'n ei hoffi. Pan fyddwn yn penderfynu ar hyd cyfnod ymgynghoriad, mae angen inni gael y cydbwysedd iawn rhwng y ddwy ystyriaeth hyn. Yn gyffredinol, ceir tri chategori o ymgynghoriad:

- **Categori 1:** ymgynghoriadau sy'n cynnwys cynlluniau polisi o bwys a/neu sydd o ddiddordeb i amrywiaeth eang o randdeiliaid (yn enwedig y rheini y bydd angen mwy o amser arnynt efallai ar gyfer ymateb); yn yr achosion hyn byddwn yn ymgynghori am ddeg wythnos.
- **Categori 2**: ymgynghoriadau sy'n cynnwys cynigion polisi pwysig ond a fydd o ddiddordeb i nifer cyfyngedig o randdeiliaid a fydd

### CYSWLLT Â DEFNYDDWYR A DINASYDDION

Er mwyn ein helpu ni i ddeall buddiannau defnyddwyr a dinasyddion, mae Ofcom wedi mabwysiadu ystod o ddulliau gweithredu a chysylltiadau â rhanddeiliaid. Mae hyn yn cynnwys defnyddio ymchwil marchnad yn helaeth i ddeall patrymau sy'n ymwneud â'r nifer sy'n defnyddio gwasanaethau cyfathrebiadau a sut maent yn eu defnyddio ac ymddygiad a phryderon defnyddwyr. Mae ein Hadroddiadau Profiad Defnyddwyr a Marchnad Cyfathrebu blynyddol, yn benodol, yn amlygu ac yn dadansoddi'r patrymau hyn.

Mae Tîm Cyswllt Defnyddwyr Ofcom yn cael dros 100,000 o alwadau'n uniongyrchol gan ddefnyddwyr bob blwyddyn ac mae'r wybodaeth a gawn gan ddefnyddwyr yn ein helpu i dargedu ein polisïau a'n gwaith gorfodi. Er na allwn ddatrys cwynion unigol am wasanaethau telegyfathrebiadau, rydym yn cynghori'r rheini sy'n cwyno ac yn eu cyfeirio at gynlluniau Dulliau Amgen o Ddatrys Anghydfodau sydd wedi cael eu cymeradwyo gennym.

Mae'r Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau ac, o safbwynt pob un o wledydd y DU, Pwyllgor y Gwledydd a Phwyllgorau Cynghori Ofcom, yn darparu cyngor ar bolisïau Ofcom. Bydd y Fforwm Defnyddwyr ar Gyfathrebiadau, sydd â dros 40 o aelodau o gyrff defnyddwyr, yn cwrdd bob chwarter ag Ofcom i drafod a rhannu gwybodaeth am bynciau polisïau defnyddwyr. Byddwn hefyd yn cynnal cyfarfodydd dwyochrog rheolaidd gyda sefydliadau rhanddeiliaid defnyddwyr yn ogystal â chyfarfodydd ymgynghori ar bynciau penodol.

yn ymwybodol o'r materion; yn yr achosion hyn byddwn yn ymgynghori am chwe wythnos.

- **Categori 3:** ymgynghoriadau sy'n dod o fewn un neu fwy o'r categorïau canlynol, gyda'r cyfnod ar gyfer ymgynghori yn fis:
  - materion technegol;
  - lle bydd angen cwblhau prosiect o fewn amserlen benodol oherwydd datblygiadau yn y farchnad neu ffactorau eraill lle mae gofyn cwblhau'r prosiect mewn cyfnod byr;
  - bod y mater eisoes wedi bod yn destun ymgynghori;
  - lle na chaiff cynnig fawr o effaith ar farchnad; neu
  - lle nad yw cynnig ond yn fân newid i bolisi neu reoleiddiad sy'n bodoli eisoes.

Yn Ffigur 8 dadansoddir hyd ein hymgynghoriadau ar bolisïau fesul sector. Bydd cyfnod ymgynghori hwy'n rhoi mwy o gyfle i ymateb ac ymwneud mwy â phenderfyniadau ynghylch polisi. Mae hyn yn arbennig o bwysig pan fydd y mater yr ymgynghorir yn ei gylch o bwys mawr. Yn 2010/11, roedd 26 y cant o'n hymgynghoriadau wedi para o leiaf ddeg wythnos, o'i gymharu â 51 y cant yn 2009/10 a 52 y cant yn 2008/09.


Mae Ofcom yn casglu ystadegau am nifer yr ymatebion i ymgynghoriadau, a ddangosir yn Ffigur 9. Mae'r siart yn dangos y nifer mawr o ymatebion rydym wedi'u cael dros y flwyddyn, ar sail y 59 o ymgynghoriadau lle'r oeddem wedyn wedi cyhoeddi datganiad. Cafwyd amrywiaeth eang iawn o ymatebion i ddeg ymgynghoriad (h.y. 31 neu fwy). Mae hyn yn llai nag yn 2009/10 lle cafwyd 31 neu fwy o ymatebion i bedwar ymgynghoriad. Roedd dros hanner yr ymgynghoriadau wedi denu deg ymateb neu lai.

**FFIGUR 8: DADANSODDIAD O HYD YMGYNGHORIADAU 2010/11**


| | Cyfnod ymgynghori o leiaf 10 wythnos o hyd | Cyfnod ymgynghori llai na 10 wythnos (gan gynnwys ymgynghoriadau categori 2 a chategori 3) |
|---|---|---|
| Telegyfathrebu | 11 | 23 |
| Darlledu | 4 | 20 |
| Sbectwm | 1 | 4 |
| Arall | 1 | 1 |
| **Cyfanswm** | **17** | **48** |
| | **(26%)** | **(74%)** |

> **YN 2010/11, ROEDD 26% O'N HYMGYNGHORIADAU WEDI PARA O LEIAF DDEG WYTHNOS, O'I GYMHARU Â 51% YN 2009/10."**

**FFIGUR 9: YMATEBION I YMGYNGHORIADAU 2010/11**



**FFIGUR 10: DADANSODDIAD O'R AMSER A GYMERWYD I GYHOEDDI PENDERFYNIAD OFCOM AR ÔL I'R CYFNOD YMGYNGHORI DDOD I BEN 2010/11**




## GWNEUD PENDERFYNIADAU'N BRYDLON

Rydym hefyd yn dadansoddi pa mor hir mae'n ei gymryd i ni gyhoeddi penderfyniad ar ôl i ymgynghoriad ddod i ben (gweler Ffigur 10). Yn ystod 2010/11 cyhoeddwyd y rhan fwyaf o'r penderfyniadau (29) cyn pen llai na deg wythnos ar ôl cau ymgynghoriad, a oedd 12 yn uwch na 2009/10. Roedd nifer y penderfyniadau a gafodd eu cyhoeddi rhwng 11 a 20 wythnos ar ôl i'r ymgynghoriad ddod i ben yn 12, a oedd yn ostyngiad o un flwyddyn i'r llall.

## ASESIADAU O'R EFFAITH

Mae Asesiadau o'r Effaith yn rhan bwysig o'r broses llunio polisïau. Mae Adran 7 o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 yn ei gwneud yn ofynnol inni gynnal Asesiad o'r Effaith lle rydym yn bwriadu gwneud unrhyw beth er mwyn cyflawni ein swyddogaethau neu mewn cysylltiad â chyflawni ein swyddogaethau, a lle teimlwn fod y cynnig yn bwysig. Maent yn sicrhau, ymysg pethau eraill, yng nghyswllt ein penderfyniadau polisi:

- bod ystod eang o ddewisiadau'n cael eu hystyried, gan gynnwys y dewis i beidio â rheoleiddio;
- bod y dewisiadau hyn yn cael eu cyflwyno'n glir;
- bod effeithiau posibl pob dewis yn cael eu dadansoddi'n ofalus; ac
- y bydd y manteision yn fwy na'r costau sy'n gysylltiedig â'r dewis a ddewisir.

Rhaid i Ofcom gyhoeddi rhestr o'r Asesiadau o'r Effaith sydd wedi cael eu cynnal yn ystod y flwyddyn, sy'n ymddangos yma yn yr atodiad 1 ar dudalen 99.

Ym mis Gorffennaf 2005, roeddem wedi cyhoeddi canllawiau *Arferion gorau wrth lunio polisïau: agwedd Ofcom at asesu effaith* a oedd yn pwysleisio ymrwymiad Ofcom i gynnal asesiadau fel rhan greiddiol o'r broses llunio polisïau gan ddweud ein bod yn disgwyl cynnal Asesiadau o'r Effaith ym mwyafrif helaeth ein penderfyniadau ar bolisïau.

Roedd pum deg naw y cant o ddogfennau ymgynghori'n cynnwys asesiad o'r effaith wedi'i labelu'n glir, ac wedi'i osod mewn adran neu atodiad penodol o'r ddogfen ymgynghori (63 y cant yn 2009/10). (Gweler Ffigur 11.)

Efallai y bydd dogfennau ymgynghori heb Asesiad o'r Effaith penodol yn dal yn cynnwys asesiadau ymhlyg o effaith wedi'u cyfuno drwy'r holl ddogfen. Ar ben hynny, dan rai amgylchiadau efallai na fydd angen cynnal Asesiad o'r Effaith neu efallai na fydd yn briodol ei gynnal. Byddwn yn parhau i sicrhau bod asesiadau o'r effaith yn cael eu cynnal ac yn cael eu cyflwyno'n briodol ymhob achos perthnasol.

**FFIGUR 11: DADANSODDIAD O'R ASESIADAU O'R EFFAITH A GYNHALIWYD**

| Nifer y dogfennau ymgynghori | Cyfanswm | Asesiad o'r Effaith ymhlyg yn y ddogfen a gyhoeddwyd |
|---|---|---|
| Telegyfathrebiadau | 34 | 25 |
| Darlledu | 14 | 13 |
| Sbectrwm | 21 | 4 |
| Arall | 2 | – |
| **Cyfanswm** | **71** | **42** |
| | | **(=59.1%)** |

## DYLETSWYDDAU NEWYDD A DIWYGIEDIG

Rydym hefyd yn gweithredu ein dyletswyddau newydd neu ddiwygiedig. Ceir nifer o ddiwygiadau i ddeddfwriaeth y DU a weithredir neu a gynigir gan y Llywodraeth ac sy'n cael ei hystyried gan y Senedd a fydd yn newid ein dyletswyddau. Bydd rhai o'r rhain yn ein galluogi i leihau ein costau a bydd rhai eraill yn mynnu ein bod yn ysgwyddo cyfrifoldebau newydd. Maent yn cynnwys:

- gweithredu'r darpariaethau yn Neddf Economi Ddigidol 2010 sydd wedi'u hanelu at fynd i'r afael â thorri hawlfraint ar-lein;
- Gorchymyn posibl dan y Mesur Cyrff Cyhoeddus. Drwy hwn mae'r Llywodraeth wedi cynnig lleihau dyletswyddau Ofcom mewn rhai meysydd; er enghraifft, pa mor aml y cynhelir adolygiadau perchnogaeth cyfryngau ac adolygiadau darlledu gwasanaeth cyhoeddus; a
- throsglwyddo rheoleiddio gwasanaethau post i Ofcom gan Postcomm, a gynigir yn y Mesur Gwasanaethau Post.

Ceir gofynion hefyd i Ofcom gydymffurfio â darpariaethau penodol y Fframwaith Cyfathrebiadau Ewropeaidd diwygiedig. Mae'r rhain yn cynnwys:

- adolygu ein Hamodau Cyffredinol ac Amodau Gwasanaethau Cyffredinol;
- newidiadau i'r prosesau datrys anghydfodau a gorfodi; a
- diwygiadau i'n prosesau adolygu'r farchnad; er enghraifft y gofyniad i gynnal adolygiadau o'r farchnad mewn rhai marchnadoedd bob tair blynedd.

Byddwn hefyd yn parhau i ymgysylltu â'r Comisiwn Ewropeaidd ar ei Raglen Polisi Sbectrwm Radio, gyda golwg ar gefnogi cynigion sy'n cyd-fynd â'n hamserlen i newid i'r digidol a chlirio'r sbectrwm.

Roedd y Cynllun Gweithredu Radio Digidol, a gyhoeddwyd gan y Llywodraeth ym mis Gorffennaf 2010, yn mynnu bod Ofcom yn cyhoeddi adroddiad blynyddol ar argaeledd gwasanaethau radio digidol a'r nifer sy'n eu defnyddio. Roeddem wedi cyhoeddi ein Hadroddiad Cynnydd Digidol blynyddol cyntaf ar gyfer radio ym mis Gorffennaf 2010.

## CYD-REOLEIDDWYR

Mae Ofcom yn rhannu cyfrifoldebau rheoleiddio mewn rhai meysydd â rheoleiddwyr eraill. Roedd Ofcom wedi trosglwyddo'r cyfrifoldeb dros ddelio â chwynion sy'n ymwneud â chynnwys golygyddol ar wasanaethau fideo ar alw yn y DU i'w bartner cyd-reoleiddio sef yr Awdurdod Teledu Ar Alw, y Gymdeithas Teledu Ar Alw gynt. Roedd Ofcom wedi dynodi mai'r Awdurdod Teledu Ar Alw fyddai'n gyd-reoleiddiwr cynnwys golygyddol Fideo Ar Alw ar 18 Mawrth 2010. Roedd Ofcom wedi dynodi mai'r Awdurdod Safonau Hysbysebu (ASA) fyddai'r awdurdod rheoleiddio priodol mewn perthynas â hysbysebu ar wasanaethau fideo ar alw a hysbysir wrth yr Awdurdod Teledu Ar Alw.

Mae PhonepayPlus yn gorff rheoleiddio arall sy'n gweithio gyda'r diwydiant ac yn gorfodi cod ymarfer ar gyfer gwasanaethau cyfraddau premiwm. Mae'n rheoleiddio gwasanaethau cyfradd premiwm o ddydd i ddydd, sy'n galluogi defnyddwyr i brynu nwyddau a gwasanaethau drwy ychwanegu'r gost at eu biliau ffôn a'u cyfrifon talu ymlaen llaw.

# EIN GWEITHWYR

## CENHADAETH A GWERTHOEDD OFCOM

Mae Aelodau Bwrdd a chydweithwyr Ofcom yn rhannu'r un ymrwymiad i genhadaeth a gwerthoedd Ofcom ac maent yn cyflawni gwaith y sefydliad gan gyfeirio at y gwerthoedd craidd hyn. Yr oedd cydweithwyr o bob rhan o'r sefydliad yn allweddol wrth ddatblygu'r chwech o werthoedd sy'n adlewyrchu ein dymuniad i weithio mewn ffordd agored, effeithiol ac sy'n canolbwyntio ar bobl.

Rydym yn gwneud ein gorau glas i fod yn ddeinamig, yn ymatebol ac yn ymwybodol yn fasnachol: mae meddwl yn bendant, dadansoddi'n drwyadl ar sail tystiolaeth ac ymgysylltu â rhanddeiliaid yn allweddol i'n heffeithiolrwydd fel sefydliad. Dyma werthoedd Ofcom: cyfathrebu'n agored ac yn onest; gwrando â meddwl agored; gwneud gwahaniaeth; grymuso a blaenoriaethu; buddsoddi yn ein cydweithwyr a'u cefnogi; a chydweithio gwirioneddol.

## AILSTRWYTHURO'R SEFYDLIAD

Dros bedair blynedd hyd at 2014/15 bydd Ofcom yn lleihau 28.2 y cant mewn termau real ar gyfanswm ei gyllideb. Bydd y rhan fwyaf o'r toriadau yn cael eu gwneud yn 2011/12 mewn ymdrech i leihau ansicrwydd a newid siâp a ffocws y sefydliad yn gyflym, sy'n bosibl drwy ddechrau ein hadolygiad o wariant mewnol yn gynnar.

Cafodd yr arbedion eu gwneud drwy effeithlonrwydd, lleihau costau staff, symleiddio prosiectau a llywodraethu a rhoi'r gorau i rai gweithgareddau'n gyfan gwbl. Mae hyn wedi arwain at rai penderfyniadau anodd, gan golli oddeutu 170 o swyddogaethau, gyda chydweithwyr yn gadael drwy ddileu swyddi ac mae strwythur mewnol newydd wedi cael ei roi ar waith. Mae adroddiad ein Prif Weithredwr ar dudalen 9 yn esbonio hyn yn fanylach.

## YMGYNGHORI Â CHYDWEITHWYR A'U CYNNWYS

Mae cynnwys cydweithwyr yn cael ei annog yn frwd fel rhan o'n prosesau beunyddiol. Rydym yn rhoi gwybodaeth i gydweithwyr ac yn ymgynghori â nhw drwy:

- Fforwm Cydweithwyr Ofcom, sef fforwm ymgynghori a gwybodaeth sy'n cynnwys cynrychiolwyr cydweithwyr ar draws Ofcom ac sy'n cwrdd yn rheolaidd gyda'r uwch reolwyr yng nghyfarfodydd y Cydbwyllgor Ymgynghori (sy'n cynnwys dau aelod o'r Undeb Partner);
- mewnrwyd Ofcom, sydd ar gael i bob cydweithiwr ym mhob un o swyddfeydd Ofcom;
- cyflwyniadau a roddir gan uwch reolwyr pan gaiff cynlluniau strategol newydd eu hegluro wrth gydweithwyr a phan ddarperir yr wybodaeth ddiweddaraf am brosiectau sy'n parhau;
- cyfarfodydd rheolaidd rhwng grwpiau er mwyn gwrando ar gydweithwyr a rhannu gwybodaeth; a
- negeseuon rheolaidd gan y Prif Weithredwr.

Rydym hefyd yn cynnal arolwg blynyddol sy'n rhoi'r cyfle i gydweithwyr rannu eu safbwyntiau ar ystod o bynciau. Er 2005, mae canlyniadau'r arolwg wedi dangos gwelliannau ym mhob maes bron. Yn 2010, gwelsom welliannau parhaus er 2009 mewn nifer o feysydd, gan gynnwys gwneud penderfyniadau, blaenoriaethu, gwerthuso perfformiad a chydraddoldeb.

Serch hynny, gwelsom hefyd ddirywiad bach mewn sgoriau mewn rhai meysydd, gan gynnwys cyfathrebu, datblygu gyrfa a gwobrwyo. Cafodd yr arolwg ei gynnal ym mis Ebrill, ychydig cyn yr etholiad cyffredinol, ac efallai fod y canlyniadau'n dangos rhywfaint o'r ansicrwydd roedd cydweithwyr yn ei deimlo ar yr adeg honno. Efallai fod y canlyniadau hefyd yn adlewyrchu rhewi'r cyflogau a oedd wedi digwydd ar draws y sefydliad yn ystod 2010/11, sef yr ail flwyddyn o'r bron i ni rewi lefelau cyflog.

## POLISÏAU CYFLOGAETH, DATBLYGU PERFFORMIAD A DYLETSWYDDAU SECTOR CYHOEDDUS

Rydym wedi ymrwymo i sicrhau y caiff pob cydweithiwr ei drin yn deg a chydag urddas a pharch. Mae'r holl bolisïau AD wedi cael eu hadolygu er mwyn sicrhau eu bod yn gyfoes ac yn gyson â'n gwerthoedd fel sefydliad, yn ogystal â gofynion cyfraith cyflogaeth.

Mae ansawdd ac ymrwymiad ein pobl yn allweddol i'n gallu i gyflawni ein dyletswyddau rheoleiddio. Er mwyn ein helpu i recriwtio a datblygu'r

## UN O GYFLOGWYR GORAU PRYDAIN I FENYWOD A GWOBRAU ERAILL

**Cafodd Ofcom ei ddewis yn un o 50 o'r Cyflogwyr Gorau i Fenywod yn 2011 yn The Times.** Yn 2010, cafodd Sara Salim, un o'n peirianwyr ar dîm sbectrwm Ofcom, wobr teilyngdod yng nghystadleuaeth Peiriannydd Benywaidd Ifanc y Flwyddyn. Cafodd Ofcom ei gynnwys am ein cynlluniau i hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth a drwy ddarparu astudiaethau achos o Ofcom. Mae hyn yn cydnabod peirianyddion benywaidd gorau'r DU dan 30 oed a chaiff ei drefnu gan y Sefydliad Peirianneg a Thechnoleg. Roeddem hefyd wedi gwella ein sgôr ym Mynegai Cydraddoldeb yn y Gwaith Stonewall 2011.

**50 CYFLOGWR GORAU I FENYWOD THE TIMES**

**MYNEGAI CYDRADDOLDEB YN Y GWEITHLE STONEWALL**

unigolion mae arnom eu hangen er mwyn i Ofcom weithredu'n effeithiol, mae gennym set o sgiliau a chymwyseddau ar draws y sefydliad.

### YMRWYMIAD OFCOM I GYDRADDOLDEB, AMRYWIAETH A HAWLIAU DYNOL

Yn Ofcom rydym yn benderfynol ein bod am wneud ein gorau glas i hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth yn ein sefydliad, ac mae ein Cynllun Cydraddoldeb Sengl wrth galon hyn. Dros y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi gweithio'n galed i weithredu'r camau roeddem wedi ymrwymo iddynt yn y Cynllun.

Rydym wedi sicrhau bod ein hymchwil yn cynnwys elfen cydraddoldeb a bod ein proses recriwtio yn ceisio gwella amrywiaeth ein cydweithwyr. Mae ein gwefan a'n cyhoeddiadau wedi cael eu gwella. Rydym hefyd wedi symud ymlaen yn y sector cyfathrebiadau drwyddo draw. Rydym wedi cymryd camau cadarnhaol i gyflawni ein hamcanion cydraddoldeb, ond mae mwy o waith eto i'w wneud. Caiff ein Cynllun Cydraddoldeb Sengl diwygiedig, a fydd yn cynnwys ystyriaethau o Ddeddf Cydraddoldeb 2010, ei gyhoeddi yn ystod haf 2011.



# CYFRIFOLDEB CORFFORAETHOL A CHYNALIADWYEDD

## CYFRIFOLDEB CORFFORAETHOL


Mae Ofcom wedi ymrwymo i sicrhau ein bod yn gyflogwr cyfrifol i'n cydweithwyr, ond ein bod hefyd yn rheoli ein heffaith ar y gymuned ehangach. Dyma ein dibenion Cyfrifoldeb Corfforaethol:

- trin pob cydweithiwr ag urddas a pharch mewn amgylchedd gwaith cynhwysol a theg;
- lleihau ein hôl troed carbon, darparu gwerth am arian a sicrhau bod arferion Ofcom yn gynaliadwy yn amgylcheddol; ac
- ymgysylltu, ysbrydoli a datblygu cydweithwyr wrth fynd ati'n rhagweithiol i geisio cefnogi ein cymuned leol.

Fel yr amlygwyd uchod, rydym wedi dod yn ein blaenau yn dda o ran cyflawni'r amcanion a oedd yn ein Cynllun Cydraddoldeb Sengl; rydym wedi sicrhau bod ein hymchwil yn cynnwys elfen cydraddoldeb ac rydym wedi gwella hygyrchedd ein gwefan a'n cyhoeddiadau.

Rydym yn rhedeg cynllun mentora darllen poblogaidd gydag ysgol gynradd leol yn Southwark, gan roi'r cyfle i gydweithwyr hyfforddi plant ifanc i wella eu sgiliau llythrennedd. Rydym hefyd yn gweithio gyda Career Academies UK, gan fentora myfyrwyr 16-17 oed a'u helpu i baratoi ar gyfer bywyd corfforaethol. Yn 2010 roedd gennym dri myfyriwr o ardal Southwark gyda ni am chwe wythnos.

**FFIGUR 12: ALLYRIADAU CARBON CYFFREDINOL OFCOM**




## LLEIHAU EIN HÔL TROED CARBON

Yn dilyn archwiliad carbon cychwynnol yn 2007, ymrwymodd Ofcom i leihau ei ollyngiadau carbon 25 y cant erbyn 2012/13. Dangosodd ail archwiliad carbon yn 2009 fod Ofcom eisoes wedi cyflawni gostyngiad o 15 y cant, a hynny'n sgil arbedion ynni sylweddol yn bennaf (gweler Ffigur 12). Mae Ofcom wedi datblygu rhaglen waith i gyflawni'r 10 y cant sy'n weddill o'r targed a sicrhau bod ein gweithrediadau'n dilyn yr arfer gorau amgylcheddol. Yn 2009, cafodd ymrwymiad Ofcom i leihau carbon ei gydnabod wrth iddo sicrhau ardystiad Safon yr Ymddiriedolaeth Garbon ar gyfer ein swyddfa yn Llundain.

# ADOLYGIAD GWEITHREDOL AC ARIANNOL

Cafodd adolygiad cynhwysfawr a thrylwyr ei gwblhau o'n sylfaen cost yn ystod y flwyddyn ariannol hon. Y nod oedd dod o hyd i arbedion gwariant sylweddol, ar yr un pryd â chyflawni ein dibenion strategol a darparu gwasanaethau rheoleiddio effeithiol, wedi'u targedu ac o ansawdd uchel.

Roedd ein hadolygiad yn caniatáu i ni ddarparu ymateb i setliad gwariant y Llywodraeth ar gyfer y pedair blynedd nesaf a dechrau gweithredu ein cynigion ar unwaith.

O ganlyniad i'n cynllunio a'n gweithredu cynnar rydym wedi cyflawni arbedion cost sylweddol yn y flwyddyn ariannol hon ac ynghyd â'n cyllideb is ar gyfer 2011/12 rydym yn gallu lleihau ein ffioedd i randdeiliaid yn sylweddol.

## PERFFORMIAD ARIANNOL

Mae Ofcom wedi arbed £17.2m yn erbyn ei gyllideb ar gyfer y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2011 gan gyflawni alldro gweithredol o £125.3m. Mae mwy o fanylion am hyn ar gael yn yr adran Canlyniadau Gweithredu isod.

Ar gyfer 2011/12 mae Ofcom wedi pennu cyllideb o £115.8m sy'n adlewyrchu gostyngiad termau real o 22.5 y cant yng nghost rheoleiddio yn erbyn cyllideb 2010/11.

Ar ben hynny, mae Ofcom wedi anfonebu ac wedi casglu cyfanswm o £187.2m ar gyfer y pwrs cyhoeddus yn ystod y flwyddyn oddi wrth y rheini sy'n dal trwyddedau dan y Ddeddf Telegraffiaeth Ddi-wifr, taliadau ychwanegol oddi wrth y rheini sy'n dal trwyddedau darlledu a drwy osod dirwyon a chosbau ar randdeiliaid.

## FFRAMWAITH ARIANNOL

Dan Baragraff 8(1) o'r Atodlen i Ddeddf y Swyddfa Gyfathrebiadau 2002, mae gofyn i Ofcom dafoli ei wariant a'i incwm ym mhob blwyddyn ariannol.

Mae Adran 38 ac Adran 347 o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 hefyd yn mynnu bod Ofcom yn codi incwm gan bob un o'r sectorau y mae'n ei reoleiddio i dalu'r costau a ddaw i ran Ofcom wrth reoleiddio'r sector hwnnw.

Rhaid i Ofcom hefyd rannu ei gostau gweithredol cyffredinol – y rheini nad ydynt yn uniongyrchol berthnasol i unrhyw sector penodol – mewn modd cymesur ar draws pob un o'r sectorau hynny.

Bydd Ofcom yn codi ei arian o'r ffynonellau a ganlyn:

- ffioedd trwyddedau darlledu teledu;
- ffioedd trwyddedau darlledu radio;
- taliadau gweinyddol am rwydweithiau a gwasanaethau electronig ac am ddarparu cyfleusterau darlledu a chyfleusterau cysylltiedig;
- arian i dalu costau gweithredu Ofcom am reoli'r sbectrwm ar ffurf cymorth grant gan yr Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau (yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon o 2011/12 ymlaen);
- arian i dalu costau clirio sbectrwm fel rhan o'r prosiect 800 MHz a 2.6 GHz, gan yr Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau (yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon o 2011/12 ymlaen); ac
- arian cymorth grant ar gyfer y swyddogaethau a'r dyletswyddau statudol hynny y mae'n rhaid i Ofcom eu cyflawni ond nad oes llif refeniw cyfatebol ar eu cyfer.

Bydd Ofcom hefyd yn cael incwm rhent o'r eiddo sydd ganddo dros ben, llog ar gyfrifon banc ac incwm o wasanaethau sy'n ychwanegol at ddyletswyddau statudol Ofcom.

Roedd arian cymorth grant a ddeuai o'r Adran Busnes, Sgiliau ac Arloesedd yn dod o'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon o 1af Ebrill 2011 ymlaen.

## IFRS

Mae'r datganiadau ariannol wedi cael eu paratoi yn unol ag IFRS fel y'u mabwysiadwyd gan yr UE. 1 Ebrill 2008 oedd y dyddiad trawsnewid ar gyfer mabwysiadu IFRS.

## CANLYNIADAU GWEITHREDOL

O ganlyniad i'r camau cynnar a gymerwyd ar ôl cwblhau'r adolygiad cynhwysfawr o'n gwariant, roedd Ofcom wedi arbed £17.2m yn 2010/11 yn erbyn ei gyllideb gweithredu o £142.5m.

Mae hyn o ganlyniad i rewi cyflogau ar draws y sefydliad am yr ail flwyddyn o'r bron, arbedion drwy reoli cyfleusterau, ffocws cynnar ar flaenoriaethu ymchwil marchnad, ymchwil technoleg a gwariant ar wasanaethau proffesiynol a mynd ati'n rhagweithiol i reoli swyddi gwag a defnyddio adnoddau dros dro yn ystod ein proses adolygu gwariant.

Mae arbedion eraill yn erbyn cyllideb 2010/11 yn deillio o'r newid mewn cyfrifoldebau ar gyfer darparu Cyfranogiad Digidol ac oedi cyn gweithredu mesurau yn Neddf yr Economi Ddigidol.

O ganlyniad i'r gostyngiad yn nifer y staff, mae lle gwag ychwanegol mewn swyddfeydd hefyd wedi cael ei osod, a fydd yn arwain at arbedion costau pellach yn 2011/12.

Yn ystod 2010/11 cafodd gwaith ei wneud i baratoi ar gyfer trosglwyddo'r cyfrifoldeb dros reoleiddio gwasanaethau post o Postcomm i Ofcom drwy'r Ddeddf Gwasanaethau Post 2011. Mae cost y gwaith paratoi hwn yn 2010/11 yn £0.4m ac mae wedi'i gyllido dan drefniant gan yr Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau. Bydd y costau trawsnewid hyn yn cael eu hadennill yn llawn gan Ofcom gan randdeiliaid gwasanaethau post.

Ceir cysoniad yn Nodyn 2 Adran D sy'n pwysleisio'r gwahaniaethau rhwng cyfanswm y gwariant gweithredol fel y'i cyflwynir yn y Datganiad Incwm a Gwariant a gwir alldro gweithredol Ofcom, sef £125.3m. Mae'r nodyn hefyd yn cysoni'r incwm ar yr un sail ac yn cyflwyno gwir alldro gweithredol ac incwm Ofcom ar gyfer 2010/11 fesul sector.

## INCWM GWEITHREDOL

£144.2m oedd incwm gweithredol Ofcom yn 2010/2011 (2009/10: £132.7m). Dyma rai o'r newidiadau pwysicaf ers y flwyddyn flaenorol:

- Cynnydd o £14.8m mewn hawliadau dyfarniadau cymorth grant a chlirio sbectrwm yn sgil dechrau'r prosiect i glirio'r bandiau sbectrwm 800 MHz a 2.6 GHz er mwyn darparu gwasanaethau band eang di-wifr y genhedlaeth nesaf yn gystadleuol ar draws y DU;
- Gostyngiad o £2.9m yn y taliadau rheoleiddio a godwyd ar y sector gwasanaethau a rhwydwaith. Yn rhannol mae'r gostyngiad yn deillio o ostyngiad cyffredinol i'r taliadau i wneud iawn am y diffyg a wnaed i'r cynlluniau pensiwn buddion wedi'u diffinio y mae Ofcom wedi'u heti-feddu. Yn fwy penodol, yn gymharol cafodd llai o waith ei wneud eleni ar hyrwyddo cystadleuaeth effeithiol yn y farchnad telegyfathrebiadau sefydlog a symudol a deall gallu rhwydweithiau ond bydd hyn wedi cael ei wrthbwyso'n rhannol gan waith ar seilwaith cyfathrebiadau'r DU;
- Gostyngiad o £3.3m yn y taliadau rheoleiddio a godwyd ar y sector darlledu. Yn ogystal â'r taliadau is i wneud iawn am y diffyg mewn pensiwn a wnaed yn 2010/11, roedd hyn oherwydd lefelau gweithgarwch is ar reoleiddio cynnwys yn ogystal â llai o waith i gefnogi newid i'r digidol. Yr astudiaeth i'r Farchnad Teledu drwy Dalu a gafodd ei chwblhau yn 2009/10 hefyd er bod costau pellach wedi codi yn 2010/11 i amddiffyn y datganiadau canlyniadol o'r astudiaeth;
- Cynnydd o £1.3m mewn cymorth grant rheoli sbectrwm gan fwyaf o ganlyniad i newid i gostau unwaith ac am byth newid i ddarparwr allanol technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) newydd Ofcom. Bydd hyn yn arwain at arbed oddeutu £1m y flwyddyn yn y dyfodol;
- Cynnydd o £1.6m mewn gweithgareddau eraill, yn bennaf o ganlyniad i'r gwaith a wnaed ar dorri hawlfraint ar-lein o ganlyniad i Fesur yr Economi Ddigidol; ac
- roedd y llog ar gyfrifon banc Ofcom yn is yn ystod 2011/2011, sef cyfanswm o £0.2m (2009/10: £0.3m). Y rheswm uniongyrchol dros y gostyngiad hwn yw'r cyfraddau llog is a oedd yn bodoli yn ystod y flwyddyn.

## GWARIANT GWEITHREDOL

Caiff cyfanswm gwariant gweithredol Ofcom yn y Datganiad o Incwm a Gwariant ei gyflwyno ar dair llinell ar wahân i roi mwy o dryloywder drwy wahaniaethu'n glir rhwng costau gwaith sy'n ymwneud â dyfarniadau a chlirio sbectrwm a chostau gweithredu craidd Ofcom. Mae dull tebyg wedi cael ei fabwysiadu yng nghyswllt costau gweithredu yn Nodyn 6 y datganiadau ariannol.

Mae cynnydd sylweddol mewn costau yn 2010/11 yn ymwneud â chlirio a dyfarnu sbectrwm, sy'n gyfrifoldeb ychwanegol, tu allan i'n cyllideb gweithredu craidd. Roedd costau wedi codi £14.6m i £17.8m (2009/10 £3.2m). Mae'r cynnydd hwn yn sgil dechrau gwariant grant sy'n ymwneud â chlirio bandiau sbectrwm 800 MHz a 2.6 GHz a gwariant cysylltiedig Ofcom sef £6.0m.

Roedd costau gweithredu eraill sy'n ymwneud â chyfrifoldebau craidd Ofcom wedi disgyn £3.5m yn 2010/11 i £52.7m (2009/10 £56.2m). O ganlyniad i roi cynigion ar waith yn gynnar yn sgil ein hadolygiad o wariant, dyma oedd y prif bethau a oedd wedi ysgogi'r arbedion:

- Llai o wariant ar ymchwil technolegol a phrosiectau effeithlonrwydd sbectrwm, oherwydd newid blaenoriaethau ac effeithlonrwydd caffael;
- Gostyngiad mewn gwariant ar ffioedd proffesiynol o ganlyniad i ail-gwmpasu a blaenoriaethu nifer o brosiectau a rhagor o effeithlonrwydd caffael drwy ddefnyddio fframweithiau ymgynghori; a

- Gostyngiad mewn costau gweinyddu a swyddfa, datblygiad proffesiynol, tanysgrifiadau corfforaethol, ffôn ac yswiriant. Ar ben hynny, o ganlyniad i symud ymlaen ymhellach gyda'n dull digidol yng nghyswllt argraffu a deunyddiau cyfeirio, rydym wedi gallu lleihau costau a'n hôl troed carbon.

Mae costau staff yn cynnwys cost ailstrwythuro gwerth £6.1m yn ystod y flwyddyn ac mae £5.4m o hynny'n ymwneud yn benodol â'n prosiect adolygu gwariant. Mae nifer y swyddogaethau yn Ofcom wedi lleihau yn sylweddol drwy'r broses adolygu gwariant, oddeutu 170, a cheir arbedion yn y dyfodol a bydd yr arbedion hynny'n cael eu trosglwyddo i randdeiliaid.

Mae costau sylfaenol staff wedi disgyn yn sylweddol yn ystod y flwyddyn drwy leihau nifer ein staff ar ôl cwblhau'r prosiect adolygu gwariant a rheoli swyddi gwag drwy gydol y flwyddyn.

## GWARGED AR GYFER Y FLWYDDYN ARIANNOL

Mae Ofcom yn cyfrifo'i refeniw gweithredol gofynnol ar sail ei ddatganiad o egwyddorion ar gyfer codi taliadau, gan ystyried y cronfeydd y bydd eu hangen arno mewn gwirionedd i gyflawni ei atebolrwydd ariannol yn ystod y flwyddyn. Bydd Ofcom yn dychwelyd unrhyw gronfeydd sydd dros ben i'r rhanddeiliaid drwy ostwng y tariffiau blynyddol a godir yn y ddwy flwyddyn ariannol ganlynol.

Y gwarged ar gyfer y flwyddyn ariannol ar ôl treth a gofnodwyd yn y Datganiad Incwm a Gwariant ar gyfer y flwyddyn dan sylw oedd £9.2m (2009/10: £11.0m). Mae angen y gwarged hwn i dalu am wariant nad yw'n cael ei adlewyrchu yn y Datganiad Incwm a Gwariant, gan gynnwys gwariant cyfalaf a chyfraniadau at y ddau gynllun pensiwn â buddion wedi'u diffinio.

## TARIFFIAU 2011/12

Ar 31 Mawrth 2011, cyhoeddodd Ofcom y Tablau Tariff ar gyfer 2011/12, a oedd wedi'u seilio ar amcangyfrif o £127.6m o alldro gwariant gweithredol ar gyfer 2010/11. Mae cyfanswm o £14.9m, y gwahaniaeth rhwng y gyllideb wreiddiol, sef £142.5m a'r amcangyfrif o alldro'r gwariant gweithredol, eisoes yn cael ei roi'n ôl i'r rhanddeiliaid yn 2011/12 fel rhan o'r tariffiau rheoleiddio cyfredol, neu drwy lai o hawliadau am gymorth grant.

£115.8m yw cyllideb Ofcom ar gyfer 2011/12. Pennir y gyllideb ar sail arian wedi'i addasu, sy'n cynnwys gwariant cyfalaf a chyfraniadau gwirioneddol at gynlluniau pensiwn, ond nid yw'n cynnwys dibrisiad.

Bydd ffioedd rheoleiddio'r sector yn newid yn benodol fel a ganlyn:

- lleihad o 42.3 y cant ar gyfartaledd mewn termau real ar gyfer y sector teledu;
- lleihad o 36.2 y cant ar gyfartaledd mewn termau real ar gyfer y sector radio; a
- lleihad o 32.5 y cant ar gyfartaledd mewn termau real ar gyfer gweithredwyr rhwydwaith a gwasanaeth.

## PENSIYNAU

Prif ddull Ofcom o ddarparu buddion pensiwn yw drwy lwfans pensiwn cyfraniadau wedi'u diffinio a ddarperir ar gyfer pob aelod newydd o'r staff ac i'r cydweithwyr hynny a fu'n gweithio i'r rheoleiddwyr blaenorol sydd wedi dewis yr opsiwn hwn. Gellir defnyddio'r lwfans hwn i gyfrannu at gynllun pensiwn rhanddeiliaid cyfraniadau wedi'u diffinio Ofcom. Ar 31 Mawrth 2011 roedd dros 85 y cant o gydweithwyr Ofcom wedi'u cyflogi ar delerau sy'n cynnig aelodaeth o gynllun pensiwn cyfranddeiliaid. Darperir aelodaeth o gynllun pensiwn â buddion wedi'u diffinio i nifer o gydweithwyr eraill a oedd yn gweithio i'r rheoleiddwyr blaenorol.

Caiff y cydweithwyr hynny a fu'n gweithio i'r rheoleiddwyr blaenorol a ymunodd ag Ofcom ac a ddewisodd barhau yn aelodau o gynllun pensiwn â buddion wedi'u diffinio, gymryd rhan mewn un o ddau gynllun o'r fath a weithredir gan Ofcom; Cynllun Buddion wedi'u Diffinio Ofcom a Chynllun Pensiwn Ofcom (ITC gynt). Mae'r ddau gynllun ar gau i neb ymuno â hwy o'r newydd. Mae Nodiadau 1L a 22 yn Adran D yn rhoi rhagor o fanylion.

Ar ôl ymgynghori ag aelodau'r Cynllun penderfynodd Ofcom gau'r ddau Gynllun i groniadau yn y dyfodol o 1 Mehefin 2011 ymlaen a rhoddodd wybod i aelodau o'u bwriad i wneud hynny ym mis Chwefror 2011. Bydd yr holl gydweithwyr sydd ar hyn o bryd mewn cynllun pensiwn buddion wedi'u diffinio yn stopio bod yn aelodau o'r cynllun hwnnw ar 31 Mai 2011. O 1 Mehefin 2011 ymlaen bydd Cynllun Cyfranddeiliaid Ofcom ar gael i'r cydweithwyr hyn.

Roedd y prisiadau actiwaraidd diweddaraf ar gyfer y naill gynllun a'r llall, ar 31 Mawrth 2009, wedi amlygu diffyg cyllid cyfun gwerth £21.9m. Ers terfynu'r prisiadau actiwaraidd yn 2010, mae cyfanswm o £13.2m mewn perthynas â thaliadau gwneud iawn am y diffyg wedi cael eu gwneud i'r cynllun buddion wedi'u diffinio yn unol â'r atodlenni cyfraniadau perthnasol. Mae'r datganiadau ariannol yn dangos ased o £21.3m, yn rhannol oherwydd bod yr atebolrwydd pensiwn dan y datganiadau ariannol yn cael eu paratoi ar y sail bod yr atebolrwydd yn cael ei ddiystyru yn unol â'r elw ar fondiau o ansawdd uchel sydd, dan yr amodau marchnad cyfredol, yn wahanol iawn i'r dull gweithredu sy'n cael ei ddefnyddio ar gyfer pennu cyfraniadau Ofcom. Mae hyn hefyd yn adlewyrchu'r symudiadau sylweddol mewn marchnadoedd ariannol ers dyddiad prisiadau'r actiwari a'r cyfraniadau a wnaed gan Ofcom.

Gwnaeth Ofcom gyfraniadau ariannol at y ddau gynllun buddion wedi'u diffinio ar sail prisiadau'r actwari. Cynhwysir cyfraniadau arian, yn hytrach na'r swm a neilltuir i'r gwarged gweithredol, fel y'u cyfrifir dan IAS19,

yn alldro'r gwariant gweithredol a ddefnyddir i gyfrifo'r tariffiau a godir ar randdeiliaid bob blwyddyn.

Yn ystod y flwyddyn, cyfrannwyd £6.8m at y ddau gynllun pensiwn â buddion wedi'u diffinio ynghyd â £9.2m a drosglwyddwyd o'r cyfrif Ymddiriedolaeth Bwydo. Dim ond i un o'r ddau gynllun pensiwn â buddion wedi'u diffinio y ceir talu arian a drosglwyddir i'r cyfrif ymddiriedolaeth ac a gedwir ynddo.

## ARIAN YCHWANEGOL A GESGLIR AR RAN TRYSORLYS EM

Yn ystod 2010/11 fe wnaeth Ofcom anfonebu a chasglu £187.2m (2009/10: £195.9m). Mae'r arian yma wedi cael ei drosglwyddo i'r pwrs cyhoeddus. Cesglir y refeniw o dair ffynhonnell:

- ffioedd trwyddedau dan y Ddeddf Telegraffiaeth Ddi-wifr;
- taliadau ychwanegol oddi wrth y rheini sy'n dal trwyddedau ar gyfer teledu a radio; a
- chosbau ariannol.

Bydd Ofcom yn paratoi set o Ddatganiadau Ariannol ar wahân at ddibenion Adran 400 o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003.

Ar 31 Mawrth 2011, roedd anfonebau yng nghyswllt ffioedd sbectrwm gwerth £47.1m (2009/10: £70.0m) yn dal heb eu talu. Mae cyfran sylweddol o'r symiau hyn yn ddyledus ar ffurf rhandaliadau.

## RHAGLEN CLIRIO A DYFARNU SBECTRWM

Yn ystod 2010/11 mae gwariant wedi dechrau ar y Rhaglen Clirio a Dyfarnu Sbectrwm. Amcanion y rhaglen clirio a dyfarnu sbectrwm yw sicrhau bod y bandiau 800 MHz a 2.6 MHz ar gael, drwy glirio defnyddwyr cyfredol a chynnal arwerthiant ar gyfer trwyddedau newydd, er mwyn darparu band eang di-wifr y genhedlaeth nesaf yn gystadleuol ar draws y DU i gyd.

Bydd taliadau i ddefnyddwyr cyfredol yn cael eu gwneud drwy grantiau iawndal ac yn cael eu cyllido gan yr Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau (yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon o 1 Ebrill 2011 ymlaen) gyda chymeradwyaeth gan Drysorlys EM. Caiff taliadau eu gwneud gan Ofcom i ymgeiswyr ac yn y flwyddyn 2010/11 roedd eu cyfanswm yn £11.8m. Ar ben hynny, cafwyd £6.0m o gostau Ofcom a oedd yn gysylltiedig yn benodol â'r rhaglen clirio a dyfarnu sbectrwm.

Mae'r rhaglen clirio a dyfarnu sbectrwm yn rhaglen waith sylweddol i Ofcom a bydd yn cynnwys cydlynu nifer o brosiectau cymhleth o fewn amserlen ddyrys gan gynnwys dibyniaethau a risgiau ar draws nifer o randdeiliaid gwahanol gan gynnwys y Llywodraeth. Bydd y rhaglen yn rhedeg hyd at 2014/15. Er mwyn bod yn dryloyw, mae'r costau sy'n ymwneud â'r rhaglen waith hon wedi cael eu gwahanu oddi wrth gyfrifoldebau craidd Ofcom yn y datganiadau ariannol yn Adran D.

## GEMAU OLYMPAIDD A GEMAU PARALYMPAIDD LLUNDAIN 2012

Mae cyfrifon 2010/11 yn cynnwys rhaglen waith Ofcom am yr ail flwyddyn lawn ar gyfer Gemau Olympaidd a Gemau Paralympaidd 2012 Llundain. Ofcom sy'n gyfrifol am drefnu cynllun sbectrwm llawn ar gyfer Gemau Olympaidd a Pharalympaidd Llundain yn 2012 a fydd yn cael eu cynnal rhwng 27 Gorffennaf a 9 Medi 2012, am drefnu'r holl drwyddedau yn brydlon i gefnogi'r cynllun ac am sicrhau na fydd ymyrraeth niweidiol yn tarfu ar wasanaethau di-wifr allweddol. Ysgwyddir y cyfrifoldebau hyn yn unol â'r ddwy warant a roddwyd gan Lywodraeth y DU i'r Pwyllgor Olympaidd Rhyngwladol (IOC) i gefnogi cais Llundain i gynnal y Gemau yno. Mae hyn yn gwarantu y bydd y sbectrwm a fydd yn ofynnol ar gyfer y Gemau'n cael ei ddyrannu a hepgor y ffioedd y byddai'n rhaid eu talu fel arall am y sbectrwm hwnnw gan aelodau'r Teulu Olympaidd.

Yn ystod 2010/11, cyhoeddwyd y cynllun sbectrwm wedi'i ddiweddaru ar gyfer cyfathrebiadau di-wifr yn datgan sut roedd anghenion eithriadol i gael eu rheoli. Cyhoeddir fersiwn terfynol y cynllun hwn yn gynnar yn ystod 2012. Mae sbectrwm yn y band 2.6 GHz wedi cael ei gadw ar gyfer camerâu di-wifr yng Ngemau 2012 ac mae datrysiad trwyddedu awtomataidd sy'n gwella'r ffordd caiff sbectrwm prin ei neilltuo i ddefnyddwyr hefyd wedi cael ei adeiladu a'i brofi.

Roedd ein digwyddiadau treialu ar raddfa fawr wedi dechrau yn ystod haf 2010 a'r digwyddiadau profi traws-sefydliadol integredig wedi'u cynnal yn ystod haf 2011.

## BUDDSODDI MEWN ASEDAU SEFYDLOG

Yn ystod y flwyddyn roedd Ofcom wedi llofnodi contract gyda chyflenwr trydydd parti newydd i ddarparu gwasanaethau TGCh ar gontract allanol. Bydd y gwasanaeth hwn yn dechrau ym mis Ebrill 2011. Caiff y costau a gyfalafwyd i newid o'r darparwr blaenorol, o ran caledwedd a'r rheoli prosiect cysylltiedig, eu hadlewyrchu o fewn asedau diriaethol fel caledwedd ar ddiwedd y flwyddyn.

Bydd y trefniadau TGCh newydd ar gontract allanol gyda'r darparwr newydd yn cyflawni arbedion gwerth dros £1m y flwyddyn dros oes y contract.

Roedd yr asedau a oedd wrthi'n cael eu hadeiladu ar 31 Mawrth 2011 yn werth £2.6m (£1.7m 2009/10) ac maent yn cynnwys y datrysiad ar gyfer monitro'r sbectrwm syn cael ei ddatblygu i baratoi ar gyfer Gemau Olympaidd a Pharalympaidd Llundain 2012.

## TALU CYFLENWYR

Yn ystod y flwyddyn cafodd targed y Llywodraeth ar gyfer talu cyflenwyr, pan nad oes anghydfod, ei gwtogi o 10 diwrnod i 5 niwrnod. Yn ogystal â chyflenwyr bach a chanolig, mae Ofcom hefyd yn cynnwys cyflenwyr mawr yn y cynllun hwn er mwyn eu hannog i dalu'r busnesau bach sy'n eu cyflenwi nhw o fewn cyfnod llai.

Yn ystod 2010/11 ar gyfartaledd roedd Ofcom wedi cyflawni perfformiad o 83.05 y cant wrth gymharu â'r targed pum niwrnod newydd. Er mwyn gallu cymharu, roedd perfformiad talu 2010/11 wrth gymharu â'r targed deg diwrnod yn 98.23 y cant (2009/10: 97.7 y cant).

# ADRAN C – ADRODDIAD CYFARWYDDWYR A LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL

# RHAGAIR

## ADRODDIAD Y BWRDD

Cyflwyna'r Bwrdd ei Adroddiad a'r datganiadau ariannol archwiliedig ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2011.

## DATGANIAD O GYFRIFON

Paratowyd y Datganiad o Gyfrifon hwn yn unol ag Atodlen 1 i Ddeddf y Swyddfa Gyfathrebiadau 2002, ac yn ôl cyfarwyddyd yr Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes, Arloesedd a Sgiliau a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon. Mae'r Cyfrifon yn ymdrin â'r cyfnod rhwng 1 Ebrill 2010 ac 31 Mawrth 2011.

## PRIF WEITHGAREDDAU

Mae Ofcom yn gorfforaeth statudol heb gyfranddalwyr, a sefydlwyd dan Ddeddf y Swyddfa Gyfathrebiadau 2002. Deddf Cyfathrebiadau 2003, a deddfwriaeth arall megis Deddf Darlledu 1996 a Deddf Telegraffiaeth Ddi-wifr 2006, sy'n rhoi grym i Ofcom reoleiddio a thrwyddedu teledu, radio, defnydd o'r sbectrwm radio a thelegyfathrebiadau yn unol â'r dyletswyddau a roddwyd iddo dan Ddeddf 2003 a deddfwriaeth arall.

## ADOLYGIAD GWEITHREDOL AC ARIANNOL

Mae Neges y Cadeirydd ar dudalennau 6 a 7, Adroddiad y Prif Weithredwr ar dudalennau 8 i 10 a'r Adolygiad Gweithredol ac Ariannol ar dudalennau 43 i 46, yn ffurfio rhan o'r Adroddiad hwn ac yn darparu gwybodaeth am weithgarwch Ofcom yn ystod y flwyddyn. Mae datganiadau ariannol Ofcom wedi'u nodi ar dudalennau 65 i 95.

## ARCHWILWYR ALLANOL

Penodir y Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol, sy'n bennaeth ar y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, fel archwilydd allanol Ofcom dan Ddeddf y Swyddfa Gyfathrebiadau 2002. Yr oedd cost y prif archwiliad statudol ar gyfer 2010/11 yn £82,000, a chyfrifon archwiliedig Adran 400 yn costio £16,000, gyda £3,000 arall ar gyfer y Cyfrifon Llywodraeth Gyfan. Hyd y gŵyr y Swyddog Atebol, nid oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw archwilwyr Ofcom yn ymwybodol ohoni, ac mae'r Swyddog Atebol wedi cymryd yr holl gamau gofynnol i sicrhau ei fod yn gwybod am unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i sefydlu bod archwilwyr Ofcom yn ymwybodol o'r wybodaeth honno.

## Y BWRDD

Y Bwrdd sy'n llwyr gyfrifol am benderfynu ar faterion Ofcom a'u gweithredu. Nodir manylion Aelodau'r Bwrdd ar dudalennau 48 i 49. Rhoddir manylion taliadau Aelodau ar dudalennau 60 i 64.

## BUDDIANNAU AELODAU

Mae Ofcom o ddifrif ynghylch datgelu buddiannau Aelodau'n llawn. Ceir y manylion hyn ar-lein yn www.ofcom.org.uk.

## DIGWYDDIADAU AR ÔL CYHOEDDI'R FANTOLEN

Nid oedd dim digwyddiadau y gellir adrodd amdanynt rhwng dyddiad cyhoeddi'r fantolen a'r dyddiad y cafodd y cyfrifon eu hardystio. Nid yw'r datganiadau ariannol yn dangos digwyddiadau ar ôl y dyddiad hwn.

## DIOGELU DATA

Mae Ofcom yn Rheolydd Data dan Ddeddf Diogelu Data 1998 ('y Ddeddf') ac mae wedi ymrwymo i brosesu'r holl ddata personol yn ddiogel mewn ffordd sy'n ateb gofynion y Ddeddf, gan gynnwys yr egwyddorion diogelu data. Mae gan Ofcom hefyd raglen hyfforddi ar ddiogelu data i sicrhau bod pob cydweithiwr yn deall eu cyfrifoldebau o ran cydymffurfio â'r Ddeddf a dilyn arfer da wrth drin gwybodaeth.

## RHYDDID GWYBODAETH

Dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, a sefydlodd hawl gyffredinol i gael mynediad at bob math o wybodaeth a ddelir gan awdurdodau cyhoeddus, mae Ofcom yn parhau i adolygu ei gynllun cyhoeddi fel bod amrediad ehangach o wybodaeth ar gael yn hwylus ar ei wefan. Yn ystod y cyfnod dan sylw, cafodd Ofcom 547 cais am wybodaeth, ac wrth lynu wrth amcan y Ddeddf o feithrin diwylliant agored, darparodd Ofcom yr holl wybodaeth, neu ran ohoni, i 90 y cant o'r ceisiadau.

## BUSNES BYW

Yn seiliedig ar weithdrefnau rheoli a chynllunio busnes arferol, mae'r Bwrdd yn credu'n rhesymol bod gan Ofcom ddigon o adnoddau i barhau i weithredu hyd y gellir rhagweld. Am y rheswm hwn, mae'r Bwrdd yn parhau i fabwysiadu'r sail busnes byw ar gyfer paratoi'r datganiadau ariannol.

**Colette Bowe**
Cadeirydd

**Ed Richards**
Prif Weithredwr

29 Mehefin, 2011

# LLYWODRAETHU

## Bwrdd Ofcom

### COLETTE BOWE



Daeth Colette Bowe yn Gadeirydd Anweithredol Ofcom ym mis Mawrth 2009. Hi yw Cadeirydd Pwyllgor Enwebiadau Ofcom, ac mae'n Aelod o Bwyllgor Archwilio a Risg a Phwyllgor Taliadau Ofcom. Roedd hi'n bresennol ym mhob un o 15 cyfarfod y Bwrdd eleni. Hyfforddodd fel economegydd ac mae wedi dal nifer o uwch swyddi yn y sectorau cyhoeddus a phreifat. Bu'n Gadeirydd Panel Defnyddwyr Ofcom rhwng adeg ei sefydlu yn 2003 a mis Rhagfyr 2007. Ar hyn o bryd mae'n Gadeirydd ar Electra Private Equity plc, yn Aelod Bwrdd o Fanc Rhyngwladol Morgan Stanley, London and Continental Railways, Axa Deutschland GmBh, Awdurdod Ystadegau'r DU a Camden People's Theatre, yn un o Lywodraethwyr Ysgol Bancroft ac yn un o ymddiriedolwyr y Tablet Trust.

### PHILIP GRAF CBE

Philip Graf yw Dirprwy Gadeirydd Anweithredol Ofcom. Mae'n Gadeirydd ar Fwrdd Cynnwys, Pwyllgor Trwyddedu Radio a Phwyllgor Sancsiynau Darlledu Ofcom, ac mae hefyd yn Aelod o Bwyllgor Taliadau, Pwyllgor Archwilio a Risg, a Phwyllgor Enwebiadau Ofcom, ac yn Aelod ar batrwm cylch o'r Pwyllgor Adolygu Darlledu. Roedd yn bresennol ym mhob un o 15 cyfarfod y Bwrdd eleni. Ymunodd â'r Liverpool Daily Post and Echo ym 1983, a drodd yn Trinity International Holdings ym 1985. Daeth yn Brif Weithredwr ym 1993 ac fe'i penodwyd yn Brif Weithredwr Trinity Mirror Group pan ymunodd y cwmni â'r Mirror Group ym 1999. Bu yn y swydd hon tan fis Chwefror 2003. Mae'n gyn-gadeirydd Bwrdd Cyllid Safonau'r Wasg a'r Grŵp Rhanddeiliaid Band Eang. Ar hyn o bryd, mae'n Gadeirydd y Comisiwn Gamblo, yn gydymaith yn Praesta Partners LLP ac yn un o Ymddiriedolwyr Crisis, yr elusen i bobl ddigartref.



### ED RICHARDS



Ed Richards yw Prif Weithredwr Ofcom. Yn flaenorol, yr oedd yn Brif Swyddog Gweithredol Ofcom, yn gyfrifol am Strategaeth, Ymchwil Marchnad, Cyllid, Adnoddau Dynol a swyddogaethau eraill. Roedd cyfrifoldebau strategaeth yn cynnwys syniadau strategol Ofcom ar y sector cyfathrebiadau a materion economaidd a pholisïau defnyddwyr. Roedd yn bresennol ym mhob un o 15 cyfarfod y Bwrdd eleni. Cyn ymuno ag Ofcom, roedd yn Uwch Gynghorydd Polisi i'r Prif Weinidog (Tony Blair) ar y cyfryngau, telegyfathrebiadau, y rhyngrwyd ac e-lywodraeth, a chyn hynny'n Rheolydd Strategaeth Gorfforaethol yn y BBC. Mae hefyd wedi gweithio ym maes ymgynghori yn London Economics Ltd, a dechreuodd ei yrfa fel ymchwilydd gyda Diverse Production Ltd lle bu'n gweithio ar raglenni ar gyfer Channel 4. Mae hefyd yn Gyfarwyddwr Thames Water Utilities Limited a Donmar Warehouse, yn un o Ymddiriedolwyr yr Ymddiriedolaeth Gwobrau Addysgu, ac yn aelod o Bwyllgor Polisi'r Ganolfan Perfformiad Economaidd yn Ysgol Economeg Llundain.

### MILLIE BANERJEE CBE

Mae Millie Banerjee yn Aelod Anweithredol o Ofcom. Mae hi hefyd yn Aelod o'r Bwrdd Cynnwys, y Pwyllgor Enwebiadau a'r Pwyllgor Taliadau. Roedd hi'n bresennol ym mhob un o 15 cyfarfod y Bwrdd eleni. Mae hi hefyd yn Gadeirydd Awdurdod Heddlu Trafnidiaeth Prydain, yn Aelod o Fwrdd Ymddiriedolaeth Gofal Sylfaenol Newham ac yn un o Ymddiriedolwyr yr Ymddiriedolaeth Peabody. Cafodd ei phenodi yn Gadeirydd Postcomm o 16 Ionawr 2011 ymlaen. Cyn hynny, treuliodd 25 mlynedd gyda BT, ac wedyn bu'n Uwch Is-lywydd ICO Global Communications. Bu'n aelod o Fwrdd Strategaeth Swyddfa'r Cabinet ac mae wedi cael ei phenodi i nifer o uwch swyddi anweithredol, gan gynnwys swyddogaethau gyda'r Awdurdod Rheilffyrdd Strategol, yr Asiantaeth Datblygu Sgiliau Sector, Channel 4 TV, y Bwrdd Carchardai, Focus ac aelod o gorff llywodraethu Prifysgol South Bank. Mae hi hefyd wedi bod yn Gomisiynydd ar gyfer Penodiadau Barnwrol, yn Gadeirydd Golwg ar Bost ac ar Fwrdd Llais Defnyddwyr.



## TIM GARDAM



Mae Tim Gardam yn Aelod Anweithredol o Ofcom. Mae'n Aelod o'r Bwrdd Cynnwys, Cadeirydd Pwyllgor y Gwledydd ac yn Aelod o'r Pwyllgor Dyraniadau Teledu Daearol Digidol, y Pwyllgor Enwebiadau a'r Pwyllgor Taliadau. Roedd yn bresennol ym mhob un o 15 cyfarfod y Bwrdd eleni. Mae wedi bod yn Bennaeth Coleg St Anne, Rhydychen er 2004. Mae'n Gadeirydd Gweithrediaeth Derbyniadau Israddedigion y Brifysgol. Roedd ganddo 25 blynedd o yrfa ym myd darlledu gan ddechrau yn y BBC. Roedd yn rhan o'r tîm uwch reolwyr cyntaf yn Five ac yn Gyfarwyddwr Rhaglenni yn Channel Four. Ef oedd awdur Adolygiad yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon o Wasanaethau Radio Digidol y BBC yn 2004, ac yr oedd yn aelod o Banel Cynghori'r Arglwydd Burns ar yr Adolygiad o Siarter y BBC ac yn Gyfarwyddwr SMG plc o 2005-7. Sefydlodd, ac mae bellach yn gadeirydd, Sefydliad Reuters ar gyfer Astudiaethau Newyddiaduraeth ym Mhrifysgol Rhydychen.

## MIKE MCTIGHE

Mae Mike McTighe yn Aelod Anweithredol o Ofcom. Mae'n Gadeirydd ar Bwyllgor Archwilio a Risg Ofcom ac yn aelod o Bwyllgorau Taliadau ac Enwebiadau Ofcom. Roedd yn bresennol mewn 12 o 15 cyfarfod y Bwrdd eleni. Mae wedi dal sawl swydd cyfarwyddwr, ac ar hyn o bryd mae'n Gadeirydd Pace plc, Volex Group plc, WYG plc a JJB Sports plc; mae hefyd yn uwch gyfarwyddwr annibynnol o Betfair Group plc. Mae'n gweithredu fel cynghorydd arbennig i General Atlantic, y cwmni ecwiti preifat yn UDA. Cafodd ei benodi yn un o Gomisiynwyr Postcomm ym mis Rhagfyr 2010. Cyn hynny, yr oedd yn Gadeirydd ac yn Brif Weithredwr Carrier1 International SA, a chyn hynny, yn Gyfarwyddwr Gweithredol a Phrif Weithredwr Gweithrediadau Byd-eang Cable & Wireless plc.



## NORMAN BLACKWELL



Mae Norman Blackwell yn Aelod Anweithredol o Ofcom ac yn Aelod o Bwyllgorau Gwledydd, Enwebiadau a Thaliadau Ofcom. Roedd yn bresennol mewn 14 o 15 cyfarfod y Bwrdd eleni. Ar hyn o bryd mae'n Gadeirydd y Bwrdd yn Interserve plc, yn Uwch Gyfarwyddwr Annibynnol yn Standard Life plc, yn gyfarwyddwr anweithredol Halma plc, yn aelod Bwrdd y Ganolfan Astudiaethau Polisi ac yn un o Gomisiynwyr Postcomm. Rhwng 1995 ac 1997, roedd yn bennaeth Uned Bolisi'r Prif Weinidog John Major, lle bu'n cydlynu datblygiadau polisi domestig Whitehall. Fe'i gwnaed yn Arglwydd am Oes ym 1997, ac mae'n dal yn aelod gweithgar o Dŷ'r Arglwyddi gyda seddi ar y Pwyllgor Pwerau Dirprwyedig a Diwygio Rheoleiddio.

## STUART MCINTOSH

Ymunodd Stuart McIntosh ag Ofcom fel Partner Cystadleuaeth ym mis Ionawr 2008. Roedd yn bresennol ym mhob un o 15 cyfarfod y Bwrdd eleni. Cafodd ei benodi yn un o Gomisiynwyr Postcomm ym mis Rhagfyr 2010. Cyn ymuno ag Ofcom, yr oedd yn bartner Strategol yn adain gyfathrebu IBM yn yr Unol Daleithiau. Cyn hynny, yr oedd ganddo swyddi uchel gyda PricewaterhouseCooper, lle'r oedd yn arwain Adain Ymgynghori ar Delegyfathrebu PricewaterhouseCooper (yn y DU a'r Unol Daleithiau), ac yr oedd gydag Adventis, sef cwmni ymgynghori ar strategaeth. Dechreuodd ei yrfa fel economegydd yng Ngwasanaeth Economeg Llywodraeth y DU. Mae hefyd wedi gweithio i BT am bedair blynedd fel Pennaeth Economeg Busnes.



## JILL AINSCOUGH



Ymunodd Jill Ainscough ag Ofcom ym mis Awst 2007 fel Prif Swyddog Gweithredol a chafodd ei phenodi ar y Bwrdd ar 19 Hydref 2010. Roedd hi'n bresennol yn 6 o'r 7 cyfarfod Bwrdd a gynhaliwyd ar ôl ei phenodi. Cyn ymuno ag Ofcom roedd hi'n Rheolwr Gyfarwyddwr Easynet – cwmni yr ymunodd hi â nhw gyntaf fel Cyfarwyddwr Strategaeth yn 2001. Yn y swyddogaeth honno roedd hi wedi goruchwylio ymuno â marchnad newydd sef rhwydweithiau data corfforaethol a sicrhaodd nawdd tair blynedd Cymdeithas Olympaidd Prydain. Mae ei phrif swyddogaethau blaenorol yn cynnwys Pennaeth Datblygu Marchnata yn NTL: Rheolwr Cynllunio a Dadansoddi Ariannol Barclaycard (1995-97); Cynllunydd Busnes ar gyfer Cambridge Cable Group (1994-95) ac Uwch Ddadansoddwr Ariannol ar gyfer y Granada Group (1990-92). Mae hi hefyd ar Fwrdd Sport England.

**Roedd Peter Phillips wedi ymddiswyddo o Fwrdd Ofcom ar 4 Hydref 2010.**

## BWRDD OFCOM

Fel corfforaeth statudol annibynnol heb gyfranddalwyr, a sefydlwyd dan Ddeddf y Swyddfa Gyfathrebiadau 2002, nid yw Ofcom yn ddarostyngedig i God Llywodraethu Corfforaethol y DU a gyhoeddwyd gan y Cyngor Adrodd Ariannol.

Fodd bynnag, mae ei egwyddorion yn rhoi meincnod defnyddiol i'r holl gyrff sy'n dymuno gwneud datganiad am eu perfformiad o ran llywodraethu corfforaethol. Mae Ofcom wedi cydymffurfio â phrif egwyddorion Cod Llywodraethu Corfforaethol y DU yn ystod y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2010 ac 31 Mawrth 2011. I'r perwyl hwnnw, bydd Ofcom yn parhau i fabwysiadu egwyddorion y cod lle mae'n gallu gwneud hynny, neu lle mae'n addas iddo wneud hynny, a chofio ei statws fel corfforaeth statudol annibynnol.

### TALIADAU I AELODAU BWRDD

Rhoddir manylion taliadau Aelodau ar dudalennau 60 i 64.

### Y BWRDD

Mae Bwrdd Ofcom yn cynnwys Aelodau Gweithredol ac Anweithredol. Cafodd Cadeirydd ac Aelodau Anweithredol Bwrdd Ofcom eu penodi ar y cyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes, Arloesedd a Sgiliau a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, am gyfnod hyd at bum mlynedd. Mae Pwyllgor Enwebiadau Ofcom wedi cynorthwyo'r ddwy Adran drwy weithio gyda nhw ar y prosesau dethol ar gyfer penodi Aelodau Anweithredol newydd. Penodir Aelodau Gweithredol y Bwrdd gan y Cadeirydd a'r holl Aelodau Anweithredol annibynnol. Mae manylion bywgraffyddol yr Aelodau ar dudalennau 48 i 49. Mae Ofcom wedi mabwysiadu model Bwrdd unedol. Ar hyn o bryd, mae chwe Aelod Anweithredol, gan gynnwys y Cadeirydd, sy'n gyfrifol am redeg y Bwrdd, a thri Aelod Gweithredol, gan gynnwys y Prif Weithredwr, yn rhan o'r Bwrdd. Mae'r Bwrdd yn gyfrifol ac yn atebol am gyflawni swyddogaethau statudol Ofcom, darparu arweiniad strategol a rheoli gweithgareddau cyffredinol Ofcom. Mae dyletswyddau a chyfrifoldebau Aelodau wedi'u rhestru yng Nghod Ymddygiad yr Aelodau, a chedwir cofrestr o fuddiannau'r Aelodau.  Mae'r naill a'r llall ar gael ar wefan Ofcom. At ddibenion mabwysiadu egwyddorion Cod Llywodraethu Corfforaethol y DU:

- mae'r Bwrdd yn ystyried bod yr holl Aelodau Anweithredol yn annibynnol ar y tîm rheoli ac yn rhydd rhag unrhyw berthynas fusnes neu berthynas arall a allai amharu i raddau arnynt wrth wneud penderfyniadau;
- mae'r Bwrdd o'r farn bod gan yr Aelodau, rhyngddynt, amrediad eang o brofiad sy'n sicrhau bod y Bwrdd yn effeithiol i arwain a rheoli Ofcom;
- Aelodau Anweithredol yw mwyafrif o aelodau'r Bwrdd. Ystyrir mai Millie Banerjee yw'r uwch-Aelod Anweithredol at ddibenion Cod Llywodraethu Corfforaethol y DU;
- bydd yr holl Aelodau'n cael eu cynefino'n llawn am eu cyfrifoldebau adeg eu penodi ac ar ôl hynny byddant yn cael rhagor o arweiniad ac yn cael eu briffio yn ôl y gofyn;
- bydd y Bwrdd yn cwrdd yn rheolaidd yn ystod y flwyddyn. Mae'r Bwrdd yn cadw rhai materion penodol i'w hun, ond fel arall bydd yn dirprwyo cyfrifoldebau penodol i uwch reolwyr a phwyllgorau. Swyddogaeth y rheolwyr gweithredol yw gweithredu polisïau'r Bwrdd. Mae nifer o gyrff cynghori yn cyfrannu at waith y Bwrdd a'r Pwyllgor Gwaith;
- mae'r Bwrdd yn cael gwybodaeth amserol a rheolaidd mewn dull ac ansawdd sy'n addas iddo gyflawni ei swyddogaethau; ac
- mae gan bob Aelod fynediad at Ysgrifennydd y Gorfforaeth, sy'n atebol i'r Bwrdd er mwyn sicrhau bod y rheolau a'r gweithdrefnau cywir yn cael eu dilyn. Gall yr holl Aelodau gael cyngor gan weithwyr proffesiynol annibynnol, a bydd Ofcom yn talu am hynny.

Cynhaliodd y Bwrdd werthusiad mewnol o'i berfformiad a pherfformiad ei bwyllgorau yn ystod gwanwyn - haf 2010.

Yn gyffredinol, mae'r Cadeirydd yn rheoli'r Bwrdd er mwyn sicrhau bod:

- gan Ofcom amcanion priodol a strategaeth effeithiol;
- tîm y Prif Weithredwr yn gallu rhoi'r strategaeth ar waith;
- gweithdrefnau ar waith i hysbysu'r Bwrdd am y perfformiad yn erbyn yr amcanion; a bod
- Ofcom yn gweithredu yn unol â'r safonau uchaf o lywodraethu corfforaethol. Anfonir Adroddiad Blynyddol Ofcom i'r Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau, sy'n gosod copïau ohono gerbron Dau Dŷ'r Senedd, y mae Ofcom yn atebol iddynt.

## PWYLLGORAU'R BWRDD

Wrth arfer ei bwerau dan Ddeddf y Swyddfa Gyfathrebiadau 2002, mae'r Bwrdd yn dirprwyo rhai o'i gyfrifoldebau i'r Rheolwyr Gweithredol yn Ofcom a rhai i Bwyllgorau'r Bwrdd sydd ag awdurdodaeth a chylch gorchwyl wedi'u ddiffinio'n glir.

Disgrifir cyfansoddiad a phrif swyddogaethau'r Pwyllgorau pwysicaf hyn isod.

## Y BWRDD CYNNWYS

Mae swyddogaeth a chylch gwaith y Bwrdd Cynnwys wedi'u nodi yn adroddiad Cadeirydd y Bwrdd Cynnwys ar dudalen 11. Cynhaliodd y Bwrdd Cynnwys 9 cyfarfod yn ystod y flwyddyn. Dyma aelodau'r Bwrdd Cynnwys:

- Philip Graf CBE (Cadeirydd)
- Millie Banerjee CBE
- Tim Gardam
- Anthony Lilley OBE
- Dr. David Levy – a benodwyd ar 1 Mai 2011
- Iseabail Mactaggart – a benodwyd ar 1 Mai 2011
- Glyn Mathias – a benodwyd ar 1 Mai 2011
- Dr. Paul Moore
- Joyce Taylor
- Janey Walker – a benodwyd ym mis Mai 2011
- Christopher Woolard – a benodwyd ar 2 Chwefror 2011

Roedd Adam Singer (Dirprwy Gadeirydd), Kath Worrall, Sue Balsom a Pam Giddy wedi ymddeol ar 30 Mehefin 2010 ac roedd Richard Ayre wedi ymddeol ar 31 Gorffennaf 2010. Roedd Stewart Purvis wedi ymddiswyddo fel Aelod Gweithredol ar 30 Gorffennaf 2011 ac roedd Chris Banatvala wedi gadael ar 31 Mawrth 2011.

Ar hyn o bryd Christopher Woolard yw unig Aelod Gweithredol y Bwrdd Cynnwys.

Mae Aelodau'r Bwrdd Cynnwys hefyd yn aelodau o'r Pwyllgor Trwyddedu Radio, y Pwyllgor Etholiadau ac, yn ystod y cyfnod dan sylw, roeddent yn aelodau o'r Pwyllgor Sancsiynau Darlledu a'r Pwyllgor Adolygu Darlledu[12].

## Y PWYLLGOR GWAITH

Y Pwyllgor Gwaith yw'r uwch dîm gweithredol sy'n gyfrifol am oruchwylio rheolaeth dros Ofcom. Ei brif ffocws yw pennu cyfeiriad i'r sefydliad, a gwneud penderfyniadau am faterion ariannol a gweinyddol a'u monitro. Cyfarfu 14 o weithiau yn ystod y flwyddyn. Caiff ei gyfrifoldebau o ran llunio polisïau eu cyfyngu i bolisi rheoli yn unig. Dyma'r aelodau:

- Ed Richards (Prif Weithredwr) – Cadeirydd
- Jill Ainscough (Prif Swyddog Gweithredol)
- Stuart McIntosh (Cyfarwyddwr Grŵp, Cystadleuaeth)
- H. Nwana (Cyfarwyddwr Grŵp, Polisi Sbectrwm)
- Claudio Pollack (Cyfarwyddwr Grŵp, Defnyddwyr) – a benodwyd ar 7 Rhagfyr 2010
- Steve Unger (Cyfarwyddwr Grŵp, Strategaeth, Prif Economegydd a Thechnoleg) – a benodwyd ar 7 Rhagfyr 2010
- Polly Weitzman (Cwnsel Cyffredinol)
- Christopher Woolard (Cyfarwyddwr Grŵp Cynnwys, Rhyngwladol a Datblygu Rheoleiddio)

Ymddiswyddodd Peter Phillips ar 4 Hydref 2010 ac ymddiswyddodd Stewart Purvis ar 30 Gorffennaf 2010. Gwahoddir uwch swyddogion Ofcom eraill i fynychu cyfarfodydd y Pwyllgor ar sail ad-hoc.

## Y PWYLLGOR ARCHWILIO A RISG

Mae'r Pwyllgor Archwilio a Risg yn cynnwys tri Aelod Anweithredol o Fwrdd Ofcom ac Aelod Anweithredol allanol annibynnol. Dyma aelodau'r Pwyllgor Archwilio a Risg:

- Mike McTighe (Cadeirydd)
- Peter Teague
- Philip Graf CBE
- Colette Bowe

Mae Peter Teague, yr Aelod Anweithredol allanol annibynnol, yn gyfrifydd siartredig cymwysedig ac mae'n bodloni gofynion Cod Llywodraethu Corfforaethol y DU bod gan un Aelod o'r Pwyllgor brofiad ariannol perthnasol. Caiff gofynion ychwanegol Cod Llywodraethu Corfforaethol y DU eu bodloni i'r graddau bod tri Aelod o'r Pwyllgor yn Aelodau Anweithredol annibynnol o Fwrdd Ofcom.

Gwahoddir y Prif Weithredwr, y Prif Swyddog Gweithredol a'r Cyfarwyddwr Cyllid, yn ogystal â'r archwilwyr mewnol ac allanol, i fynychu cyfarfodydd y Pwyllgor. Mae Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Risg yn adrodd yn ôl i Fwrdd Ofcom ar ganlyniadau cyfarfodydd y Pwyllgor.

Dyma brif ddyletswyddau'r Pwyllgor Archwilio a Risg:

- monitro ac adolygu effeithiolrwydd y systemau rheolaeth fewnol a rheoli risg, ar ran y Bwrdd:
- adolygu a chyfeirio'r swyddogaeth archwilio mewnol a phenodi archwilwyr mewnol;
- adolygu natur a chwmpas yr archwiliad allanol a chanfyddiadau'r archwilwyr allanol;
- monitro ac adolygu cywirdeb, ansawdd a dibynadwyedd y datganiadau ariannol, y Cynllun Blynyddol a'r Cyfrifon, ar ran y Bwrdd;
- adolygu cwmpas a chanlyniadau'r archwiliadau mewnol ac allanol yn barhaus; a
- chymeradwyo'r fframwaith awdurdod ariannol.

12 Ym mis Mehefin 2011, cyhoeddodd Ofcom weithdrefnau newydd ar gyfer delio â chwynion, ymchwiliadau a sancsiynau darlledu. Mae'r gweithdrefnau newydd wedi diddymu'r Pwyllgor Sancsiynau Darlledu a'r Pwyllgor Adolygu Darlledu. Fodd bynnag, mae aelodau'r Bwrdd Cynnwys yn parhau i chwarae rhan mewn penderfyniadau a sancsiynau cynnwys a safonau. I gael rhagor o wybodaeth, edrychwch ar: http://stakeholders.ofcom.org.uk/broadcasting/guidance/complaints-sanctions/.

Cyflawnir y swyddogaeth archwilio mewnol gan KPMG yn annibynnol ar Ofcom. Cred y Pwyllgor Archwilio a Risg ei bod yn briodol bod yr archwilwyr mewnol hefyd yn darparu cyngor penodol ar risgiau mewnol i Ofcom. Gwneir penderfyniadau ynghylch gofyn i KPMG ddarparu gwasanaethau eraill fesul achos unigol. Cyflawnir y swyddogaeth archwilio allanol gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol.

Cyfarfu'r Pwyllgor Archwilio a Risg bedair gwaith yn ystod y flwyddyn. Gellir gweld y cylch gorchwyl ar wefan Ofcom.

## Y PWYLLGOR TALIADAU

Mae'r Pwyllgor Taliadau yn cynnwys holl Aelodau Anweithredol Bwrdd Ofcom. Dyma aelodau'r Pwyllgor Taliadau:

- Philip Graf CBE (Cadeirydd)
- Millie Banerjee CBE
- Norman Blackwell
- Colette Bowe
- Tim Gardam
- Mike McTighe

Ymddiswyddodd Millie Banerjee fel Cadeirydd ar 31 Rhagfyr 2010 a chafodd ei holynu gan Philip Graf. Mae'r Prif Weithredwr, y Prif Swyddog Gweithredol a'r Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol yn mynychu cyfarfodydd ar wahoddiad y Pwyllgor Taliadau.

Mae'r Pwyllgor yn cynghori Ofcom ynghylch y taliadau i'r Prif Weithredwr, Aelodau Gweithredol eraill y Bwrdd ac i Aelodau'r Pwyllgor Gwaith, yn ogystal â'u telerau ac amodau gwasanaeth. Mae'r Pwyllgor hefyd yn cynghori Ofcom ar delerau ac amodau aelodau rhan amser y Bwrdd Cynnwys, y Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau, y Pwyllgor Cynghori ar Bobl Hŷn a Phobl Anabl, a phedwar Pwyllgor Cynghori'r Gwledydd a'r Rhanbarthau.

Mae'r Pwyllgor yn goruchwylio'r broses ar gyfer pennu telerau ac amodau holl gydweithwyr eraill Ofcom. Mae'r Pwyllgor hefyd yn goruchwylio ac yn penderfynu ar faterion sy'n ymwneud â'r trefniadau pensiwn a sefydlwyd gan Ofcom ar gyfer holl gydweithwyr Ofcom.

Mae'r Pwyllgor Taliadau'n cwrdd yn ôl y gofyn. Yn ystod y cyfnod dan sylw, cyfarfu'r Pwyllgor saith gwaith. Mae Cadeirydd y Pwyllgor Taliadau yn adrodd yn ôl ar ganlyniadau cyfarfodydd y Pwyllgor Taliadau i'r Bwrdd.

Yr Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes, Arloesedd a Sgiliau a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon sy'n pennu'r taliadau i Aelodau Anweithredol Bwrdd Ofcom, a nodir hynny yn Nodyn 9 yr Adroddiad Taliadau. Petai angen i Ofcom ystyried unrhyw agwedd ar daliadau Aelodau Anweithredol, mae Pwyllgor Taliadau Aelodau Anweithredol wedi'i sefydlu sy'n cynnwys y Prif Weithredwr, y Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol ac Ysgrifennydd y Gorfforaeth, a fydd yn cwrdd ac yn adrodd yn uniongyrchol i'r Ysgrifenyddion Gwladol, fel y bo'n briodol. O ganlyniad, nid oes dim un Aelod Bwrdd yn cyfrannu at bennu ei daliadau ei hun.

Mae'r Adroddiad Taliadau ar dudalennau 60 i 64 yn nodi sut mae Ofcom yn gweithredu egwyddorion perthnasol Cod Llywodraethu Corfforaethol y DU.

## Y PWYLLGOR ENWEBIADAU

Mae'r Pwyllgor Enwebiadau'n cynnwys holl Aelodau Anweithredol Bwrdd Ofcom. Dyma aelodau'r Pwyllgor Enwebiadau:

- Colette Bowe (Cadeirydd)
- Millie Banerjee CBE
- Tim Gardam
- Philip Graf CBE
- Mike McTighe
- Norman Blackwell

Mae'r Pwyllgor yn gweithio gyda'r Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau a'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ar broses ddethol yr Aelodau Anweithredol ar Fwrdd Ofcom ac yn gwneud argymhellion ynghylch penodiadau Aelodau Gweithredol. Cyfarfu'r Pwyllgor dair gwaith yn ystod y flwyddyn.

## Y PWYLLGOR ADOLYGU DARLLEDU, Y PWYLLGOR SANCSIYNAU DARLLEDU A'R PWYLLGOR ETHOLIADAU

Mae'r pwyllgorau hyn yn cynnwys aelodau o'r Bwrdd Cynnwys a Bwrdd Ofcom.

Mae gan y Pwyllgorau Gadeirydd parhaol sef, yn ystod y cyfnod dan sylw, Philip Graf ar gyfer y Pwyllgor Sancsiynau Darlledu a'r Pwyllgor Etholiadau. Cafodd y Pwyllgor Adolygu Darlledu ei gadeirio gan Richard Ayre tan 31 Gorffennaf 2010 a gan Joyce Taylor ar ôl hynny. Cafodd chwe achos eu hystyried gan y Pwyllgor Adolygu Darlledu yn ystod y cyfnod hwn a rhoddodd y Pwyllgor Sancsiynau Darlledu sancsiynau mewn tri achos. Rhoddir rhagor o fanylion am y gwaith hwn ar dudalen 101.

## Y PWYLLGOR TRWYDDEDU RADIO

Mae Bwrdd Ofcom wedi dirprwyo awdurdod i'r Pwyllgor Trwyddedu Radio i gyflawni swyddogaethau Ofcom yng nghyswllt trwyddedu darlledu radio (sain). Mae cyfrifoldebau'r Pwyllgor yn cynnwys penderfynu ar ddyfarnu trwyddedau radio newydd a'r rheini sydd wedi cael eu hail-hysbysebu, amrywio trwyddedau a dirymu trwyddedau.

Philip Graf sy'n cadeirio'r Pwyllgor hwn. Mae ei aelodau'n cynnwys un Aelod Anweithredol parhaol o'r Bwrdd Cynnwys, Paul Moore (er 1 Gorffennaf 2010) a thri o gydweithwyr Ofcom. Roedd Joyce Taylor a Pam Giddy yn Aelodau Anweithredol tan 30 Mehefin 2010. Cyfarfu'r Pwyllgor naw gwaith yn ystod y flwyddyn.

## PANEL Y GRONFA RADIO CYMUNEDOL

Mae Adran 359 o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 yn caniatáu sefydlu cronfa ar gyfer gweithredwyr radio cymunedol, a bod Ofcom yn gweinyddu'r gronfa honno gan "roi grantiau y mae'n eu hystyried sy'n

briodol" i ddeiliaid trwyddedau radio cymunedol. Mae'r Panel yn cwrdd yn ôl y gofyn i archwilio ceisiadau ac i roi cyfraniadau o'r Gronfa. Mae'n annibynnol ar y Pwyllgor Trwyddedu Radio (gweler uchod) sy'n dyfarnu trwyddedau radio cymunedol.

Mae gan y Panel dri Aelod Anweithredol newydd: Kevin Carey (Cadeirydd), Richard Hilton a Thomas Prag.

### Y PWYLLGOR GWLEDYDD

Mae'r Pwyllgor Gwledydd yn cytuno ar broffil a swyddogaeth pedwar Pwyllgor Cynghori Cenedlaethol Ofcom, ac yn cydlynu eu gweithgarwch. Mae ei swyddogaeth yn cynnwys: deall deinameg wleidyddol pob Gwlad yn y Deyrnas Unedig a chynghori ar ymgysylltiad gwleidyddol Ofcom ym mhob Gwlad; cytuno ar brosesau priodol ar gyfer ymgysylltiad Ofcom â phob Pwyllgor Cynghori Cenedlaethol; monitro digwyddiadau rhanddeiliaid ym mhob Gwlad a goruchwylio cyfraniad ac ymgysylltiad Bwrdd Ofcom, y Bwrdd Cynnwys, aelodau'r Pwyllgorau Cynghori Cenedlaethol a swyddogion gweithredol Ofcom ym mhob Gwlad. Mae ei aelodau'n cynnwys dau Aelod Anweithredol o Fwrdd Ofcom, gydag un ohonynt i weithredu fel Cadeirydd, a Chadeiryddion y Pwyllgorau Cynghori Cenedlaethol. Gwahoddir Cyfarwyddwyr Gweithredol pob Gwlad, ynghyd â'r Cyfarwyddwr Grŵp Cynnwys Rhyngwladol a Datblygu Rheoleiddio, i fynychu cyfarfodydd y Pwyllgor Gwledydd. Dyma aelodau'r Pwyllgor Gwledydd:

- Tim Gardam (Cadeirydd)
- Norman Blackwell
- Professor William Dutton
- Professor Wallace Ewart, OBE
- Professor Philip Schlesinger
- Glyn Mathias – a benodwyd 1 Mawrth 2011

Roedd yr Athro Tony Davies wedi ymddeol ar 28 Chwefror 2011.

### Y PWYLLGOR CYLLID CLIRIO SBECTRWM

Mae'r Bwrdd wedi dirprwyo i'r Pwyllgor hwn gyfrifoldeb dros ddarparu grantiau ar sail effeithlonrwydd sbectrwm ar gyfer unrhyw gynllun clirio sbectrwm arfaethedig dan Adran 1(5) o Ddeddf Telegraffiaeth Ddi-wifr 2006 yn ogystal â'r telerau ac amodau ar gyfer darparu grantiau: rhaid cael caniatâd Trysorlys EM ar gyfer grantiau a'r telerau ac amodau. Mae Cadeirydd a Dirprwy Gadeirydd y Pwyllgor yn Aelodau Anweithredol annibynnol allanol. Dyma'r Aelodau:

- Sir David Brown (Cadeirydd)
- Peter Teague (Dirprwy Gadeirydd)
- Peter Davies (er mis Mawrth 2011)
- H. Nwana
- Kate Stross

Gadawodd yr Athro William Webb ar 31 Ionawr 2011. Cyfarfu'r Pwyllgor 14 gwaith eleni, gan ystyried 49 cais am grant clirio teledu daearol digidol, cafodd pob un ohonynt ganiatâd mewn egwyddor, ac 18 o geisiadau am grantiau yn ymwneud â chlirio PMSE; cafodd saith ganiatâd mewn egwyddor. Roedd Trysorlys EM wedi cymeradwyo penderfyniad y Pwyllgor ym mhob achos.

Roedd y Pwyllgor hwn hefyd wedi gwneud penderfyniad mewn egwyddor, a gafodd ei gymeradwyo wedyn gan Drysorlys EM, i roi grantiau i rai cymwys sy'n dal trwyddedau a llogwyr cymwys heb drwydded a oedd wedi cofrestru offer erbyn y dyddiad cau sef 31 Rhagfyr 2010, ar yr amod eu bod yn darparu'r dystiolaeth a oedd yn ofynnol i ddilysu eu hawliadau.

Roedd y 1,241 o rai cymwys a oedd yn dal trwyddedau a oedd wedi cofrestru yn cynrychioli dwy ran o dair o'r rheini a oedd yn dal trwydded yn y flwyddyn hyd at 2 Chwefror 2009. Disgwylir na fydd gwerth yr hawliadau hyn ynghyd â nifer bach o achosion amgylchiadau eithriadol wedi'u cymeradwyo, yn ddim mwy na'r gyllideb o £45m.

## PWYLLGORAU HEBLAW RHAI'R BWRDD

### Y PANEL DEFNYDDWYR CYFATHREBIADAU

Mae Adran 16 o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 yn mynnu bod Ofcom yn sefydlu Panel Defnyddwyr. Mae'r Panel yn gweithredu fel 'cyfaill beirniadol' i Ofcom sy'n darparu cyngor cadarn ac annibynnol, ond sydd hefyd yn bragmatig ac yn adeiladol.

Drwy'r cyngor y bydd yn ei roi, mae'r Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau yn ceisio darbwyllo Ofcom, y Llywodraeth a'r diwydiant i edrych ar faterion o safbwynt defnyddwyr, ac i amddiffyn a hybu eu buddiannau. Mae'r Panel yn rhoi sylw penodol i anghenion pobl hŷn a phobl ag anableddau, anghenion pobl mewn ardaloedd gwledig a phobl ar incwm isel, ac anghenion busnesau bach, sy'n wynebu llawer o'r un problemau â defnyddwyr unigol.

Mae'r Panel yn annibynnol ar Ofcom, ac mae'n cynnwys arbenigwyr annibynnol, gan gynnwys cynrychiolwyr o'r Alban, Cymru, Gogledd Iwerddon a Lloegr, ac mae ganddynt brofiad mewn amryw o wahanol feysydd.

- Bob Warner CBE (Cadeirydd)
- Fiona Ballantyne
- Colin Browne
- Roger Darlington
- Dr Maureen Edmondson OBE

Ymddeolodd Anna Bradley fel Cadeirydd ar 9 Ebrill 2011 a chafodd ei holynu gan Bob Warner. Roedd Leen Petrie, Louisa Bolch, a Dr Damian Tambini wedi ymddeol ar 27 Hydref 2010. Er nad yw Kim Brook yn aelod ffurfiol, bydd e'n bresennol ac yn cymryd rhan yn holl gyfarfodydd y Panel. Mae adroddiad blynyddol y Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau yn rhoi sylw i ddylanwad y Panel yn 2010/11 a'r blaenoriaethau ar gyfer 2011/12, ac mae ar gael yn www.communicationsconsumerpanel.org.uk.

## BWRDD CYNGHORI OFCOM AR FATERION SBECTRWM

Sefydlwyd Bwrdd Cynghori Ofcom ar Faterion Sbectrwm yn 2004 i roi cyngor annibynnol i Ofcom ar faterion strategol sy'n ymwneud â rheoli sbectrwm. Cyfarfu chwe gwaith yn ystod y flwyddyn. Dyma aelodau'r Bwrdd:

- David Meyer (Cadeirydd)
- Yr Athro Linda Doyle
- Robin Foster (a benodwyd ar 1 Mehefin 2010)
- Phillipa Marks
- Philip Marnick
- Dr Robert Pepper
- Jean-Jacques Sahel (a benodwyd ar 1 Mehefin 2010)
- Yr Athro Simon Saunders
- Sam Sharps (yn rhinwedd ei swydd)
- Mike Walker (a benodwyd ar 1 Mehefin 2010)
- Yr Athro William Webb
- Gavin Young

Ymddeolodd Syr David Brown fel Cadeirydd ar 31 Mai 2010, a chafodd ei olynu gan David Meyer. Roedd yr Athro Barry Evans a'r Athro Will Stewart wedi ymddeol ar 31 Mai 2010 ac roedd yr Athro Tommaso Valleti wedi ymddeol ar 31 Mai 2011. Daeth yr Athro William Webb yn aelod anweithredol ar 1 Chwefror ar ôl gadael Ofcom fel gweithiwr amser llawn.

Cyhoeddir adroddiad blynyddol y Bwrdd, a fydd yn rhoi sylw i'w weithgarwch yn ystod y flwyddyn, ar wefan y Bwrdd yn www.osab.org.uk.

## Y PWYLLGOR CYNGHORI AR BOBL HŶN A PHOBL ANABL

Mae Adran 21(1) o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 yn mynnu bod Ofcom yn sefydlu Pwyllgor i gynghori Ofcom am faterion yn y sector cyfathrebiadau sy'n effeithio ar bobl hŷn a phobl anabl yn arbennig. Roedd y Pwyllgor wedi cwrdd bedair gwaith yn ystod y flwyddyn ac mae'n mynd i'r afael â darnau penodol o waith mewn is-grwpiau. Dyma Aelodau'r Pwyllgor Cynghori ar Bobl Hŷn a Phobl Anabl:

- Jo Connell (Cadeirydd) – a benodwyd ar 1 Ebrill 2010
- Liz Atkins
- Suneel Shivdasani
- Dr. Maurice Mulvenna

Ymddiswyddodd David Sindall ar 8 Hydref 2010. Ymddeolodd Dr Laura Muir, Robert Peckford a Nicholas Young ar 31 Mawrth 2011 a Simon Cramp ar 30 Ebrill 2011.

Mae'r Pwyllgor wedi parhau i gynghori Ofcom i sicrhau bod pobl hŷn a phobl anabl yn bartneriaid cyfartal ac yn gyfranogwyr llawn ar draws technolegau telegyfathrebiadau a darlledu cydgyfeiriol sy'n datblygu, llwyfannau cyfryngau newydd, a chyfryngau darlledu traddodiadol a digidol. Darparodd y Pwyllgor arweiniad i Ofcom ar amrywiaeth o bynciau gan gynnwys yr Adolygiad o Wasanaethau Cyfnewid, Adolygiad o Wasanaethau Mynediad a Chynllun Blynyddol Drafft Ofcom ar gyfer 2011/12. Yn ystod yr hydref roedd y Pwyllgor wedi cyhoeddi ymchwil i'r cynnyrch a'r gwasanaethau a allai fod o fudd i bobl hŷn a phobl anabl ar draws rhwydweithiau band eang cyflym iawn. Cafodd yr adroddiad ei gefnogi gan ddigwyddiad lansio i randdeiliaid ac mae'r canfyddiadau hefyd wedi cael eu hamlygu mewn cynadleddau a gynhaliwyd gan Age UK a'r LSE, ymysg rhai eraill.

## PWYLLGORAU CYNGHORI'R GWLEDYDD A'R RHANBARTHAU

Mae Adran 20 o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 yn mynnu bod Ofcom yn sefydlu Pwyllgorau Cynghori ar gyfer y Gwledydd gwahanol yn y Deyrnas Unedig. Swyddogaeth pob Pwyllgor yw darparu cyngor i Ofcom ar faterion yn ymwneud â chyfathrebu yn deillio o fuddiannau a safbwyntiau pobl sy'n byw yn y rhan o'r DU a wasanaethir gan y Pwyllgor. Dyma'r materion penodol roedd y Pwyllgor wedi cynghori yn eu cylch yn ystod y flwyddyn ddiwethaf: materion sy'n parhau am gyflwyno a chyflymder band eang yn benodol mewn ardaloedd mwy gwledig; argaeledd symudol, cystadleuaeth, ardaloedd digyswllt a chrwydro; arwerthiant arfaethedig y sbectrwm 800 MHz a 2.6 GHz; teledu lleol, cenedlaethol a rhanbarthol; ymchwil Ofcom ym mhob gwlad. Roedd pob Pwyllgor wedi cwrdd bump gwaith yn ystod y flwyddyn.

Dyma aelodau pob Pwyllgor:

### RHANBARTHAU LLOEGR

- Yr Athro William Dutton (Cadeirydd)
- Olwyn Hocking
- John Varney
- Graham Creelman OBE
- Wendy Pilmer
- Helen Foster
- Robert Watson
- Anne Scorer

Ymddiswyddodd Dharmash Mistry o'r Pwyllgor ar 30 Medi 2010.

### YR ALBAN

- Yr Athro Philip Schlesinger (Cadeirydd)
- Thomas Prag
- Laura Alexander
- Dr Franck Chevalier
- Mairi Mcleod
- Iseabail Mactaggart – a benodwyd ar 1 Mai 2011

Ymddeolodd Mike Shaw, Dr Andrew Muir ac Andrew Jones ar 28 Chwefror 2011 ac ymddeolodd Andrew Anderson ar 31 Mawrth 2011.

### GOGLEDD IWERDDON

- Yr Athro Wallace Ewart OBE (Cadeirydd)
- Isolde Goggin
- Lesley Holmes
- Libby Kinney
- Dr Paul Moore – a benodwyd ar 1 Mai 2011
- Ben Preston

Roedd Dr Leslie Orr, Paul Cavanagh, Dr Sally Montgomery, Billy McClean a Maire Killoran wedi ymddeol ar 28 Chwefror 2011.

### CYMRU

- Glyn Mathias (Cadeirydd)
- Julie Barton
- Kim Brook – a benodwyd ar 1 Mai 2011
- Ian Clarke
- John Davies
- Simon Gibson OBE

Roedd yr Athro Tony Davies wedi ymddeol ar 28 Chwefror 2011 a chafodd ei olynu fel Cadeirydd o'r dyddiad hwnnw ymlaen gan Glyn Mathias. Roedd Nick Bennett a Mark Elliott wedi ymddeol ar 28 Chwefror 2011.

# DATGANIAD O GYFRIFOLDEBAU

## CYFRIFOLDEBAU'R BWRDD

Dan delerau Deddf y Swyddfa Gyfathrebiadau 2002, mae'n ofynnol i'r Bwrdd baratoi Datganiad o Gyfrifon ar gyfer pob blwyddyn ariannol. Mae hyn yn cydymffurfio â'r Cyfarwyddyd ar Gyfrifon a gyhoeddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes, Arloesedd a Sgiliau a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon. Mae'r Bwrdd hefyd yn gyfrifol am anfon copi o'r Datganiad o Gyfrifon at y Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol.

Caiff y Datganiad o Gyfrifon hwn ei baratoi, i'r graddau y mae hynny'n berthnasol ar sail gronnus ac yn unol â Deddf Cwmnïau 2006 a safonau cyfrifyddu'r Deyrnas Unedig a gaiff eu derbyn yn gyffredinol. Rhaid iddo roi darlun cywir a theg o gyflwr busnes Ofcom fel yr oedd ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, ac o'i incwm a'i wariant, ei enillion a'i golledion cydnabyddedig a'r llifoedd arian ar gyfer y flwyddyn ariannol.

Mae'r Bwrdd yn cadarnhau ei fod, wrth baratoi'r Datganiad o Gyfrifon hwn, wedi dilyn y gofynion perthnasol ar gyfer cyfrifyddu a datgelu, wedi defnyddio polisïau cyfrifyddu addas yn gyson, wedi rhoi barn a gwneud amcangyfrifon ar sail resymol, wedi dilyn safonau cyfrifyddu perthnasol ac wedi paratoi'r datganiad o gyfrifon hwn ar sail busnes byw.

Mae'r Bwrdd yn gyfrifol am sicrhau bod cofnodion priodol yn cael eu cynnal a'u cadw sy'n datgelu i raddau sy'n rhesymol gywir ar unrhyw adeg beth yw sefyllfa ariannol Ofcom, ac yn ei alluogi i sicrhau bod y Datganiad o Gyfrifon yn cydymffurfio â Deddf Cwmnïau 2006. Yn ogystal â hynny, mae'r Bwrdd yn gyfrifol am ddiogelu asedau Ofcom, ac felly mae'n gyfrifol am gymryd camau rhesymol i atal ac i ganfod twyll ac anghysondebau eraill.

## CYFRIFOLDEBAU'R PRIF WEITHREDWR

Penodir y Prif Weithredwr gan y Bwrdd, sy'n dirprwyo iddo'r cyfrifoldeb dros reoli Ofcom o ddydd i ddydd. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes, Arloesedd a Sgiliau a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon wedi dynodi'r Prif Weithredwr yn Swyddog Atebol Ofcom. Nid yw wedi'i benodi'n ffurfiol yn Swyddog Atebol yn ôl ystyr y Llywodraeth; ond mae'r penodiad yn cynnwys dyletswyddau cyfrifoldeb o ran rheoleiddio, priodoldeb, gwerth am arian, rheolaeth ariannol dda a diogelu cronfeydd cyhoeddus.

Mae gan y Prif Weithredwr gyfrifoldebau penodol dros sicrhau y cydymffurfir â thelerau'r Memorandwm Ariannol a gyhoeddwyd gan yr Ysgrifenyddion Gwladol. Rhaid iddo hefyd sicrhau bod cofnodion cyfrifyddu priodol yn cael eu cadw a rhaid iddo lofnodi'r cyfrifon.

Fel Aelod o'r Bwrdd, rhaid i'r Prif Weithredwr sicrhau nad yw ei gyfrifoldebau o ran atebolrwydd yn gwrthdaro â'r rheini sydd ganddo fel Aelod Bwrdd. Hefyd, gall y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a phwyllgorau Seneddol eraill alw ar y Prif Weithredwr i roi tystiolaeth am y modd y mae'n cyflawni ei ddyletswyddau.

# DATGANIAD AR REOLAETH FEWNOL

## CWMPAS Y CYFRIFOLDEB

A minnau'n Swyddog Atebol, yr wyf yn gyfrifol am gynnal system rheolaeth fewnol gadarn sy'n gymorth i wireddu polisïau Ofcom, ei nodau a'i amcanion, a system sydd, ar yr un pryd, yn diogelu cronfeydd cyhoeddus ac asedau adrannol. Yr wyf yn bersonol gyfrifol am y cronfeydd a'r asedau hyn a gwnaf hynny'n unol â'r cyfrifoldebau a roddwyd i mi dan y drefn *Rheoli Arian Cyhoeddus* ac ym Memorandwm Ariannol Ofcom gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes, Arloesedd a Sgiliau a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon.

Mae gofyn i mi gynghori'r Bwrdd petai unrhyw gam a gymerid yn tarfu ar briodoldeb neu gysondeb, neu ar fy nghyfrifoldebau ehangach i sicrhau gwerth am arian.

## PWRPAS Y SYSTEM RHEOLAETH FEWNOL

Lluniwyd y system rheolaeth fewnol er mwyn rheoli risg i lefel resymol yn hytrach nag er mwyn dileu'n llwyr y risg o fethu cyflawni polisïau, nodau ac amcanion; felly, dim ond sicrwydd rhesymol y gall ei ddarparu yn hytrach na sicrwydd absoliwt y bydd yn effeithiol. Mae'r system rheolaeth fewnol yn seiliedig ar broses barhaus a luniwyd i;

- nodi a blaenoriaethu'r risgiau wrth geisio cyflawni polisïau, nodau ac amcanion adrannol;
- gwerthuso'r tebygolrwydd y caiff y risgiau hynny eu gwireddu a beth fyddai effaith hynny;
- rheoli'r risgiau'n effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus; a
- gwreiddio rheoli risg ym mhrosesau busnes ehangach Ofcom.

Bu'r system rheolaeth fewnol ar waith gan Ofcom am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2011 a hyd at ddyddiad cymeradwyo'r cyfrifon a'r adroddiad blynyddol, a hynny'n unol â chyfarwyddyd y Trysorlys.

## Y GALLU I DRIN RISG

Mae Ofcom yn parhau i ddangos arweinyddiaeth gref yn y ffordd mae'n rheoli risg drwy waith y Bwrdd a'i is-bwyllgorau. Wrth roi cymorth i'r Bwrdd a'r Pwyllgor Gwaith, mae'r Bwrdd Gweithrediadau a'r Tîm Gweithredol ym maes Polisi'n gyfrifol am ddarparu arweiniad ar reoli risgiau sy'n codi yn sgil datblygiadau rheoleiddio a gweithredu penodol.

Fel rhan o'r broses barhaus i wella ein gallu i reoli risg, bydd Ofcom yn cynnal adolygiad ffurfiol rheolaidd o'i fframwaith rheoli risg. Mae'r adolygiad hwn yn cynnwys ymarfer i feincnodi'r fframwaith yn ôl Fframwaith Asesu Rheoli Risg Trysorlys EM. Roedd adolygiad 2009 yn tynnu sylw at nifer o argymhellion a gafodd eu rhoi ar waith yn ystod 2010/11. Roedd yr adolygiad, a gynhaliwyd ym mis Mawrth 2011 ac a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Gwaith yn adlewyrchu'r gwelliannau yn y fframwaith rheoli risg ac roedd hefyd yn gwneud nifer o argymhellion eraill a fydd yn rhan o'r sylfaen ar gyfer rhaglen gwella 2011/12. Fel rhan o'r cynllun blynyddol archwilio mewnol, roedd KPMG yn cydnabod y cynnydd a oedd wedi cael ei wneud i wreiddio rheoli risg ymhellach yn y sefydliad ac yn cefnogi casgliadau a chanfyddiadau Adolygiad Risg 2010/11.

Mae polisi a gweithdrefnau rheoli risg Ofcom yn diffinio ein dull o reoli risg yn glir, ein hamcanion a'n prosesau, yn ogystal ag yn diffinio'r swyddogaethau, yr atebolrwydd a'r cyfrifoldebau rheoli risg penodol sy'n bodoli ar draws y sefydliad. Mae hefyd yn rhoi arweiniad clir i ymarferwyr. Cafodd y polisi a'r gweithdrefnau eu hadolygu a'u diweddaru yn ystod y flwyddyn a'u hail-lansio fel rhan annatod o gynllun i wella effeithlonrwydd prosiect.

Mae uwch reolwyr yn gyfrifol am sicrhau bod gan gydweithwyr y sgiliau priodol i ragweld risgiau posibl, i asesu ac i reoli risg yn unol â dymuniad Ofcom i wreiddio a chefnogi diwylliant o reoli risg yn dda. Wrth gefnogi rôl yr uwch reolwyr i hyrwyddo'r broses risg, mae'r Rheolwr Risg ac Yswiriant yn gweithio ar draws pob adran yn y sefydliad i hyrwyddo ac integreiddio'r broses rheoli risg, ac i gefnogi ac addysgu cydweithwyr.

Penodwyd Cyfarwyddwr Cynllunio a Pherfformiad i ddarparu golwg gyffredinol ac i gydlynu cynllun gweithredu integredig Ofcom a darparu pwynt llywodraethu canolog ar gyfer rheoli dibyniaethau ar draws adnoddau a chyllid Ofcom. Mae'r swyddogaeth hefyd yn gyfrifol am weithredu a rheoli fframwaith mesur perfformiad cyson ar draws y sefydliad.

## Y FFRAMWAITH RISG A RHEOLI

Yn gynnar yn ystod 2010, roedd Ofcom wedi dechrau rhaglen i ddod o hyd i arbedion i ymateb i'r sialensiau a oedd wedi codi yn sgil yr hinsawdd economaidd a'r pwysau ar wariant y sector cyhoeddus. Cafodd y rhaglen hon ei datblygu ar y cyd â chynllun i ailstrwythuro'r sefydliad i adlewyrchu ein blaenoriaethau strategol a oedd yn dod i'r fei. I sicrhau bod rheolaeth a llywodraethu priodol ar waith, roedd y Bwrdd yn rhan o'r holl broses ac roedd y Pwyllgor Gwaith a'r Pwyllgor Risg ac Archwilio yn derbyn adroddiadau ac yn herio yn rheolaidd. Ar ben hynny, o'r cychwyn cyntaf bu ymgysylltu â'r Cyd Fforwm Cydweithwyr, grŵp a oedd yn cynnwys aelodau o Fforwm Cydweithwyr Ofcom a'r Undebau Partner. Gan gydnabod pwysigrwydd sicrhau bod Ofcom yn cadw digon o gapasiti a gallu i gyflawni ei raglen waith ar gyfer y dyfodol a chynnal amgylchedd rheoli briodol, cynhaliwyd ymarfer risg penodol fel rhan o rownd cyllidebu a chynllunio 2011/12.

Ym mis Hydref 2010, cyhoeddodd y Llywodraeth y Mesur Gwasanaethau Post, sy'n darparu ar gyfer trosglwyddo cyfrifoldeb rheoleiddio Postcomm dros y sector post i Ofcom. Mae Postcomm ac Ofcom wedi cytuno i weithio'n agos gyda'i gilydd, cymaint ag y bo modd, er mwyn sicrhau newid llyfn gan amharu cyn lleied â phosibl ar randdeiliaid, defnyddwyr a staff wrth ddatblygu gwaith parhaus i newid y fframwaith rheoleiddio presennol. I helpu'r newid hwn, cafodd Millie Banerjee ei phenodi yn Gadeirydd Postcomm. Ar ben hynny, mae nifer o aelodau eraill o Fwrdd Ofcom wedi cael eu penodi yn gomisiynwyr ar Fwrdd Postcomm.

Yn ystod y flwyddyn, sefydlwyd y Rhaglen Clirio a Dyfarnu Sbectrwm i ddod â phob prosiect ynghyd a oedd yn ymwneud â chlirio a dyfarnu'r bandiau sbectrwm 800 MHz a 2.6 GHz dan un strwythur rheoli rhaglen. Sefydlwyd Swyddfa Rheoli Rhaglen benodol ac mae'n gyfrifol am ddatblygu a chynnal strwythurau llywodraethu mewnol ac allanol cynhwysfawr. Penodwyd Cyfarwyddwr Rhaglen, Rheolwr Rhaglen a Rheolydd Ariannol. I sicrhau bod rheolaethau ariannol priodol ar waith ac i ystyried cynigion ar gyfer grantiau clirio sbectrwm, mae Bwrdd Ofcom wedi dirprwyo awdurdod i'r Pwyllgor Cyllid Clirio Sbectrwm. Caiff y Pwyllgor ei gadeirio gan aelod anweithredol. Mae'r OGC wedi cwblhau adolygiad annibynnol o'r rhaglen.

## FFRAMWAITH RHEOLI RISG

Dyma rai o elfennau allweddol fframwaith rheoli risg Ofcom:

- y polisi a gweithdrefnau rheoli risg;
- cyfarfodydd misol sy'n cynnwys y Rheolwr Risg ac Yswiriant ac Uwch Reolwyr/Cyfarwyddwyr Grŵp i adnabod, asesu ac adolygu'r prif risgiau;
- adroddiad bob chwarter gan y Rheolwr Risg ac Yswiriant i'r Pwyllgor Archwilio a Risg;
- ystyriaeth benodol o risg fel rhan o'r rownd flynyddol cynllunio a chyllidebu;
- adolygiad blynyddol ar reolaethau mewnol gan y Bwrdd gyda Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Risg;
- sicrwydd gan swyddogaethau a phwyllgorau arbenigol bod risgiau cyfreithiol a risgiau sy'n berthnasol i ddiogelwch, twyll, iechyd a diogelwch, amrywiaeth a'r amgylchedd, yn cael eu rheoli'n briodol;
- cynnal asesiadau o'r effaith (fel sy'n ofynnol dan Ddeddf Cyfathrebiadau 2003), sy'n cynnwys adnabod ac asesu'r risgiau sydd ynghlwm wrth y polisïau arfaethedig a gyflwynir gan Ofcom;
- darparu pecyn gwybodaeth reoli misol ar gyfer y Bwrdd a'r Pwyllgor Gwaith, sy'n cynnwys y gofrestr risg strategol a'r dangosyddion perfformiad.

Mae'r polisi rheoli risg hefyd yn sôn am agwedd Ofcom at risg, gan ddweud ei fod yn gyndyn iawn o gymryd risg o ran ei weithgareddau gweithredol craidd, ond ei fod yn goddef lefel briodol o risg mewn meysydd rheoleiddio perthnasol lle gallai hynny ddwyn budd i ddinasyddion ac i ddefnyddwyr. Roedd adolygiad o fframwaith rheoli risg 2010/11 yn argymell y dylid ystyried y datganiadau agwedd at risg cyfredol yng ngoleuni'r blaenoriaethau strategol a amlinellir yng Nghynllun Blynyddol 2011/12.

Caiff cofrestr risg strategol Ofcom ei hadolygu gan y Bwrdd a'r Pwyllgor Gwaith bob mis. Caiff pob risg a nodwyd ei dynodi i un unigolyn, sef aelod o'r Uwch Grŵp Rheoli, sy'n atebol am reoli'r risg honno. Caiff risgiau lefel grwpiau eu hadolygu gan y Rheolwr Risg ac Yswiriant fesul mis, a'u cynnwys ar y gofrestr risg strategol pan fo'n briodol.

Cyflwynwyd fframwaith perfformiad gwell yn ystod y flwyddyn, a oedd yn canolbwyntio i ddechrau ar y blaenoriaethau strategol a'r meysydd gwaith mawr a amlinellir yn y Cynllun Blynyddol. Adolygir adroddiadau perfformiad gan y Bwrdd a'r Pwyllgor Gwaith. Mae'r rheini'n ymwneud â'r perfformiad yn erbyn y canlyniadau a geisiwyd yn ogystal â dangosyddion allweddol sy'n ymwneud â gwerth am arian ac effeithlonrwydd mewnol. Darperir adroddiadau ariannol misol hefyd, sy'n ymdrin â'r gwariant o'i gymharu â'r gyllideb, y rhagolygon a'r alldro, ac fe'u hadolygir.

## DIOGELWCH

Bydd y Pwyllgor Diogelwch yn cwrdd yn rheolaidd drwy gydol y flwyddyn i ystyried trefniadau diogelwch Ofcom. Bydd y Pwyllgor yn adrodd bob chwarter i'r Bwrdd Gweithrediadau a'r Pwyllgor Risg ac Archwilio drwy Ysgrifennydd y Gorfforaeth.

Cafodd y Polisi Diogelwch, sy'n cynnwys diogelwch gwybodaeth, ei ddiwygio yn ystod y flwyddyn i sicrhau ei fod yn adlewyrchu gofynion gweithredol Ofcom yn barhaus. Er mwyn gwella'r ddealltwriaeth o'r Polisi Diogelwch, mae modiwl e-ddysgu nawr ar gael i'r holl gydweithwyr. Roedd Ofcom hefyd wedi cyhoeddi polisi chwythu'r chwiban wedi'i ddiweddaru ac wedi datblygu polisi gwrth dwyll a chynllun ymateb i dwyll. Mae gweithdai gwrth dwyll wedi cael eu cynnal gyda chydweithwyr allweddol ar draws y sefydliad a sefydlwyd cofrestr risg gwrth dwyll a chaiff ei chynnal gan y Rheolwr Risg ac Yswiriant. Ym mis Mai 2010, roedd KPMG wedi archwilio prosesau dechrau a gadael Ofcom, a arweiniodd at nifer o gamau gweithredu, sydd bellach wedi cael eu cwblhau er boddhad KPMG.

Ar ben hynny, mae gwaith wedi cael ei wneud i ddatblygu polisi gwrth-lwgrwobrwyo mewn ymateb i gyflwyno Deddf Llwgrwobrwyo 2010 ym mis Gorffennaf 2011.

Yn ystod y flwyddyn, roedd Ofcom wedi rhoi ei wasanaethau TGCh ar gontract allanol i Logica. Roedd diogelwch asedau gwybodaeth Ofcom yn flaenoriaeth wrth drosglwyddo ac mae gweithdrefnau ar waith i sicrhau bod gwybodaeth Ofcom yn cael ei thrin yn ddiogel yn gyson. Fel rhan o'r cynllun archwilio mewnol, cynhaliwyd tri adolygiad yn ystod y broses o newid. Mae profion adfer ar ôl argyfwng wedi cael eu cwblhau ac mae prawf treiddiad cyflawn o'r systemau a'r muriau cadarn yn y canolfannau data newydd wedi cael eu trefnu fel rhan o'r cynllun newid.

## RHEOLAETHAU ARIANNOL

Yn ogystal â'r datblygiadau a drafodir mewn rhannau eraill o'r datganiad hwn, rhoddwyd amryw o gynlluniau ar waith i wella fframwaith rheolaethau ariannol Ofcom ymhellach. Mae'r rhain yn cynnwys:

- gweithredu system taliadau ar-lein sydd wedi cyfrannu at liniaru'r risgiau sy'n gysylltiedig â phrosesu sieciau;
- amgylchedd rheoli well sy'n gysylltiedig â system cyflogres a buddion newydd;
- gofyniad bod gwariant dros £20k ar wasanaethau ymgynghori yn cael ei gymeradwyo gan y Swyddog Atebol;
- adolygiad o'r polisi treuliau presennol; a
- datblygu a gwella'r pecyn gwybodaeth rheoli ymhellach i sicrhau bod rheolwyr yn cael gwybodaeth allweddol am berfformiad a chydymffurfiad.

Yn unol â'r cynllun archwilio a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Risg ac Archwilio, cafodd adolygiadau/archwiliadau mewnol eu cynnal ar ein risg graidd, prosesau ariannol a gosod tariffau, y cylch prynu i dalu, cyflogres a buddion hyblyg, taliadau ar-lein a'r Fframwaith Awdurdodau Ariannol.

Cafodd adolygiad ei gwblhau hefyd yng nghyswllt rheoli a llywodraethu prosiect Gemau Olympaidd a Pharalympaidd 2012 Llundain.

Yr oedd y maes Cyllid yn dal i ddarparu cyfrifon rheoli misol, a gaiff eu hadolygu bob mis gan ddeiliaid cyllidebau, y Pwyllgor Gwaith a'r Bwrdd. Defnyddir y cyfrifon rheoli hyn fel sail i'r rhagolwg gwariant chwarterol.

## RHANDDEILIAID A PHARTNERIAID

Rheolir risgiau sy'n effeithio ar fudd i ddefnyddwyr a dinasyddion drwy gyfrwng prosesau ymgynghori Ofcom, sy'n rhan hanfodol o broses diwygio trefniadau rheoleiddio'r sefydliad. Fel rhan o'r broses ymgynghori, mae Ofcom yn cynnal asesiadau o'r effaith i ystyried effaith bosibl pob un o'r dewisiadau sy'n cael eu hystyried. Bydd aelodau a chydweithwyr y Pwyllgor Gwaith yn cysylltu'n rheolaidd â rhanddeiliaid i drafod diwygio rheoleiddio a materion cysylltiedig sy'n ymwneud â'u rhoi ar waith er mwyn adnabod y risgiau a fydd yn effeithio ar allu Ofcom i gyflawni ei ddyletswyddau statudol.

Mae Ofcom yn parhau i weithio'n agos gyda chyflenwyr a phartneriaid i leihau risgiau economaidd a masnachol. Penodwyd Cyfarwyddwr Masnachol, a fydd yn gyfrifol am reoli cysylltiadau cyflenwyr ar draws y sefydliad ac mae adolygiad o'r holl reolaethau sylweddol yn mynd rhagddo. Adroddir ar y gofrestr risg contractau busnes critigol, sy'n monitro sefydlogrwydd ariannol cyflenwyr allweddol, i'r Bwrdd Gweithrediadau bob chwarter a chaiff y Pwyllgor Gwaith wybod am faterion o bwys os bydd hynny'n briodol.

## RHEOLI ARGYFWNG A DILYNIANT BUSNES

Mae Grŵp Arbenigwyr Rheoli Argyfwng Ofcom yn cwrdd bob mis i reoli'r rhaglen gwytnwch, i roi cyngor arbenigol ac i brofi trefniadau. Mae'r grŵp nawr yn adrodd bob chwarter i'r Bwrdd Gweithrediadau a ddwywaith y flwyddyn i'r Pwyllgor Gwaith. Cafodd adolygiad o'r cynlluniau dilyniant busnes cyfredol ei lansio ar ôl ailstrwythuro'r gwasanaethau Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu a'u rhoi ar gontract allanol. Cafodd gweithdrefnau bomiau ar gyfer Riverside House eu diweddaru a'u cymeradwyo gan y Pwyllgor Gwaith. Ac ystyried yr ailstrwythuro, cafodd nifer o weithgareddau a oedd wedi'u cynllunio ar gyfer 2010/11 eu gohirio.

Cynhaliodd y tîm TGCh nifer o brofion llwyddiannus o ran adfer ar ôl trychineb yn ystod y flwyddyn a chynhaliwyd prawf bach ond gwerthfawr o ran adfer ar ôl argyfwng yn y man gwaith.

### IECHYD A DIOGELWCH

Cyfarfu'r Pwyllgor Iechyd a Diogelwch bedair gwaith yn ystod y flwyddyn, a chyfarfu'r Is-bwyllgor Gorfodaeth a Pheirianneg Sbectrwm dair gwaith. Mae aelodaeth y naill bwyllgor a'r llall yn cael ei hadnewyddu yn dilyn yr ailstrwythuro. Mae'r Pwyllgor Iechyd a Diogelwch yn adrodd i'r Bwrdd Gweithrediadau ddwywaith y flwyddyn. Mae hyfforddiant iechyd a diogelwch yn dal i gael ei ddarparu gyda'r nifer sy'n dilyn y modiwlau e-ddysgu yn cynyddu i 98 y cant. Mae deunyddiau iechyd a diogelwch ar fewnrwyd Ofcom wedi cael eu hailstrwythuro ac mae hyfforddiant rheoli lles yn cael ei ddarparu i'r rheolwyr perthnasol. Nid oedd dim damweiniau y gellir adrodd amdanynt yn ystod y flwyddyn.

## ADOLYGU EFFEITHIOLRWYDD

A minnau'n Swyddog Atebol, yr wyf yn gyfrifol am adolygu effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol. Mae fy adolygiad o effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol yn seiliedig ar waith yr archwilwyr mewnol a'r rheolwyr gweithredol yn yr adran sy'n gyfrifol am ddatblygu a chynnal y fframwaith rheolaeth fewnol, a'r sylwadau a wnaed gan yr archwilwyr allanol yn eu llythyr rheolaeth ac adroddiadau eraill.

Cefais gyngor gan y Pwyllgor Archwilio a Risg a'r Bwrdd ynghylch goblygiadau canlyniad fy adolygiad o effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol. Mae cynllun ar waith i roi sylw i wendidau ac i sicrhau bod y system yn gwella'n barhaus.

### Y BWRDD

Y Bwrdd sy'n bennaf gyfrifol am fonitro effeithiolrwydd system rheolaeth fewnol Ofcom, a bydd yn cael adroddiadau rheolaidd gan y Pwyllgor Archwilio a Risg.

### Y PWYLLGOR GWAITH

Bydd aelodau'r Pwyllgor Gwaith yn llofnodi datganiad blynyddol er mwyn rhoi sicrwydd rhesymol ynglŷn ag effeithiolrwydd cyffredinol y system rheolaeth fewnol yn y meysydd y maent yn gyfrifol amdanynt. Mae'r Pwyllgor Gwaith hefyd yn adolygu cofrestr risg strategol Ofcom yn fisol.

### Y PWYLLGOR ARCHWILIO A RISG

Rôl y Pwyllgor Archwilio a Risg yw cynghori'r Bwrdd ynghylch pa mor ddigonol yw polisïau a phrosesau rheoli risg Ofcom, i ba raddau y cânt eu rhoi ar waith, ac adolygu pa mor ddibynadwy a dilys yw'r sicrwydd a roddir. Gwna hyn drwy gyfrwng y sicrwydd a geir yn sgil gwaith archwilwyr allanol a mewnol, yr adolygiad risg blynyddol, adolygiadau chwarterol a ddarperir gan y Rheolwr Risg ac Yswiriant a chan adroddiadau rheolaidd a ddarperir i'r Pwyllgor Archwilio a Risg ynglŷn â risgiau sy'n ymwneud ag achosion cyfreithiol, cyllid, diogelwch a thwyll. Fel y bernir sy'n briodol, bydd y Pwyllgor Archwilio a Risg yn dechrau adolygiadau o brosiectau unigol. Yn ystod 2010/11 mae'r rhain wedi cynnwys prosiect Gemau Olympaidd a Pharalymaidd 2012 Llundain, y prosiect OFISS (prosiect Ofcom ar gyfer rhoi gwasanaethau TGCh ar gontract allanol), y Prosiect Adolygiad o Wariant a'r Rhaglen Clirio a Dyfarnu Sbectrwm.

### RHEOLWR RISG AC YSWIRIANT

Mae'r Rheolwr Risg ac Yswiriant yn gyfrifol am oruchwylio fframwaith rheoli risg Ofcom a'r cynllun cysylltiedig ar gyfer gwella'n barhaus. Mae'r Rheolwr Risg ac Yswiriant yn adrodd i'r Pwyllgor Archwilio a Risg bob chwarter.

### ARCHWILIAD MEWNOL

Defnyddir KPMG i wneud yr archwilio mewnol, sy'n gwneud ei waith yn unol â'r Cynllun Archwilio Blynyddol a gymeradwyir gan y Pwyllgor Archwilio a Risg. Bydd Archwiliad Mewnol yn mynychu cyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio a Risg ac yn adrodd yn ôl iddynt.

Wrth adolygu systemau Ofcom yn unol â'r cynllun archwilio, mae'r Archwilwyr Mewnol wedi rhoi sicrwydd rhesymol, ond nid absoliwt, eu bod yn fodlon bod digon o waith archwilio mewnol wedi'i wneud iddynt allu ffurfio barn bod trefniadau rheoli risg Ofcom yn ddigonol ac yn effeithiol, a bod ganddo brosesau rheoli a llywodraethu digonol i reoli'r gwaith o gyflawni ei amcanion. Ni nodwyd dim gwendidau mawr, er bod gwaith yr Archwilwyr Mewnol wedi nodi nifer o gyfleoedd i wella'r trefniadau rheoli a'r gweithdrefnau, ac mae Ofcom wedi ymateb yn gadarnhaol i'r rheini.

### MATERION O BWYS O RAN TREFNIADAU RHEOLI

Ni chododd dim materion o bwys ynghylch rheolaeth fewnol yn ystod y flwyddyn.

**Ed Richards**
Prif Weithredwr

29 Mehefin, 2011

# ADRODDIAD TALIADAU

Wrth baratoi'r Adroddiad Taliadau a sefydlu ei bolisi, mae'r Bwrdd wedi ystyried darpariaethau Cod Llywodraethu Corfforaethol y DU ac wedi mabwysiadu'r darpariaethau, lle bo hynny'n briodol ac yn berthnasol ac i gydymffurfio â Llawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth. Nid oes yn rhaid i Ofcom gydymffurfio â Rheoliadau Adroddiadau Taliadau Cyfarwyddwyr 2002, ond mae wedi paratoi'r adroddiad hwn i gydymffurfio cyn belled â bod hynny'n ymarferol ac yn briodol.

## CYFANSODDIAD Y PWYLLGOR TALIADAU

Mae cyfansoddiad y Pwyllgor Taliadau i'w weld ar dudalen 52.

## CYNGHORWYR

Mae'r Pwyllgor Taliadau'n cael cyngor a/neu wasanaethau gan yr endidau allanol canlynol:

- Towers Watson, ar dâl y tîm gweithredol; ac
- Allen & Overy LLP, ar gontractau cyflogaeth a materion cyfreithiol cysylltiedig.

Mae Towers Watson hefyd yn darparu cyngor a gwasanaethau i Ofcom yng nghyswllt pensiynau, ymddiriedolwyr pensiwn a chymorth gweinyddol a materion sefydliadol eraill. Mae'r Pwyllgor hefyd yn cael cyngor gan Gyfarwyddwr Adnoddau Dynol Ofcom. Gan amlaf, mae'r Pwyllgor Taliadau'n gwahodd y Prif Weithredwr a'r Prif Swyddog Gweithredol i fynychu cyfarfodydd y Pwyllgor. Ni fydd dim un unigolyn yn bresennol ar gyfer unrhyw drafodaeth am ei dâl ei hun.

## POLISI CYFFREDINOL

Wrth bennu polisi taliadau Ofcom, cred y Pwyllgor Taliadau y dylai Ofcom, o fewn y cyfyngiadau sydd ar gorfforaeth gyhoeddus, gynnig gwobrau a fydd yn denu ac yn cadw'r rheolwyr o'r safon uchaf y mae'n rhaid eu cael i alluogi Ofcom i gyflawni ei gyfrifoldebau a'i gylch gwaith statudol. Ni ddisgwylir newid yng nghyfeiriad y polisi cyffredinol dros y flwyddyn i ddod.

## ELFENNAU TALIADAU

Dyma brif elfennau taliadau'r Aelodau Gweithredol:

### CYFLOG A BUDDION HYBLYG

Pennir cyflog sylfaenol pob Aelod Gweithredol a Chyfarwyddwr Grŵp drwy ystyried cyfrifoldebau, perfformiad a phrofiad pob cydweithiwr ynghyd â thueddiadau'r farchnad. Hefyd, darperir lwfans buddion hyblyg i bob Aelod Gweithredol a Chyfarwyddwr Grŵp sy'n caniatáu i'r unigolyn dan sylw brynu buddion penodol. Caiff pob cyflog sylfaenol ei adolygu'n flynyddol ar 1 Gorffennaf bob blwyddyn. Nid chafodd Aelodau Gweithredol na Chyfarwyddwyr Grŵp gynnydd i gyflog sylfaenol ym mis Gorffennaf 2010.

### BUDDION SAFONOL

Bydd pob Aelod Gweithredol a Chyfarwyddwr Grŵp yn cael rhai buddion safonol; yn benodol yswiriant bywyd, amddiffyniad incwm grŵp a'r gallu i gael archwiliad iechyd blynyddol. Nid yw cyfanswm gwerth yr amddiffyniad incwm grŵp, yr yswiriant bywyd na'r archwiliadau iechyd blynyddol wedi cael ei ddatgelu yn y rhestrau taliadau gan nad yw Cyllid a Thollau EM yn ei drin fel enillion trethadwy.

### TALIADAU SY'N YMWNEUD Â PHERFFORMIAD

Mae pob Aelod Gweithredol a Chyfarwyddwr Grŵp yn cymryd rhan mewn cynllun tâl perfformiad, a gaiff ei gyfrifo fel canran o'r cyflog ar sail perfformiad yr unigolyn, hyd at uchafswm o 20 y cant o'r cyflog, yn dibynnu ar yr unigolyn dan sylw. Mae hyn yn ein galluogi i gydnabod cyfraniad y rheini sy'n perfformio'n arbennig o dda yn ystod unrhyw flwyddyn heb godi lefelau cyflog sylfaenol. Nid oes dim un elfen o'r tâl perfformiad yn bensiynadwy. Cafodd tâl perfformiad ar gyfer y flwyddyn 2009/10 ei dalu yn 2010/11 ond mae wedi'i gynnwys yn y ffigurau cyfanswm taliadau

ar gyfer 2009/10 sydd yn y tabl isod. Mae'r Pwyllgor Taliadau wedi cymeradwyo'r tâl perfformiad a nodir ar gyfer unigolion yn ystod y cyfnod 1 Ebrill 2010 i 31 Mawrth 2011, ac mae wedi'i gronni ond nid oedd wedi'i dalu ar ddiwedd y flwyddyn. Mewn amgylchiadau eithriadol efallai y bydd unigolion yn gymwys i gael gwobrau cydnabyddiaeth sy'n gysylltiedig â phrosiectau a rhaglenni gwaith penodol. Yn ystod 2010/11 roedd dyfarniadau wedi cael eu gwneud i nifer o weithwyr i gydnabod y sialensiau a'r cyfrifoldebau penodol roedd y gweithwyr hynny wedi'u hysgwyddo yn ystod y rhaglen lleihau costau a gynhaliwyd gan Ofcom.

## TREFNIADAU PENSIWN

Dan drefniadau pensiwn Ofcom mae pob Aelod Gweithredol a Chyfarwyddwr Grŵp (ac eithrio Chris Banatvala fel y nodir isod) yn cael lwfans, a bennir fel canran o'r cyflog sylfaenol, y gall yr unigolyn ei gymryd fel cyflog ychwanegol neu ei fuddsoddi mewn cynllun pensiwn o'i ddewis.

Roedd Chris Banatvala, a adawodd Ofcom ar 31 Mawrth 2001, yn gymwys i gymryd rhan yng nghynllun Pensiwn â Buddion wedi'u Diffinio Ofcom ar delerau tebyg a oedd yn berthnasol pan gâi ei gyflogi'n flaenorol gan yr ITC.

Ni chafodd dim un Aelod Anweithredol fudd pensiwn gan Ofcom yn ystod y flwyddyn dan sylw.

## ARWEINIAD I'R RHESTRAU TALIADAU

Mae manylion y taliadau a dderbyniodd y Bwrdd, y Bwrdd Cynnwys a'r Pwyllgor Gwaith, sydd wedi'u harchwilio gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, ar gael yn y tablau a'r nodiadau ar dudalennau 61 i 64.

Mae'r rhestrau hyn yn cyfeirio at y taliadau yn ystod y flwyddyn ariannol. Mae'r rhestr yn adlewyrchu'r taliadau am y rhan honno o'r flwyddyn pan oedd yr unigolion un ai'n darparu gwasanaethau i'r Bwrdd, y Bwrdd Cynnwys neu'r Pwyllgor Gwaith, neu'n Aelodau Gweithredol ohonynt. Yr oedd yr unigolion â '+' wrth eu henwau yn y rhestrau ddim ond yn eu swydd am ran o 2009/2010 neu 2010/11. Lle bo aelodau'r Pwyllgor Gwaith wedi ymuno yn ystod 2010/11, rhoddir eu taliad ar gyfer cyfnod llawn eu cyflogaeth yn ystod y flwyddyn. Os yw'r unigolion yn aelodau o fwy nag un Bwrdd/Pwyllgor (fel y nodir ar dudalennau 48 i 53) dim ond unwaith y bydd eu henwau yn ymddangos yn y rhestrau taliadau, a rhestrir yr holl Aelodau Gweithredol dan y Pwyllgor Gwaith. Mae'r pwyntiau wedi'u rhifo sydd wrth enwau unigolion yn cyfeirio at y pwyntiau wedi'u rhifo ar dudalennau 63 a 64.

### TÂL AELODAU ANWEITHREDOL BWRDD OFCOM 2010/11

| Enw | Cyfeirnod Nodyn Cyfarwyddyd | Ffioedd 10/11 £ | Ffioedd 09/10 £ |
|---|---|---|---|
| Millie Banerjee CBE | 9 | 53,424 | 59,637 |
| Norman Blackwell + | 9 | 42,519 | 24,803 |
| Colette Bowe | 1, 9 | 183,333 | 200,000 |
| Tim Gardam | 9 | 42,519 | 42,519 |
| Philip Graf CBE | 1, 9 | 99,099 | 106,578 |
| Mike McTighe | 9 | 42,519 | 42,799 |
| | | 463,413 | 476,336 |

## TÂL AELODAU ANWEITHREDOL BWRDD CYNNWYS OFCOM 2010/11

| Enw | Cyfeirnod Nodyn Cyfarwyddyd | Ffioedd 10/11 | Ffioedd 09/10 |
|---|---|---|---|
| | | £ | £ |
| Richard Ayre + | 8, 10 | 9,622 | 23,911 |
| Sue Balsom + | 8, 10 | 5,412 | 21,929 |
| Pam Giddy + | 8, 10 | 5,412 | 21,929 |
| Anthony Lilley | 10 | 18,937 | 21,929 |
| Dr Paul Moore | 10 | 18,937 | 21,929 |
| Adam Singer + | 8, 10 | 7,216 | 29,145 |
| Joyce Taylor | 7, 10 | 23,745 | 21,929 |
| Kath Worrall + | 8, 10 | 5,412 | 27,247 |
| | | 94,693 | 189,948 |

## TÂL AELODAU PWYLLGOR GWAITH A BWRDD CYNNWYS GWEITHREDOL OFCOM 2010/11

| Enw | Cyfeirnod Nodyn Cyfarwyddyd | Cyflog 10/11 | Lwfans/hawl pensiwn 10/11 | Lwfans buddion hyblyg 10/11 | Buddion o fath arall 10/11 | Tâl Perfformiad 10/11 | Cyfanswm Taliadau 10/11 | Cyfanswm Taliadau 09/10 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | £ | £ | £ | £ | £ | £ | £ |
| Jill Ainscough | 11, 12, 13 | 191,586 | 28,738 | 15,000 | 977 | 12,000 | 248,301 | 271,858 |
| Chris Banatvala | 6, 11, 12, 13 | 121,805 | 37,169 | 15,000 | 651 | | 174,625 | 180,858 |
| Stuart McIntosh | 11, 12, 13 | 230,961 | 34,644 | 15,000 | 1,628 | 12,000 | 294,233 | 294,139 |
| H Nwana + | 11, 12, 13 | 185,000 | 27,750 | 15,000 | 1,628 | 8,000 | 237,378 | 124,079 |
| Peter Phillips + | 5, 11, 12, 13 | 97,591 | 14,639 | 10,154 | 908 | | 123,292 | 242,872 |
| Claudio Pollack + | 4, 11, 12, 13 | 131,500 | 19,725 | 15,000 | 1,628 | 16,000 | 183,853 | |
| Stewart Purvis + | 5, 11, 12, 13 | 63,054 | 9,458 | 5,000 | 519 | | 78,031 | 237,849 |
| Ed Richards | 1, 2, 3, 11,12,13 | 284,963 | 56,993 | 19,955 | 1,628 | (Gweler Nodyn 2) | 363,539 | 381,713 |
| Steve Unger + | 4, 11, 12, 13 | 144,252 | 21,638 | 15,000 | 1,628 | 8,000 | 190,518 | |
| Polly Weitzman | 11, 12, 13 | 203,858 | 30,579 | 15,000 | 1,628 | 12,000 | 263,065 | 262,971 |
| Christopher Woolard + | 11, 12, 13 | 172,336 | 34,467 | 15,000 | 1,628 | 8,000 | 231,431 | 222,125 |
| | | **1,826,906** | **315,800** | **155,109** | **14,451** | **76,000** | **2,388,266** | **2,218,464** |

Gan fod cynifer wedi ymuno ac ymadael â'r Pwyllgorau Gwaith yn 2009/2010 ac yn 2010/11, rhoddwyd ffigur blynyddol er mwyn darparu cymhariaeth gliriach o'r cyfanswm costau.

Cyfanswm costau blynyddol ar gyfer 2010/11: **£2,186,943**

Cyfanswm costau blynyddol ar gyfer 2009/10: **£2,343,008**

## NODIADAU AR GYFER Y TABLAU TALIADAU

1. Roedd Colette Bowe, Philip Graf ac Ed Richards i gyd wedi gostwng eu ffioedd neu eu cyflog sylfaenol o'u gwirfodd yn ystod y flwyddyn yng nghyd-destun y gostyngiadau yng nghyllideb Ofcom a'r adolygiad o wariant yn y sector cyhoeddus yn gyffredinol.
2. Cafodd Ed Richards dâl perfformiad o £15,000 am y flwyddyn ariannol 2009/10 a £15,000 am y flwyddyn ariannol 2010/11, a chafodd y ddau ei ildio ganddo.
3. Yn ogystal â'r taliadau a ddangosir yn y tabl, roedd Ed Richards wedi ennill £42,000 mewn ffioedd am wasanaethau fel Cyfarwyddwr Anweithredol Thames Water Utilities Ltd, a gafodd eu talu'n uniongyrchol i Ofcom. Nid oedd wedi cadw unrhyw ran o'r ffioedd hyn.
4. Roedd Claudio Pollack a Steve Unger wedi ymuno â'r Pwyllgor Gwaith ar 7 Rhagfyr 2010 ond mae'r tâl a ddangosir ar gyfer pob un ohonynt am y flwyddyn gyfan gan eu bod yn gweithio i Ofcom drwy gydol y flwyddyn.
5. Roedd Peter Phillips a Stewart Purvis ill dau wedi gadael Ofcom a'r Pwyllgor Gwaith yn ystod y flwyddyn; mae'r tâl a ddangosir ar gyfer pob un ohonynt ar gyfer y rhan o'r flwyddyn pan roeddent yn cael eu cyflogi gan Ofcom.
6. Gadawodd Chris Banatvala Ofcom a'r Bwrdd Cynnwys ar 31 Mawrth 2011.
7. Mae ffioedd Joyce Taylor yn adlewyrchu codiad cyflog a dalwyd iddi pan ysgwyddodd y cyfrifoldeb dros fod yn gadeirydd y Pwyllgor Adolygu Darlledu yn ystod y flwyddyn.
8. Mae'r ffioedd ar gyfer Adam Singer, Kath Worrall, Sue Balsam, Pam Giddy a Richard Ayre yn adlewyrchu eu bod yn aelodau o'r Bwrdd Cynnwys am ran o'r flwyddyn yn unig.
9. Mae'r ffioedd ar gyfer holl Aelodau Anweithredol Bwrdd Ofcom yn cael eu pennu drwy gytundeb â'r Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau a'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon am gyfnod llawn eu penodiad. Mae'r ffioedd a ddangosir yn cynrychioli'r flwyddyn lawn sy'n cael ei hadolygu. Y ffi sylfaenol i Aelodau Anweithredol Bwrdd Ofcom (ac eithrio'r Cadeirydd, yr Is-gadeirydd a Millie Banerjee) oedd £42,519 y flwyddyn er 1 Ebrill 2008. Mae'r Aelodau Anweithredol i gyd wedi'u penodi am dymor penodol i neilltuo amser penodol i Ofcom o hyd at ddau ddiwrnod yr wythnos (heblaw am Colette Bowe a Philip Graf sydd ar hyn o bryd yn neilltuo hyd at dri diwrnod yr wythnos a Millie Banerjee sydd ar hyn o bryd yn neilltuo hyd at 1.5 diwrnod yr wythnos (er mis Ionawr 2011) yr un).
10. Bwrdd Ofcom sy'n pennu ffioedd Aelodau Anweithredol y Bwrdd Cynnwys. Mae'r ffioedd a ddangosir yn cynrychioli blwyddyn gyfan neu, lle bo'n briodol, yn cynrychioli rhan o flwyddyn os gwnaeth yr Aelod Anweithredol perthnasol ymuno â'r Bwrdd Cynnwys neu ymddeol ohono yn ystod y cyfnod dan sylw. Cafodd y fi sylfaenol ar gyfer Aelodau'r Bwrdd Cynnwys ei leihau o 1 Ionawr 2011 ymlaen o £21,649 i £10,800 y flwyddyn i adlewyrchu'r gostyngiad yn yr ymrwymiad amser gan Aelodau wrth symud ymlaen (yr eithriad i hynny yw'r ffi sy'n cael ei thalu i Joyce Taylor fel Cadeirydd y Pwyllgor Adolygu Darlledu, a ostyngwyd i £15,600 y flwyddyn). Ni chafodd Aelodau Anweithredol Bwrdd Ofcom nac Aelodau'r Bwrdd Cynnwys daliadau ychwanegol gan Ofcom ar ben eu ffioedd heblaw am yr hawl i gael rhai buddion safonol, sef, i Aelodau Anweithredol Bwrdd Ofcom yn unig, offer TG ar gyfer gweithio gartref. Ni wnaeth pob un o Aelodau Anweithredol Bwrdd Ofcom fanteisio ar yr hawl hon yn ystod y cyfnod dan sylw.
11. Mae'r taliadau blynyddol i swyddogion gweithredol Ofcom (Aelodau Gweithredol Bwrdd Ofcom, Aelodau Gweithredol y Bwrdd Cynnwys a Chyfarwyddwyr Grŵp ar y Pwyllgor Gwaith) yn cynnwys cyflog sylfaenol ynghyd â lwfans arian ar gyfer buddion hyblyg a chanran o'r cyflog sylfaenol a delir fel lwfans pensiwn (heblaw am Chris Banatvala). Roedd Chris Banatvala yn aelod o Gynllun Pensiwn â Buddion wedi'u Diffinio Ofcom. Mae datgeliad ar wahân yng nghyswllt y cynllun hwn wedi'i wneud yn y tabl ar dudalen 64.
12. Roedd Steve Unger a Claudio Pollack wedi cael codiadau i'w cyflog sylfaenol wrth iddynt gael eu dyrchafu yn Gyfarwyddwr Grŵp. Mae'r golofn buddion o fath arall yn adlewyrchu'r gost i Ofcom am ddarparu gofal meddygol preifat i bob Swyddog Gweithredol.
13. Bydd swyddogion gweithredol Ofcom (Aelodau Gweithredol Bwrdd Ofcom, Aelodau Gweithredol y Bwrdd Cynnwys a Chyfarwyddwyr Grŵp ar y Pwyllgor Gwaith) yn cymryd rhan mewn cynllun tâl yn ôl perfformiad, sy'n golygu bod eu tâl yn seiliedig ar berfformiad unigol. Mae'r holl daliadau'n cael eu cymeradwyo gan Bwyllgor Taliadau Ofcom ac fe'u cyfrifir fel canran o'r cyflog sylfaenol, gan amrywio o 0 i 20 y cant. Mae'r Pwyllgor Taliadau wedi cymeradwyo'r tâl perfformiad yn ystod y cyfnod 1 Ebrill 2010 i 31 Mawrth 2011, ac mae wedi'i gronni ond nid oedd wedi'i dalu ar ddiwedd y flwyddyn. Cafodd un dyfarniad cydnabyddiaeth ei wneud i Gyfarwyddwr Grŵp, Claudio Pollack, ac mae'r dyfarniad hwnnw yn y ffigur ar gyfer tâl perfformiad 2010/11 yn y tabl

uchod. Cafodd cyfanswm taliadau i aelodau gweithredol am 2009/10 ei ailddatgan er mwyn cynnwys unrhyw dâl perfformiad am y flwyddyn, y cytunwyd arno ar ôl cyhoeddi adroddiad blynyddol 2009/10 a chafodd ei dalu yn y flwyddyn ariannol 2010/11. Cafodd tâl perfformiad am 2009/10 ei dalu fel a ganlyn:

**TÂL PERFFORMIAD 2009/10**

| | £ |
|---|---|
| Jill Ainscough | 10,000 |
| Chris Banatvala | 6,000 |
| Stuart McIntosh | 12,000 |
| H Nwana | 5,000 |
| Claudio Pollack | 8,000 |
| Steward Purvis | 3,500 |
| Ed Richards | (Gweler Nodyn 2) |
| Steve Unger | 10,000 |
| Polly Weitzman | 12,000 |
| Christopher Woolard | 8,000 |

## DATGELIAD GWEITHREDOL AR GYFER PENSIYNAU Â BUDDION WEDI'U DIFFINIO

Dangosir datgeliad ar gyfer pensiwn â buddion wedi'u diffinio i Chris Banatvala yn y tabl isod.

Mae'r gwerth trosglwyddo a'r pensiwn sydd wedi cronni ar gyfer Chris Banatvala yn adlewyrchu'r pensiwn ychwanegol a gyfyd yn sgil trosglwyddo ei fuddion oddi wrth ei gyflogwr blaenorol.

Mae gwerth trosglwyddo'r pensiwn cronedig yn cynrychioli amcangyfrif o'r gost i'r cynllun pensiwn am ddarparu'r buddion pensiwn a gronnwyd hyd yn hyn (wedi'u cyfrifo'n unol â Nodyn Canllaw Actiwaraidd GN11). Mae nifer o ffactorau'n effeithio ar y gwerth, sy'n cynnwys oedran yr unigolyn, cyflog pensiynadwy ac amodau'r farchnad fuddsoddiadau adeg gwneud y cyfrifiad.

## CONTRACT CYFLOGAETH

Nid oes gan ddim un Aelod Gweithredol o Fwrdd Ofcom na chydweithiwr arall yn Ofcom gontract cyflogaeth sy'n cynnwys cyfnod rhybudd o fwy na naw mis. Mae'r Pwyllgor Taliadau wedi ystyried y cyfnod rhybudd a'r trefniadau terfynu yng ngoleuni Cod Llywodraethu Corfforaethol y DU, ac mae o'r farn eu bod yn briodol.

Mae'r Aelodau Anweithredol i gyd wedi'u penodi am dymor penodol i neilltuo amser penodol i Ofcom o hyd at ddau ddiwrnod yr wythnos (heblaw am Colette Bowe a Philip Graf sydd ar hyn o bryd yn neilltuo hyd at dri diwrnod yr wythnos, a Millie Banerjee, sydd ar hyn o bryd yn neilltuo hyd at 1.5 diwrnod yr wythnos).

## IAWNDAL AM DERFYNU'N GYNNAR

Yn achos Aelod Gweithredol o Fwrdd Ofcom neu Gyfarwyddwr Grŵp, y Pwyllgor Taliadau sy'n penderfynu ar y trefniadau ar gyfer terfynu contract cyflogaeth yn gynnar, ac fe'u gwneir yn unol â chontract cyflogaeth yr Aelod Gweithredol neu'r Cyfarwyddwr Grŵp perthnasol. Mae pob contract cyflogaeth yn darparu ar gyfer taliad yn lle rhybudd os terfynir contract yn gynnar fel y gwêl Ofcom yn dda.

Nid oes gan Aelodau Anweithredol hawl i iawndal os caiff contract ei derfynu'n gynnar.

## YMGYMRYD Â SWYDDOGAETH CYFARWYDDWR ALLANOL

Ni chaiff unrhyw Aelod Gweithredol o Fwrdd Ofcom dderbyn penodiad anweithredol heb gael caniatâd ymlaen llaw gan y Bwrdd i sicrhau na fydd hyn yn achosi gwrthdaro rhwng buddiannau.

Ar ran Ofcom,

**Philip Graf**
Cadeirydd y Pwyllgor Taliadau

28 Mehefin, 2011

**DATGELIAD GWEITHREDOL AR GYFER PENSIYNAU Â BUDDION WEDI'U DIFFINIO CHRIS BANATVALA**

| | Pensiwn cronedig ar 31 Mawrth 2010 £ | Gwerth trosglwyddo'r pensiynau cronedig ar 31 Mawrth 2010 (sail trosglwyddo 31 Mawrth 2010) £ | Pensiwn cronedig ar 31 Mawrth 2011 £ | Cynnydd yn y pensiwn cronedig dros y cyfnod £ | Gwerth trosglwyddo'r pensiynau cronedig ar 31 Mawrth 2011 (sail trosglwyddo 31 Mawrth 2010) £ | Gwerth trosglwyddo'r pensiynau cronedig ar 31 Mawrth 2011 (sail trosglwyddo 31 Mawrth 2011) £ | Cynnydd mewn gwerth trosglwyddo llai cyfraniadau aelodau £ |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Chris Banatvala | 14,700 | 187,000 | 16,200 | 1,500 | 212,000 | 284,000 | 92,000 |

# ADRAN CH – CYFRIFON AR GYFER Y CYFNOD 1 EBRILL 2010 I 31 MAWRTH 2011

## TYSTYSGRIF AC ADRODDIAD Y RHEOLWR A'R ARCHWILYDD CYFFREDINOL I DDAU DŶ'R SENEDD

Rwyf yn tystio fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol y Swyddfa Gyfathrebiadau ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2011 dan Ddeddf Swyddfa Gyfathrebiadau 2002. Mae'r rhain yn cynnwys y Datganiad Incwm a Gwariant, y Datganiad Sefyllfa Ariannol, y Datganiad Llifoedd Arian, y Datganiad Newidiadau mewn Ecwiti, a'r nodiadau cysylltiedig. Mae'r datganiadau ariannol hyn wedi cael eu paratoi dan y polisïau cyfrifyddu sydd ynddynt. Rwyf hefyd wedi archwilio'r wybodaeth yn yr Adroddiad Taliadau sy'n cael ei ddisgrifio yn yr adroddiad hwnnw fel adroddiad sydd wedi cael ei archwilio.

### CYFRIFOLDEBAU PERTHNASOL Y SWYDDOG CYFRIFO A'R ARCHWILYDD

Fel yr eglurir yn fanylach yn y Datganiad am Gyfrifoldebau'r Swyddog Atebol, mae'r Swyddog Atebol yn gyfrifol am baratoi'r datganiad ariannol ac am fod yn fodlon eu bod yn rhoi golwg deg a gwir. Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio ac adrodd ar y datganiadau ariannol yn unol â Deddf y Swyddfa Gyfathrebiadau 2002. Roeddwn wedi cynnal fy archwiliad yn unol â'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (y DU ac Iwerddon). Mae'r safonau hynny'n mynnu fy mod i a'm staff yn cydymffurfio â Safonau Moesegol y Bwrdd Arferion Archwilio ar gyfer Archwilwyr.

### CWMPAS YR ARCHWILIAD O'R DATGANIADAU ARIANNOL

Mae archwiliad yn golygu cael tystiolaeth am y symiau a datgeliadau yn y datganiadau ariannol sy'n ddigon i roi sicrwydd rhesymol nad yw'r datganiadau ariannol yn cynnwys camddatganiadau sylweddol, boed hynny drwy dwyll neu wallau. Mae hyn yn cynnwys asesiad o: a yw'r polisïau cyfrifyddu yn briodol i amgylchiadau'r Swyddfa Gyfathrebiadau ac a ydynt wedi cael eu rhoi ar waith yn gyson a'u datgelu'n ddigonol; pa mor rhesymol yw'r amcangyfrifon cyfrifyddu sylweddol y mae'r Swyddfa Gyfathrebiadau wedi'u gwneud; a chyflwyniad cyffredinol y datganiadau ariannol. Ar ben hynny, roeddwn hefyd wedi darllen yr holl wybodaeth ariannol ac anariannol yn yr Adroddiad Blynyddol i ddod o hyd i anghysonderau o bwys yn y datganiadau ariannol a archwiliwyd. Os byddaf yn dod o hyd i unrhyw gamddatganiadau neu anghysonderau o sylwedd byddaf yn ystyried y goblygiadau ar gyfer fy nhystysgrif.

Ar ben hynny, rhaid i mi gael tystiolaeth sy'n ddigon i roi sicrwydd rhesymol bod y gwariant a'r incwm yr adroddir arnynt yn y datganiadau ariannol wedi cael eu defnyddio at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd a'r trafodion ariannol i gydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

### BARN AR REOLEIDD-DRA

Yn fy marn i, ym mhob ffordd o sylwedd mae'r gwariant a'r incwm wedi cael eu defnyddio at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd ac mae'r trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

## BARN AR Y DATGANIADAU ARIANNOL

Yn fy marn i:

- mae'r datganiadau ariannol yn rhoi golwg teg a gwir o gyflwr materion y Swyddfa Gyfathrebiadau ar 31 Mawrth 2011 a'i warged gweithredu net ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; ac
- mae'r datganiadau ariannol hyn wedi cael eu paratoi'n iawn yn unol â Deddf y Swyddfa Gyfathrebiadau 2002, ac yn ôl cyfarwyddiadau'r Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes, Arloesedd a Sgiliau a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon a gyhoeddwyd oddi tani.

## BARN AR FATERION ERAILL

Yn fy marn i:

- mae rhan yr Adroddiad Taliadau sydd i'w archwilio wedi cael ei pharatoi'n iawn yn unol â chyfarwyddiadau'r Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes, Arloesedd a Sgiliau a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon a wnaed dan Ddeddf y Swyddfa Gyfathrebiadau 2003; ac.
- mae'r wybodaeth a roddir yn yr Adolygiad Gweithredol ac Ariannol ac Adroddiadau'r Cyfarwyddwyr a Llywodraethu Corfforaethol ar gyfer y flwyddyn ariannol y mae'r datganiadau ariannol yn cael eu paratoi yn unol â'r datganiadau ariannol.

## MATERION RWYF YN ADRODD ARNYNT DRWY EITHRIAD

Nid oes gennyf ddim i adrodd arno mewn perthynas â'r materion canlynol rwyf yn adrodd arnynt os, yn fy marn i:

- nad oes cofnodion cyfrifyddu digonol wedi cael eu cadw; neu
- nid yw'r datganiadau ariannol yn cyd-fynd â'r cofnodion neu'r datganiadau cyfrifyddu; neu
- nid wyf wedi cael yr holl wybodaeth ac esboniadau y mae eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad; neu
- nid yw'r Datganiad am Reolaeth Fewnol yn adlewyrchu cydymffurfiad â chyfarwyddyd Trysorlys EM.

## ADRODD

Nid oes gennyf ddim sylwadau i'w gwneud ar y datganiadau ariannol hyn.

**Amyas C E Morse**
**Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol**

**29 Mehefin, 2011**

**Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol**
**157-197 Buckingham Palace Road**
**Victoria**
**Llundain**
**SW1W 9SP**

# DATGANIAD INCWM A GWARIANT

## AR GYFER Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN 31 MAWRTH 2011

| | Nodiadau | Y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2011 £'000 | Y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2010 £'000 |
|---|---|---|---|
| Incwm | 3 | **126,245** | 129,574 |
| Clirio Sbectrwm a Dyfarniadau | 3 | **17,939** | 3,161 |
| **Gwariant gweithredol** | | | |
| Costau Staff | 4 | **(65,420)** | (62,276) |
| Costau gweithredol eraill | 6 | **(52,699)** | (56,157) |
| Clirio Sbectrwm a Dyfarniadau | 6 | **(17,829)** | (3,161) |
| **Gwarged gweithredol** | | **8,236** | **11,141** |
| Eiddo gwag | 7 | **(1,455)** | 202 |
| Incwm cyllid | | **177** | 316 |
| Costau cyllid | 8 | **–** | (23) |
| Incwm cyllid arall/(cost) | 17,22 | **2,222** | (473) |
| **Gwarged ar weithgareddau arferol ar gyfer y flwyddyn ariannol cyn treth** | | **9,180** | **11,163** |
| Trethiant | 9 | **112** | (151) |
| **Gwarged ar gyfer y flwyddyn ariannol ar ôl treth** | | **9,292** | **11,012** |

Mae'r polisïau a'r nodiadau cyfrifyddu ar dudalennau 71 i 95 yn rhan o'r datganiadau ariannol hyn.

# DATGANIAD NEWIDIADAU ECWITI

## AR GYFER Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN 31 MAWRTH 2011

| | Nodiadau | Cronfa wrth gefn £'000 |
|---|---|---|
| **Balans ar 1 Ebrill 2009** | | **7,655** |
| **Newidiadau ecwiti ar gyfer 2009/10** | | |
| Adenillion gwirioneddol heb gynnwys yr adenillion a ddisgwylir ar asedau'r cynllun | 22 | 20,980 |
| Enillion a brofwyd ar rwymedigaethau'r cynllun pensiwn | 22 | 4,630 |
| Newidiadau mewn rhagdybiaethau sy'n sail i werth cyfredol rhwymedigaethau'r cynllun pensiwn | 22 | (20,640) |
| Cynnydd o ran rhwymedigaeth y gofyniad cyllido sylfaenol | 22 | (6,410) |
| Gwarged ar gyfer y flwyddyn | | 11,012 |
| **Cyfanswm y costau a'r incwm cydnabyddedig ar gyfer 2009/10** | | **9,572** |
| **Balans ar 31 Mawrth 2010** | | **17,227** |
| | | |
| **Newidiadau ecwiti ar gyfer 2010/11** | | |
| Adenillion gwirioneddol heb gynnwys yr adenillion a ddisgwylir ar asedau'r cynllun | 22 | 290 |
| Enillion a brofwyd ar rwymedigaethau'r cynllun pensiwn | 22 | (143) |
| Newidiadau mewn rhagdybiaethau sy'n sail i werth cyfredol rhwymedigaethau'r cynllun pensiwn | 22 | 2,395 |
| Lleihad yn atebolrwydd y gofyniad cyllido sylfaenol | 22 | 8,520 |
| Gwarged ar gyfer y flwyddyn | | 9,292 |
| **Cyfanswm y costau a'r incwm cydnabyddedig ar gyfer 2010/11** | | 20,354 |
| **Balans ar 31 Mawrth 2011** | | **37,581** |

Mae mwy o fanylion am bensiynau ar gael yn Nodyn 22.

Mae'r polisïau a'r nodiadau cyfrifyddu ar dudalennau 71 i 95 yn rhan o'r datganiadau ariannol hyn.

# DATGANIAD SEFYLLFA ARIANNOL

## AR 31 MAWRTH 2011

| | Nodiadau | Ar 31 Mawrth 2011 £'000 | Ar 31 Mawrth 2010 £'000 |
|---|---|---|---|
| **Asedau anghyfredol** | | | |
| Eiddo, peiriannau a chyfarpar | 10 | **15,837** | 11,988 |
| Asedau anniriaethol | 11 | **11,713** | 14,932 |
| Asedau treth gohiriedig | 9 | **2,654** | 2,542 |
| Symiau Masnach a symiau derbyniadwy eraill | 13 | **1,339** | 468 |
| Asedau buddion ymddeol | 22 | **20,362** | 1,586 |
| **Cyfanswm asedau cyfredol** | | **51,905** | 31,516 |
| **Asedau cyfredol** | | | |
| Symiau Masnach a symiau derbyniadwy eraill | 12 | **8,150** | 12,272 |
| Arian parod a'r hyn sy'n gyfystyr ag arian parod | 14 | **26,944** | 35,348 |
| **Cyfanswm asedau cyfredol** | | **35,094** | 47,620 |
| **Cyfanswm asedau** | | **86,999** | **79,136** |
| **Rhwymedigaethau cyfredol** | | | |
| Symiau Masnach a symiau taladwy eraill | 15 | **35,179** | 47,035 |
| Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau | 17 | **342** | 1,134 |
| **Cyfanswm rhwymedigaethau cyfredol** | | **35,521** | **48,169** |
| **Rhwymedigaethau anghyfredol** | | | |
| Symiau masnach a symiau taladwy eraill – symiau sy'n dod yn ddyledus o fewn blwyddyn | 16 | **9,631** | 10,523 |
| Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau | 17 | **4,266** | 3,217 |
| **Cyfanswm rhwymedigaethau anghyfredol** | | **13,897** | 13,740 |
| **Cyfanswm rhwymedigaethau** | | **49,418** | **61,909** |
| **Asedau llai rhwymedigaethau** | | **37,581** | **17,227** |
| **Ecwiti** | | | |
| Cronfeydd wrth gefn | | **37,581** | 17,227 |
| **Cyfanswm ecwiti** | | **37,581** | **17,227** |

Mae'r polisïau a'r nodiadau cyfrifyddu ar dudalennau 71 i 95 yn rhan o'r datganiadau ariannol hyn.

Cafodd y datganiadau ariannol hyn eu cymeradwyo gan y Bwrdd ar 14 Mehefin 2011.

**Colette Bowe**
Cadeirydd

**Ed Richards**
Prif Weithredwr

# DATGANIAD LLIF ARIAN

## AR GYFER Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN 31 MAWRTH 2011

| | Nodiadau | Y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2011 £'000 | Y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2010 £'000 |
|---|---|---|---|
| **Llif arian o weithgareddau gweithredol** | | | |
| Gwarged gweithredol | | **8,236** | 11,141 |
| Addasiadau ar gyfer trafodion anariannol | | | |
| Amorteiddio | 11 | **5,278** | 5,109 |
| Dibrisio | 10 | **2,849** | 2,911 |
| Colled ar waredu eiddo, peiriannau a chyfarpar | 6 | **88** | 6 |
| Lleihad/cynnydd mewn symiau masnach a symiau derbyniadwy eraill | 12,13 | **3,251** | (1,827) |
| Lleihad mewn symiau masnach a symiau taladwy eraill | 15,16 | **(12,748)** | (2,650) |
| Lleihad mewn darpariaethau | 17 | **(1,287)** | (169) |
| Cynnydd mewn asedau pensiwn | 22 | **(5,403)** | (12,642) |
| **Mewnlif arian net o weithgareddau gweithredol** | | **264** | **1,879** |
| | | | |
| **Llif arian o weithgareddau buddsoddi** | | | |
| Llog a gafwyd | | **177** | 316 |
| Llog a dalwyd | 8 | **–** | (23) |
| Prynu eiddo, peiriannau a chyfarpar | 10 | **(6,713)** | (3,580) |
| Prynu eitemau anniriaethol | 11 | **(2,184)** | (2,347) |
| Elw ar werthu eiddo, peiriannau a chyfarpar | | **52** | 48 |
| **All-lif arian net o weithgareddau buddsoddi** | | **(8,668)** | **(5,586)** |
| | | | |
| **Llif arian o weithgareddau cyllido** | | | |
| Ad-dalu benthyciadau | | **–** | – |
| **Mewnlif / (all-lif) arian net o weithgareddau cyllido** | | **–** | – |
| | | | |
| **Lleihad mewn arian parod a'r hyn sy'n gyfystyr ag arian parod yn ystod y flwyddyn** | | **(8,404)** | **(3,707)** |
| | | | |
| **Arian parod a'r hyn sy'n gyfystyr ag arian parod ar ddechrau'r flwyddyn** | 14 | **35,348** | 39,055 |
| Lleihad mewn arian parod a'r hyn sy'n gyfystyr ag arian parod yn ystod y flwyddyn | | **(8,404)** | (3,707) |
| **Cronfeydd net terfynol** | **14** | **26,944** | **35,348** |

Mae'r polisïau a'r nodiadau cyfrifyddu ar dudalennau 71 i 95 yn rhan o'r datganiadau ariannol hyn.

# NODIADAU'R CYFRIFON

AR GYFER Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN 31 MAWRTH 2011

## 1. Y SAIL DROS GYFLWYNO A'R PRIF BOLISÏAU CYFRIFYDDU

Mae'r Swyddfa Gyfathrebiadau (Ofcom) yn gorfforaeth gyhoeddus sydd wedi'i lleoli yn y Deyrnas Unedig, ac mae'n darparu amrediad eang o wasanaethau rheoleiddio. Cafodd datganiadau ariannol y Sefydliad ar gyfer 31 Mawrth 2011 eu paratoi'n unol â'r Safonau Adroddiadau Ariannol Rhyngwladol (IFRS), a gyhoeddwyd gan y Bwrdd Safonau Cyfrifyddu Rhyngwladol (IASB), yn ogystal â'r dehongliadau a gyhoeddwyd gan y Pwyllgor Dadansoddi Adroddiadau Ariannol Rhyngwladol (IFRIC), fel y'u cymeradwywyd gan yr Undeb Ewropeaidd.

Paratowyd y datganiadau ariannol hyn dan y confensiwn cost hanesyddol, a addaswyd drwy ailbrisio rhai asedau anghyfredol, ar sail busnes byw, yn unol â'r Safonau Adroddiadau Ariannol Rhyngwladol. Paratoir y datganiadau ariannol ar sail holl ddehongliadau a safonau cyfrifyddu IFRS, ac yn unol â Deddf Cwmnïau 2006 sy'n berthnasol i gwmnïau sy'n llunio adroddiadau dan IFRS ac Erthygl 4 Rheoliad IAS yr Undeb Ewropeaidd, ac eithrio pan gaiff y rhain eu diystyru gan Ddeddf y Swyddfa Gyfathrebiadau 2002. Paratoir y datganiadau ariannol hyn yn unol â'r cyfarwyddyd ar gyfrifon a gyhoeddwyd ar 16 Ionawr 2008 gan yr Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau a'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, sy'n rhan o'r Memorandwm Ariannol fel y'i cymeradwywyd gan yr adrannau hynny.

Caiff symiau yn y Datganiadau Ariannol eu nodi mewn punnoedd sterling, sef yr arian y mae'r sefydliad yn delio ag ef.

### A) MABWYSIADU SAFONAU NEWYDD A DIWYGIEDIG

Mae rhai safonau, diwygiadau a dehongliadau newydd ar gyfer safonau cyfredol wedi cael eu cyhoeddi, ond nid ydynt yn berthnasol yng nghyswllt cyfnod cyfrifyddu Ofcom.

Nid yw'r safonau, y diwygiadau na'r dehongliadau newydd canlynol ar gyfer y safonau cyfredol yn weithredol eto, ac nid ydynt wedi cael eu mabwysiadu'n gynnar gan Ofcom:

- IFRS 9 Financial Instrument (New) a ddaw i rym ar 1 Ionawr 2013;
- IFRS 7 Financial Instrument Disclosures (Amendment) a ddaw i rym ar 1 Gorffennaf 2011;
- IAS 12 Income Taxes (Amendment) a ddaw i rym ar 1 Ionawr 2012.

Mae'r safonau, y diwygiadau a'r dehongliadau newydd canlynol ar gyfer safonau cyfredol yn weithredol yn 2011:

- IFRS 7 Financial Instruments (Amendment): Disclosures a ddaeth i rym ar 1 Ionawr 2011;
- IAS 1 Presentation of Financial Statements (Amendment), a ddaeth i rym ar 1 Ionawr 2011;
- IAS 27 Consolidated and Separate Financial Statements (Revised), a ddaeth i rym ar 1 Gorffennaf 2010;
- IAS 34 Interim Financial Reporting (Amendment) a ddaeth i rym ar 1 Ionawr 2011;
- IFRIC 14 Prepayments of a Minimum Funding Requirement (Amendment) a ddaeth i rym ar 1 Ionawr 2011.

Mae'r Bwrdd yn rhagweld na fydd mabwysiadu'r safonau a'r dehongliadau hyn yn y dyfodol yn effeithio llawer ar ddatganiadau ariannol Ofcom.

### B) NEWID POLISI CYFRIFYDDU

Mae Trysorlys EM wedi cytuno, ar gyfer Cyrff Cyhoeddus Anadrannol a chyrff eraill lle caiff Cost Cyfalaf ei chofnodi yn y Datganiad Incwm a Gwariant ac wedyn ei rhyddhau ac felly nid yw'n effeithio ar y Datganiad Sefyllfa Ariannol, nid oes angen cofnod. Mae'r safbwynt hwn wedi cael ei fabwysiadu gan Ofcom ac mae'r effaith net ar y gwarged ar gyfer y flwyddyn ariannol cyn treth yn sero. Mae'r effaith ar y gwarged ar weithgareddau arferol wedi'i hamlygu isod:

| | £'000 |
|---|---|
| Gwarged ar weithgareddau arferol ar gyfer 2009/10 | 10,951 |
| Addasiad ar gyfer cost dybiannol cyfalaf | 212 |
| Gwarged wedi'i ailddatgan ar weithgareddau arferol ar gyfer 2009/10 | 11,163 |

### C) CYDNABOD INCWM

Mae incwm yn cynnwys gwerth teg y ystyriaeth a gafwyd neu sy'n dderbyniadwy yn ystod gweithgarwch arferol Ofcom. Dangosir incwm heb gynnwys treth ar werth, enillion, ad-daliadau na gostyngiadau.

Mae Ofcom yn cydnabod incwm pan fydd yr incwm yn gallu cael ei fesur yn ddibynadwy a'i bod yn debygol y bydd buddion economaidd yn deillio i'r endid yn y dyfodol.

#### CYMORTH GRANT

Mae'r incwm hwn yn cynnwys cymorth grant gan yr adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau i dalu costau rheoli sbectrwm, dyfarnu sbectrwm, clirio sbectrwm, ôl-gystadleuaeth, budd y cyhoedd, integreiddio gwasanaethau post, asesiadau cyfryngau lleol, cyfranogiad digidol, rhwystro gwefannau, rheoleiddio torri hawlfraint ar-lein a gan yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon o ran llythrennedd yn y cyfryngau. Caiff cymorth grant a geir gan yr Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau a'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, ei ddyrannu a'i gyfateb i'r costau yn y flwyddyn sy'n berthnasol iddynt.

#### FFIOEDD GWEINYDDU GWASANAETHAU A RHWYDWEITHIAU

Rhoddir cyfrif am incwm ar sail gronnus sy'n cynnwys ffioedd gweinyddol a anfonebwyd gan Ofcom. Caiff incwm sy'n uwch na chostau arian rhwydweithiau a gwasanaethau ei nodi fel incwm gohiriedig ar y Datganiad Sefyllfa Ariannol. Caiff costau arian sy'n fwy na'r incwm a gafwyd eu trin fel symiau derbyniadwy ar ddiwedd y cyfnod adrodd.

#### FFIOEDD TRWYDDED DDARLLEDU

Mae incwm o ffioedd ceisiadau trwydded ddarlledu'n cynrychioli'r swm a anfonebwyd i ddeiliaid trwydded, ac fe gaiff ei gyfrifo ar sail gronnus. Caiff incwm sy'n uwch na chostau arian Darlledu ei drin fel incwm gohiriedig ar y Datganiad Sefyllfa Ariannol. Caiff costau arian sy'n fwy na'r incwm a gafwyd eu trin fel symiau derbyniadwy ar ddiwedd y cyfnod adrodd.

#### FFIOEDD YMGEISIO

Ni ellir ad-dalu ffioedd Darlledu a Rhwydweithiau na gwasanaethau un-tro, ac felly cânt eu cofnodi fel incwm adeg derbyn cais y rhanddeiliad.

#### INCWM ARALL

Caiff incwm arall ei gyfrif ar sail gronnus, a chaiff ei gyfateb i'r gwariant y mae'n cyfrannu ato.

### CH) DERBYNIADAU A GASGLWYD GAN OFCOM O FEWN CWMPAS ADRAN 400 O DDEDDF CYFATHREBIADAU 2003

Yn unol ag Adran 400 Deddf Cyfathrebiadau 2003, bydd Taliadau Ychwanegol y Ddeddf Darlledu a chosbau a dirwyon y mae Ofcom yn eu codi yn cael eu had-dalu i'r Gronfa Gyfunol. Hefyd, caiff ffioedd trwydded y mae Ofcom yn eu codi, sy'n deillio o gyhoeddi neu adnewyddu trwyddedau dan y Deddfau Telegraffiaeth Di-wifr, eu had-dalu i'r Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau (Yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon o 1 Ebrill 2011) i'w talu i'r Gronfa Gyfunol.

Ni wneir unrhyw gofnodion yn y Datganiadau Ariannol hyn o ran trafodion sy'n gysylltiedig ag Adran 400, ac eithrio taliadau a ffioedd sydd wedi'u casglu a'u rhoi ym mhrif gyfrif banc Ofcom ar ddiwedd y cyfnod adrodd. Dangosir y rhain fel eu bod yn ddyledus i'r Gronfa Gyfunol yn y Symiau Taladwy sy'n ddyledus o fewn blwyddyn.

Mae Ofcom yn paratoi cyfres o gyfrifon ariannol ar wahân hyd at 31 Mawrth bob blwyddyn at ddibenion Adran 400 o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003. Caiff y rhain eu cyflwyno gerbron y Senedd.

### D) LESOEDD

Bydd lesoedd lle bydd y lesddaliwr yn agored i gyfran sylweddol o'r risgiau a'r manteision sydd ynghlwm wrth berchnogaeth yn cael eu trin fel lesoedd gweithredol. Caiff taliadau a wnaed ac a gafwyd dan lesoedd gweithredol eu cydnabod fel Incwm neu Wariant ar sail llinell syth dros gyfnod y les. Caiff cymhellion lesoedd eu cydnabod fel rhan greiddiol o gyfanswm gwerth y les, dros gyfnod y les pan na ellir ei chanslo.

### DD) EIDDO, PEIRIANNAU A CHYFARPAR

Mae eiddo, peiriannau a chyfarpar yn cynnwys prynu asedau newydd ac ymestyn, datblygu neu ddisodli asedau cyfredol.

Mae arweiniad gan y Trysorlys ar eiddo, peiriannau a chyfarpar yn caniatáu i Ofcom ddefnyddio costau hanesyddol dibrisiedig i gynrychioli gwerth presennol asedau nad ydynt yn eiddo sydd ag oes ddefnyddiol fer neu werth isel. Mae holl asedau Ofcom yn perthyn i'r categori hwn. Mae cost hanesyddol yn cynnwys gwariant a gaiff ei briodoli'n uniongyrchol i gaffael yr eitemau.

Caiff eiddo, peiriannau a chyfarpar eu cofnodi fel costau neu eu pennu'n gostau llai dibrisiant cronedig ac unrhyw golledion. Caiff eiddo, peiriannau a chyfarpar gwerth dros £2,500 eu cyfalafu.

Dim ond pan fydd yn debygol y bydd buddion economaidd sy'n gysylltiedig â'r eitem yn deillio i Ofcom yn y dyfodol, ac y gellir mesur cost yr eitem yn ddibynadwy, y caiff costau dilynol eu cynnwys yng ngwerth llyfr yr ased neu eu cydnabod fel ased ar wahân, fel y bo'n briodol. Caiff gwerth llyfr y darn a ddisodlir ei ddad-gydnabod. Caiff yr holl waith atgyweirio a chynnal a chadw arall ei gofnodi yn y Datganiad Incwm a Gwariant yn ystod y cyfnod ariannol y mae'n daladwy.

Caiff eiddo, peiriannau a chyfarpar eu dibrisio, ar sail llinell syth, ar gyfraddau a amcangyfrifwyd i ddiddymu eu gwerth llyfr dros eu hamcan oes ddefnyddiol. Wrth asesu amcan oes ddefnyddiol, a gaiff ei adolygu'n flynyddol, rhoddir ystyriaeth i unrhyw drefniadau contract a gofynion gweithrediadol sy'n ymwneud ag asedau penodol.

Caiff dibrisiant ei gyfrifo o'r mis yn dilyn y mis lle mae ased yn cael ei roi ar waith dros amcan oes ddefnyddiol yr ased. Oni bai fod gofynion gweithrediadol yn pennu fel arall, nodir yn y tabl isod, yn gyffredinol, y cyfnodau dibrisiant ar gyfer y prif gategorïau eiddo, peiriannau a chyfarpar:

| | |
|---|---|
| Gosodiadau a Ffitiadau – Gwelliannau Les | Cyfnod y les |
| Gosodiadau a Ffitiadau – Dodrefn | 7 mlynedd |
| Offer Swyddfa a Maes | 4 i 7 mlynedd |
| Caledwedd Cyfrifiadurol | 3 i 5 mlynedd |
| Cerbydau Modur | 5 mlynedd |

## E) ASEDAU ANNIRIAETHOL

Nodir asedau anniriaethol ar yr union gost, llai amorteiddiad cronedig, gan ddefnyddio'r model ailbrisio lle caiff yr ailbrisiad effaith sylweddol. Cânt eu hadolygu'n flynyddol i weld a oes lleihad yn eu gwerth. Mae'r gwariant a gyfalafwyd yn cynnwys costau rhaglenni meddalwedd a ffioedd datblygu a thrwyddedau cysylltiedig.

Caiff asedau anghyfredol, anniriaethol, a gynhyrchwyd yn fewnol, megis meddalwedd cyfrifiadurol, eu cydnabod ddim ond os gellir adnabod yr ased a grëwyd; os yw'n debygol y bydd yr ased a grëwyd yn creu buddion economaidd yn y dyfodol; ac os gellir mesur cost datblygu'r ased yn ddibynadwy. Os na ellir cydnabod ased anniriaethol a gynhyrchwyd yn fewnol, caiff gwariant datblygu ei gofnodi fel cost yn y cyfnod y mae'n daladwy. Nid yw gwariant datblygu a gydnabuwyd yn flaenorol fel cost yn cael ei gydnabod fel ased mewn cyfnod dilynol.

Mae costau a briodolir yn uniongyrchol sy'n cael eu cyfalafu fel rhan o'r cynnyrch meddalwedd yn cynnwys costau gweithwyr datblygu meddalwedd a chyfran briodol o'r gorbenion perthnasol.

Caiff amorteiddiad ar gostau datblygu a gyfalafwyd ei nodi ar y datganiad incwm ar sail llinell syth, o'r mis yn dilyn y mis lle mae ased yn cael ei roi ar waith, dros amcan oes ddefnyddiol yr ased. Amcangyfrifir mai rhwng tair a phum mlynedd yw'r oes ddefnyddiol.

Mae asedau sydd wrthi'n cael eu hadeiladu yn cynnwys costau a geir wrth ddatblygu systemau cyfrifiadurol a fydd yn disodli rhai o'r rhaglenni presennol. Caiff gwariant ar ymchwil ei ddiddymu fel gwariant a godir ar y Datganiad Incwm a Gwariant. Nid yw amorteiddiad yn effeithio ar asedau sydd wrthi'n cael eu hadeiladu.

## F) LLEIHAU GWERTH ASEDAU

Caiff lleihau gwerth asedau ei gyfrifo fel y gwahaniaeth rhwng gwerth llyfr yr ased a'i swm adferadwy, os yw'n llai.

Diffinnir swm adferadwy fel y gwerth teg uchaf, llai costau gwerthu, ac amcangyfrif o'i werth mewn defnydd ar ddyddiad yr adolygiad lleihau. At ddibenion asesu lleihad, caiff asedau eu grwpio ar y lefelau isaf lle ceir llifoedd arian y gellir eu hadnabod ar wahân (unedau cynhyrchu arian).

Caiff gwerth llyfr ased ei briodoli'n syth i'w swm adferadwy os yw gwerth llyfr yr ased yn fwy na'i swm adferadwy amcangyfrifiedig.

Cydnabyddir colledion yn ôl y swm sy'n gyfwerth â'r gwahaniaeth rhwng gwerth llyfr yr ased a'i swm adferadwy.

Ar bob dyddiad adrodd, caiff gwerth llyfr asedau anghyfredol ei adolygu i weld a oes unrhyw arwydd bod gwerth llyfr yr asedau wedi lleihau. Caiff lleihad sylweddol ei gydnabod ar wahân yn y Datganiad Incwm a Gwariant. Caiff asedau sydd wedi lleihau mewn gwerth eu hadolygu ar bob dyddiad adrodd i weld a ellir gwrthdroi'r lleihad.

## FF) SYMIAU MASNACH DERBYNIADWY

Ystyr symiau masnach derbyniadwy yw arian sy'n ddyledus gan randdeiliaid am drwyddedau, ffioedd a thaliadau. Os disgwylir i'r arian gael ei gasglu mewn blwyddyn neu lai (neu yng nghylch gweithredu arferol y busnes os yw hynny'n hwy), cânt eu trin fel asedau cyfredol. Os na, cânt eu cyflwyno fel asedau anghyfredol.

Caiff symiau masnach derbyniadwy eu cydnabod ar werth teg yn y dechrau, ac yna eu mesur ar gost amorteiddio drwy ddefnyddio'r dull llog gweithredol, llai darpariaeth ar gyfer lleihad.

## G) ARIAN PAROD A'R HYN SY'N GYFYSTYR AG ARIAN PAROD

Mae arian parod a'r hyn sy'n gyfwerth ag arian parod yn cynnwys arian mewn llaw, blaendaliadau a ddelir gan fanciau a blaendaliadau rhent.

### NG) SYMIAU MASNACH TALADWY

Ystyr symiau masnach taladwy yw rhwymedigaethau i dalu am nwyddau neu wasanaethau a gafwyd gan gyflenwyr fel rhan o drefniadau busnes arferol. Caiff cyfrifon taladwy eu trin fel rhwymedigaethau cyfredol os yw'r taliad yn ddyledus o fewn blwyddyn neu lai (neu yng nghylch gwaith arferol y busnes os yw hynny'n hwy). Os na, cânt eu cyflwyno fel rhwymedigaethau anghyfredol.

Caiff symiau masnach taladwy eu cydnabod ar werth teg yn y dechrau, ac yna eu mesur ar gost amorteiddio drwy ddefnyddio'r dull llog gweithredol.

### H) BUDDION GWEITHWYR

#### CYNLLUNIAU PENSIWN

Mae gan Ofcom amryw o gynlluniau pensiwn, sy'n cynnwys cynlluniau cyfraniadau wedi'u diffinio, cynlluniau buddion wedi'u diffinio, a chynlluniau na chânt eu hariannu.

#### CYNLLUNIAU CYFRANIADAU WEDI'U DIFFINIO

Cynllun buddiannau ôl-gyflogaeth yw cynllun cyfraniadau wedi'u diffinio, lle mae endid yn talu cyfraniadau penodedig i endid ar wahân ac nid oes ymrwymiad cyfreithiol nac adeiladol arno i dalu symiau ychwanegol. Caiff ymrwymiadau i dalu cyfraniadau i gynlluniau pensiwn cyfraniadau wedi'u diffinio eu cydnabod fel gwariant er budd gweithwyr yn y datganiad incwm a gwariant yn unol â'r gwasanaeth sy'n arwain at yr ymrwymiad. Caiff cyfraniadau rhagdalu eu cydnabod fel ased i'r graddau bod ad-daliad ariannol neu leihad mewn taliadau i'r dyfodol ar gael.

Gall staff newydd ymuno â chynllun pensiwn rhanddeiliaid, sy'n gynllun cyfraniadau wedi'u diffinio.

#### CYNLLUNIAU BUDDION WEDI'U DIFFINIO

Mae'r cynllun buddion wedi'u diffinio hefyd yn gynllun buddion ôl-gyflogaeth, ond mae'n wahanol i gynllun cyfraniadau wedi'u diffinio. Caiff ymrwymiadau net Ofcom o ran cynlluniau pensiwn buddion wedi'u diffinio ei gyfrifo ar wahân ar gyfer pob cynllun drwy amcangyfrif swm y budd y bydd gweithwyr wedi'i ennill yn y dyfodol am eu gwasanaeth yn y cyfnodau presennol a blaenorol; tynnir disgownt oddi ar y budd hwnnw er mwyn pennu ei werth cyfredol. Caiff unrhyw gostau gwasanaeth yn y gorffennol nas cydnabuwyd a gwerth teg asedau unrhyw gynllun eu didynnu. Y gyfradd ddisgownt yw'r incwm ar y dyddiad adrodd o'r bondiau â sgôr credyd AA sydd â dyddiadau aeddfedu sy'n debyg i delerau ymrwymiadau Ofcom ac sydd wedi'u trosi i'r un math o arian y disgwylir talu'r buddion ynddo. Gwneir y cyfrifiad yn flynyddol gan actiwari cymwys, gan ddefnyddio'r dull credyd uned disgwyliedig. Os bydd Ofcom ar ei ennill ar ôl gwneud y cyfrifiad, caiff yr ased a gydnabuwyd ei gyfyngu i gyfanswm net unrhyw gostau gwasanaeth yn y gorffennol nas cydnabuwyd a gwerth presennol unrhyw ad-daliadau i'r dyfodol o'r cynllun neu leihad mewn cyfraniadau i'r cynllun yn y dyfodol. Caiff colledion ac enillion actiwaraidd eu cydnabod yn llawn yn y cyfnod y byddant yn codi. Cânt eu cydnabod y tu hwnt i'r datganiad incwm a gwariant a'u cyflwyno yn y Datganiad Newidiadau Ecwiti.

Mae Ofcom yn cymryd rhan mewn dau gynllun pensiwn buddion wedi'u diffinio sy'n gysylltiedig â staff a drosglwyddodd i Ofcom o sefydliadau blaenorol. Nid yw'r cynlluniau hyn ar gael i aelodau newydd.

Mae'r cynllun cyntaf, Cynllun Pensiwn Buddion wedi'u Diffinio Ofcom yn darparu buddion sy'n gyfwerth i raddau helaeth â Phrif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS). Mae Ofcom yn cymryd rhan yn y cynllun ar y cyd â'r Awdurdod Safonau Hysbysebu. Yr ail gynllun yw Cynllun Pensiwn Staff Ofcom (ITC gynt) ac mae Ofcom yn un o'r pedwar cyflogwr sy'n cymryd rhan ynddo. Caiff asedau'r cynllun hwn eu dal mewn ymddiriedolaeth a weinyddir ar wahân.

Mae'n ofynnol dan IAS19, lle bydd cynllun mewn gwarged yn ôl tybiaethau IAS19, na ellir cydnabod y gwarged ar Ddatganiad Sefyllfa Ariannol endid oni bai fod budd economaidd "ar gael" i'r endid yn sgil y gwarged.

Mae IFRIC 14 yn berthnasol i'r holl fuddion wedi'u diffinio ôl-gyflogaeth a buddion wedi'u diffinio eraill tymor hir i weithwyr. Mae Ofcom yn dilyn y dadansoddiad o'r safon hon.

#### CYNLLUNIAU HEB EU CYLLIDO

Mae gan Ofcom rwymedigaethau hefyd o ran taliadau pensiwn i dri chyn-gadeirydd y Comisiwn Teledu Annibynnol, dau gyn-gadeirydd yr Awdurdod Radio a dau gyn-Gyfarwyddwr Cyffredinol y Swyddfa Telegyfathrebiadau. Mae'r rhain yn gynlluniau na chânt eu hariannu ac fe gyfrifir amdanynt dan IAS 19 gyda darpariaeth wedi'i chynnwys ym mantolen Ofcom ar gyfer prisiad yr actiwari o'r rhwymedigaethau.

#### BUDDION GWEITHWYR ERAILL

#### COSTAU YMDDEOL YN GYNNAR

Yr oedd yr Asiantaeth Radiogyfathrebu ac Oftel yn gweithredu Cynllun Ymddeoliad Cynnar a roddodd fuddion ymddeoliad i rai gweithwyr cymwys. Mae'r buddion hyn yn cydymffurfio â rheolau Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Cafodd rhwymedigaeth yr Asiantaeth ac Oftel i dalu costau'r buddion hyn eu trosglwyddo i Ofcom ar 29 Rhagfyr 2003. Pery'r rhwymedigaeth tan oedran ymddeol arferol y gweithwyr sy'n ymddeol dan y Cynllun Ymddeoliad Cynnar. Mae'r costau ychwanegol hyn yn seiliedig ar werth gostyngol y symiau blynyddol sy'n daladwy ar y dyddiad adrodd, ac maent wedi'u

cynnwys mewn darpariaethau. Mae'r gwir symiau sy'n daladwy yn cynyddu'n flynyddol yn unol â rheolau Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Caiff y gyfradd ddisgownt ei gosod gan Drysorlys EM, ar hyn o bryd mae'n 2.9%.

### RHWYMEDIGAETH CYDWEITHWYR SY'N GADAEL

Dan Fuddion Gweithwyr IAS 19, rhaid i'r holl gostau gael eu cofnodi fel treuliau cyn gynted â chyfyd y rhwymedigaeth i dalu gweithwyr. Mae hyn yn cynnwys costau unrhyw wyliau heb eu cymryd ar ddiwedd y flwyddyn.

Mae gan gydweithwyr sydd wedi cwblhau pum mlynedd o wasanaeth di-dor hawl i gael cyfnod sabothol â thâl o hyd at bum wythnos ac wedyn cronni un wythnos ar gyfer pob blwyddyn ychwanegol o wasanaeth yn amodol ar hyd at ddeg wythnos. Caiff croniad, sy'n seiliedig ar amcangyfrifon gorau'r rheolwyr gan ddefnyddio data cyfredol ar gyflog a chyfraddau trosiant, ei gynnwys fel rhan o'r croniadau. O 1af Ionawr 2008 ymlaen, diddymwyd y budd hwn ar gyfer gweithwyr newydd.

## I) DARPARIAETHAU

Caiff darpariaethau ar gyfer ymddeol yn gynnar, eiddo gwag a chostau ailstrwythuro eu cydnabod: pan fo gan Ofcom rwymedigaeth adeiladol neu gyfreithiol gyfredol yn sgil digwyddiadau yn y gorffennol; pan fo'n debygol y bydd angen all-lif o adnoddau i setlo'r rhwymedigaeth; a phan gafwyd amcangyfrif dibynadwy o'r swm. Ni chaiff darpariaethau eu cydnabod ar gyfer colledion gweithredol yn y dyfodol.

Mae Ofcom yn darparu ar gyfer rhwymedigaethau sy'n ymwneud â lle dros ben yn les ei eiddo, llai cyfradd ddisgownt y Trysorlys, sy'n 2.2% ar hyn o bryd. Mae'r darpariaethau'n cynrychioli gwerth presennol net amcan gostau yn y dyfodol ar ôl cydnabod yr incwm rhent eithaf sicr yn y dyfodol. Wrth i'r disgownt ddod i ben, mae hwn wedi'i gynnwys o fewn y costau cyllid eraill yn y datganiad Incwm a Gwariant.

Pan geir amryw o rwymedigaethau tebyg, penderfynir a yw'n debygol y bydd angen all-lif mewn setliad drwy ystyried categori cyfran y rhwymedigaethau. Caiff darpariaeth ei chydnabod hyd yn oed os yw'n bur annhebygol y caiff all-lif unrhyw un eitem ei chynnwys yn yr un categori rhwymedigaethau.

## J) SETLO HAWLIADAU

Gwneir darpariaeth ar gyfer iawndal ac amcan gostau cyfreithiol trydydd parti o ran herio penderfyniadau rheoleiddiol Ofcom a'i sefydliadau blaenorol os bernir ei bod yn debygol y bydd y rhain yn daladwy.

## L) CYFNEWID ARIAN TRAMOR

Caiff trafodion a ddynodir mewn arian tramor eu trosi'n sterling yn ôl y gyfradd gyfnewid sydd mewn grym ar ddyddiad y trafodyn. Caiff asedau a rhwymedigaethau ariannol a ddynodir mewn arian tramor eu trosi yn ôl y cyfraddau sydd mewn grym ar y dyddiad adrodd a chydnabyddir yr elw neu'r golled ddilynol yn y Datganiad Incwm a Gwariant ar gyfer y flwyddyn.

## LL) OFFERYNNAU ARIANNOL A RISG CREDYD

### BENTHYCIADAU

Mae gan Ofcom bwerau cyfyngedig i gael benthyg arian i ariannu amrywiadau tymor byr mewn llif arian.

### ARIAN PAROD A'R HYN SY'N GYFYSTYR AG ARIAN PAROD

Mae arian parod a'r hyn sy'n gyfystyr ag arian parod yn cynnwys arian mewn llaw, blaendaliadau a ddelir gan fanciau a blaendaliadau rhent. Caiff incwm llog ar arian parod a'r hyn sy'n gyfwerth ag arian parod ei gydnabod wrth iddo gael ei ennill.

### SYMIAU MASNACH DERBYNIADWY

Ni cheir llog ar symiau masnach a symiau derbyniadwy eraill, ac fe'u nodir ar eu gwerth teg. Gwneir darpariaeth os oes tystiolaeth na chaiff yr arian sy'n weddill ei dalu'n llawn.

### SYMIAU MASNACH TALADWY

Ni cheir llog ar symiau masnach taladwy ac fe'u nodir ar eu gwerth teg.

## M) TRETH INCWM CYFREDOL A GOHIRIEDIG

Mae Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi wedi barnu nad yw swyddogaethau rheoleiddio Ofcom yn golygu ei fod yn fusnes sy'n masnachu. O'r herwydd, ni all Ofcom adennill TAW ar wariant sy'n rhan o'i weithgareddau rheoleiddio.

Gellir asesu Treth Gorfforaeth ar log a dderbynnir, ac o ran incwm rhent net y gwariant ar eiddo sy'n deillio o osod eiddo dros ben.

Ar y dyddiad adrodd, yr oedd gan Ofcom golledion treth nas defnyddiwyd i'w gosod yn erbyn incwm trethadwy yn y dyfodol. Daw'r colledion hyn o ganlyniad i ddarpariaethau les beichus ar eiddo a etifeddwyd gan gyrff blaenorol nad oedd mo'u hangen pan ymgorfforwyd Ofcom.

### TRETH OHIRIEDIG

Darperir treth incwm ohiriedig, gan ddefnyddio'r dull rhwymedigaeth, ar bob gwahaniaeth dros dro ar y dyddiad adrodd rhwng sylfaen trethi asedau a rhwymedigaethau sy'n berthnasol i weithgareddau trethadwy, a'u gwerth llyfr at ddibenion adroddiadau ariannol.

Cydnabyddir asedau treth gohiriedig ar gyfer pob gwahaniaeth dros dro y gellir ei didynnu, asedau treth heb eu defnyddio sy'n cael eu dwyn ymlaen a cholledion treth heb eu defnyddio, i'r graddau y mae'n debygol y bydd elw trethadwy ar gael yn y dyfodol y gellir ei ddefnyddio yn eu herbyn.

### CYDNABOD ASEDAU TRETH GOHIRIEDIG

Caiff gwerth llyfr asedau treth gohiriedig ei adolygu ar bob dyddiad adrodd. Wrth asesu'r tebygolrwydd y bydd elw trethadwy yn deillio ohono, rhoddir ystyriaeth i ganlyniadau'r flwyddyn flaenorol, canlyniadau rhagolygon i'r dyfodol, ac eitemau achlysurol sy'n annhebygol o godi yn y dyfodol. Gan hynny, mae'r asesiad o allu'r Sefydliad i ddefnyddio'r colledion treth a ddygwyd ymlaen yn seiliedig ar farn i raddau helaeth. Os bydd canlyniadau trethadwy yn y dyfodol yn wahanol iawn i'r rheini a ddisgwylid, bydd gwerth llyfr asedau treth gohiriedig yn cynyddu neu'n lleihau, ac mae'n bosibl y caiff hynny effaith sylweddol ar y Datganiad Sefyllfa Ariannol a'r Datganiad Incwm a Gwariant.

Caiff asedau treth gohiriedig eu mesur yn ôl y cyfraddau treth y disgwylir iddynt fod yn berthnasol i Ofcom pan gaiff yr ased ei wireddu yn seiliedig ar y cyfraddau treth gweithredol, neu pan gânt eu gweithredu ar ddiwedd y cyfnod adrodd.

## N) DADANSODDIAD FESUL SEGMENT

Ystyr segment yw elfen amlwg yn y sefydliad sy'n ymwneud â naill ai darparu cynnyrch neu wasanaethau (segment busnes), neu ddarparu cynnyrch neu wasanaethau mewn amgylchedd economaidd penodol (segment daearyddol), ac mae'n agored i risgiau a buddion gwahanol i segmentau eraill. Ni chyflwynwyd dadansoddiad o drosiant Ofcom o weithgarwch mewn segment daearyddol neu segment busnes, gan y cynhelir holl weithgarwch Ofcom yn y DU ac yn y sector rheoleiddio. Fodd bynnag, er mwyn bodloni gofynion Deddf Cyfathrebiadau 2003 i ddarparu gwybodaeth am gostau a ffioedd, mae Nodyn 2 y datganiadau ariannol hyn yn cyflwyno'r datganiad Incwm a Gwariant ar gyfer y flwyddyn dan sylw fesul sector.

## O) SAFBWYNTIAU PERSONOL AC ANSICRWYDD YNGHYLCH AMCANGYFRIFON

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol, mae gofyn i'r rheolwyr wneud amcangyfrifon a rhagdybiaethau sy'n effeithio ar yr asedau a'r rhwymedigaethau a gofnodwyd, y datgeliadau rhwymedigaethau a'r asedau wrth gefn, a'r refeniw a'r treuliau a gofnodwyd yn ystod y cyfnod adrodd. Gallai'r canlyniadau eu hunain fod yn wahanol i'r amcangyfrifon hyn. Ceir gwybodaeth am safbwyntiau ac amcangyfrifon o'r fath yn y polisïau cyfrifyddu neu'r nodiadau ar gyfer y datganiadau ariannol, a cheir crynodeb o'r prif rai isod.

Dyma'r safbwyntiau sy'n effeithio fwyaf ar y symiau a gydnabyddir yn y datganiadau ariannol:

- Cydnabod refeniw ac asesu refeniw nas biliwyd – polisi cyfrifyddu (C);
- Defnyddio asedau treth gohiriedig o ran elw trethadwy yn y dyfodol – polisi cyfrifyddu (Q).

Dyma'r prif feysydd lle ceir ansicrwydd ynghylch amcangyfrifon a allai achosi addasiad sylweddol i werth llyfr asedau a rhwymedigaethau yn y flwyddyn ariannol nesaf:

- Amcangyfrifon o rwymedigaethau ar gyfer pensiwn a buddion eraill ar ôl ymddeol – polisi cyfrifyddu (L).

# 2. DADANSODDIAD SECTORAIDD

Mae'r dadansoddiad isod yn cyfeirio at incwm fesul sector ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2011, ynghyd â'r costau a briodolir.

Paratoir y dadansoddiad hwn yn unol â Deddf Cyfathrebiadau 2003, ac nid yng nghyswllt Adroddiad Segmentaidd 8 IFRS, yn unol â pholisi cyfrifyddu 1 (R).

| | Sbectrwm rheoli £'000 | Clirio Sbectrwm £'000 | Dyfarnu sbectrwm £'000 | Rhwydweithiau a gwasanaethau £'000 | Darlledu £'000 | Incwm arall £'000 | Cyfanswm 31 Mawrth 2011 | Cyfanswm 31 Mawrth 2010 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Refeniw** | | | | | | | | |
| Ffioedd trwyddedau a gweinyddu | – | – | – | 30,046 | 23,421 | – | **53,467** | 50,422 |
| Ffioedd ymgeisio | – | – | – | – | 673 | – | **673** | 599 |
| Cymorth grant | 75,514 | 18,079 | 4,180 | – | – | 4,649 | **102,422** | 79,763 |
| Incwm arall | – | – | – | – | – | 719 | **719** | 2,000 |
| Incwm Cronedig/ (Gohiriedig) | (3,563) | (2,829) | (1,491) | (1,895) | (4,112) | (142) | **(14,032)** | (353) |
| **Cyfanswm refeniw** | **71,951** | **15,250** | **2,689** | **28,151** | **19,982** | **5,226** | **143,249** | **132,431** |
| Rhent ac Incwm arall | 537 | – | – | 210 | 149 | 39 | **935** | 304 |
| **Incwm Gweithredol** | **72,488** | **15,250** | **2,689** | **28,361** | **20,131** | **5,265** | **144,184** | **132,735** |
| Llog derbyniadwy | 102 | – | – | 40 | 28 | 7 | **177** | 316 |
| **Cyfanswm incwm** | **72,590** | **15,250** | **2,689** | **28,401** | **20,159** | **5,272** | **144,361** | **133,051** |
| Ad-daliadau benthyciad | – | – | – | – | – | – | **–** | – |
| Llog taladwy | – | – | – | – | – | – | **–** | – |
| **Incwm gweithredol net** | **72,590** | **15,250** | **2,689** | **28,401** | **20,159** | **5,272** | **144,361** | **133,051** |
| Eiddo beichus ac incwm rhent cronedig | 608 | – | – | 238 | 169 | 44 | **1,059** | 2,083 |
| **Incwm Ariannol** | **73,198** | **15,250** | **2,689** | **28,639** | **20,328** | **5,316** | **145,420** | **135,134** |
| | | | | | | | | |
| **Cyfanswm costau** | **(73,198)** | **(15,250)** | **(2,689)** | **(28,639)** | **(20,328)** | **(5,316)** | **(145,420)** | **(135,134)** |
| | | | | | | | | |
| **Gwarged ar sail cost ariannol** | **–** | **–** | **–** | **–** | **–** | **–** | **–** | **–** |
| | | | | | | | | |
| Costau cymharol fesul sector | | | | | | | | |
| **Y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2011** | **(73,198)** | **(15,250)** | **(2,689)** | **(28,639)** | **(20,328)** | **(5,316)** | **(145,420)** | |
| Y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2010 | (72,099) | – | (3,161) | (31,747) | (23,773) | (4,354) | **(135,134)** | |

Mae incwm arall yn cynnwys:
- ymholiadau cystadlaethau, gwaith llythrennedd yn y cyfryngau, gweithgarwch profi diddordeb y cyhoedd, asesiadau cyfryngau lleol, gwaith cyfranogiad digidol cychwynnol a gweithgarwch blocio gwefannau a ariennir drwy gymorth grant;
- gwaith torri hawlfraint ar-lein a ariennir drwy gymorth grant;
- integreiddio Postcomm a ariennir drwy gymorth grant;
- gweithgareddau masnachol, gan gynnwys gwaith ymyrraeth ar y sbectrwm; ac
- incwm rhent drwy is-osod gofod mewn eiddo gwag.

Yn unol â pholisïau cyfrifyddu Ofcom, fel y nodir yn nodyn 1(C) y cyfrifon hyn, rhoddir cyfrif am gymorth grant yn y cyfnod y'i derbynnir.

Cafodd y tabl uchod ei baratoi ar sail arian a addaswyd, sy'n cynnwys gwariant cyfalaf a chyfraniadau gwirioneddol i gynlluniau pensiwn, ond nid yw'n cynnwys dibrisiant. Mae ffioedd gweinyddol a thrwyddedau Ofcom yn seiliedig ar amcangyfrif o'r costau arian yn unol â'i Ddatganiad Egwyddorion Codi Tâl. Pan geir fwy o incwm na gwariant yn y flwyddyn gyfredol, bydd y gwarged yn cael ei ad-dalu i'r rhanddeiliaid perthnasol ac yn unol â Datganiad Egwyddorion Codi Tâl Ofcom. Pan geir mwy o wariant nag incwm yn y flwyddyn gyfredol, caiff y diffyg ei gasglu gan randdeiliaid perthnasol, yn unol â Datganiad Egwyddorion Codi Tâl Ofcom.

## CYSONI'R GWARIANT GWEITHREDOL Â'R ALLDRO GWEITHREDOL GWIRIONEDDOL

| | Nodiadau | 2011<br>£'000 | 2010<br>£'000 |
|---|---|---|---|
| **Gwariant gweithredol - Datganiad Incwm a Gwariant** | | **135,948** | **121,594** |
| Addasiadau o ran atebolrwydd ac asedau pensiwn | | **5,340** | 12,580 |
| Costau eiddo gwag | 17 | **1,101** | 182 |
| Gwariant cyfalaf llai dibrisio | | **770** | (2,093) |
| Taliadau rhent gwirioneddol llai gwariant | | **1,156** | 1,193 |
| Addasiadau eraill | | **1,157** | 1,726 |
| Elw o asedau sefydlog | | **(52)** | (48) |
| **Gwariant arian gweithredol** | | **145,420** | **135,134** |
| Clirio Sbectrwm | | **(15,250)** | – |
| Dyfarnu sbectrwm | | **(2,689)** | (3,161) |
| Incwm Anweithredol | | **(2,173)** | (2,703) |
| **Alldro Costau Gweithredol Gwirioneddol** | | **125,308** | **129,270** |

# 3. INCWM

| | 2011<br>£'000 | 2010<br>£'000 |
|---|---|---|
| **Cymorth grant yr Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau** | | |
| Rheoli sbectrwm | **71,951** | 70,622 |
| Dyfarnu sbectrwm | **2,689** | 3,161 |
| Clirio Sbectrwm | **15,250** | – |
| Gorfodi'r gyfraith gystadleuaeth | **900** | 1,041 |
| Prawf diddordeb y cyhoedd | **426** | – |
| Integreiddio rheoleiddio'r gwasanaeth post | **406** | 305 |
| Asesu cyfryngau lleol | **91** | 95 |
| Cyfranogiad digidol | **271** | 429 |
| Blocio Gwefan | **41** | – |
| Torri Hawlfraint Ar-lein | **1,788** | 31 |
| **Cymorth Grant yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon** | | |
| Llythrennedd yn y Cyfryngau | **541** | 559 |
| **Cyfanswm cymorth grant gan y llywodraeth** | **94,354** | **76,243** |
| | | |
| Ffioedd gweinyddol a ffioedd gwneud cais ar gyfer rhwydweithiau a gwasanaethau | **28,151** | 31,097 |
| Ffioedd trwyddedu a ffioedd gwneud cais yng nghyswllt y Ddeddf Darlledu | **19,982** | 23,286 |
| Incwm Rhent | **191** | 251 |
| Incwm arall | **1,506** | 1,858 |
| **Cyfanswm incwm** | **144,184** | **132,735** |

# **4.** COSTAU STAFF

| | 2011 £'000 | 2010 £'000 |
|---|---|---|
| Yr oedd y costau staff, gan gynnwys y ffioedd a dalwyd i Aelodau'r Bwrdd, fel a ganlyn: | | |
| Cyflogau a buddiannau | **48,708** | 50,798 |
| Costau Yswiriant Gwladol | **5,685** | 5,469 |
| Costau Pensiwn | **4,892** | 5,392 |
| Costau ailstrwythuro | **6,135** | 617 |
| **Cyfanswm costau staff** | **65,420** | **62,276** |

Mae'r costau ailstrwythuro'n cynnwys yr adolygiad cynhwysfawr o wariant a gwblhawyd yn ystod 2010/11 ynghyd â rhai gostyngiadau staff ychwanegol yn gynharach yn y flwyddyn. Mae'r gost ailstrwythuro yn cynnwys croniad ar gyfer y costau hynny sydd heb eu talu ar ddiwedd y flwyddyn ac yn gysylltiedig â 41 (2010: 4) o weithwyr.

Gweler gwybodaeth fanylach yng nghyswllt taliadau a hawliau pensiwn y cyfarwyddwyr a'r uwch weithredwyr yn yr adroddiad taliadau ar dudalennau 60 i 64.

Yn ystod y flwyddyn, cafodd gweithiwr ei secondio i sefydliad arall, felly mae'r credyd hwn wedi'i gynnwys ar y llinell costau staff yn y tabl uchod.

# **5.** NIFER Y GWEITHWYR

| | 2011 | 2010 |
|---|---|---|
| Nifer y gweithwyr ar gyfartaledd | **832** | 865 |

Ar 31 Mawrth 2011, yr oedd gan Ofcom 720 o weithwyr (2010: 873).

Nid yw nifer y gweithwyr yn cynnwys Aelodau Anweithredol Bwrdd Ofcom, y Bwrdd Cynnwys, Pwyllgorau Cynghori na gweithwyr sydd wedi'u secondio i Ofcom.

# **6.** COSTAU GWEITHREDOL ERAILL

| | Costau gweithredol eraill £'000 | Clirio Sbectrwm a Dyfarniadau £'000 | Cyfanswm 2011 £'000 | Costau gweithredol eraill £'000 | Clirio Sbectrwm a Dyfarniadau £'000 | Cyfanswm 2010 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Talu archwilwyr – ffioedd archwilio statudol | 82 | – | **82** | 103 | – | 103 |
| Talu archwilwyr – Adran 400 | 16 | – | **16** | 17 | – | 17 |
| Talu archwilwyr – Cyfrifon y Llywodraeth Gyfan | 3 | – | **3** | – | – | – |
| Ffioedd proffesiynol | 6,338 | 5,320 | **11,658** | 7,877 | 3,005 | 10,882 |
| Gwasanaethau a ddarperir yn allanol | 9,863 | – | **9,863** | 8,847 | – | 8,847 |
| Ymchwil i'r gynulleidfa a'r defnyddwyr | 4,857 | – | **4,857** | 4,665 | – | 4,665 |
| Ymchwil technolegol a phrosiectau effeithlonrwydd sbectrwm | 963 | 545 | **1,508** | 2,655 | – | 2,655 |
| Cynllun clirio sbectrwm | 19 | 11,760 | **11,779** | – | – | – |
| Staff dros dro a recriwtio | 3,311 | 188 | **3,499** | 3,251 | 126 | 3,377 |
| Staff ar secondiad | – | – | **–** | 47 | – | 47 |
| Teithio a chynhaliaeth | 1,084 | 9 | **1,093** | 1,394 | 14 | 1,408 |
| Costau eiddo | 8,002 | – | **8,002** | 7,814 | – | 7,814 |
| Costau gweinyddol a chostau swyddfa | 6,407 | 5 | **6,412** | 8,265 | 11 | 8,276 |
| Costau Technoleg a gwybodaeth | 2,861 | – | **2,861** | 2,772 | 5 | 2,777 |
| Cerbydau | 532 | – | **532** | 390 | – | 390 |
| Dyledion gwael ac amheus | 147 | – | **147** | 34 | – | 34 |
| Amorteiddio | 5,279 | – | **5,279** | 5,109 | – | 5,109 |
| Dibrisio | 2,847 | 2 | **2,849** | 2,911 | – | 2,911 |
| Colled ar waredu asedau anghyfredol | 88 | – | **88** | 6 | – | 6 |
| **Cyfanswm costau gweithredol eraill** | **52,699** | **17,829** | **70,528** | **56,157** | **3,161** | **59,318** |
| Mae'r costau uchod yn cynnwys: | | | | | | |
| Les gweithredol – tir ac adeiladau | 6,330 | – | **6,330** | 6,249 | – | 6,249 |
| Les gweithredol – cerbydau | 376 | – | **376** | 220 | – | 220 |
| Les gweithredol – arall | 181 | – | **181** | 117 | – | 117 |

Mae costau Clirio a Dyfarnu'r Sbectrwm wedi'u cyflwyno ar wahân i gostau cynnal craidd Ofcom er mwyn rhoi cymhariaeth fwy ystyrlon rhwng y blynyddoedd.

Yn ystod y flwyddyn ariannol, derbyniodd Ofcom gyfanswm o £382k gan gyn-weithiwr ar ôl i dwyll ariannol gael ei ganfod. Plediodd y cyn-weithiwr yn euog i'r cyhuddiad o dwyll drwy gamddefnyddio ei swydd ym mis Mai 2011 at werth o £522k a chafodd ddedfryd o garchar ym mis Mehefin 2011. Ers hynny, mae £109k ychwanegol wedi'i adennill gan y cyn-weithiwr yn ystod 2011/12, a disgwylir adennill gweddill y swm a gaffaelwyd yn anghyfreithlon yn ystod 2011/12. Mae'r arian a ddychwelwyd a dderbyniwyd yn 2010/11 wedi'u hadlewyrchu o fewn cyfanswm costau Systemau a Thechnoleg Gwybodaeth yn y tabl uchod. O ganlyniad i'r hyn sydd wedi'i adennill hyd yn hyn, a'r adenillion pellach a ragwelir yn 2011-12, ni fydd Ofcom yn dioddef colled ariannol, ac nid yw'n rhagweld y bydd angen ystyried diddymu unrhyw symiau.

## **7.** TÂL AM EIDDO GWAG

| | **2011** | 2010 |
|---|---|---|
| | **£'000** | £'000 |
| **Costau eiddo gwag yn y dyfodol** | **(1,455)** | 202 |

Yn ystod 2010/11, llwyddwyd i gael tenantiaid newydd ar gyfer lloriau gwag yn Riverside House. Ar 31 Mawrth 2011, yr oedd pob llawr nad yw Ofcom yn ei ddefnyddio yn Riverside House wedi'i osod. Hefyd, mae lesoedd dau eiddo rhanbarthol, llai, wedi dod i ben. O ganlyniad i'r newidiadau uchod yn y flwyddyn, mae tâl ychwanegol wedi'i wneud i'r ddarpariaeth ar gyfer eiddo gwag, fel y nodiryn Nodyn 17.

## **8.** LLOG A DALWYD

| | **2011** | 2010 |
|---|---|---|
| | **£'000** | £'000 |
| **Llog a dalwyd** | **–** | (23) |

# 9. TRETHIANT

| | 2011 | 2010 |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| **(Taliadau)/credyd treth ar gyfer y flwyddyn** | | |
| Incwm/(costau) Treth Gorfforaeth y Deyrnas Unedig | **–** | – |
| Credyd/(debyd) treth ohiriedig | **112** | (151) |
| **Treth a gredydwyd/(godwyd) ar y Datganiad Incwm a Gwariant** | **112** | **(151)** |

| **Cysoni taliadau treth** | **2011** | **2010** |
|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** |
| Gwarged cyn treth | **9,180** | 11,163 |
| | | |
| Treth ar elw ar gyfradd safonol y Deyrnas Unedig ar gyfer Treth Gorfforaeth, sef 20% (2010: 21%) | **1,836** | 2,344 |
| Incwm na thelir treth arno | **(28,799)** | (27,832) |
| Costau na ellir eu didynnu | **26,730** | 25,639 |
| Cynnydd mewn (Defnydd) colledion treth a ddygwyd ymlaen | **233** | (151) |
| **Costau treth** | **–** | – |

| **Treth ohiriedig** | **Colledion treth** |
|---|---|
| | **£'000** |
| Dadansoddi newidiadau yn y balans treth ohiriedig net yn ystod y flwyddyn | |
| **Asedau treth gohiriedig ar 1 Ebrill 2009** | **2,693** |
| Defnyddio colledion treth a ddygwyd ymlaen | **(151)** |
| **Asedau treth gohiriedig ar 1 Ebrill 2010** | **2,542** |
| Effaith y newid yn y gyfradd dreth berthnasol | **(121)** |
| Cynnydd yn y colledion treth a ddygwyd ymlaen | **233** |
| **Asedau treth gohiriedig ar 31 Mawrth 2011** | **2,654** |
| | |
| Asedau treth gohiriedig i'w hadfer o fewn 12 mis | **13** |
| Asedau treth gohiriedig i'w hadfer ar ôl mwy na 12 mis | **2,641** |
| | **2,654** |

Mae'r holl asedau treth gohiriedig yn berthnasol i golledion treth a ddygwyd ymlaen. Mae'r modd y defnyddir asedau treth gohiriedig yn dibynnu ar elw trethadwy a gyfyd yn y dyfodol.

Daw'r colledion hyn yn bennaf o ganlyniad i ddarpariaethau les beichus ar eiddo a etifeddwyd gan gyrff blaenorol nad oedd mo'u hangen pan ymgorfforwyd Ofcom.

# **10.** EIDDO, PEIRIANNAU A CHYFARPAR

| | Gwelliannau les £'000 | Gosodiadau a ffitiadau £'000 | Offer swyddfa a maes £'000 | Caledwedd cyfrifiadurol £'000 | Cerbydau modur £'000 | Cyfanswm £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| COSTAU | | | | | | |
| **Ar 1 Ebrill 2009** | **14,145** | **739** | **10,608** | **4,337** | **1,072** | **30,901** |
| Ychwanegiadau yn ystod y flwyddyn | 412 | 162 | 2,907 | 99 | – | 3,580 |
| Lleihau | – | – | – | – | – | – |
| Gwaredu | (95) | (73) | (46) | (451) | (516) | (1,181) |
| Trosglwyddo | – | – | – | – | – | – |
| **Ar 31 Mawrth 2010** | **14,462** | **828** | **13,469** | **3,985** | **556** | **33,300** |
| Ychwanegiadau yn ystod y flwyddyn | 365 | 15 | 580 | 5,753 | – | 6,713 |
| Lleihau | – | – | – | – | – | – |
| Gwaredu | (397) | (4) | (65) | (23) | (430) | (919) |
| Trosglwyddo | 125 | – | – | – | – | 125 |
| **Cost ar 31 Mawrth 2011** | **14,555** | **839** | **13,984** | **9,715** | **126** | **39,219** |
| | | | | | | |
| DIBRISIO | | | | | | |
| **Ar 1 Ebrill 2009** | **7,145** | **417** | **8,159** | **2,766** | **1,041** | **19,528** |
| Taliadau ar gyfer y flwyddyn | 925 | 73 | 1,108 | 789 | 16 | 2,911 |
| Lleihau | – | – | – | – | – | – |
| Gwaredu | (44) | (73) | (45) | (449) | (516) | (1,127) |
| Trosglwyddo | – | – | – | – | – | – |
| **Ar 31 Mawrth 2010** | **8,026** | **417** | **9,222** | **3,106** | **541** | **21,312** |
| Taliadau ar gyfer y flwyddyn | 956 | 91 | 1,145 | 656 | 1 | **2,849** |
| Lleihau | – | – | – | – | – | **–** |
| Gwaredu | (271) | (4) | (65) | (23) | (416) | **(779)** |
| Trosglwyddo | – | – | – | – | – | **–** |
| **Dibrisiadau cronedig ar 31 Mawrth 2011** | **8,711** | **504** | **10,302** | **3,739** | **126** | **23,382** |
| | | | | | | |
| **NBV 31 Mawrth 2011** | **5,844** | **335** | **3,682** | **5,976** | **–** | **15,837** |
| NBV 31 Mawrth 2010 | 6,436 | 411 | 4,247 | 879 | 15 | 11,988 |

Mae'r holl asedau yn y tabl uchod yn eiddo i Ofcom.

# 11. ASEDAU ANNIRIAETHOL

| | Datblygu'r Wefan £'000 | Trwyddedau meddalwedd £'000 | Technoleg Gwybodaeth £'000 | Gwariant datblygu £'000 | Cyfanswm £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| COSTAU | | | | | |
| **Ar 1 Ebrill 2009** | **–** | **5,243** | **20,151** | **339** | **25,733** |
| Ychwanegiadau yn ystod y flwyddyn | – | – | 817 | 1,530 | 2,347 |
| Lleihau | – | – | – | – | – |
| Gwaredu | – | (76) | (61) | – | (137) |
| Trosglwyddo | – | – | 198 | (198) | – |
| **Ar 31 Mawrth 2010** | **–** | **5,167** | **21,105** | **1,671** | **27,943** |
| Ychwanegiadau yn ystod y flwyddyn | 18 | 237 | 349 | 1,580 | 2,184 |
| Lleihau | – | – | – | – | – |
| Gwaredu | – | (47) | (201) | – | (248) |
| Trosglwyddo | 21 | – | 503 | (649) | (125) |
| **Cost ar 31 Mawrth 2011** | **39** | **5,357** | **21,756** | **2,602** | **29,754** |
| | | | | | |
| AMORTEIDDO | | | | | |
| **Ar 1 Ebrill 2009** | **–** | **1,682** | **6,357** | **–** | **8,039** |
| Taliadau ar gyfer y flwyddyn | – | 1,024 | 4,085 | – | 5,109 |
| Lleihau | – | – | – | – | – |
| Gwaredu | – | (76) | (61) | – | (137) |
| Trosglwyddo | – | – | – | – | – |
| **Ar 31 Mawrth 2010** | **–** | **2,630** | **10,381** | **–** | **13,011** |
| Taliadau ar gyfer y flwyddyn | 11 | 965 | 4,302 | – | 5,278 |
| Lleihau | – | – | – | – | – |
| Gwaredu | – | (47) | (201) | – | (248) |
| Trosglwyddo | – | – | – | – | – |
| **Amorteiddiad cronedig ar 31 Mawrth 2011** | **11** | **3,548** | **14,482** | **–** | **18,041** |
| | | | | | |
| **NBV 31 Mawrth 2011** | **28** | **1,809** | **7,274** | **2,602** | **11,713** |
| NBV 31 Mawrth 2010 | – | 2,537 | 10,724 | 1,671 | 14,932 |

Mae'r holl asedau yn y tabl uchod yn eiddo i Ofcom.

## 12. SYMIAU MASNACH A SYMIAU DERBYNIADWY ERAILL - SYMIAU SY'N DOD YN DDYLEDUS O FEWN BLWYDDYN

| | 2011<br>£'000 | 2010<br>£'000 |
|---|---|---|
| Symiau masnach derbyniadwy | **1,852** | 2,092 |
| Symiau derbyniadwy eraill | **210** | 189 |
| Rhagdaliadau | **4,999** | 4,892 |
| Benthyciadau a blaendaliadau staff | **213** | 261 |
| Incwm cronedig | **876** | 4,838 |
| **Cyfanswm symiau masnach a symiau derbyniadwy eraill - symiau sy'n dod yn ddyledus o fewn blwyddyn** | **8,150** | **12,272** |

Mae benthyciadau staff yn cyfeirio at 168 (2010:186) o fenthyciadau ar gyfer tocyn tymor i gydweithwyr sy'n ad-daladwy dros 12 mis.

## 13. SYMIAU MASNACH A SYMIAU DERBYNIADWY ERAILL – SYMIAU SY'N DOD YN DDERBYNIADWY AR ÔL MWY NA BLWYDDYN

| | 2011<br>£'000 | 2010<br>£'000 |
|---|---|---|
| Rhagdaliadau | **544** | – |
| Incwm cronedig | **795** | 468 |
| **Cyfanswm symiau masnach a symiau taladwy eraill - symiau sy'n dod yn ddyledus o fewn blwyddyn** | **1,339** | **468** |

## 14. ARIAN PAROD A'R HYN SY'N GYFYSTYR AG ARIAN PAROD

| | 2011<br>£'000 | 2010<br>£'000 |
|---|---|---|
| Banciau masnachol ac arian mewn llaw | **26,942** | 35,348 |
| Balans cronfeydd sy'n gysylltiedig ag Adran 400 | **2** | – |
| **Cyfanswm arian parod a'r hyn sy'n gyfystyr ag arian parod** | **26,944** | **35,348** |

Mae'r holl weithgareddau a'r balansau ariannol sy'n gysylltiedig â Chosbau a Ffioedd Trwyddedau ar wahân i gyfrifon Ofcom, ac maent wedi'u cynnwys yng nghyfrifon Adran 400.

# **15.** SYMIAU MASNACH A SYMIAU TALADWY ERAILL – SYMIAU SY'N DOD YN DDYLEDUS O FEWN BLWYDDYN

| | 2011<br>£'000 | 2010<br>£'000 |
|---|---|---|
| Symiau masnach taladwy | **711** | 535 |
| Nawdd cymdeithasol a threth arall | **1,790** | – |
| Symiau taladwy eraill | **563** | 713 |
| Treth ar Werth sy'n daladwy | **135** | 34 |
| Cymorth grant yr Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau | **8,255** | 29,238 |
| Croniadau | **15,886** | 13,800 |
| Croniadau cymhellion les | **1,337** | 1,316 |
| Incwm gohiriedig | **6,502** | 1,399 |
| **Cyfanswm symiau masnach a symiau taladwy eraill - symiau sy'n dod yn ddyledus o fewn blwyddyn** | **35,179** | **47,035** |

Cymorth grant yr Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau wedi'i leihau o ganlyniad i newid amseru derbyniadau o Fawrth 2011 i Ebrill 2011

# **16.** SYMIAU MASNACH A SYMIAU TALADWY ERAILL – SYMIAU A FYDD YN DDYLEDUS AR ÔL MWY NA BLWYDDYN

| | 2011<br>£'000 | 2010<br>£'000 |
|---|---|---|
| Croniadau cymhellion les | **8,693** | 9,870 |
| Incwm gohiriedig | **938** | 653 |
| **Cyfanswm symiau masnach a symiau taladwy eraill – symiau sy'n dod yn ddyledus o fewn blwyddyn** | **9,631** | 10,523 |

# 17. DARPARIAETHAU AR GYFER RHWYMEDIGAETHAU A THALIADAU

| Cyfanswm ar 31 Mawrth 2010 | Ymddeol yn gynnar £'000 | Eiddo gwag £'000 | Ailstrwythuro £'000 | Cyfanswm £'000 |
|---|---|---|---|---|
| **Ar 1 Ebrill 2009** | **635** | **3,917** | **107** | **4,659** |
| Disgownt wedi'i ddad-ddirwyn yn ystod y flwyddyn | 14 | 48 | – | 63 |
| Defnyddiwyd yn ystod y flwyddyn | (213) | (182) | (107) | (503) |
| Darpariaeth (wedi'i rhyddhau)/wedi cynyddu | 49 | (202) | 285 | 132 |
| **Ar 1 Ebrill 2010** | **485** | **3,581** | **285** | **4,351** |
| Disgownt wedi'i ddad-ddirwyn yn ystod y flwyddyn | 11 | 79 | – | 90 |
| Defnyddiwyd yn ystod y flwyddyn | (185) | (1,101) | (257) | (1,543) |
| Darpariaeth (wedi'i rhyddhau)/wedi cynyddu | 283 | 1,455 | (28) | 1,710 |
| **Cyfanswm darpariaethau ar 31 Mawrth 2011** | **594** | **4,014** | **–** | **4,608** |

Caiff y darpariaethau eu cyfrifo'n unol â gofynion IAS 37. Bydd disgownt o 2.9 y cant ar y darpariaethau ymadawiad ymddeol cynnar (2010: 2.2 y cant) y flwyddyn yn unol ag arweiniad Trysorlys EM; bydd disgownt o 2.2 y cant ar bob darpariaeth arall (2010: 2.2 y cant)

| Dadansoddiad o amseru disgwyliedig y llifau arian | Ymddeol yn gynnar £'000 | Eiddo gwag £'000 | Cyfanswm £'000 |
|---|---|---|---|
| **Cyfredol** | | | |
| Ddim hwyrach na blwyddyn | 151 | 191 | **342** |
| | **151** | **191** | **342** |
| **Anghyfredol** | | | |
| Hwyrach na blwyddyn ond ddim hwyrach na phum mlynedd | 300 | 3,137 | **3,437** |
| Hwyrach na phum mlynedd | 143 | 686 | **829** |
| | **443** | **3,823** | **4,266** |
| | **594** | **4,014** | **4,608** |

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer ymddeol yn gynnar, sef £0.6m (2010: £0.5m), ar gyfer costau ymddeoliad cynnar cyn-weithwyr Oftel, yr Asiantaeth Radiogyfathrebu, ac Ofcom, ac mae'n daladwy yn bennaf yn y blynyddoedd hyd at 2014.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer eiddo gwag yn cynnwys dau eiddo (2010: tri) nad oes mo'u hangen mwyach. Cymerwyd cyngor proffesiynol wrth farchnata'r eiddo gwag, a bydd llifoedd incwm y dyfodol yn cael eu pennu pan fydd yr eiddo yn eithaf sicr o gael ei is-osod. Y ddarpariaeth yw gwerth net cyfredol yr all-lif arian disgwyliedig a gyfrifir hyd at yr egwyl nesaf yn y les, net o werth gostyngedig llifoedd incwm y dyfodol a gaiff eu sicrhau o gytundebau is-osod ar gyfer y dyfodol sydd wedi ymrwymo neu yn eithaf sicr. Cafodd y ddarpariaeth ei chynyddu o ganlyniad i wagio llawr ychwanegol yn Riverside House, y sicrhawyd les newydd ar ei gyfer, yn ogystal â'r newid tenantiaid ar lawr arall yn Riverside House.

## 18. YMRWYMIADAU DAN LESOEDD GWEITHREDOL

| | Adeiladau £'000 | Cerbydau £'000 | Arall £'000 | Cyfanswm £'000 |
|---|---|---|---|---|
| **Dyma'r cyfanswm taliadau lesoedd safonol dan lesoedd gweithredol yn y dyfodol:** | | | | |
| Ddim hwyrach na blwyddyn | 8,421 | 356 | 226 | **9,003** |
| Hwyrach na blwyddyn ond ddim hwyrach na phum mlynedd | 32,925 | 829 | 688 | **34,442** |
| Hwyrach na phum mlynedd | 20,567 | – | – | **20,567** |
| **Cyfanswm ymrwymiadau dan lesoedd gweithredol** | **61,913** | **1,185** | **914** | **64,012** |

Mae cytundeb rhentu Riverside House yn para tan fis Medi 2022, gydag opsiwn i aildrafod y les ym mis Medi 2018. Bydd yr adolygiad rhent nesaf yn dod i rym 29 Medi 2012.

## 19. SYMIAU DERBYNIADWY DAN LESOEDD GWEITHREDOL

| | Adeiladau 2011 £'000 |
|---|---|
| **Dyma'r taliadau lesoedd safonol sy'n dderbyniadwy dan lesoedd gweithredol na ellir eu canslo yn y dyfodol:** | |
| Ddim hwyrach na blwyddyn | **1,547** |
| Hwyrach na blwyddyn ond ddim hwyrach na phum mlynedd | **1,862** |
| Hwyrach na phum mlynedd | **–** |
| | **3,409** |

Mae Ofcom wedi llunio contractau is-les o ran swyddfeydd nad oes mo'u hangen yn adeilad ei brif swyddfa.

## 20. IS-GWMNÏAU

Ymgorfforwyd Broadcast Equality and Training Regulator Limited ar 6 Gorffennaf 2005. Prif weithgaredd y cwmni yw rheoleiddio hyfforddiant yn y diwydiant darlledu. Mae'r cwmni yn gyfyngedig drwy warant, ac Ofcom yw ei unig aelod. Caiff y cwmni ei ddirwyn i ben ym mis Mehefin 2011. Yn unol â hyn, bydd y cwmni'n paratoi cyfrifon am gyfnod pymtheg mis hyd at 30 Mehefin 2011. Yn y cyfnod hwn, rhagwelir y bydd gan y cwmni drosiant o £0.5m (2010: £0.4m), elw gweithredol ar ôl treth o £0.0m (2010: colled o £0.0m) a £0.0m wrth gefn (2010: £0.0m). Oherwydd maint ac ystod gweithrediadau'r is-gwmni yn ystod y flwyddyn ariannol bresennol, nid yw canlyniadau gweithredol y cwmni wedi'u cynnwys yn yr adroddiad hwn.

## 21. MG ALBA

Yn unol ag Adran 210 Deddf Cyfathrebiadau 2003 ac Adran 183 Deddf Darlledu 1990, talodd Gweinidogion yr Alban £12.5m (2010: £12.4m) i Ofcom. Nid yw'r swm hwn wedi'i adlewyrchu yn y cyfrifon hyn ond fe'i talwyd gan Ofcom i'r Gronfa Darlledu Gaeleg dan reolaeth Seirbheis nam Meadhanan Gàidhlig (MG Alba). Mae MG Alba yn paratoi cyfrifon ac adroddiadau ar wahân ar gyfer hyd at 31 Mawrth bob blwyddyn. Bydd Ofcom yn anfon y rhain at Ysgrifennydd Gwladol yr Alban ac at Weinidogion yr Alban i'w cyflwyno gerbron Senedd yr Alban.

# 22. RHWYMEDIGAETHAU BUDDION YMDDEOL

Mae gan Ofcom amryw o gynlluniau pensiwn, sy'n cynnwys cynlluniau cyfraniadau diffiniedig, cynlluniau buddion diffiniedig, a chynlluniau na chânt eu hariannu.

| | 2011<br>£'000 | 2010<br>£'000 |
|---|---|---|
| Pensiynau Buddiant Diffiniedig - 22B | **21,260** | 2,480 |
| Rhwymedigaethau pensiwn na chânt eu hariannu - 22C | **(898)** | (894) |
| **Cyfanswm rhwymedigaethau buddion ymddeol** | **20,362** | **1,586** |

## A) CYNLLUN PENSIWN RHANDDEILIAID

Prif ffordd Ofcom o ddarparu buddion pensiwn i'w gydweithwyr yw drwy gyfrannu at gynllun pensiwn rhanddeiliaid, sef cynllun pensiwn cyfraniadau diffiniedig. Gwnaeth y cyflogwr gyfraniadau o £3.7m yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2011 (2010: £3.7m).

## B) CYNLLUNIAU PENSIWN CAEEDIG

Mae gan Ofcom ddau gynllun pensiwn buddion diffiniedig caeedig:

- Sefydlwyd Cynllun Pensiwn Buddion Diffiniedig Ofcom ar 29 Rhagfyr 2003. Cyfanswm y cyfraniadau cyflogwr a wnaethpwyd i Gynllun Pensiwn Buddion Diffiniedig Ofcom ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2011 oedd £2.6m (2010: dim). Trosglwyddwyd £4.7m ychwanegol o gyfrif yr Ymddiriedolaeth Bwydo. Mae Ofcom hefyd yn gweithredu adran cyfraniadau diffiniedig yn y cynllun, a gwnaeth gyfraniadau gwerth £0.1m yn 2011 (2010: £0.1m); a
- cynllun Pensiwn Ofcom (ITC gynt), y mae Ofcom yn rhan ohono ar y cyd â thri mudiad arall, sef S4C, S4C Masnachol a'r Awdurdod Safonau Hysbysebu. Gwerth cyfraniadau'r cyflogwr a wnaethpwyd i Gynllun Pensiwn Ofcom (ITC gynt) yn 2011 oedd £4.2m (2010: dim). Trosglwyddwyd £4.5m ychwanegol o gyfrif yr Ymddiriedolaeth Bwydo.

Ar ôl ymgynghori ag aelodau'r Cynllun, mae Ofcom wedi penderfynu cau'r ddau Gynllun i gronni yn y dyfodol o 1 Mehefin 2011 ymlaen, ac wedi rhoi gwybod i aelodau o'u bwriad i gau'r Cynlluniau ym mis Chwefror 2011. Mae canlyniadau'r cyfrifiadau IAS 19 yn cydnabod yr enilliad cwtogiad a grëir gan y weithred hon yn llawn ar 31 Mawrth 2011.

### RHWYMEDIGAETHAU BUDDION GWEITHWYR

| Dyma'r symiau a nodir yn y Datganiad Sefyllfa Ariannol: | 2011<br>£'000 | 2010<br>£'000 |
|---|---|---|
| Statws noddedig, diwedd y flwyddyn | | |
| Gwerth teg asedau'r cynllun | **217,470** | 199,670 |
| Cyfrif banc bwydo'r gronfa pensiynau | **7,380** | 16,520 |
| Rhwymedigaethau buddion | **(187,580)** | (189,180) |
| **Statws noddedig** | **37,270** | **27,010** |
| Rhwymedigaeth y gofyniad cyllido sylfaenol | **(16,010)** | (24,530) |
| **Statws noddedig net** | **21,260** | **2,480** |

Yn ôl IFRIC 14, os bydd cyfraniadau endid i'w gynllun buddion diffiniedig yn amodol ar "ofyniad cyllido sylfaenol", mae'n bosibl y bydd hyn yn cyfyngu gallu'r endid i leihau cyfraniadau yn y dyfodol ac/neu mae'n bosibl na fydd y cyfraniadau gofynnol ar gael i'r endid ar ôl iddynt gael eu talu. Mae Ofcom yn ystyried bod yr Atodlen Cyfraniadau gyfredol y cytunwyd arni gan ymddiriedolwyr y Cynllun ac Ofcom yn rhan o'r Amcan Gyllido Statudol i fod yn "ofyniad cyllido sylfaenol", sy'n arwain at rwymedigaeth. Dim ond i Gynllun Pensiwn Ofcom (ITC gynt) a'r atodlen gyfraniadau gytunedig sy'n gysylltiedig â hynny y mae'r gofyniad cyllido sylfaenol yn berthnasol.

| Dyma'r symiau a gaiff eu cydnabod yn y Datganiad Incwm a Gwariant: | 2011 | 2010 |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| Cost gyfredol y gwasanaeth | 1,490 | 1,420 |
| Llog ar rwymedigaeth | 10,520 | 10,480 |
| Adenillion disgwyliedig ar asedau'r cynllun | (11,010) | (10,120) |
| Cost y gwasanaeth yn y gorffennol | 560 | – |
| (Enillion) / colled ar y cwtogi neu'r setliad | (2,430) | – |
| **(Gwarged)/cost buddiant net mewn incwm a gwariant** | **(870)** | **1,780** |
| Adenillion gwirioneddol ar asedau'r cynllun | (11,300) | (31,100) |

| Newidiadau yng ngwerth cyfredol meysydd rhwymedigaeth y buddion diffiniedig: | 2011 | 2010 |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| Rhwymedigaeth buddion diffiniedig agoriadol | 189,180 | 171,080 |
| Cost gyfredol y gwasanaeth | 1,490 | 1,420 |
| Costau llog | 10,520 | 10,480 |
| Cyfraniadau cyfranogwyr y cynllun | 210 | 240 |
| (Enillion)/colledion actiwaraidd | (2,270) | 15,980 |
| Cost y gwasanaeth yn y gorffennol | 560 | – |
| Enillion ar y cwtogi | (2,430) | – |
| Buddion a dalwyd | (9,680) | (10,020) |
| **Rhwymedigaethau buddion diffiniedig caeedig** | **187,580** | **189,180** |

| Dyma'r newidiadau yng ngwerth teg asedau'r cynllun: | 2011 | 2010 |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| Gwerth teg agoriadol asedau'r cynllun | 199,670 | 178,370 |
| Enillion disgwyliedig | 11,010 | 10,090 |
| Enillion actiwaraidd | 290 | 20,990 |
| Cyfraniadau gan y cyflogwr | 6,830 | – |
| Cyfraniadau gan yr Ymddiriedolaeth Bwydo | 9,140 | – |
| Cyfraniadau cyfranogwyr y cynllun | 210 | 240 |
| Buddion a dalwyd | (9,680) | (10,020) |
| **Gwerth teg terfynol asedau'r cynllun** | **217,470** | **199,670** |

Mae cyfraniadau'r cyflogwr ac yn cynnwys £6.8m ynghyd â £9.1m a llog ychwanegol a drosglwyddwyd o fantolen cyfrif yr Ymddiriedolaeth Bwydo. Yn y flwyddyn ariannol flaenorol, rhoddwyd £14m yng nghyfrif yr Ymddiriedolaeth Bwydo. Dim ond i un o'r ddau Gynllun Pensiwn Buddion Diffiniedig y ceir talu arian a drosglwyddir i'r cyfrif ymddiriedolaeth ac a gedwir ynddo, ac ni ellir eu defnyddio at unrhyw ddiben arall.

| Dyma brif gategorïau asedau'r cynllun fel canran o gyfanswm asedau'r cynllun: | 2011<br>% | 2010<br>% |
|---|---|---|
| Ecwitïau | **17** | 16 |
| Bondiau corfforaethol | **8** | 5 |
| Bondiau mynegrifol | **18** | 16 |
| Bondiau llog sefydlog y llywodraeth | **0** | 0 |
| Blwydd-daliadau | **52** | 55 |
| Arall (gan gynnwys asedau yn Ymddiriedolaeth Bensiwn Ofcom) | **5** | 8 |
| | **100** | 100 |

| Enillion ar asedau (cyn tynnu costau): | 2011<br>% | 2010<br>% |
|---|---|---|
| Ecwitïau | **7.8** | 7.5 |
| Bondiau corfforaethol | **5.7** | 5.7 |
| Bondiau mynegrifol | **4.8** | 4.5 |
| Bondiau llog sefydlog y llywodraeth | **4.8** | 4.5 |
| Blwydd-daliadau | **5.7** | 5.7 |
| Arall (gan gynnwys asedau yn Ymddiriedolaeth Bensiwn Ofcom) | **1.0** | 1.0 |

Cyfrifir enillion disgwyliedig asedau'r cynllun drwy ddefnyddio dyraniad asedau'r cynllun ar y dyddiad datgelu a'r enillion disgwyliedig ar bob prif ddosbarth asedau y mae'r cynllun wedi'i fuddsoddi ynddynt.

| Y prif ragdybiaethau actiwaraidd ar ddyddiad y Datganiad Sefyllfa Ariannol (wedi'u mynegi mewn cyfartaleddau wedi'u pwysoli): | 2011<br>% | 2010<br>% |
|---|---|---|
| Cyfradd disgownt | **5.7** | 5.7 |
| Adenillion disgwyliedig ar asedau'r cynllun ar gyfer y flwyddyn (Cynllun Buddion Diffiniedig Ofcom) | **6.3** | 6.3 |
| Adenillion disgwyliedig ar asedau'r cynllun ar gyfer y flwyddyn (Cynllun Ofcom (ITC gynt)) | **5.6** | 5.7 |
| Cynnydd mewn cyflogau yn y dyfodol | **0.0** | 4.6 |
| Cynnydd mewn pensiynau yn y dyfodol (RPI) | **3.4** | 3.6 |
| Cynnydd mewn pensiynau yn y dyfodol (CPI) | **2.3** | 0.0 |
| Chwyddiant Prisiau Manwerthu | **3.5** | 3.6 |

| Dyma symiau'r flwyddyn bresennol a'r flwyddyn gynt: | 2011 | 2010 |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| **Statws noddedig** | | |
| Gwerth teg asedau'r cynllun | 224,850 | 216,190 |
| Gwerth presennol y rhwymedigaethau buddion diffiniedig | (187,580) | (189,180) |
| **Cronfeydd dros ben** | **37,270** | **27,010** |

| | 2011 | 2010 | 2009 |
|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 |
| | | | |
| Addasiadau a brofwyd ar rwymedigaethau'r cynllun | **(120)** | 4,610 | (1,207) |
| Addasiadau a brofwyd ar asedau'r cynllun | **290** | 20,980 | (40,390) |

Mae'n ofynnol dan IAS 19 i'r wybodaeth uchod gael ei dangos ar gyfer y pedair blynedd blaenorol; fodd bynnag, cafodd IFRS ei fabwysiadu ar 1 Ebrill 2008, felly dim ond data o'r dyddiad hwn ymlaen a ddatgelir.

## C) RHWYMEDIGAETHAU PENSIYNAU NA CHÂNT EU HARIANNU

Mae'r ddarpariaeth pensiwn yn gysylltiedig â'r rhwymedigaethau pensiynau na chânt eu hariannu sy'n berthnasol i Ofcom ar ran cyn-Gadeiryddion y Comisiwn Teledu Annibynnol a'r Awdurdod Radio a chyn-Gyfarwyddwyr Cyffredinol Telathrebu. Ni chaiff y ddarpariaeth pensiynau ei hariannu, ac mae'r buddion yn cael eu talu wrth iddynt ddod yn ddyledus a chael eu gwarantu gan Ofcom. Nid oes cronfa, ac felly nid oes gwarged na diffyg. Ceisiwyd cyngor actiwaraidd er mwyn sicrhau bod y ddarpariaeth wedi'i phennu ar lefel realistig.

| Dadansoddiad o'r swm a gredydir i gostau cyllid eraill | 2011 | 2010 |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| Llog ar rwymedigaethau pensiwn | (49) | (50) |
| **Enillion net** | **(49)** | **(50)** |

| Dadansoddiad o'r swm a gydnabyddir yn y Datganiad Newidiadau Ecwiti (SOCIE) | 2011 | 2010 |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| (Colledion)/enillion a brofwyd ar rwymedigaethau'r cynlluniau | (23) | 20 |
| Newidiadau mewn rhagdybiaethau sy'n sail i werth cyfredol rhwymedigaethau'r cynllun pensiwn | 5 | (50) |
| **Colledion actiwaraidd a gydnabyddir yn y Datganiad Newidiadau Ecwiti** | **(18)** | **(30)** |

| Newidiadau yn y diffyg yn ystod y flwyddyn | 2011 | 2010 |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| | | |
| Diffyg yn y cynlluniau ar 1 Ebrill | (894) | (876) |
| Cyfanswm cost gyfredol y gwasanaeth | – | – |
| Cyfraniadau'r cyflogwr (gan gynnwys y rheini heb eu talu ar y dyddiad mesur) | 63 | 62 |
| Cyfraniadau gweithwyr | – | – |
| Costau cyllid eraill | (49) | (50) |
| Colled actiwaraidd | (18) | (30) |
| **Diffyg mewn cynlluniau** | **(898)** | **(894)** |

# 23. PARTÏON CYSYLLTIEDIG

Nid yw Ofcom yn ystyried bod ei swyddogaeth rheoleiddio a thrwyddedu'n creu perthynas parti cysylltiedig rhwng ei hun a deiliaid trwydded, fel y diffiniwyd gan IAS 24, "Related Party Disclosures".

Mae Aelodau'r Bwrdd yn cyflwyno datganiad blynyddol yn cadarnhau nad oes ganddynt fuddiannau a fyddai'n dylanwadu ar eu swyddogaeth fel Aelod o Ofcom. Ni chafwyd trafodion rhwng Ofcom a'i aelodau oni bai am daliadau fel y datgelwyd ar wahân yn yr adroddiad taliadau.

Ystyrir mai Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau (BIS) ac Ysgrifennydd Gwladol yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS) yw'r partïon cysylltiedig sy'n rheoli Ofcom dan delerau Deddf y Swyddfa Gyfathrebiadau 2002.

Darperir manylion yr holl incwm cymorth grant gan yr Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau a DCMS yn Nodyn 3 a Nodyn 15 y datganiadau ariannol hyn.

Ar 31 Mawrth 2011, cadwyd y credydwyr canlynol yng nghyswllt cymorth grant a ddarparwyd gan yr Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau:

- Rheoli sbectrwm – £3.6m (2010: £22.6m);
- Clirio sbectrwm – £2.8m (2010: £4.1m);
- Rhaglen dyfarnu sbectrwm – £1.5m (2010: £1.8m);
- Torri Hawlfraint Ar-lein – £0.2m (2010: £dim);
- Sectorau eraill - £0.1m (2010: £0.8m)

Roedd y balans cymorth grant ar 31 Mawrth 2011 wedi lleihau wrth gymharu â'r flwyddyn flaenorol o ganlyniad i newid amseriad derbyniadau o fis Mawrth 2011 i fis Ebrill 2011.

Gweithredir cynllun cyfraniadau wedi'u diffinio a dau gynllun buddion wedi'u diffinio. Dylid cyfeirio at Nodyn 22 am ddatgeliad pellach.

Ni ymrwymwyd i ddim trafodion partïon cysylltiedig eraill yn ystod y flwyddyn ariannol.

## 24. OFFERYNNAU ARIANNOL

Nid yw Ofcom yn agored iawn i beryglon o ran hylifedd, cyfraddau llog na chyfraddau newid arian. Mae IAS 32, Financial Instruments: Presentation yn gofyn bod endid yn datgelu'r rôl y mae offerynnau ariannol wedi'i chwarae yn ystod y flwyddyn o ran creu neu newid y risgiau a wynebir ganddo wrth gyflawni ei weithgareddau. Oherwydd natur gweithgareddau Ofcom, ac oherwydd y modd y caiff ei ariannu, nid yw'n agored i'r un risgiau ariannol a wynebir gan endidau busnes.

Hefyd, mae offerynnau ariannol yn chwarae rôl gyfyngedig o ran creu neu newid risg o'i gymharu â chwmnïau rhestredig y mae IAS 32 yn bennaf berthnasol iddynt. Ychydig iawn o bwerau sydd gan Ofcom i fenthyg neu i fuddsoddi gwargedion o gronfeydd. Nid yw asedau a rhwymedigaethau ariannol a gynhyrchir gan weithgareddau gweithredol beunyddiol yn newid y risgiau y mae Ofcom yn eu hwynebu wrth gyflawni ei weithgareddau.

Nid oes gwahaniaeth o bwys rhwng gwerth teg a gwerth llyfr y rhwymedigaethau a'r asedau ariannol ar y dyddiad adrodd.

Fel y caniateir gan IAS 32, caiff symiau derbyniadwy a thaladwy sy'n aeddfedu neu sy'n dod yn daladwy cyn pen 12 mis ar ôl y dyddiad adrodd eu hepgor o'r asesiad hwn.

## 25. YMRWYMIADAU CYFALAF

Ar 31 Mawrth 2011 roedd ymrwymiadau cyfalaf o £0.1m (2010: £0.6m), yn ymwneud yn bennaf ag e-drwyddedu gwaith datblygu cychwynnol ac ailwampio yn Riverside House.

## 26. DERBYNIADAU A DROSGLWYDDWYD I'R GRONFA GYFUNOL

Yn unol ag Adran 400 o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003, anfonodd Ofcom £3.6m (2010: £26.8m) o Ddirwyon a Thaliadau Ychwanegol y Ddeddf Darlledu i'r Gronfa Gyfunol.

Anfonwyd £187.6m (2010: £165.9m) o ffioedd trwydded y Ddeddf Telegraffiaeth Ddi-wifr i'r Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau i'w drosglwyddo i'r Gronfa Gyfunol. Datgelir manylion y symiau sy'n ddyledus i'r Gronfa Gyfunol fel yr oeddynt ar 31 Mawrth 2011 yn Nodyn 14 y datganiadau ariannol hyn.

## 27. RHWYMEDIGAETHAU WRTH GEFN

Nid oes gan Ofcom rwymedigaethau wrth gefn ar ddiwedd y cyfnod adrodd.

O dro i dro, bydd Ofcom yn destun her gyfreithiol ac adolygiad barnwrol yn sgil penderfyniadau a wnaed wrth gyflawni ei fusnes arferol fel rheoleiddiwr y sector cyfathrebiadau. Gallai dyfarniadau cyfreithiol arwain at rwymedigaethau mewn cysylltiad â chostau cyfreithiol. Yn yr achosion hyn gwneir darpariaeth yn y datganiadau ariannol ar gyfer costau mesuradwy ac i'r graddau eu bod yn debygol. Fodd bynnag, mewn rhai achosion, ni ellir mesur costau oherwydd na wyddys canlyniad yr achos, ac felly ceir cryn ansicrwydd ynghylch natur a graddau unrhyw rwymedigaeth ddilynol. Ar gyfer y flwyddyn ariannol 2010/11 nid oedd angen darpariaeth.

## 28. CYFRIFON Y LLYWODRAETH GYFAN

Ar 31 Mawrth 2011, roedd £10.2m (2010: £29.3m) yn ddyledus gan Ofcom i gyrff llywodraeth ganolog. Nid oes symiau'n ddyledus i awdurdodau lleol, Ymddiriedolaethau GIG, na chorfforaethau cyhoeddus a chronfeydd masnachu.

Mae Adran 400 yn dangos £0.6m (2010: £4.3m) yn ddyledus i gyrff llywodraeth ganolog.

## 29. DIGWYDDIADAU AR ÔL Y CYFNOD ADRODD

Nid oedd dim digwyddiadau y gellir adrodd amdanynt rhwng y dyddiad adrodd a'r dyddiad y cafodd y cyfrifon eu hardystio. Nid yw'r datganiadau ariannol yn dangos digwyddiadau ar ôl y dyddiad hwn.

# ATODIAD

# DATGANIADAU RHEOLEIDDIO

Mae'r ffigur isod yn crynhoi datganiadau polisi Ofcom a gyhoeddwyd yn ystod 2010/11. Mae'n cynnwys allwedd lliw sy'n dangos sut mae'r baich rheoleiddio ar randdeiliaid wedi newid o ganlyniad i benderfyniadau a datganiadau rheoleiddio Ofcom yn 2010/11. Mae'n dangos na arweiniodd 54 y cant o'r datganiadau at newid yn y baich rheoleiddio neu mae'r gwaith yn parhau; arweiniodd 29 y cant o'r datganiadau at lai o faich rheoleiddio ar randdeiliaid; arweiniodd 14 y cant o'r datganiadau at gyflwyno mwy o reoleiddio neu reoleiddio newydd; ac arweiniodd tri y cant at ganlyniadau rheoleiddio symlach neu gyd-reoleiddio.

Rydym wedi categoreiddio pob datganiad yn y tabl isod fel Blaenoriaeth Cynllun Blynyddol neu Maes Gwaith Mawr Parhaus, fel y nodir yng Nghynllun Blynyddol 2010/11.

**RHESTR O DDATGANIADAU A GYHOEDDWYD 2010/11 GAN GYNNWYS EFFAITH RHEOLEIDDIO AR RANDDEILIAID**

**DEFNYDDWYR A DINASYDDION**

**Blaenoriaeth - Addasu rheoleiddio cynnwys i ddiwallu newidiadau yn anghenion cynulleidfaoedd**

- Adolygiad o'r Cod Darlledu: Cyfathrebiadau Masnachol mewn Rhaglenni Teledu
- Adolygiad o'r Cod Darlledu: Cyfathrebiadau Masnachol mewn Rhaglenni Radio
- Ffioedd rheoleiddio ar gyfer gwasanaethau fideo ar alw
- Teledu cyfranogiad
- Adnewyddu Trwyddedau Amlblecs Radio
- Adnewyddu Trwyddedau Radio Cenedlaethol Annibynnol
- Hyd trwyddedau radio analog masnachol lleol
- Ildio treial COSTA ar gyfer hyd egwyliau ffilm ar ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus
- Datganiad o reoleiddio elfen leol radio masnachol

**Blaenoriaeth - Sicrhau bod defnyddwyr yn gallu newid rhwng darparwyr cyfathrebiadau drwy chwalu rhwystrau diangen.**

- Newidiadau i'r Broses Mudo Rhifau Symudol

**Parhaus – Deddfwriaeth Newydd y DU**

- Mesurau i Fynd i'r Afael â Thorri Hawlfraint Ar-lein: Cylch Gorchwyl

**Parhaus - Sicrhau bod gwasanaethau cyfathrebu ar gael, bod pobl yn eu defnyddio ac yn eu defnyddio'n effeithiol**

- Adolygiad o Drefniadau Rhwydweithio ITV

**Parhaus - Amddiffyn defnyddwyr a chynulleidfaoedd rhag niwed ac arferion annheg**

- Cymeradwyo Cod Ymarfer PhonepayPlus (12fed Argraffiad)
- Mynd i'r afael â galwadau mud a galwadau sy'n cael eu gadael (Defnyddwyr)
- Adolygiad o Weithdrefnau Cwynion Defnyddwyr (Defnyddwyr)
- Mesur a Bilio - Datganiad ar Enigma (Defnyddwyr)
- Addasiadau i Gyfarwyddyd Mesur a Bilio Ofcom 2008 (Defnyddwyr)

**Parhaus - Prosiectau Dinasyddion a Defnyddwyr Eraill**

- Asesiadau Cyfryngau Lleol

## RHESTR O DDATGANIADAU A GYHOEDDWYD 2010/11 GAN GYNNWYS EFFAITH RHEOLEIDDIO AR RANDDEILIAID (PARHÂD)

### CYSTADLEUAETH

**Blaenoriaeth - Sicrhau cystadleuaeth deg ac effeithiol mewn Teledu drwy Dalu**

- Ffilmiau Teledu drwy Dalu Premiwm

**Blaenoriaeth - Gweithredu rheoliadau i gefnogi buddsoddiad effeithiol ac effeithlon mewn band eang cyflym iawn**

- Adolygu'r marchnadoedd mynediad band eang cyfanwerthu
- Adolygu'r farchnad mynediad lleol cyfanwerthu

**Parhaus - Hyrwyddo cystadleuaeth effeithiol mewn telegyfathrebiadau sefydlog a symudol**

- Adolygu Pensiwn
- Newidiadau i'r Cynllun Rhifo - Adendwm, Cynnig i addasu'r Ffurflenni Cais Rhifo i hwyluso'r cynnydd mewn TAW o fis Ionawr 2011 ymlaen
- Bwndelu Adwerthu yn Hull - KCOM yn Bwndelu Cynnyrch SMP a Chynnyrch heb fod yn SMP
- Newidiadau i ddiweddariad adrodd ariannol a rheoleiddio 2009/10 BT a KCOM
- Adolygu Terfynu Galwadau Symudol
- Rheolaeth Ffioedd Llinellau ar Les
- Llwybro galwadau i rifau ffôn wedi'u eu cludo
- Cadw rhifau daearyddol
- Adolygu'r marchnadoedd ISDN30 adwerthu a chyfanwerthu
- Adolygu'r marchnadoedd llinellau cyfnewid analog sefydlog cyfanwerthu
- Eithriad o Ymgymeriadau BT dan Ddeddf Menter 2002 sy'n ymwneud ag Wavestream National
- Rhifau Ewropeaidd wedi'u Cydgordio ar gyfer Gwasanaethau â Gwerth Cymdeithasol
- Rhifau Ffôn

**Parhaus - Sicrhau bod gwasanaethau cyfathrebu ar gael, bod pobl yn eu defnyddio ac yn eu defnyddio'n effeithiol**

- Adolygu Gwasanaethau Mynediad Teledu

**Prosiectau Cystadleuaeth Eraill**

- Pennu'r telerau ariannol ar gyfer trwyddedau Sianel 3 a Sianel 5
- Adolygu Rheolau Gwerthu Amser ar yr Awyr

Parhâd ar y dudalen nesaf.

Mae lliw'r cylch yn dangos cyfeiriad y rheoleiddio fel a ganlyn:

● Wedi cynyddu/newydd ● Wedi'i symleiddio/cyd-reoleiddio ● Cymysg/dim newid/parhaus ● Llai

## RHESTR O DDATGANIADAU A GYHOEDDWYD 2010/11 GAN GYNNWYS EFFAITH RHEOLEIDDIO AR RANDDEILIAID (PARHÂD)

### SEILWAITH A SBECTRWM

**Blaenoriaeth - Dechrau clirio band 800Mhz yn llwyddiannus i greu cyfleoedd ar gyfer gwasanaethau symudol newydd**

- ● (oren) Gwneud rhaglenni a digwyddiadau arbennig : rheoli sbectrwm yn y dyfodol, mynediad ac argaeledd
- ● (oren) Cyllid ar gyfer gwneud rhaglenni a digwyddiadau arbennig
- ● (oren) Gwneud rhaglenni a digwyddiadau arbennig
- ● (oren) Newid i'r Digidol a Chlirio 800MHz – Rheoli materion darpariaeth drosiannol
- ● (gwyrdd) Datganiad ar amrywio trwyddedau Deddf Telegraffiaeth Ddi-wifr 900 MHz a 1800 MHz

**Blaenoriaeth - Paratoi cynlluniau i ryddhau sbectrwm ar gyfer band eang symudol**

- ● (gwyrdd) Cais i amrywio trwyddedau 3G
- ● (gwyrdd) 600 MHz a sbectrwm rhyngddalennog daearyddol

**Blaenoriaeth - Sicrhau y bydd gwasanaethau di-wifr gyfer Gemau Olympaidd a Pharalympaidd 2012 yn cael eu darparu**

- ● (oren) Cadw'r band 2500–2690 MHz ar gyfer Gemau 2012 Llundain

**Parhaus - Hyrwyddo dyrannu sbectrwm yn effeithlon**

- ● (coch) Penderfyniad i Amrywio Trwyddedau Gorsafoedd Daear Lloeren
- ● (oren) Symleiddio prynu a gwerthu sbectrwm
- ● (gwyrdd) Penderfyniad i ddiwygio Rheoliadau Telegraffiaeth Ddi-wifr (Radar Pellter Agos Modurol) (Eithriad) (Rhif 2) 2005
- ● (oren) Defnyddio prisio sbectrwm gyda'r sector morol, a threfniadau newydd ar gyfer rheoli sbectrwm sy'n cael ei ddefnyddio gyda chymhorthion llywio awyrennol a radar
- ● (coch) Darparu gwybodaeth sbectrwm – Gweithredu Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004
- ● (gwyrdd) Cynigion ar gyfer newidiadau i'r eithriad trwydded ar gyfer Dyfeisiau Telegraffiaeth Ddi-wifr
- ● (gwyrdd) Sbectrwm Ychwanegol ar gyfer Gorsafoedd Daear Cludadwy
- ● (gwyrdd) Cynnig i wneud Rheoliadau Telegraffiaeth Ddi-wifr (Offer Band Llydan Iawn) (Eithriad) (Diwygio) 2010
- ● (coch) Ffioedd ar gyfer trwyddedau radio awyrennol
- ● (oren) SRSP: Y Fframwaith diwygiedig ar gyfer Prisio Sbectrwm
- ● (gwyrdd) Rhyddhau 2010-2025 MHz
- ● (gwyrdd) Penderfyniad i wneud Rheoliadau Telegraffiaeth Ddi-wifr (Gwasanaethau Cyfathrebu Symudol ar Fwrdd Llongau) (Eithriad) 2011
- ● (oren) Cynnig i wneud Rheoliadau Telegraffiaeth Ddi-wifr (Gweithdrefnau Trwyddedu) 2010

**Parhaus - Hyrwyddo dyrannu sbectrwm yn effeithlon**

- ● (oren) Rheoli cynnwys ar y llwyfan HD Freeview

Mae lliw'r cylch yn dangos cyfeiriad y rheoleiddio fel a ganlyn:

● (coch) Wedi cynyddu/newydd ● (glas) Wedi'i symleiddio/cyd-reoleiddio ● (oren) Cymysg/dim newid/parhaus ● (gwyrdd) Llai

| DATGANIADAU OFCOM A GYHOEDDWYD YN 2010/11 YR OEDD YR YMGYNGHORIAD CYNHARACH YN CYNNWYS ASESIAD O'R EFFAITH |
|---|
| Llwybro galwadau i rifau ffôn wedi'u eu cludo |
| Gwneud rhaglenni a digwyddiadau arbennig : rheoli sbectrwm yn y dyfodol, mynediad ac argaeledd |
| Ei gwneud yn haws prynu a gwerthu sbectrwm |
| Datganiad o reoleiddio elfen leol radio masnachol |
| Penderfyniad i ddiwygio Rheoliadau Telegraffiaeth Ddi-wifr (Radar Pellter Agos Modurol) (Eithriad) (Rhif 2) 2005 |
| Teledu cyfranogiad |
| Newidiadau i ddiweddariad adrodd ariannol a rheoleiddio 2009/10 BT a KCOM |
| Adolygu Gwasanaethau Mynediad Teledu |
| Rheoli cynnwys ar y llwyfan HD Freeview |
| Defnyddio prisio sbectrwm gyda'r sector morol, a threfniadau newydd ar gyfer rheoli sbectrwm sy'n cael ei ddefnyddio gyda chymhorthion llywio awyrennol a radar |
| Ffioedd rheoleiddio ar gyfer gwasanaethau fideo ar alw ar gyfer y cyfnod hyd at 31 Mawrth 2011 |
| Cynnig i wneud Rheoliadau Telegraffiaeth Ddi-wifr (Gweithdrefnau Trwyddedu) 2010 |
| Adolygu Rheolau Gwerthu Amser ar yr Awyr |
| Mesur a Bilio - Datganiad ar Enigma |
| Cyllid ar gyfer gwneud rhaglenni a digwyddiadau arbennig |
| Adolygiad o Weithdrefnau Cwynion Defnyddwyr |
| Adolygiad o'r marchnadoedd ISDN30 adwerthu a chyfanwerthu - Datganiad ar y marchnadoedd, penderfyniadau ac atebion pŵer y farchnad |
| Gwneud rhaglenni a digwyddiadau arbennig |
| Rheolaeth Ffioedd Llinellau ar Les: Mabwysiadu Amodau Gwasanaeth SMP Diwygiedig |
| Bwndelu Adwerthu yn Hull - KCOM yn Bwndelu Cynnyrch SMP a Chynnyrch heb fod yn SMP |
| Adolygu'r farchnad mynediad lleol cyfanwerthu |
| Mynd i'r afael â galwadau mud a galwadau sy'n cael eu gadael. |
| Cais i amrywio trwyddedau 3G (a chynnig canlyniadol i amrywio trwyddedau drafft Gorsaf Ganolog MSS/CGC 2GHz) |
| Adnewyddu Trwyddedau Amlblecs Radio |
| Cynigion ar gyfer newidiadau i'r eithriad trwydded ar gyfer Dyfeisiau Telegraffiaeth Ddi-wifr |
| Sbectrwm Ychwanegol ar gyfer Gorsafoedd Daear Cludadwy |
| Cynnig i wneud Rheoliadau Telegraffiaeth Ddi-wifr (Offer Band Llydan Iawn) (Eithriad) (Diwygio) 2010 |
| Asesiadau Cyfryngau Lleol |
| Adolygu'r marchnadoedd mynediad band eang cyfanwerthu |
| Cadw'r band 2500–2690 MHz ar gyfer Gemau 2012 Llundain |
| Ffioedd ar gyfer trwyddedau radio awyrennol |
| Newid i'r Digidol a Chlirio 800MHz – Rheoli materion darpariaeth drosiannol |
| SRSP: Y Fframwaith diwygiedig ar gyfer Prisio Sbectrwm |
| Adolygu'r marchnadoedd llinellau cyfnewid analog sefydlog cyfanwerthu |
| Adolygiad o'r Cod Darlledu: Cyfathrebiadau Masnachol mewn Rhaglenni Teledu |
| Adolygiad o'r Cod Darlledu: Cyfathrebiadau Masnachol mewn Rhaglenni Radio |
| Addasiadau i Gyfarwyddyd Mesur a Bilio Ofcom 2008 |
| Rhyddhau 2010-2025 MHz |
| Ildio treial COSTA ar gyfer hyd egwyliau ffilm ar ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus |
| Adolygu Terfynu Galwadau Symudol |
| Cymeradwyo Cod Ymarfer PhonepayPlus (12fed Argraffiad) |
| Penderfyniad i wneud Rheoliadau Telegraffiaeth Ddi-wifr (Gwasanaethau Cyfathrebu Symudol ar Fwrdd Llongau) (Eithriad) 2011 |

| YMGYNGHORIADAU OFCOM A GYHOEDDWYD YN 2010/11 A OEDD YN CYNNWYS ASESIAD O'R EFFAITH A LLE NA CHAFODD DATGANIAD EI GYHOEDDI |
|---|
| Mynediad Sbectrwm Cydnabyddedig ("RSA") ar gyfer Gorsafoedd Daear Derbyn yn Unig yn y Bandiau 1690 – 1710 MHz, 3600 – 4200 MHz a 7750 – 7850 MHz |
| Adolygiad strategol o ddefnyddwyr yn newid |
| Ffioedd teg a rhesymol ar gyfer terfynu galwadau daearyddol sefydlog |
| Gweithredu Daearleoliad |
| Rhifau ffôn daearyddol |
| Symleiddio Rhifau nad ydynt yn rhai daearyddol |
| Cynnig ar gyfer ffi rheolaeth WBA |
| Codiad Adwerthu NTS a Thâl Ychwanegol Dyled Ddrwg PRS |
| Newidiadau i ddiweddariad adrodd ariannol a rheoleiddio 2010/11 BT a KCOM |
| Newidiadau i Amodau Cyffredinol ac Amodau Gwasanaeth Cyffredinol |
| Contractau sy'n cael eu Hadnewyddu'n Awtomatig |
| Ffioedd trwyddedau pwrpasol ar gyfer amleddau cyfathrebiadau VHF awyrennol |
| Asesiad o gystadleuaeth symudol yn y dyfodol a chynigion ar gyfer dyfarnu sbectrwm 800 MHz a 2.6 GHz a materion cysylltiedig |
| Adolygiad o reolaeth ffioedd ar gyfer gwasanaethau LLU ac WLR |

# DATA YSTADEGOL – DARLLEDU

## CWYNION AM RAGLENNI

Mae gan Ofcom ddyletswydd statudol i ystyried cwynion gan wrandawyr a gwylwyr am raglenni teledu a radio a ddarlledir gan drwyddedeion darlledu'r DU, S4C a'r BBC.

Gwnaeth Ofcom benderfyniadau ynghylch cyfanswm o 24,633 o gwynion am raglenni. Roedd 24,462 yn gwynion am safonau'r rhaglenni (gan gynnwys materion a oedd yn ymwneud â hysbysebu gwleidyddol ac amserlennu hysbysebion teledu), ac roedd 171 yn gwynion am annhegwch honedig a/neu ynghylch tarfu ar breifatrwydd yn ddiangen.

Mae cwynion unigol y mae Ofcom yn eu derbyn yn cael eu haseinio i achosion. Agorir achos pan fydd Ofcom yn asesu neu'n ymchwilio i fater neu raglen benodol. Caewyd cyfanswm o 9,202 achos (24,633 o gwynion) yn y cyfnod dan sylw. Caeir achos unwaith y bydd Ofcom wedi dod i benderfyniad ar y mater.

## SAFONAU RHAGLENNI

O blith y 9,031 achos a gaewyd (24,462 cwyn) a oedd yn ymwneud â safonau rhaglenni:

- gwelwyd bod 168 achos naill ai'n torri'r Cod Darlledu, codau eraill Ofcom neu amodau trwydded. O blith y rhain, roedd tri achos yn destun sancsiynau statudol (a oedd yn cynnwys tri darlledwr gwahanol);
- cafodd 36 achos eu datrys; a
- nid oedd 8,827 achos wedi torri amodau nac yn gweithredu y tu allan i'w cylch gwaith.

Y nifer a gwblhawyd o fewn y targed:

- Achosion syml – caewyd 99.3 y cant o fewn 30 diwrnod gwaith (targed: 80 y cant); ac
- Achosion cymhleth – cau 84.9 y cant o fewn 60 diwrnod gwaith (targed: 80 y cant).

### TEGWCH A PHREIFATRWYDD

O'r 171 o achosion a oedd wedi'u cau a oedd yn ymwneud â thegwch a phreifatrwydd:

- cadarnhawyd naw (pedwar o'r rheini'n rhannol);
- ni chadarnhawyd 36;
- ni chafodd 13 eu datrys (ar ôl i'r darlledwr gymryd camau priodol); ac
- yng nghyswllt 113 achos penderfynwyd peidio â'u hystyried neu ni fwriwyd ymlaen â hwy ar ôl eu hystyried.

Y nifer a gwblhawyd o fewn y targed:

Cafodd 91.2 y cant o achosion eu cau cyn pen eu targed Dangosydd Perfformiad Allweddol. Dyma'r targedau:

- Achosion syml – cau 80 y cant o fewn 80 diwrnod gwaith (targed: 80 y cant); ac
- Achosion cymhleth – cau 80 y cant o fewn 130 diwrnod gwaith (targed: 80 y cant).

## PWYLLGOR SANCSIYNAU DARLLEDU

Os bydd y Pwyllgor Gwaith yn credu bod achosion yn cyfiawnhau ystyried sancsiwn statudol, cânt eu cyfeirio at y Pwyllgor Sancsiynau Darlledu. Mae'r Pwyllgor Sancsiynau Darlledu mewn cworwm gyda thri aelod, gydag o leiaf dau ohonynt yn aelodau o'r Bwrdd Cynnwys (a allai gynnwys Cadeirydd y Pwyllgor). Cadeirydd y Pwyllgor Sancsiynau Darlledu yw Cadeirydd y Bwrdd Cynnwys.

Yn ystod y cyfnod dan sylw, rhoddodd y Pwyllgor Sancsiynau Darlledu sancsiynau mewn tri achos.

Penderfynodd y Pwyllgor Sancsiynau Darlledu osod cosb ariannol ar y canlynol:

- Teletext Limited, mewn perthynas â'r drwydded gwasanaeth teletext cyhoeddus – £225,000;
- DM Digital Television Limited yng nghyswllt ei wasanaeth DM Digital – £17,500 a Chyfarwyddyd i ddarlledu datganiad am ganfyddiad Ofcom ar un achlysur; a
- Bang Channels Limited, yng nghyswllt y gwasanaethau Tease Me, Tease Me 2 a Tease Me 3 – £147,250, a Bang Media (London) Limited yng nghyswllt y gwasanaeth Tease Me TV – £10,000.

# DATA YSTADEGOL – TRWYDDEDU DARLLEDU

### TRWYDDEDAU TELEDU A GYHOEDDWYD

| Categori | 2010/11 | 2009/10 | Wedi'u cyhoeddi |
|---|---|---|---|
| Trwyddedau teledu a gyhoeddwyd | 125 | 98 | 989* |
| Trwyddedau teledu a drosglwyddwyd | 67 | 76 | |

* 887 o drwyddedau TLCS (sy'n awdurdodi cebl, lloeren a'r rhyngrwyd); 84 DTAS/DTPS (ar gyfer cynnwys ar Freeview); 18 gwasanaeth cyhoeddus (trwyddedau 3 rhanbarthol, 4, 5 a Brecwast)

### TRWYDDEDAU RADIO A GYHOEDDWYD

| Categori | 2010/11 | 2009/10 | Wedi'u cyhoeddi |
|---|---|---|---|
| Trwydded Darlledu Sain Lleol | 1 | 1 | 294 |
| Trwydded Darlledu Sain Cenedlaethol | – | – | 3 |
| Amlblecs Digidol Lleol (Gwasanaeth Amlblecs Radio Lleol) | – | – | 46 |
| Amlblecs Radio Cenedlaethol | – | – | 1 |
| Gwasanaeth Cynnwys Trwyddedadwy Radio | 6 | 3 | 88 |
| Gwasanaeth Rhaglenni Sain Digidol (Lleol) | 12 | 10 | 65 |
| Gwasanaeth Rhaglenni Sain Digidol (Cenedlaethol) | 3 | 2 | 15 |
| Gwasanaeth Ychwanegol Digidol | 1 | – | 7 |
| Trwydded Gwasanaeth Radio Ychwanegol | – | – | 1 |
| Trwydded Gwasanaeth Cyfyngedig Tymor Byr | 321 | 337 | – |
| Trwydded Gwasanaeth Cyfyngedig Tymor Hir | 15 | 14 | 96 |
| RSL System Dosbarthu Sain | – | 5 | 10 |
| Radio Cymunedol | 23 | 37 | 187 |

# DATA YSTADEGOL – TELEGYFATHREBIADAU

**CWYNION AM WASANAETHAU TELEGYFATHREBIADAU**

| | 2010/11 | 2009/10 | Newid (%) |
|---|---|---|---|
| Adnewyddu contractau awtomatig | 1,050 | – | 100 |
| Ffioedd ychwanegol | 5,650 | 6,300 | -10 |
| Cyflymder band eang | 1,400 | 1,600 | -13 |
| Codi am wasanaeth wedi'i ganslo | 4,500 | 3,550 | 27 |
| Delio â chwynion CP | 15,750 | 11,250 | 40 |
| Mudo | 5,300 | 7,800 | -32 |
| Cam-werthu | 15,300 | 11,950 | 28 |
| Galwadau mud | 10,350 | 7,400 | 40 |
| Arall | 53,450 | 55,550 | -4 |
| **Cyfanswm y cwynion** | **112,750** | **105,400** | **7** |

Nodiadau: Mae adnewyddu contractau yn awtomatig yn gategori newydd a gyflwynwyd yn 2010/11; roedd prosesau ar gyfer logio cwynion telegyfathrebiadau wedi newid yn 2010/11 i'w gwneud hi'n haws casglu cwynion.

## RHAGLEN YMCHWILIADAU

Mae rhaglen ymchwiliadau Ofcom yn ymwneud â chwynion am ymddygiad gwrth gystadleuol, torri rheolau rheoleiddio penodol ac anghydfodau ynghylch rheoleiddio. Mae'r tabl canlynol yn dangos gweithgareddau Ofcom o ran cynnal ymholiadau ac ymchwiliadau yn ystod 2010/11 a sut rydym wedi perfformio o'i gymharu â'n targedau statudol ac a gyhoeddwyd (ar 31 Mawrth 2011).

Dylid nodi bod nifer yr achosion a gofnodir yn y tabl yn tueddu i fod yn fach ac y gall y dangosyddion perfformiad allweddol fod yn gyfnewidiol yn sgil hynny. Ceir rhagor o wybodaeth am y rhaglen ymchwiliadau yn ein hadroddiadau chwe-misol; Gweithgarwch Ymchwilio Ofcom.

Ym mis Gorffennaf 2009, fe ailstrwythurodd Ofcom ei weithgareddau ymchwilio, gan rannu'r gwaith rhwng Tîm Ymchwiliadau'r Grŵp Cystadleuaeth a Thîm Diogelu Defnyddwyr. Mae'r data yn y tabl isod yn ymdrin â pherfformiad y ddau dîm.

| GWEITHGARWCH A THARGED | PERFFORMIAD YN ERBYN TARGEDAU | GWEITHGARWCH SY'N PARHAU |
|---|---|---|
| **YMHOLIADAU**<br>■ Cwblhau o fewn 15 diwrnod gwaith<br>■ Cwblhau o fewn 8 wythnos ar gyfer cyfraith cystadleuaeth | ■ Cwblhawyd 18 ymholiad yn 2010/11 (arweiniodd 9 at dderbyn yr anghydfodau, arweiniodd 3 at ragor o ymchwilio, ac ni chymerwyd unrhyw gamau mewn 6 achos)<br>■ Cwblhawyd 13 o'r 18 ymholiad (72%) o fewn y targed | ■ Nid oedd dim ymholiadau yn mynd rhagddynt ar ddiwedd y flwyddyn |
| **ANGHYDFODAU**<br>■ Cwblhau o fewn 4 mis | ■ Ymdriniwyd â 16 anghydfod yn ystod y flwyddyn<br>■ Datryswyd 10 anghydfod yn ystod y flwyddyn<br>■ Cwblhawyd 8 o'r 10 anghydfod (80%) o fewn y targed. Roedd amgylchiadau eithriadol ynghlwm wrth un o'r achosion eraill a chafodd y llall ei gwblhau mewn ychydig dros 5 mis ar ôl ymgynghori drachefn | ■ Roedd 6 anghydfod yn dal i gael sylw ar ddiwedd y flwyddyn<br>■ Roedd 2 o fewn y targed<br>■ Roedd amgylchiadau eithriadol yn berthnasol i 3 o'r 4 anghydfod arall |
| **YMCHWILIADAU YNG NGHYSWLLT Y GYFRAITH CYSTADLEUAETH**<br>■ Cwblhau o fewn 6 mis am beidio â thorri neu 12 mis am dorri | ■ Ni agorwyd dim ymchwiliadau yn ystod y flwyddyn<br>■ Cafodd 1 ymchwiliad ei gau a oedd yn mynd dros y targed | ■ Roedd 1 ymchwiliad yn dal yn mynd rhagddo sydd wedi mynd y tu hwnt i'r targed |
| **RHAGLENNI GORFODAETH AC YMCHWILIADAU ERAILL**<br>■ Mae gan ymchwiliadau unigol darged i gael eu cwblhau o fewn 4 mis ac eithrio ymchwiliadau dan y Ddeddf Menter neu a ddechreuir gan Ofcom ei hun sydd â tharged i gwblhau o fewn 6 mis. Nid oes targedau amser ar gyfer rhaglenni gorfodaeth | ■ Cafodd 6 ymchwiliad eu hagor a chafodd 3 eu cau yn ystod 2010/11<br>■ Cafodd y 3 ymchwiliad a gafodd eu cau eu cwblhau o fewn y targed (100%)<br>■ Cafodd 1 rhaglen gorfodi ei hagor a chafodd un ei chau yn ystod 2010/11 | ■ Roedd 6 ymchwiliad unigol yn mynd rhagddynt ar ddiwedd 2010/11<br>■ Roedd 5 o'r 6 hyn o fewn y targed ar ddiwedd 2010/11<br>■ Yn ogystal, roedd 5 rhaglen gorfodaeth yn dal yn mynd rhagddynt |

# PEIRIANNEG A GORFODAETH SBECTRWM – DANGOSYDDION PERFFORMIAD ALLWEDDOL

**PRIF WEITHGARWCH**

| Gweithgarwch Rhaglen Waith/Digwyddiad | 2010/11 | 2009/10 | Newid (%) |
|---|---|---|---|
| Achosion o ymyrraeth a ddaeth i law | 2,970 | 4,101 | -28 |
| Baldock: gweithgareddau sbectrwm | 4,265 | 3,986 | 7 |
| Achosion o ymyrraeth a gaewyd | 3,180 | 4,004 | -21 |
| Achosion o ymyrraeth a agorwyd | 752 | 1,488 | -49 |
| Archwiliadau cydymffurfio â'r system radio a gwblhawyd | 235 | 219 | 7 |
| Erlyniadau llwyddiannus am weithgarwch troseddol ar y sbectrwm | 30 | 34 | -12 |
| Erlyniadau aflwyddiannus am weithgarwch troseddol ar y sbectrwm | – | 1 | -100 |

Nodyn: Ym mis Mehefin 2010, daeth y gwasanaeth a oedd yn cael ei ddarparu gan Ofcom i ymchwilio i gwynion am ymyrraeth radio a theledu ar ran y BBC i ben. Ysgwyddodd y BBC y cyfrifoldeb dros ymchwilio i'r achosion hyn, yn unol â'i siarter. Mae hyn yn cyfrif am y gostyngiad yn swmp y gwaith a chafodd ein grym yn y maes ei leihau yn unol â hynny.

**DANGOSYDDION PERFFORMIAD ALLWEDDOL**

| Maes yr Achos: o Ymyrraeth / Is-faes yr Achos (gweler nodyn 1) | Cam yr Achos | Targed | Cyflawnwyd y Targed Ansawdd Gwasanaeth Ebrill 10 – Mawrth 11 | Cyflawnwyd y Targed Ansawdd Gwasanaeth Ebrill 09 – Mawrth 10 |
|---|---|---|---|---|
| Blaenoriaeth 1 | Cychwyn Cyfathrebu | 4 awr | 86% | 78% |
| | Diagnosteg | 20 awr | 67% | 67% |
| | Annog a/neu Orfodi Cydymffurfio | 2 diwrnod gwaith | 93% | 100% |
| | Cau cyfathrebiadau (cau achos yn weinyddol yn unig) | 7 diwrnod gwaith | 86% | 92% |
| Blaenoriaeth 2 | Cychwyn Cyfathrebu | 12 awr | 97% | 85% |
| | Diagnosteg | 24 awr | 86% | 78% |
| | Annog a/neu Orfodi Cydymffurfio | 3 diwrnod gwaith | 88% | 50% |
| | Cau cyfathrebiadau (cau achos yn weinyddol yn unig) | 8 diwrnod gwaith | 96% | 76% |
| Blaenoriaeth 3 | Cychwyn Cyfathrebu | 1 ddiwrnod gwaith | 32% | 55% |
| | Diagnosteg | 3 diwrnod gwaith | 57% | 41% |
| | Annog a/neu Orfodi Cydymffurfio | 5 diwrnod gwaith | 64% | 50% |
| | Cau cyfathrebiadau (cau achos yn weinyddol yn unig) | 10 diwrnod gwaith | 97% | 58% |
| Blaenoriaeth 4 | Cychwyn Cyfathrebu | 1 ddiwrnod gwaith | 81% | 51% |
| | Diagnosteg | 5 diwrnod gwaith | 41% | 23% |
| | Annog a/neu Orfodi Cydymffurfio | 10 diwrnod gwaith | 73% | 57% |
| | Cau cyfathrebiadau (cau achos yn weinyddol yn unig) | 15 diwrnod gwaith | 97% | 58% |
| Blaenoriaeth 5 | Cychwyn Cyfathrebu | 2 ddiwrnod gwaith | 88% | 85% |
| | Diagnosteg | 30 diwrnod gwaith | 81% | 77% |
| | Annog a/neu Orfodi Cydymffurfio | 40 diwrnod gwaith | 79% | 88% |
| | Cau cyfathrebiadau (cau achos yn weinyddol yn unig) | 45 diwrnod gwaith | 98% | 81% |

Roedd gwaith ymyrraeth yn 2010/11 sy'n ymwneud â'r sectorau gwasanaeth a busnes wedi cynyddu fel canran o gyfanswm yr achosion o 43 y cant dros hanner cyntaf y flwyddyn i 54 y cant dros ail hanner y flwyddyn. Mae'r achosion hyn yn tueddu i fod yn fwy cymhleth i wneud diagnosis ohonynt ac maent yn galw am flaenoriaeth uwch gyda thargedau uchelgeisiol iawn, felly yn y cyd-destun hwn rydym yn falch iawn o roi gwybod am welliant mewn perfformiad yn erbyn ein targedau. Caiff hyn ei ddangos yn fanwl yn nhabl 2, ond i ddangos y ganran gyffredinol a gyflawnwyd, mae'r cam diagnostig wedi cynyddu 9 y cant ac annog a/neu orfodi cydymffurfiaeth wedi codi 10 y cant.

# TRWYDDEDU SBECTRWM

**CATEGORI A**

| Trwyddedau lle nad oes gofyn aseinio amledd, clirio safle na chydlynu rhyngwladol | Trwyddedau a gyhoeddwyd rhwng Ebrill 10 a Mawrth 11 | Trwyddedau a gyhoeddwyd rhwng Ebrill 09 a Mawrth 10 | Cyfanswm y trwyddedau a gyhoeddwyd erbyn 31 Mawrth 11 |
|---|---|---|---|
| Radio Busnes Ysgafn – Syml DU (dim gorsaf ganolog) | 1,348 | 1,049 | 6,819 |
| Mynediad Di-wifr Sefydlog (5.8 GHz) | 61 | 82 | 317 |
| Safle Radio Busnes Syml | 621 | 552 | 6,726 |
| Cyflenwyr Radio Busnes Ysgafn | 49 | 66 | 508 |
| Heddlu a Thân | – | 8 | 123 |
| **Isgyfanswm ar gyfer cynnyrch Radio Busnes** | **2,079** | **1,757** | **14,493** |
| Mesur Lefel Radar | – | – | 124 |
| CB, Amatur a Morol | 24,487 | 25,154 | 185,904 |
| **Cyfanswm ar gyfer Categori A** | **26,566** | **26,911** | **200,521** |
| DPA ar gyfer Categori A (100% mewn 7 niwrnod) | 99% | 92% | – |
| DPA ar gyfer Categori A (CB, Amatur a Morol) (100% mewn 10 diwrnod) | 99% | 99% | – |

## CATEGORI B

| Trwyddedau lle mae gofyn aseinio amledd, ond nad oes angen clirio safle na chydlynu rhyngwladol | Trwyddedau a gyhoeddwyd rhwng Ebrill 10 a Mawrth 11 | Trwyddedau a gyhoeddwyd rhwng Ebrill 09 a Mawrth 10 | Cyfanswm y trwyddedau a gyhoeddwyd erbyn 31 Mawrth 11 |
|---|---|---|---|
| System Adnabod Awtomatig | 18 | 24 | 130 |
| Radio Gorsaf y Glannau (Rhyngwladol) | 35 | 54 | 514 |
| Radio Gorsaf y Glannau (DU) | 40 | 58 | 425 |
| Radio Gorsaf y Glannau (Marina) | 43 | 37 | 425 |
| Radio Gorsaf y Glannau (Ysgol Hyfforddi) | 43 | 40 | 226 |
| Radio Morol (Cyflenwyr ac Arddangos) | 5 | 6 | 79 |
| Cynnyrch Cymorth Morol a Radar | 4 | 14 | 110 |
| System Lleoli Byd-eang Wahaniaethol | 1 | – | 12 |
| **Isgyfanswm ar gyfer dadreoleiddio a gosod cynnyrch dan gontract** | **189** | **233** | **1,921** |
| Radio Busnes wedi'i Aseinio'n Dechnegol | 2,705 | 2,658 | 27,809 |
| Radio Busnes wedi'i Aseinio fesul Ardal | 85 | 42 | 162 |
| Radar Profi'r Tir | 15 | 23 | 131 |
| Telemetreg Sganio | 2 | 2 | 28 |
| Dolenni hunangydlynol | 4 | 6 | 11 |
| **Isgyfanswm ar gyfer cynnyrch Radio Busnes** | **2,811** | **2,731** | **28,141** |
| **Cyfanswm ar gyfer Categori B** | **3,000** | **2,964** | **30,062** |
| DPA ar gyfer Categori B | | | |
| 90% mewn 21 diwrnod | 99% | 96% | – |
| 100% mewn 42 diwrnod | 99% | 98% | – |

## CATEGORI C

| Trwyddedau lle mae gofyn aseinio amledd, clirio safle a/neu gydlynu rhyngwladol | Trwyddedau a gyhoeddwyd rhwng Ebrill 10 a Mawrth 11 | Trwyddedau a gyhoeddwyd rhwng Ebrill 09 a Mawrth 10 | Cyfanswm y trwyddedau a gyhoeddwyd erbyn 31 Mawrth 11 |
|---|---|---|---|
| Dolenni Sefydlog | 1,978 | 2,140 | 36,497 |
| Lloeren (Gorsaf Ddaearol Barhaol) | 24 | 21 | 166 |
| Lloeren (Gorsaf Ddaearol Gludadwy) | 87 | 68 | 133 |
| Lloeren (Rhwydwaith Gorsaf Ddaearol) | 8 | 18 | 56 |
| **Cyfanswm ar gyfer Categori C** | **2,097** | **2,247** | **36,852** |
| DPA ar gyfer Categori C | | | |
| 90% mewn 42 diwrnod | 99% | 99% | 98% |
| 100% mewn 60 diwrnod | 100% mewn 60 diwrnod | 99% | 99% |

### TRWYDDEDAU PROFI A DATBLYGU

| | Trwyddedau a gyhoeddwyd rhwng Ebrill 10 a Mawrth 11 | Trwyddedau a gyhoeddwyd rhwng Ebrill 09 a Mawrth 10 | Cyfanswm y trwyddedau a gyhoeddwyd erbyn 31 Mawrth 11 |
|---|---|---|---|
| Trwydded Datblygu Anweithredol | 352 | 329 | 326 |
| Trwydded Dros Dro Anweithredol | 129 | 124 | 34 |
| **Cyfanswm ar gyfer Profi a Datblygu** | **481** | **453** | **360** |
| DPA ar gyfer Profi a Datblygu (100% mewn 60 diwrnod) | 100% | 100% | – |

### TRWYDDEDAU SYMUDOL A BAND EANG DI-WIFR (1)

| Trwyddedau a roddwyd drwy arwerthu neu ddyfarnu'r sbectrwm | Trwyddedau a gyhoeddwyd rhwng Ebrill 10 a Mawrth 11 | Trwyddedau a gyhoeddwyd rhwng Ebrill 09 a Mawrth 10 | Cyfanswm y trwyddedau a gyhoeddwyd erbyn 31 Mawrth 11 |
|---|---|---|---|
| Rhwydweithiau Di-wifr Cyhoeddus (2) | – | – | 4 |
| Ffonau Symudol 3G | – | – | 5 |
| Mynediad Band Eang Di-wifr 3.5 GHz, 3.6 GHz a 28 GHz | | | 17 |
| Mynediad Sbectrwm 412-414 MHz | – | – | 1 |
| Mynediad Sbectrwm Cydamserol 1781-1785 MHz | – | – | 12 |
| Mynediad Sbectrwm 1785 MHz Gogledd Iwerddon | – | – | 1 |
| Mynediad Sbectrwm 10-40 GHz | – | – | 10 |
| Mynediad Sbectrwm 1452-1492 MHz | – | – | 1 |
| **Cyfanswm ar gyfer Symudol a Band Eang Di-wifr** | **–** | **–** | **51** |

(1) Nid yw ffigurau'r trwyddedau a amrywiwyd a/neu a ailgyhoeddwyd, neu a fasnachwyd o un cwmni i'r llall wedi cael eu cynnwys yn y ffigurau hyn.

(2) Ffonau Symudol 2G o'r blaen, wedi'i amrywio ar 6 Ionawr 2011 i ganiatáu defnydd UMTS(3G).

### TRWYDDEDAU YNYS MANAW AC YNYSOEDD Y SIANEL

| Ceisiadau am drwyddedau a wnaed drwy reoleiddwyr lleol | Trwyddedau a gyhoeddwyd rhwng Ebrill 10 a Mawrth 11 | Trwyddedau a gyhoeddwyd rhwng Ebrill 09 a Mawrth 10 | Cyfanswm y trwyddedau a gyhoeddwyd erbyn 31 Mawrth 11 |
|---|---|---|---|
| Ffonau Symudol 2G – Ynys Manaw ac Ynysoedd y Sianel | – | – | 8 |
| Ffonau Symudol 3G – Ynys Manaw ac Ynysoedd y Sianel | – | 1 | 9 |
| Mynediad Band Eang Di-wifr Ynys Manaw ac Ynysoedd y Sianel 3.4 / 3.6 /10 a 28 GHz | – (1 drwydded wedi'i hildio) | – | 10 |
| **Cyfanswm Ynys Manaw ac Ynysoedd y Sianel** | **–** | **1** | **27** |

## TRWYDDEDAU SBECTRWM DIFIDEND DIGIDOL

**Y SBECTRWM A RYDDHAWYD I'W DDEFNYDDIO MEWN FFYRDD NEWYDD YN SGIL Y NEWID I'R DIGIDOL**

| Trwyddedau DDR GI a gyhoeddwyd drwy brosesau dyfarnu sbectrwm | Trwyddedau a gyhoeddwyd rhwng Ebrill 10 a Mawrth 11 | Trwyddedau a gyhoeddwyd rhwng Ebrill 09 a Mawrth 10 | Cyfanswm y trwyddedau a gyhoeddwyd erbyn 31 Mawrth 11 |
|---|---|---|---|
| Mynediad Sbectrwm DDR GI 541-55 MHz (Caerdydd) | – | – | 1 |
| Mynediad Sbectrwm DDR GI 758-766 MHz (Manceinion) | – | – | 1 |
| **Cyfanswm ar gyfer trwyddedau Difidend Digidol** | **–** | **–** | **2** |

## TRWYDDEDAU SBECTRWM ANNEWISOL

Mae'r Awdurdod Hedfan Sifil (CAA) yn cyhoeddi trwyddedau ar gyfer awyrennau, ac mae'r Cyd-grŵp Rheoli Amleddau (JFMG) yn cyhoeddi trwyddedau ar gyfer darllediadau allanol, gwneud rhaglenni a digwyddiadau arbennig, ac yn eu hawdurdodi.

**TRWYDDEDAU SBECTRWM ANNEWISOL**

| Gweithgarwch Partneriaid | Trwyddedau a gyhoeddwyd rhwng Ebrill 10 a Mawrth 11 | Trwyddedau a gyhoeddwyd rhwng Ebrill 09 a Mawrth 10 | Cyfanswm y trwyddedau a gyhoeddwyd erbyn 31 Mawrth 11 |
|---|---|---|---|
| Mae'r Cyd-grŵp Rheoli Amleddau'n cyhoeddi trwyddedau ar gyfer Gwneud Rhaglenni a Digwyddiadau Arbennig | 3,317 | 3,033 | 3,574 |
| DPA ar gyfer y Cyd-grŵp Rheoli Amleddau (100% mewn 7 niwrnod) | 100% | 100% | – |
| Mae'r Awdurdod Hedan Sifil yn cyhoeddi trwyddedau Awyrennol | 13,608 | 16,948 | 14,140 |
| DPA ar gyfer yr Awdurdod Hedfan Sifil (100% mewn 7 niwrnod) | 76% | 77% | – |
| **Cyfanswm** | **16,925** | **19,981** | **17,714** |

**CYFANSWM Y TRWYDDEDAU – POB CATEGORI**

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Cyfanswm y nifer y trwyddedau – pob categori** | **49,069** | **52,557** | **285,589** |

# GEIRFA

**2G.** Systemau ffonau symudol ail genhedlaeth. Mae'n defnyddio system darlledu digidol ar gyfer cyfathrebu llais, trosglwyddo data'n araf, a gwasanaethau negeseua byr.

**3G.** Systemau ffonau symudol trydedd genhedlaeth. Mae'n trosglwyddo data'n gyflym ac yn cefnogi rhaglenni amlgyfrwng megis fideo symud llawn, cynadledda fideo a chysylltu â'r rhyngrwyd, ochr yn ochr â gwasanaethau llais confensiynol.

**BARB** Bwrdd Ymchwil Cynulleidfaoedd Darlledwyr. Y corff sy'n gweithredu ar draws y diwydiant ac yn mesur gwylio teledu.

**BEREC.** Corff o Reoleiddwyr Ewropeaidd mewn Cyfathrebiadau Electronig.

**Cyfraddau did** Y gyfradd caiff gwybodaeth ddigidol ei chludo o fewn sianel gyfathrebu benodol. Fel rheol caiff cyflymder band eang ei fesur mewn Mbit yr eiliad.

**Band eang** Gwasanaeth neu gysylltiad a ddiffinnir fel arfer fel un sydd 'ymlaen drwy'r amser' ac yn darparu lled band mwy na band cul.

**Bwndelu** Term marchnata sy'n disgrifio pecynnu gwasanaethau cyfathrebu gwahanol gyda'i gilydd gan sefydliadau a oedd yn draddodiadol ond yn cynnig un neu ddau o'r gwasanaethau hynny.

**Teledu dal i fyny** Fel rheol mae'n cyfeirio at wasanaethau sy'n caniatáu i ddefnyddwyr wylio neu wrando ar gynnwys ar sail heb fod yn llinol ar ôl y darllediad cyntaf.

**Y Ddeddf Cyfathrebiadau** Deddf Cyfathrebiadau 2003, a ddaeth i rym ym mis Gorffennaf 2003.

**Radio Cymunedol** Mae'n cyfeirio at orsafoedd radio sydd fel rheol yn gwasanaethu ardal ddaearyddol fach gyda radiws darpariaeth o hyd at 5km ac sy'n rhedeg ar sail ddi-elw.

**DAB** Darlledu sain ddigidol. Set o safonau y cytunwyd arnynt yn rhyngwladol ar gyfer y dechnoleg sy'n darlledu gwasanaethau amlblecs daearol radio digidol yn y DU.

**DCMS** Yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon.

**Newid i'r digidol** Y broses o newid y system darlledu teledu neu radio analog i'r digidol.

**Dongl** Dyfais ffisegol, sydd ynghlwm wrth borth USB cyfrifiadur ac sy'n ychwanegu galluoedd caledwedd.

**DSL** Llinell tanysgrifio ddigidol. Teulu o dechnolegau y cyfeirir atynt yn gyffredinol fel DSL, neu xDSL, sy'n gallu trawsnewid llinellau ffôn cyffredin (a elwir hefyd yn 'barau copr pleth') yn llinellau digidol cyflym, ac sy'n gallu ymdopi â gwasanaethau mwy datblygedig megis cysylltiad cyflym â'r rhyngrwyd a fideo-ar-alw. Mae ADSL, HDSL (llinell tanysgrifio ddigidol ar gyfer data cyflym) a VDSL (llinell tanysgrifio ddigidol ar gyfer data cyflym iawn ) i gyd yn fersiynau ar xDSL).

**Teledu Digidol Daearol** Teledu daearol digidol. Y dechnoleg teledu sy'n cludo'r gwasanaeth Freeview.

**Ffibr i'r cabinet** Rhwydwaith mynediad sy'n cynnwys ffibr optegol yn ymestyn o'r cwgn mynediad i'r cabinet yn y stryd. Fel rheol, dim ond ychydig gannoedd o fetrau i ffwrdd o eiddo'r tanysgrifiwr y bydd y cabinet yn y stryd. Gan amlaf, pâr copr fydd gweddill y rhwydwaith mynediad rhwng y cabinet a'r cwsmer ond fe ellid defnyddio technoleg arall, technoleg ddi-wifr er enghraifft.

**Ffibr-i'r-cartref** Math o gyfathrebu ffibr optegol lle bydd y signal optegol yn cyrraedd cartref neu swyddfa'r defnyddiwr.

**Ffibr-i'r-adeilad** Math o gyfathrebu ffibr optegol lle bydd y ffibr optegol yn mynd yn syth i eiddo'r cwsmer.

**HDTV** Teledu Manylder Uwch. Technoleg sy'n cynnig lluniau o well ansawdd i wylwyr gyda chydraniad uwch.

**Cyflymder cysylltiad pennawd** Y cyflymder data uchaf damcaniaethol mae modd ei gyflawni gan fand eang penodol. Mae nifer o ffactorau, megis ansawdd a hyd y llinell ffisegol o'r gyfnewidfa i'r cwsmer, yn golygu na fydd cwsmer penodol efallai'n derbyn y cyflymder pennawd hwn yn ymarferol.

**HSPA** Ar y cyd, cyfeirir at dechnolegau cysylltiad band eang symudol i fyny a chysylltiad i lawr fel gwasanaethau HSPA (High Speed Packet Access).

**Y Rhyngrwyd** Rhwydwaith byd-eang o rwydweithiau sy'n defnyddio cyfres gyffredin o safonau (ee y protocol rhyngrwyd) a ddefnyddir gan ddefnyddwyr sydd â chyfrifiadur drwy ddarparwr gwasanaeth.

**ISP** Darparwr Gwasanaeth Rhyngrwyd. Cwmni sy'n darparu mynediad at y rhyngrwyd.

**Llinell ar les** Cyfleuster trawsyrru sy'n cael ei lesio gan ddefnyddiwr gan gludydd cyhoeddus, ac sy'n benodol ar gyfer traffig y defnyddiwr hwnnw.

**LLU (dadfwndelu dolenni lleol)** Proses yw LLU lle bydd y gweithredwyr presennol (sef yn y DU, BT a Kingston

Communications) yn darparu eu rhwydwaith lleol (y llinellau sy'n rhedeg o eiddo'r cwsmer i'r gyfnewidfa ffôn) ar gyfer darparwyr gwasanaethau cyfathrebu eraill. Mae hyn yn golygu ei bod yn rhaid i'r cystadleuwr ddarparu ei offer ei hun yng nghyfnewidfa leol BT/Kingston a sefydlu cysylltiad am-yn-ôl rhwng yr offer hwn a'i rwydwaith craidd.

**Dolen Leol** Y cysylltiad rhwydwaith mynediad rhwng eiddo'r cwsmer a'r gyfnewidfa PSTN leol, fel arfer dolen sy'n cynnwys dwy wifren gopr.

**LTE** (Esblygiad tymor hir). Rhan o ddatblygiad systemau symudol 4G a ddechreuodd gyda rhwydweithiau 2G a 3G.

**Band Eang Symudol** Gwahanol fathau o fynediad rhyngrwyd cyflym di-wifr drwy fodem cludadwy, ffôn neu ddyfais arall.

**Niwtraliaeth net** Yr egwyddor y dylid trin pob traffig ar y rhyngrwyd yn gyfartal, ni waeth beth yw'r cynnwys, y safle na'r llwyfan.

**Rhwydweithiau craidd y genhedlaeth nesaf (NGN)** Rhwydweithiau craidd sy'n seiliedig ar brotocol rhyngrwyd sy'n gallu cefnogi amrywiaeth o wasanaethau sydd eisoes yn bodoli a rhai newydd, fel rheol gan ddisodli hen rwydweithiau lluosog a oedd yn gallu delio ag un gwasanaeth.

**Rhwydweithiau mynediad y genhedlaeth nesaf (NGA)** Rhwydweithiau mynediad newydd neu wedi'u huwchraddio a fydd yn caniatáu gwelliannau sylweddol mewn cyflymder band eang ac ansawdd gwasanaeth wrth gymharu â gwasanaethau heddiw. Gall hyn fod yn seiliedig ar nifer o dechnolegau gan gynnwys cebl, di-wifr sefydlog a symudol. Gan amlaf caiff ei ddefnyddio i gyfeirio at rwydweithiau sy'n defnyddio technoleg ffibr optig.

**Dosbarthu defnyddiwr-i-ddefnyddiwr** Y broses o drosglwyddo gwybodaeth, gwasanaethau neu gynnyrch yn uniongyrchol rhwng defnyddwyr neu ddyfeisiau sy'n gweithredu ar yr un lefel hierarchaidd.

**Gosod Cynnyrch** Pan fydd darlledwyr masnachol yn cynnwys cyfeiriadau am dâl at gynnyrch a gwasanaethau mewn rhai rhaglenni teledu a radio.

**RAJAR Cydymchwil i'r Gynulleidfa Radio** Y corff ledled y diwydiant sy'n mesur arferion gwrando ar y radio.

**Darparwr gwasanaeth** Darparwr gwasanaethau cyfathrebu electronig i drydydd partïon, p'un ai dros ei rwydwaith ei hun neu dros un arall.

**Slamio** Pan fydd defnyddiwr yn cael ei symud i gyflenwr gwahanol o wasanaethau cyfathrebiadau heb roi caniatâd.

**Ffôn clyfar** Ffôn symudol sy'n cynnig gallu cyfrifiadurol a chysylltedd gwell na ffôn sydd â nodweddion sylfaenol.

**Telegyfathrebu, neu 'Telegyfathrebiadau'** Trosglwyddo llefaru, cerddoriaeth a synau eraill, delweddau gweledol neu signalau dros bellter drwy ddefnyddio trydan, magnetau neu electro-magnetau.

**Neges destun** Cyfathrebiad testun yn unig byr a anfonir rhwng dyfeisiau symudol.

**Dadfwndelwyd** Cyfnewidfa leol sydd wedi bod drwy ddad-fwndelu dolen leol.

**Fideo-ar-alw** Gwasanaeth neu dechnoleg sy'n galluogi gwylwyr teledu i wylio rhaglenni neu ffilmiau pryd bynnag byddant yn dewis gwneud hynny, heb fod wedi'u cyfyngu gan amserlen linol.

OF 500 (Gorffennaf 2011)

Office of Communications /
Y Swyddfa Gyfathrebiadau
Riverside House
2a Southwark Bridge Road
Llundain SE1 9HA
**www.ofcom.org.uk**

Switsfwrdd: **+44 (0)300 123 3000** neu
**+44 (0)20 7981 3000**

Ffacs: **+44 (0)20 7981 3333**

Ffôn testun: **+44 (0)20 7981 3043**

Tîm Cyswllt Cwsmeriaid Ofcom:
**+44 (0)300 123 3333** neu
**+44 (0)20 7981 3040**

contributor to the
Olympic and Paralympic Games

**YR ALBAN:**

Sutherland House
149 St Vincent Street
Glasgow G2 5NW

Ffôn: **0141 229 7400**
Ffacs: **0141 229 7433**

**CYMRU:**

2 Pentir Caspian
Ffordd Caspian
Caerdydd CF10 4DQ

Ffôn: **029 2046 7200**
Ffacs: **029 2046 7233**

**GOGLEDD IWERDDON:**

Landmark House
5 Cromac Quay
The Gasworks
Ormeau Road
Belfast BT7 2JD

Ffôn: **028 9041 7500**
Ffacs: **028 9041 7533**

FSC www.fsc.org
MIX
Board from responsible sources
FSC® C020438